

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Lewys Morgannwg · II

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT, FBA

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA, MPhil

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Barry James Lewis, MA, MPhil, PHD

*Golygydd Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPhil, DLITT, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

# GWAITH LEWYS MORGANNWG · II

golygwyd gan

A. CYNFAEL LAKE



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU  
2004

© Prifysgol Cymru ©, 2004.  
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 47 5 cyfrol 1

ISBN 0 947531 52 1 cyfrol 2

ISBN 0 947531 67X set o ddwy gyfrol

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

## *Y cynnwys*

### RHAGAIRv

### BYRFODDAU

Llyfryddol .....	xi
Termau a geiriau .....	xxv

### GWAITH LEWYS MORGANNWG · I

RHAGYMATRODD .....	1
--------------------	---

### TESTUN

1. Awdl foliant i Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd .....	27
2. Cywydd i geisio heddwch Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd .....	32
3. Awdl foliant i Domas Stradling, Sain Dunwyd .....	35
4. Awdl farwnad Syr Wiliam Mathau, Radur .....	38
5. Moliant Siors Mathau, Radur .....	43
6. Moliant Wiliam Mathau, Radur .....	46
7. Marwnad Marged Bawdrem .....	49
8. Moliant Syr Tomas Gamais, y Coety .....	52
9. Cywydd i erchi iechyd i fron Arglwyddes y Coety .....	54
10. Awdl farwnad Siôn Gamais .....	57
11. Moliant Crystor Fflemin, Trefflemin .....	62
12. Marwnad Arnallt Bwtler, Bryn-y-frân .....	65
13. Marwnad Watgyn Lochwr, y Sgêr .....	68
14. Awdl farwnad Ieuan ap Dafydd, Llangewydd .....	71
15. I ddeisyf cael Syr Edward Carn yn iach adref o Rufain .....	75
16. Moliant Crystor Twrbil, Pen-llin .....	78
17. Moliant Syr Rhys Mawnsel, Oxwich, pan oedd yn Iwerddon .....	81
18. Awdl farwnad Morys Sainsion .....	84
19. Moliant Edward Lewys, y Fan .....	88
20. Moliant Siors Herbert, Abertawe .....	91
21. Marwnad Rhys ap Siôn, Glyn-nedd .....	94
22. Awdl foliant i Leision, Abad Nedd .....	98

23.	Moliant Water Herbert, Sain Silian.....	104
24.	Marwnad Syr Siôn Rhaglan, y Carn Llwyd.....	108
25.	Marwnad Dafydd Cemais, Llaneirwg.....	111
26.	Diolch i Wiliam Herbert am fantell.....	113
27.	Moliant Wiliam ap Siôn ap Tomas, Treowain.....	116
28.	Moliant Syr Wiliam Morgan, Pen-coed.....	119
29.	Moliant Syr Tomas Morgan, Pen-coed.....	122
30.	Marwnad Siôn ap Tomas ap Morgan, Caerllion.....	125
31.	Marwnad Tomas ap Syr Siôn Morgan, Machen.....	128
32.	Moliant Rolant Morgan, Machen.....	131
33.	Marwnad Mastr Harri Morgan.....	134
34.	Marwnad Syr Wiliam Herbert, Colbrwg.....	136
35.	Marwnad yr Arglwyddes Blaens.....	139
36.	Marwnad Wiliam Watgyn, Pen-rhos.....	141
37.	Moliant Tomas ap Wiliam, Pen-rhos.....	144
38.	Moliant Wiliam Siôn, Caerllion.....	147
39.	Marwnad Wiliam Siôn, Caerllion.....	150
40.	Moliant Siâms Gwnter, Porth-parc.....	152
41.	Moliant Rheinallt Powel, Berth Hir.....	155
42.	Awdl foliant i Harri, Arglwydd Herbert.....	158
43.	Awdl foliant i Harri, Iarll Caerwrangon.....	162
44.	Moliant Harri, Iarll Caerwrangon.....	166
45.	Moliant Harri, Iarll Caerwrangon.....	169
46.	Marwnad Harri, Iarll Caerwrangon.....	173
47.	Moliant Wiliam, Arglwydd Herbert.....	176
48.	Moliant Wiliam, Iarll Caerwrangon.....	179
49.	Moliant Wiliam, Iarll Caerwrangon.....	182
50.	Moliant Edward, Arglwydd Herbert.....	184

## NODIADAU

Cerddi 1–50.....	187
------------------	-----

## GWAITH LEWYS MORGANNWG · II

51.	Moliant Wiliam Fychan, Porthaml.....	345
52.	Marwnad Syr Wiliam Fychan, Porthaml.....	348
53.	Moliant Siôn Games, y Drenewydd.....	351
54.	Moliant Siôn ap Rhys, Aberhonddu.....	354
55.	Moliant Siôn ap Rhys pan wnaethpwyd ef yn farchog.....	357
56.	Awdl foliant i Syr Siôn ap Rhys, Aberhonddu.....	360

57.	Moliant Gruffudd Dwinn, Ystradmerthyr .....	363
58.	Awdl foliant i Ruffudd Dwinn, Ystradmerthyr .....	366
59.	Englyn i blas Gruffudd Dwinn, Ystradmerthyr.....	367
60.	Marwnad Hywel Penri, Glan-lais.....	368
61.	Marwnad Lewys ap Tomas a Gruffudd Llwyd, ei fab .....	371
62.	Marwnad tri brawd: Wiliam, Siôn a Thrahaearn Morgan .....	374
63.	Marwnad Syr Rhys ap Tomas .....	377
64.	Moliant Mastr Rhys Ieuanc.....	382
65.	Moliant Tomas ap Siôn, Abermarlais .....	385
66.	Awdl foliant i Water Defras, Arglwydd Fferes.....	389
67.	Moliant Rhisiart Defras.....	394
68.	Awdl foliant i Siôn Wgon, Cas-wis .....	397
69.	Moliant Siôn Wgon, Cas-wis .....	400
70.	Moliant Siôn ap Tomas ap Ffyllib, Pictwn.....	403
71.	Marwnad Siôn ap Tomas ap Ffyllib, Pictwn.....	406
72.	Moliant Huw Lewys, Tre'rdelyn.....	409
73.	Moliant Lewys Gwyn, Trefesgob .....	412
74.	Awdl foliant i Lewys Gwyn, Trefesgob.....	415
75.	I erchi gwartheg gan lawer o wŷr Morgannwg ar ran Lewys Gwyn, Trefesgob .....	416
76.	Marwnad Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn .....	419
77.	Moliant Pirs Mytwn, Alltmelyd .....	422
78.	Moliant Siôn Salbri, Dinbych .....	425
79.	Gofyn march gan Robert ap Rhys, Plasiolyn, dros Owain ap Syr Rhys.....	428
80.	Awdl farwnad Robert ap Rhys, Plasiolyn .....	431
81.	Moliant Cadwaladr ap Robert, Rhiwlas .....	435
82.	Moliant Siôn Wyn, Gwedir .....	438
83.	Moliant Robert Salbri, y Rug.....	441
84.	Awdl foliant i Domas Mostyn.....	444
85.	Moliant Huw Conwy, Bryneuryn.....	447
86.	Moliant Wiliam ap Wiliam, Cwchwillan .....	450
87.	Moliant Syr Wiliam Gruffudd, y Penrhyn .....	453
88.	Marwnad yr Arglwyddes Siân .....	456
89.	Moliant Edward Gruffudd, y Penrhyn .....	458
90.	Moliant Rhys Gruffudd, y Penrhyn.....	461
91.	Moliant Siôn Pilstwn, Caernarfon.....	464
92.	Moliant Syr Rhisiart Bwclai Hen.....	466

93.	Marwnad Tudur Aled.....	469
94.	Marwnad Iorwerth Fynglwyd .....	472
95.	Marwnad Rhydderch Dai Wëydd.....	475
96.	I Harri'r Wythfed am iddo briodi Ann Bwlen.....	478
97.	Awdl foliant i Harri'r Wythfed .....	481
98.	Moliant Harri'r Wythfed.....	485
99.	Awdl farwnad Harri'r Wythfed.....	491
100.	Moliant Illtud Sant .....	496
101.	I'r Grog yn Llangynwyd .....	500
102.	Moliant Mair o Ben-rhys.....	503
103.	Moliant Mair o Ben-rhys.....	506
104.	I'r Grog yn Llan-faes .....	510
105.	Hiraeth.....	516
106.	Gwayw serch.....	518
107.	Cwyn y bardd tlawd .....	521
	Atodiad i: Tynged y serchog.....	525
	Atodiad ii: Nychdod y bardd.....	528
	Atodiad iii: Englynion y ffydd .....	531
	Atodiad iv: Amryfal linellau a chwpledi.....	532
	Atodiad v: Englyn gan Forys Gethin i groesawu Lewys Morgannwg i Gaernarfon .....	535
NODIADAU		
	Cerddi 51–Atodiad v.....	537
	GEIRFA .....	667
	Enwau personau.....	699
	Enwau lleoedd.....	707
	LLAWYSGRIFAU.....	713
	MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU .....	721
	MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF .....	725



*Moliant Wiliam Fychan, Porthaml*

Y neidr chwyrn, wydr awch harnais,  
 Â phenwn sarff Einion Sais,  
 Maestr Wiliam, os *drwy* aliwns,  
 4 Fychan a gaf â chan gwns.  
 Dy henwaed oll dihunynt  
 Eto gan gorn Watgyn gynt.  
 Dygynnull, dy waed gennywch,  
 8 Wrth raid Harri Wyth yr ywch.  
 Wrth bwyll dwyn llywodraeth byd  
 Ac wrth ofn; Talgarth hefyd.  
 Mae llurig loyw, 'mhell â'r gloch,  
 12 Meistr Rhoser i'r maes trosoch.  
 Arf awch Syr Rhoser Fychan,  
 O 'nynni di, a wnai'n dân.

Y neidr wyd, yr enw a drig,  
 16 Fu ar wddf hen Foreiddig.  
 I'th hynaif ydd aeth henaur;  
 Y neidr ywch êl yn dorch aur.  
 Dy olwg a'th dad, Wiliam,  
 20 Dy fodd o gorff Dafydd Gam.  
 Dy air, Wiliam, d'wrolaeth  
 Dros ben hyd nen pob dyn aeth  
 Yr hwn ni bu'n rhannu banc  
 24 I'th reol, fath wr ieuanc,  
 Hawlwr a *rholwr* yrhawg  
 Eich bro'ch hun uwch Brycheiniawg.

O dŷ Wilym â'i dalaith,  
 28 Fychan, iarll a fych i'n iaith.  
 Aer—pwy ytwyd?—o'r Peutun,  
 Wrth wyn, aer Talgarth, 'y nyn.  
 Porthaml, plas i bob nasiwn,  
 32 Porth mawr *rhydd*, porth Mair i hwn!  
 Aml clod ar dafod bob dydd,  
 Aml llyn, mawl a llawenydd;

36 Aml gwleddau, mawlgoel oeddych,  
Aml meirch cad mal marchog gwych;  
Aml arfau a milwrfeilch,  
Aml gwin, gwŷr, milgwn a gweilch.

40 Eryr Gwent ar oror Gwy,  
Hedeg unwaith hyd Gonwy.  
Dy nadredd Deau'n edrych;  
Dwylan Gwy gwna di lain gwych.

44 Moli hael yw gafael gwawd.  
Mwyfwy irder myfyrdawd.  
Mae berw cerdd, o'm bru y cân,  
Mwyfwy ywch, Wiliam Fychan.  
48 Yn od ym mhob dyn ydwyd,  
Fal Nudd i'th foliannu wyd.  
Os mawr gair sy am ŵr gwych,  
O'm meddwl Gwalchmai oeddych.  
52 Ni bu 'riod grair o'u Bord Gron  
Eithr Galath o'r rhyw galon.  
Naf, dy waed o'r nawfed iach,  
Ni bu i wraig fab rywiogach:  
56 Grawn o'r braens a'r grwn ir brau,  
Gwin aeddfed ei gyneddffau.  
Yn dy waed oen Duw ydywch  
A phryd arth o chyffroud ywch.  
60 Allan ydd ai, 'r llew 'n ei ddig;  
Ef ai'n hawdd yn fonheddig.  
Ywch o *rhô*'r balch ryw air byr,  
On'd iawn rhoi'i wadnau i'r awyr?  
64 O deily d'arf yn d'law di,  
I ddiawl dyn a ddeily dani.  
Tair Gwent 'Hai!' trwy gant heol,  
Talgarth ânt i Loegr i'th ôl.

68 Dial frad, trwy gennad, gwaith,  
Ein brenin, Fanbri unwaith.  
Cur wlad Hors, y carliaid hen,  
Cyffro henwaith cyff Ronwen.  
72 Cymro o waed Cymru ydwyd,  
Acwy am bryns Camber wyd.  
Mogelwch, mae gwialen,  
Y mae'r waets ar Gymru wen.

- 76 Na saeliwch yn oes hwylwynt  
(Er byw'n gall) yn erbyn gwynt.  
Na'd di *i* wylliaid, deellwch,  
Ennyn trin o wenwyn trwch.  
Er d'annog na ro d'ainioes;
- 80 Gwrando wŷr a'th gâr yn d'oes.  
Dewr a doeth wyd, wrda, i'th ddig  
A gwrol fal Gei Warwig,  
A chefn iaith, a chyfiawn wyd,
- 84 A chadarn a gwych ydwyd,  
A chariadus eich *r*hediad,  
A bw, glew ywch, i bob gwlad,  
Ac urddedig radd ydywch
- 88 A dyn brau *i*'th oes. Duw'n borth ywch!

*Ffynhonnell*

Llst 164, 152

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..Einon.. 3 ..trwy.. 6 ..can gorn.. 7 dy gynnyll.. 14 ..wnav.. 22 ..pop.. 24  
yth reol.. 25 ..rolwr.. 26 ..ywch brychainog 28 ..yn iaith 30 ..yn vn 32  
..rydd.. 35 ..mawlgael.. 58 ..chyffroid.. 61 ..o roi r bailch.. 62 ..rhoi  
wadnav r awyr 67 ..genniad.. 71 Cymro waed.. 72 ..brins.. 74 ..waits.. 77  
nad ti williaid.. 81 ..wrda i thig 85 ..rediad 88 ..brav th oes..

*Marwnad Syr Wiliam Fychan, Porthaml*

Och doe Lundain chwedl undydd!  
 Mor oer doeth i Gymru'r dydd!  
 Dydd oerchwedl i genhedloedd,  
 4 Diwymawd ail Dyddbrawd oedd.  
 Marw, mawr drais, murmur a drig,  
 Draw marw oedd neidr Moreiddig.  
 Och farw y gwychaf eryr!  
 8 Och orddod bron gorfod gwŷr!  
 Och, Dduw Nef,—och!—ddwyn Fychan!  
 —Och!—clyw och am farchog glân.  
 Mawr och cwymp y Marchog Cam;  
 12 Mwy *i*'r sir ail marw Syr Wiliam:  
 Dydd trymgwomp, diwedd tromgad,  
 Atgwyn dydd Watgyn ei dad.  
 Marw, Ector aeth, mae'r gad drom,  
 16 Meistr Rhoeser, *fâl* maes trosom.  
 Syrthio wŷr, oedd swrth *i*'w ran,  
 Syr fu wych Rhoeser Fychan.

20 Llai yw milwyr llei molais,  
 Llewod tros hil Wallter Sais.  
 Aeth milwr ar fath Melwas  
 Y iarll a'i fraich â'r llaw fras.

24 Dwyn aur yn dorch doe'r hen daid,  
 Dwyn rhos aur, dawn Rhoeseriaid.  
 Dwyn eryr dan ei *aerwy*,  
 Dilawen gweilch dwylan Gwy.  
 Troes dŵr Gwy tros dir y garth,  
 28 Troes Duw weilgi tros Dalgarth.  
 Troi gwn trwy Deirgwent yrhawg,  
 Trwy fraich hon, trwy Frycheiniawg.

32 Marw aelod mawr a welais,  
 Mae'n wan sôn am Einion Sais.  
 Gwae'*i* ddeiliaid â gwaedd ddolef!  
 Gwae'*i* wŷr llydan dan gri a llef!

36 Gwae Arglwyddes, gwraig loywddoeth,  
 Catrin ddwyn caterwen ddoeth!  
 Bu oer i hon ei byw 'rhawg  
 Wedy erchwyn aurdorchawg.

40 Bu gwyno trist, bu gan trent,  
 I bedeirmil bu derment.  
 Mae'n hir byw, heddiw baham,  
 Mis ar ôl mwy Syr Wiliam.  
 44 Och farw llew, awchfar lluoedd,  
 —Och! Crist—marchog Harri oedd!  
 Och farw un gwalch, farwn gwart,  
 —Och! Och!—edn y Chwech Edwart!  
 Pa le yna heb blaenawr?  
 48 Ble ywch, y Mars, mae'r bwllch mawr?  
 Llaw i edrych llywodraeth,  
 Braich i'r iarll, bai'r chwarae, aeth.  
 E lywioedd ei lu ieuainc  
 52 Drwy ffrwd i ryfeldir Ffrainc.  
 Nid ofnes, da un defnydd,  
 Dir na dŵr hyd yr un dydd.  
 Adre', pob dihaereb hen,  
 56 Dôl i warchad i dywarchen.  
 Mwy a' un cwyn am naw cant  
 Syr Wiliam er oes Rolant  
 Na châl farw, yn wych farwn,  
 60 Ar ryw hynt y bu farw hwn.  
 Och gwirdranc marchog eurdraed!  
 Och! Gwae'i blant a chwbl o'i waed!

64 Mab Duw Naf, ym mhob dawn nêr,  
 Moes dair oes ywch, Maestr Rhoser.  
 Porth Duw ywch; pob rhyw waith da;  
 Porthaml, n'ad gau'r pyrth yma.  
 Rhout dy win, *rhôi i wŷr* y tad,  
 68 Rhagorwch hwy ar gariad.  
 Rheded cefn rhod y cyfoeth;  
 Rhod trwy Dduw hir y try i ddoeth.  
 Syr Rhoser, gwychder ein gwaith,  
 72 Fych yn ôl, Fychan, eilwaith.  
 Aeth i nef, hiraeth yn ôl,  
 Neidr, a gweddi'n dragwyddol.

*Ffynhonnell*

Llst 164, 132

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..gymry.. 4 diwarnawd.. 12 mwy r sir.. 16 ..vel.. 17 ..yw rann 24 ..ros..  
 25 ..dann y derwy 27 tros.. 28 tros.. 30 ..frecheinawg 32 ..Einon.. 33  
 gwae ddeilaid.. 36 ..dwyn cateryn doeth 38 wedi.. 39 ..gant trent 44  
 ..Christ.. 45 ..gwelch.. 51 e liwioedd.. 52 ..rhyveldir.. 56 doi warchad y.. 60  
 ..rhyw.. 67 ..roe wyr.. 69 Redeg.. 74 ..dragwddol

*Moliant Siôn Games, y Drenewydd*

Y tarw mawrgamp, trum aergainc,  
 Ector ffriw fu act ar Ffrainc,  
 Teirw Dafydd, tri, a dyfynt:  
 4      Dau Forgan ac Ieuan gynt.  
       O'r tri beilch o nortr a barn  
       Siôn a godes yn gadarn.  
 8      Siôn, wrth einion y'th enwais,  
       Os enw'n Siôn, dros Einion Sais;  
       Brochwel bro uchel Brychan,  
       Braich, yn gledd, Brycheiniog lân.  
 12     Bath lanaf byw y'th luniwyd;  
       Bwrdd, naf Aberhodni, wyd.  
       Barwndad, brad i windy,  
       Breuach nid dyn berchen tŷ.  
 16     Gwledd bun a'i harglwydd beunydd,  
       Gwledd Siôn, i arglwyddi sydd.  
       Margred wen, mae'r gair ei daed,  
       Merch Wiliam yw'r uchelwaed,  
 20     Merch agos i'r marchogion,  
       Ac os ieirll agos yw hon.  
       Awr dda rhoed, arwydd yrhawg,  
       Y ferch hon i Frycheiniawg.

Ymaelaf ar fy nhafawd  
 24     I foli gŵr, afael gwawd.  
       Ymaelaist fegis milwr,  
       Siôn, â'r gwaith drwy synnwyr gŵr.  
 28     Ba ddyn nad edwyn dy wedd  
       Ba bynnag lle bo bonedd?  
       Ba urddas i'th holl nasiwn?  
       Ba waed da na bo yt hwn?  
 32     Brenhinwraidd bren gwyrennig  
       Bro Wysg fry'n breisgáu ei frig,  
       Dyry ywch Harri dorch euraid;  
       Arwain y dorch er hen daid.  
 36     Gwisg fal Dafydd did ruddaur,  
       Gam, ar eich gwisg, marchog aur.

Os blac lew glân, sabl ei glog,  
Drycha owl yn dri cheiliog.

Un wychder maner a meirch  
40     Â drwm hen draw Amhaeneirch:  
Llew'n dwyn seirff Llundain i sias,  
Llew brau awchfrest Iarll Breichfras.  
Os o henwaed, na sonient,  
44     Aeth dau iarll o'th waed i Went.  
Uchel yw'r gwaed uwchlaw'r gwŷdd;  
Uwch y ganed ywch gynnydd.  
Â chyfoeth y'th ddrychafwyd  
48     A pheunydd uwch ffynnu 'dd wyd.  
I bwy dôl'r da? I bedwar dyn.  
I'th rwndwal aeth, yr undyn.  
I'r doeth hael y'i rhoed, a'th ddawn,  
52     Drachefn i'r dewr a chyfiawn.

Ti a brynaist y bronnydd,  
Tir âr, gwyllt, a'r tai a'r gwŷdd.  
Pumcanpunt a wnaï'n untir,  
56     Pwrcas swmp, o'r cai oes hir.  
Tyf yt bob da hyd dy fedd;  
Fyth y tyf i'th etifedd.  
Imp rhywiog, fwmpa reiol,  
60     Ni fetha'r imp fyth ar ôl.

Mae'r dynged yn ehedeg;  
Hwde i ti hediad teg.  
Mae'i hadain i'th ordeiniaw.  
64     Mwy ni chyll hon. Mae 'n eich llaw,  
Ffraeth ddoethfin o ffrwyth ieithfawr,  
Ffriw tan fan y ffortun fawr.  
Ffynnu'n braff a wnaï 'n y brig,  
68     Ffwrdd rhoi 'dd wyd, ffordd urddedig.  
Ffynnawn lawn o haelioni,  
Ffrwd ton o deffroy wyt ti.  
Ffres wyd mewn ffwr a sidan,  
72     Ffyrflaw twym i'r ffræ fal tân.  
Ffyddlonder, barner y byd,  
Ffrwythlonder ffair i'th lendid,  
A phoed rwydd, a phedair oes  
76     (A phoed dyn broffwyd) d'ainioes!



*Ffynonellau*

A—Pen 99, 348 B—Pen 101, 199 C—CM 12, 183

*Amrywiadau*

1 C ..trwm eurgainc 7 BC ..Einion.. 19 AB ..yr marchogion 21 AB ..i roed.,  
 B ..y rawg 23 AB amaelaf.. 24 AB y voli.. 25 B ymelyleist.. 29 AB ..yth  
 holl.. 32 B ..bregau.. 33 AB dyry wch harri., C dyry ch Harri.. 37 B ..liw  
 glan.. 41 AB ..y sias 43 C ..ni.. 47 C ..ddyrchafwyd 48 B ..ywch., AB ..i  
 ddwyd 49 AB y bwy., C ..da bedwar.. 50 AB yth rwnndwal.. 51 AB yr  
 doeth..y roed., C ..y rhoed oth ddawn 52 AB ..yr dewr.. 56 C ..os cai.. 58  
 AB ..yth etivedd 59 ABC ..rywioc., C ..wmpa.. 63 AB ..yth ordainiaw 65 B  
 ..o ffrwyth 68 ABC ..roi.. 72 AB ..yr ffrae.. 74 A ..yth leindyd 76 C  
 ..deinoes

*Moliant Siôn ap Rhys, Aberhonddu*

Pwy'n dwyn gras penna' dan Gred?  
 Pwyn i ennill pan aned?  
 Meistr Siôn, bumoes dros ynys,  
 4 Mwyhaist air praff, y Meistr Prys.  
 Selyf, o Rys i Wilym,  
 Sampler y doethder wyd ym;  
 8 Llaw Wilym ap Llywelyn,  
 Llaw hail gwin y llew hael gwyn.  
 O liw Adam hael ydwyd,  
 O ras a llun i Rys Llwyd.  
 12 Ucha' rhyw waed iachau 'rhawg  
 Fry'ch henwaed o Frycheiniawg:  
 Impyn Llywelyn, ieirll waed,  
 Impren hen pump brenhinwaed;  
 16 Eog Einion, aig Wynedd,  
 O galon Wysg a Glyn-nedd.

Ail Homer i Aber wen  
 Hodni hael, hoyw dan heulwen.  
 20 Dared o Roeg yw d'air draw  
 Tre Ludd; wyt yr ail iddaw.  
 Pa wŷr—Ofid—Ile prifiwyd?  
 Petai'r ail, i'r poetri wyd.

24 Drychefaist air a chyfoeth  
 Drwy ddawn o ddysg drwy Dduw'n ddoeth.  
 Canfod dysg, gwnfyd dy iaith,  
 Cymru wen, caem ŵr unwaith.  
 28 Melys y rhoi 'Mhowls i'r rhain  
 Wrth lendid gyfraith Lundain.  
 Da yw dy ddysg, nid wyd ddig,  
 A difalch fal pendefig.

32 Afal da o flodeuyn  
 Aed ymhell. Nid amau hyn.  
 Pob dyn a'i hedwyn, mae'n hawdd,  
 Print haf, y pren y tyfawdd.

36 Ni fawrheir yn fwa 'rhawg  
 Fry o ywen afrywiawg.  
 Bwa wyt ti byw a'u tâl  
 Bren yw rhywiog bren rhial.  
 40 A wnaeth had o wenith iach,  
 No rhyg ef â'n rhywiogach.  
 Eginyn wyd, gwyn ein iaith,  
 O had teilwng tair talaith.

44 Can Dduw teg fu'r cynnydd tau;  
 Cynyddfawr yw'r cyneddfau.  
 Mwy ffortun no dyn; yn d'oes  
 Mae'r gras; mwy yw'r gair eisoes.  
 Mae llaw un am holl ynys;  
 48 Oes yn y print, Siôn ap Rhys!  
 Etholed oll i'th law di  
 Fateroedd Wythfed Harri.  
 Cael eisteddfainc lys dyddfawr,  
 52 Cansail mainc i'r cwysel mawr.  
 Y radd wedy; rhoi 'dd ydywch  
 Ar ystad y rhoesid ywch.  
 Ni wrthodaist, nerth ydyn',  
 56 Na'th waed da na'th waith at hyn.  
 Cadw 'dd wyd, cyd-ddywedynt,  
 Cymraeg iaith y Cymry gynt.  
 Trwy synnwyr, tau ras, ennyn  
 60 Tair iaith, yn ein iaith, yn un.

Gwiw i Lundain, galw undyn,  
 Gael yma gost Gwilym Gwyn:  
 64 Rhoi gwleddfaeth, rhoi arglwyddfwyd,  
 Rhoi trwy ddysg a nothr ydd wyd.  
 Rhyw yt hyn o Frytaniaid;  
 Rhannud win fal yr hen daid.  
 Rhoi dda aml rhwydd i iwmynd;  
 68 Rho Iesu hael ras i hyn!  
 Yt y rhoed tafod tradoeth  
 I orffen d'air, a phen doeth,  
 A chofiaedr i'th ddrychafael  
 72 A chalon hy, wychlan hael,  
 A chywirder, brawder bron,  
 A chariad Lloegr a'i choron.

Rheded fyth y rhod hyd fedd!  
 76 Dyna rediad anrhydedd.  
 Rhyw o waed, dy roi ydoedd  
 I ras sydd uwch; urddas oedd.  
 80 Aerwy i'th war aur a theiroes,  
 A'r un Duw fo'n arwain d'oes.

*Ffynhonnell*LIGC 9048D, 21<sup>v</sup>*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 pwy ni ennill.. 4 ..praff meistr.. 5 ..y wilym 10 ..y Rys.. 11 ..rhawc 12  
 ..vrychennawc 15 eoc..aic.. 17 ..y aber.. 19 ..roec.. 20 ..wyd..yddaw 22  
 ..yr poetri.. 25 kann vod..gwynvyd.. 27 ..y roi..yr Rhain 28 ..leindid.. 29  
 ..ddic 30 ..penndevic 35 ..rhawc 36 ..afrywiawc 38 ..rhywioc.. 40 ..Rhyc..  
 43 ..tec.. 45 ..fortun.. 49 ..yth law.. 50 vatteroed.. 52 kans ail..yr kwysel..  
 53 .. roi.. 54 ..roisyd.. 57 kadw iddwyt.. 58 kymraec.. 59 ..annyn 60 ..yn  
 yn hiaith yn hyn 61 ..y lundain.. 65 Rhiw.. 67 ..y jymynn 68 ..y hynn 70 y  
 orffenn.. 71 ..chofiadr yth ddrychafael 76 ..Rhediad.. 77 ryw.. 78 y ras sy..  
 79 aerwy th warr..

*Moliant Siôn ap Rhys pan wnaethpwyd ef yn farchog*

- Drychafgoed, oruchaf gynt,  
 Es dengoes a ostyngynt.  
 Ymgodi'r ym gyda'r iaith  
 4 O Gadwaladr, goed, eilwaith  
 Pan goded Seithfed dros wart  
 A'i wych dad, Wheched Edwart.  
 Cawn y llew o'r cenau llwyd,  
 8 Ni a gawsom a geisiwyd.  
 Caf farchog, cyn cof erchynt,  
 Caem euro gwaed Cymry gynt:  
 Marchog tiriog, aur teirraff,  
 12 Meistr Prys mewn grymuster praff.
- Syr Siôn, Sain Siors a enwais,  
 Sy'n un syr dros Einion Sais.  
 Syr Cradog, syr, câr ydwyd,  
 16 Syr fo'r iarll i'r sir fawr wyd,  
 Braich a llaw'r marchog llawir,  
 Braich fawr o sarff Breichfras hir.  
 Mawr yw'ch gwaed, marchog Edwart;  
 20 Am esgair gwalch moes gau'r gart,  
 Edn Liwlod hen Lywelyn,  
 I gael mwg aur Gwilym Gwyn.  
 Galath war, gloyw y'th eurwyd,  
 24 Groeso, llew, farchog Rhys Llwyd.  
 Nid llwyn y daw holl ynys  
 Ond imp pren Adam ap Rhys;  
 Pysg nod yn nhop Wysg a Nedd,  
 28 Penaig Einion, pen Gwynedd;  
 Marchog Brycheiniog a'i chefn,  
 Dawn wendref Hodni windrefn.
- Er rhannu tir rhent dy waed  
 32 Ni rennir arfau'r henwaed.  
 Arfau'ch gwaed, eurfaich gadwyn,  
 Rhoddes Duw urddas i'w dwyn:

36 Tri cheiliog yn dyrch heulwen,  
 Tri'n owls i mewn tarian wen;  
 Tri phen dur trwy hoffwyn dabl,  
 Tri gwayw waetsias targetsabl.  
 Aur a fynnaist ar fonedd;  
 40 Y mae'n gylch y man y gwedd.  
 Duw a'th geidw, nid ai o'th garn,  
 Duw a'th godes, doeth gadarn.

Urddedig o radd ydwyd;  
 44 Mae gradd uwch; 'mgyweirio 'dd wyd.  
 Cai, 'nghywirfyd cynghorfawr,  
 Cai insel Mars cwnsel mawr.  
 48 Cân' dy gorff, cenud y gainc,  
 Can sylfaen y cwnselfainc.  
 Ni all barn yn y lle bych  
 Farnu 'n ôl farn a wnelych.  
 Disgwylïen', dysgen' dy waith,  
 52 Drych hyfryd ordr a chyfraith.  
 Myrr, tus, mae aur hyd d'asen,  
 Mewn iaith bêr, Salmon, i'th ben.  
 Mal ystaen moli iustus  
 56 A chopr oedd wrth farchog Prys.

Gwalchmai lân, awr dda 'th aned,  
 Grwndwal y Greal ar Gred.  
 A wnaeth Gildas i'n nasiwn,  
 60 Y mae i'th iad yma waith hwn.  
 Ni bu'r poet—ba eiriau pêr?—  
 Mor gymen ym mrig Omer.  
 Peth dieithr, pa waeth dewi,  
 64 Na bod dim heibio i ti.

Marchog aurdorchog, rhoud win,  
 I'th Dduw fronwaed a'th frenin.  
 Syr Siôn, nai Syr Rhys heniaith,  
 68 Saf arno Fars Hafren faith.  
 Mawrheir dy radd; môr ar draeth,  
 Mewn d'orllanw mae nod iarllaeth.  
 Dilyn dy ffortun o'i phen;  
 72 Daw, 'nghydfaeth, â'r dynghedfen.  
 Ni hed y dynged dengoes  
 O'th law di wrth ddaly d'oes.

*Ffynonellau*A—LIGC 9048E, 24 B—Pen 114, 148 (*collwyd y diwedd*)*Darllenïadau'r llawysgrif*

1 B drychagoed.. 6 B ..chweched.. 8 B ..gawsam.., A ..y geiswyd 10 B kawn.. 11 B ..teirriaff 16 A ..yr sir.. 19 B mawr ych gwaed.. 22 AB y gael.. 29 A ..brecheinawg.. 32 A ..rhennir.. 34 A ..yw dwyn 36 B tri y owls mewn.., A ..y mewn.. 38 B ..waedsais.. 43 A ..rad.. 44 A ..ywch.. 47 B kan di gorff.., AB ..kennyd.. 49 AB ..i bych 51 AB disgwylen.. 54 AB ..yth ben 55 A ..iestys 56 A ..choppyr.. 57 A ..yth aned 59 AB ..yn nassiwn 60 AB ..yth iad.. 63 B [63], A ..diethr.. 64 AB ..y ti 65 A marchod.., B ..rodd win 66 B [66–74], A yth ddyw..

*Awdl foliant i Syr Siôn ap Rhys, Aberhonddu*

Salmon marchogion, er chwys—Duw ar Groes  
 A'r dŵr o grau'i ystlys,  
 Archwn un arch, ein ynys:  
 4 Oes Noe, pryd, i Syr Siôn Prys.

Twysogion, Syr Siôn, un o'r Saith—Doethion,  
 Brut dynion Brytaniaith,  
 Un wyt ynn, enaid dy iaith,  
 8 O'r tŷ elwynt dair talaith.

Cymru wan, dair rhan, dan draed—ieirll Rhonwen  
 Lle rhennid twysogwaed,  
 Cefaist, dihunaist henwaed,  
 12 Cyfan yw'r darian, dydd daed.

Tarianog farchog o fin—Harri Wyth  
 I'w Ras, Edward Frenin,  
 Ar dy war mae rhod eurin;  
 16 Aros gloi aur is y glin.

Dy lin i'th frenin a'th fron—gywirder  
 Gydag ord'r marchogion;  
 Ni bu 'riod gradd o'n Bord Gron  
 20 Eithr Galath o'th ryw galon.

Calonnog farchog sy fawr—yn eistedd,  
 Iustus Mars cynghorfawr,  
 Clo i'r hawlfainc rialfawr,  
 24 Galw Dduw 'mysg arglwyddi mawr.

Mawrheaist, gwreiddiaist, gwiw roddiad—tradoeth,  
 Tra chyfoeth trychafiad;  
 Mae gras Duw yn magu'r stad,  
 28 Mae i'th gadw maith i godiad.

Duw Dad yw'ch ceidwad, mae i'ch codi—beunydd,  
 Pen bonedd rhieni;



32 Nes dengoes ni ostyngy  
O'r ystaer y dringaist ti.

Ti yw pen-perchen parchus—Brycheiniog,  
Bro eich henwaed dilys,  
36 Syr Siôn, Sant Siors ei ynys,  
Serchog praff farchog, Prys.

Llew praff isgil taid Gwilym,  
Llywelyn henllew Wilim,  
Llew wyd Rhys â'r fwyall drom,  
40 Llwyd, o daid, llewod Adam;  
Llew Einion Sais, llin hen Sem,  
Llywiawdr wyd o'r heniartll trwm;  
Llin Einion, nid llwyn anael,  
44 Llu o Rys hael, ni ellir swm.

Dy lys, Marchog Prys, prisaf—at Frutus,  
O iaith Fêl Ynys y'th foliannaf.  
48 Caerffawydd Weirydd, euraf—wawd newydd,  
Bydd ar holl wledydd iarll ail Eudaf.  
Rhai fydd dragywydd fal gaeaf—byrddydd;  
Y mae dy gynnydd fal hirddydd haf.  
52 Cael rhod, dirwyn nod, drwy Naf—y Drindod,  
Cynhwysle uchod y cwysel uchaf.  
Cyfoethau d'ieithau, doethaf—i'th farnau,  
Â'r cof o enau gŵr cyfiawnafl.  
56 Haelder, mwy irder no Morda'—freuder,  
Dewrder, cywirder y taid Cawrdaf.  
Crastant na childant ni chaf,—felystant;  
Hwyldant cyweirdant â chwi y cordiaf.  
60 Gwaith y byd cennyd, canaf—yt hefyd,  
Hyd cyfarwyddyd cof er Addaf.  
Llyfrau, gwybodau, Bedaf—synhwyrâu,  
Breiniau, nortr, moesau, wyt rymusaf.  
64 Syr Ffwg lle rhoud wg, dygaf—d'air amlwg,  
Ector o olwg wyd wrolaf,  
Marchog gwaed rhywiog Troea—fawrwrthiog,  
Unben, pur eog, meibion Priaf.  
68 Marchocainc iefainc, yfaf—dy win Ffrainc,  
Ar fainc carw decainc caredicaf.  
Anambell dy well, deallaf—wellwell;  
Dyn o'th ddawn da'n well ni wnaeth Duw Naf.

72                   Rhoed y byd cennyd, cai hynaf—fywyd  
                       Yt, a hir iechyd, Duw oruchaf.  
                       Tri cheiliog, dorchog, Duw, archaf—oesog,  
                       Hebog calonnog, marchog glanaf.

Salmon marchogion, &c.

*Ffynhonnell*

LIGC 9048D, 81<sup>r</sup>

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 ..y syr.. 7 ..yn.. 9 kymry.. 10 lhe i.. 14 y ras Edward.. 17 ..yth vrenhin..  
 18 ..ordor.. 19 ..or bord.. 23 ..yr hawlfeink rhalvawr 28 ..yth gadw..y  
 godiad 29 ..ych kodi.. 37 ..yscil.. 42 ..drwm 49 dragywyd.. 53 kyfoeithey  
 ieithey..yth varney 60 ..ir Adaf 61 ..bydaf.. 62 ..nwrtr.. 65 ..vawrweyrthiog

*Moliant Gruffudd Dwinn, Ystradmerthyr*

- Piau'r gair? Pa ragoriaeth?  
 Pa gwmpâr? Pwy â'i gamp aeth?  
 Ba lander heblaw undyn?  
 4      Ble heddiw gwaith y blaidd gwyn?  
         Ffordd mae daear, oes farwn,  
         A ffydd, dy well, Gruffudd Dwinn,  
         Rhyw Owain Dwinn a'r hen daid,  
 8      Rhobart Dwinn, rhyw Brytaniaid?  
         Gwaed teidiau a gydhedynt:  
         Gwrgan, dau Gadwgan gynt.  
         Cyw'r eryr, câr i Urien,  
 12     Cydveli hawc Idwal hen,  
         Gwisg guras gwaiss a eurynt,  
         Gloywder gwisg Elidir gynt.  
         Mae ynod iach am hen daid,  
 16     Oes, gwaed mawr Ysgudmoriaid.  
         Ucha' unlyfr yw'ch henllwyth  
         A chwi'n well oedd no chan llwyth.
- Gwinwydden, gwe newyddaur,  
 20     Gwenllïan, wisg yn llawn aur,  
         Gwawr Lewys, Eigr oleuad,  
         Gorau ei theidiau a'i thad.  
         Gwraig ennill, gwir a genynt,  
 24     Gair Non, o gyff Gwernan gynt.  
         Duwies rhyw dwysir yw hi,  
         Degau dwywlad Gydveli.
- Y llaw sy â'r llyseuoedd  
 28     A roes, Gwen, a'r seigiau oedd.  
         Rhoud eurfath, rhoi yw d'arfer,  
         Y Dwinn glân, rhoud win i glêr.  
         Gwŷr â cherdd a gyrch urddas;  
 32     Ni wn ple well yn un plas.  
         Ni thristâud; ni thorraist un:  
         Na'th roddion na'th air uddun.

36 Darllain ni wn deirllin iach  
Dwyn o wraig dyn rywiogach.

Gruffudd y sydd un o'r Saith  
Gwedy Omer gydymaith,  
40 Brawdwr, a dyn brau ydwyd,  
Beirdd a thant pybyrddoeth wyd.  
Ba ryw gywydd, brig awen,  
Ba waith beirdd na bo i'th ben?  
44 Brau felys, berw a folwn,  
Bloedd gan dant blaidd gwyn y Dwinn.

Mae gwaith Cymru 'n y tŷ tau;  
Minstr yw main ystorïau:  
48 Tŷ newydd gwaed Hen Owain,  
Trwy dor maes tŵr derw a main;  
Tŷ â mur at y morwynt  
Trwy galch fal y tyrau gynt.  
52 Trwy fain gwaith trôï fonau gwŷdd  
Traw i gaead tragywydd.  
Tŷ *i* win yn gell tano'n gau,  
Tua nef to wanafau.  
56 Tŷ o rwndwal y Trwyndwn;  
Ti yw, Hael, gŵr y tŷ hwn.

Gŵr o Addaf un gwreiddyn,  
Gruffudd, gorau defnydd dyn,  
60 Gras cefaist a gwres cyfoeth  
Gan Dduw, 'r dyn gwineuddewr doeth.  
Gwisgwch aur, gwas gwych Harri,  
Gwisgad eich un hendad chwi.  
64 Gwisg gledd fu 'nghylch gwasg Galâth,  
Gwalch meinfyw Gwalchmai unfath.  
Gruffudd, i'r drin, graffddur drafn,  
Gwrych henllew â gwreichionllafn,  
68 Gwayw a march yt, Gymro chwyrn;  
Gwydr yw'r wisg; dur yw'r esgryn.

Pwy'n frau frau? Pwy'n ferf rhywiawg?  
Pwy'n rhwydd rhwydd pan roi dda 'rhawg?  
72 Pwy'n ddewr dewr? Pwy'n ddrud orig?  
Pwy'n ddoeth ddoeth pan ddoi o'th ddig?

76

Pwy hael hael ple y'i hwyliwn  
 A phwy dda da? Gruffudd Dwinn!  
 Pwy'n odidog? Pand ydywch?  
 Pwy i'm hoes well? Pumoey wywch!

*Ffynonellau*

A—Llst 40, 57 B—LIGC 728D, 97 C—LIGC 16964A, 90<sup>v</sup> D—Llst 133,  
 rhif 432 E—Card 2.623 [= Hafod 13], 103<sup>r</sup> F—BL Add 31090, 27<sup>v</sup> G—  
 LIGC 3063E [= Mos 184], 42<sup>r</sup> (*llau. 1-4*)

*Amrywiadau*

1 A [ ] a ragoriaeth, F ..gwr., EF ..pwy.. 2 D ..ar gamp.. 6 EF ..Ruffydd..  
 7 C ryw., EF ..or.. 9 F ..o.. 11 EF ciw eryr.. 12 EF ..hawg.. 13 ABD  
 ..gweisg.. 14 EF glewder.. 15 EF ..ach.. 16 B ..mawr osgidmoriaid, AC-F  
 ..ysgidmoriaid 17 A-D vwcha., C ..yw hen llwyth 18 CEF ..na.. 19 E  
 gwinwdden., EF ..gwen newyddaur 25 C ..ddwysir.. 26 A [ ]  
 dwywlad., D deau., E ..Gedweli 27 B y llav., E ..sydd ar llysieuoedd, F  
 ..sydd ar llyseioedd 28 EF a roes gwin ar y seigiau oedd 29 D rhoi d aur  
 fath., F rhoid., C ..aurfaeth.. 30 C ..rroi., DEF ..rhoid., ABC ..y gler 33 D  
 ..thristaid.. 34 CEF ..rroddionn., BCEF ..avr.. 35 F ..dewrllin., EF ..ach  
 38 CEF gwedi., EF ..amer.. 41 C ..rryw.. 42 ABC ..yth benn 44 EF  
 ..gwynn Dwn 45 ABDF ..kymry., C ..tv.. 46 EF mewn ystur mae n  
 ystoriau 51 E/F trwy fam / fann gwaith terfynnau gwydd 52 EF traw eu  
 gwead tragowydd, AB ..y gaead.. 53 A [ ] tano., BCD ty win., EF ty n  
 wingell tano yn gau 54 A [ ] ef to., B tvar nef., DE ty a nef., F ty o nef.,  
 EF ..to n.. 55 CEF ..rowndwall., B ..hytrwyn dwinn 56 CEF ty.. 57 EF  
 ..Adda yn groydddyn, D ..fu.. 60 EF gan Dduw dyn gwineuddu doeth 62  
 EF gwisgad fu ich hendad chwi, AB ..ych hyn., D ..eich hun hen daid.. 63 B  
 ..gledd ynghylch., EF ..gwas.. 64 EF ..mwyn fyw., ACDE ..vn vath 65 AB  
 ..yr drin.. 66 EF ..henlliw., C ..henlew a gwreiconllafn, E ..gwrychion  
 llafn, F ..gwrchionllafn 69 ABCEF ..rywiawg 70 ABD ..Roy., E ..pwy n  
 rhoi i dda i rhawg, F ..pwy n dda rhawg 71 D ..ddewr ddewr.. 72 EF pwy  
 ddoeth.. 73 CEF pwy n.hwylwn, A-D ..ple i., EF ..pan y.. 74 CEF ..phwy  
 yn dda.. 76 A [ ] ym hoes., C pwy n hoes., BD ..ym hoes., F ..ym., EF  
 ..oes..

*Awdl foliant i Ruffudd Dwinn, Ystradmerthyr*

Gruffudd pob Gruffudd o'r grwn—bu Addaf,  
 Yn buraf un barwn,  
 Gwrolaf gŵr i aliwn,  
 Gŵr â ffydd Duw, Gruffudd Dwinn.

4

*Ffynhonnell*LIGC 3063E [= Mos 184], 122<sup>r</sup>

*Englyn i blas Gruffudd Dwinn, Ystradmerthyr*

Calis Caerberis barwn—tragwyddawl,  
 Caer wych mawl, cyrch miliwn;  
 Caer Gruffudd fal cyw'r griffwn,  
 4 Coed derw, Duw a'i catwo, 'r Dwinn.

*Ffynonellau*

A—LlGC 3063E [= Mos 184], 127<sup>r</sup> B—Llst 40, 60 C—Llst 133, rhif 881

*Amrywiadau*

1 B [ ]er beris.. 3 BC ..mal..

*Marwnad Hywel Penri, Glan-lais*

- Tri dyn o naturiau da,  
 Tri Hywel o waed Troea:  
 Hywel lwyd hael o Lydaw  
 4 Wrth drin, a nai Arthur draw.  
 Ail fu Hywel y Fwyall  
 O dir y llew wedy'r llall.  
 Hywel, wylt, hael eilwaith,  
 8 Penri,—och marw ein penrhaith!—  
 Trydydd oedd, tra da o ddyn.  
 Trindod, aeth ato'r undyn.
- Pawb yn iach, pob un a êl,  
 12 Pen ni thau pan aeth Hywel.  
 Llawn llef talaith Ddinefwr:  
 Llefain mal llif Noe am ŵr.  
 Llyna Ddydd Barn aeth arnoch  
 16 Llithro'n gwypm llwyth Ronwy Goch.  
 Sir Gaer fu'n nesa' i'r goron;  
 Pa sir anhapus yw hon?  
 Sir a gawn sy oer gennyf;  
 20 Eisiau'r gŵr doeth sir Gaerdyf.  
 Dwy wlad a Chydweli wen,  
 Dwyoes cwyned Is Cennen.  
 Dŵr a ŵyl daearolydd;  
 24 Deau'n dost wedy un dydd.  
 Y dydd hwn y duodd hi,  
 Wybr a daear bro Dywi,  
 Gwladyddu fal gwladeiddion;  
 28 Ni they haul fyth ar hon.  
 Troes Duw oer glips tros dair gwlad,  
 Troes du oll tros y dillad.  
 Torri'r braich, mae'r tir heb rym,  
 32 Tynnu aelod hen Wilym.

Pan aeth Hywel ar elawr,  
 Pum gwaeth no'r farwolaeth fawr,



- 36 Aeth swydd a chyfraith a sêl,  
Aeth ddeall cyfraith Hywel.  
Aeth llyfr ein iaith ddall hefyd,  
Aeth doe i'r bedd doethder y byd.  
Ba wlad a ateb i lys?
- 40 Ba wiw eistedd heb iustus?  
'F aeth dadl yn feth o'i dwedyd,  
'F aeth y iawn farn fyth yn fud.  
Wrth gadarn arth gwiw ydoedd,  
Wrth wan ei gynhorthwy oedd.
- 44 Llyna fyd oll anfadus;  
Llawenydd oll aeth yn us.  
Nid â ifainc na deufwy
- 48 I dai medd neu windai mwy.  
Pwy'n rhoi'i win i fyddinoedd?  
Pwy'n rhoi'i aur? Mab Henri oedd.  
Aml wylaw glaw mal y gwllith,
- 52 Anaml gwin, mêl a gwenith;  
Aml dolef mil hyd elor,  
Anaml march yn ymyl môr;  
Anaml hael, mawl a heliwn,
- 56 Aml 'Och! Och!' am weilch a chŵn;  
Aml och gwan, amlach gwyno,  
Anaml fyth un mal efô.
- 60 Be caid canmil am filwr,  
Bath hwn ni chaid byth o ŵr.  
At ras Duw fal y troes dis  
Yr aeth Hywel wrth ddewis.
- 64 Odid i Dduw, doed a ddêl,  
Fyth ddewis y fath Hywel.

*Ffynonellau*

A—Pen 100, 57 B—Pen 101, 222 C—Llst 133, rhif 20 D—LIGC 5474A  
[= Aberdâr 1], 387 E—CM 206, 131<sup>r</sup> F—LIGC 2023B [= Panton 56], 311  
G—BL Add 14991, 268<sup>r</sup> H—CM 109, 59

*Amrywiadau*

6 A—H ..wedi.. 8 G ..marw yn 9 B ..dyn 14 DH ..fal.. 15 B ..dydd.. 17 DH  
..fu nesa.., FG ..sy nessa.. 20 FG ..gwr da doeth.. 21 A—H ..Chedweli.. 24  
A—H ..wedi.. 27 D ..gwladeddion 29 E ..dir gwlad 34 A—H ..na.. 38 DH  
..doethder byd, FG ..ddoethder.. 39 FG ..ei lys 40 DFGH ..vstys 41 H  
..dwedydud 46 FG ..ae.. 47 DEH ..ifangc.., FG ..ieueinc.. 48 C ..windai

49 *DH* pwy n rhoi gwin., *EFG* pwy n rhoi win.. 50 *DEH* pwy n rhoi aur..  
51 *D* ..fal., *H* ..fel.. 52 *H* ..na.. 53 *ABDEH* aml yw dolef.. 61 *E* ae ras.,  
*ABCEFG* ..fel.. 63 *E* ..oed..

*Marwnad Lewys ap Tomas a Gruffudd Llwyd, ei fab*

Mae rhyw glips, hud ym mro Gledd,  
 Mae haul winau gan mlynedd.  
 Lliw du aeth dros yr holl dir,  
 4 Lled a hyd holl deheudir.  
 Mynd o'i lliw, mae'n dywyll llys,  
 Mae'r haul loyw marw Hael, Lewys.  
 Mis o wanwyn mwy soniynt  
 8 Wedy mis gwymp Tomas gynt.  
 Mae arch, ail Lywarch, Lewys,  
 Oes, yn y pridd, Siôn ap Rhys.  
 Mae yna bost mewn y bedd;  
 12 Oes ben urddas a bonedd?  
 Pobl weinion pwy eu blaenawr  
 Pan âi'r llwyth a'u pen i'r llawr?  
 Ni chair un o iach Ronwy  
 16 (A bod mil) wybodau mwy.  
 Cwypw Melwas, campau milwr,  
 Colled i'r Wythfed ar wŵr.  
 Ni bu lu na bai Lewys  
 20 Yn oes yr iarll henw Syr Rhys.  
 Cynnor traws acwy 'ngwar trin,  
 Cryf fu urddas Caerfyrddin.  
 Nid âi *i* gaer un hyd Garwy;  
 24 Oes gŵr maeth, ysgwier, mwy?

Tair morwyn fu yn dwyn dau,  
 Tair tynged, draw at angau:  
 Cloto wen, cul at einioes,  
 28 Câi â'i gwe lin cogail oes.  
 Mewn ystad mae'n astudiaw,  
 Mae'n daly oes mewn ei dwy law.  
 Letises ai/ at oesoedd  
 32 Wrth ei dysg â'r werthyd oedd.  
 Hoedl dyn, huawdl hyd unnos,  
 Hon a'i nydd yn nydd a nos.  
 Os edau einioes ydyw;  
 36 Awtropôs a'i tyr. Pa wiw?

Och grined oedd ei hedau  
Nos a dydd am einioes dau!

40           Maint wylaw mynd dwy elawr  
Lewys a'i fab o'i lys fawr.  
Marw y tad ym *mro* Tewdwr,  
Mwy boen—och!—dwyn mab yn *wr*:  
44           Dwyn Gruffudd fal edn griffwnt,  
Doe brath awch Deheubarth hwnt;  
Dwyn y tad, enaid dwy iaith,  
Dwyn ei fab, dyn fu obaith;  
48           Syr Galath, iawnmath unmab,  
Sail dau fedd, Lawnslod a'i fab.  
Rhoed Efrog farchog dan fur  
A'i fab rhoed fu Paredur.  
52           Mae Pŷr na champau Arwy,  
Gŵr a mab, yn sir Gaer mwy?  
Gŵr tŷ Elen, gwae'r teulu,  
Gwae Elen am fab; pen fu.  
56           Mae llef Tegau deheudir,  
Mae gwae i hon, am Gai Hir.  
Eigr *unmath*, gŵr a'i unmab,  
Gwae hon *ym* medd gau'i hun mab.  
60           Mwyaf ochain am fuchedd  
Ym iachau'i fam uwch ei fedd.

          Ai llai o gorff llew a gaf,  
A phob rhai, no phai Prief,  
A pha lai o gorff Lewys  
64           Yn wiw no rhyw Arglwydd Rhys?  
Mae elain am a wylwyd  
O gorff hydd llun Gruffudd Llwyd.  
Magu un mae eginyn  
68           Mab a thad,—mwy obaith ynn.  
O ronyn, had Wernan hir,  
*E ddaw* had i ddeheudir.  
Cân' afal ar wialen  
72           Ac o un pysg fai gan pen.  
Hwn yw'r llew, o henwy' r llwyth,  
Hwn a dâl am hen dylwyth.  
Un Duw Naf, edn Dinefwr,  
76           A gwyn ei nain a'i gwna'n *wr*.

*Ffynonellau*A—BL Add 14880 [= RWM 36], 54<sup>v</sup> B—BL Add 31090, 51<sup>v</sup>*Amrywiadau*

1 *A* ..ryw glipes lud., *B* ..hyd.. 4 *B* ..o hyd.. 5 *A* ..maen yn., *B* ..lys 7 *A* ..waniwyn mowy., *B* ..sonynt 8 *B* wedi.. 9 *A* ..llywarch.. 14 *B* ..ar pen., *A* ..yr llawr 15 *B* ..ach.. 18 *A* ..yr wythfed., *B* ..yw r wythfed.. 20 *AB* ..hen.. 21 *AB* kyngor., *B* ..accw.. 23 *AB* ..ai gaer.. 24 *A* ..ysgwier [ ] 29 *B* ..ystudiaw 30 *B* ..mewn dwy.. 31 *AB* ..ai at.. 34 *B* ..a nydd.. 35 *A* ..adav., *B* ..enioes.. 40 *B* ..ar lys.. 41 *AB* ..ym mvr.. 42 *B* mwy poen.. 46 *B* ..dan fo obaith 49 *A* roed.. 50 *A* ..roed., *B* ..peredur 56 *A* ..gei.. 57 *A* ..winmaeth.. vnnab, *B* ..weniaeth.. 58 *A* ..ynn medd, *B* ..in medd gau hun mab 60 *B* ym iachiau.. 61 *B* a llai.. 62 *A* ..rai.. 64 *A* ..riw.. 65 *A* ..wywyd 70 *A* [ ] had y., *B* ddeau had y.. 71 *A* kann afal., *B* ..ir wialen 73 *A* ..y hen yr llwyth

*Marwnad tri brawd: Wiliam, Siôn a Thrahaearn Morgan*

- Mae can mil, mae cwyn am wŷr  
 Drwy Brydain am dri brodyr:  
 Tri mab o lin—trwm o bla!—  
 4 Trahaearn fal gwŷr Troea.  
 Meirw'r tri fal meibion Priaf,  
 Mawr wenwyn haint, meirw'n un haf.
- 8 Marw un oes, mawr wae'i fam,  
 Â moes Troelus, Meistr Wiliam.  
 Sef yw'r ail dros farwolaeth  
 Siôn draw; Alecsander aeth.  
 12 Diwedd un, ail Dydd y Farn,  
 Ector ieuanc, Trahaearn.  
 Bwrw trimab, wŷr tramawr,  
 Bwrw ei dri mab, Rodri Mawr:  
 16 Anarawd fedrawd, gwae'i fam,  
 O'i farwolaeth, farw Wiliam,  
 A bwrw'r ail, ni bu wŷr well,  
 Siôn gyda oes hen Gadell;  
 20 Marw fu nerth, Merfyn a'i wŷr,  
 Trahaearn; nef i'r trywyr!
- Tri o byst Harri a'i bont,  
 Trwy y Iesu y toesont.  
 24 Y bont aeth ar y draethen  
 O ffaelu pyst Ffyllib hen.  
 Tri o Forgan, twrf oergwyp,  
 Tair Gwent, gwae 'ntwy o'r rhyw gwyp!  
 28 Oer gŵyn gwlad Morgannwg lin;  
 Aeth gwaed Mathau a Godwin.  
 Tri aeth o hil Syr Wiliam,  
 Tri awch corff y torchog Cam;  
 32 Tri byw, wyrion tai'r barwn,  
 Tri o daid tŷ Harri Dwinn;  
 Tri chwyrn eu briw trychan bron,  
 Tri rhygeirw tyrau'r Wgon.

- 36 Dialedd ar Gydweli,  
Dyfed hen e'i difawd hi.  
Diwedd y bla fu'r dydd blin;  
Garw farwddydd ar Gaerfyrddin.
- 40 Tri Syr Gei, aeth teirsir gwart,  
Tri chedyrn, teirw Chwech Edwart;  
Tri blaenor tir bai lawnwaith,  
Tri maen gwn trwm yn y gwaith;  
Tri phen y tir a'i ffyniant,
- 44 Tri chwyrn, llai meirw tri chant.  
Tair Gwent, tir egin y tad,  
Trist wylo tros deheuwlad.  
Tri un daid, Trahaearn dŵr,
- 48 Torred tid tir y Tewdwr.  
Tri o'r oes mewn tair awr aed,  
Tro at angau'r tair tyngaed.  
Dwy a nydd i bob dyn oes;
- 52 E dyr un edau'r einioes.  
Tair mewn oes, trymion i wŷr,  
Tyrau brad, ddwyn tri brodyr.
- 56 Tyf ar hyd deheufro onn,  
Tyf wŷdd o'i etifeddion.  
Tomas, unben a phennaeth,  
Teiroes, daw'r un, tros *dri* aeth.  
Tri, 'r un Duw, at yr hen daid,
- 60 I'r trŵn êl â'r tri enaid!

*Ffynonellau*

A—Stowe 959 [= RWM 48], 88<sup>r</sup> B—LIGC 16964A, 59<sup>v</sup> C—Card 3.2 [= RWM 27], 76

*Amrywiadau*

1 C ..cant.. 2 C trwy.., B ..brydan.. 4 ABC tyrayarn.. 5 ABC mairw tri.. 7 ABC ..way vam 8 ABC am oes traylys.. 9 B ..yr ail..varfolaeth 10 B ..ath 12 B ..ifank.., C ..iefanc Tryharn, AB ..tyrhayarnn 13 AC ..gwyr.. 15 ABC ..gwae fam 16 B ..farfolaeth.. 17 ABC a bwrw ail.. 20 AB tyrayarn.., AC ..yr trywyr 21 C ..blant 22 C ..troysant 26 AB ..gway n hwy.., C ..gway hwy o ryw.., A ..o Ryw.. 27 B ..gwynt.. 28 C ..Matho.. 29 C ..ath.. 30 AC ..marchog.. 31 AC ..wyron.. 32 C ..o dayty Harri.. 36 ABC ..i divawd.. 39 C ..ath.. 41 B ..tri.. 44 B ..chwyr.., A ..trychant 45 B ..tri.. 46 A ..troes.., C ..dros.. 47 C ..yn dad.., ABC ..tyrhayarn.. 48 C ..hyd tir.. 49 AB tror oes.., C

tros oes.. 50 *C* ..tynged 51 *AC* ..y bob.. 52 *AC* ..ainoes 53 *AC* ..y wyr 54 *B*  
tairav., *AC* ..dwyn.. 55 *ABC* ..honn 56 *C* ..wyf.. 58 *AB* ..tros dir., *C* ..dros  
dir.. 59 *AC* tryr vn.. 60 *AC* yr trwn..ar enaid



*Marwnad Syr Rhys ap Tomas*

Mae rhyw odwrf ym Mhrydain,  
 Mae llef fry am iarll a'i frain;  
 Mae cwyn macwy, a'i enwi,  
 4 Mae llef erioed i'm llyfr i:  
 Llef o aelwyd Llefelys,  
 Llef oer sy i'r ieirll farw Syr Rhys.  
 Mae chwedl hwnt am wych hoedl hawg,  
 8 Mwyaf oerchwedl am farchawg,—  
 Cwynfan a llef Brytaniaid,  
 Cwyn dial plant, cenedl, plaid;  
 Cwyn rhyw gŵyn a rygenynt,  
 12 Cwmp wrth ryw gwmp Arthur gynt.  
 Cwmp gŵr, cwncwerwr Caeryw,  
 Câr Owain Glyn, cronigl yw.

Cyd dialedd cad deulu  
 16 Camlan i faine Emlyn fu.  
 Cri llawn floedd Caerllion flin,  
 Cri fwy oerddwbl Caerfyrddin  
 Cwmpo llys, campau holl wŷr,  
 20 Camalod mainc y milwyr.  
 Lle 'dd aethant yr holl ddethol,  
 Llyna'i wŷr felly 'n ei ôl.  
 Duw, arnynt o'r diwyrnawd  
 24 Diwedd y brain fal Dydd Brawd.  
 Dwyn Deau oll dan y dŵr  
 Dwyn nawfed iarll Dinefwr.  
 Gwaed byth ni all godi'i ben  
 28 Gwedy'i orwedd, gwaed Urien.

Gwae ni heno gan hynys  
 Gladdu'r ail i'r Arglwydd Rhys.  
 Aeth hiraeth i'r Wyth Harri  
 32 O'r gwely 'dd aeth f'arglwydd i.  
 Aeth i'r bedd (a thair byddin)  
 R a magl aur am y glin.

36 I fedd hwn yr ufuddhânt  
 Fydd relics i fedd Rolant,  
 Tŷ sy gaer Twysog Urien,  
 Tab'rnacl saint brain Niclas hen.  
 40 Dyna ben dawn a bonedd  
 Dynion y byd yn un bedd.  
 Bwrw oes hen Sawl, bar Sain Siôr,  
 Bwriwyd act unbrawd Ector;  
 Bwrw derwen y brud orig  
 44 A bwrw brain a briwo'u brig.

Mab y dyn aeth mwy heb dad;  
 Aeth wyn Lloegr wrth un llygad.  
 Wylo wnân', lin y wennol,  
 48 Am Syr Rhys bumoes ar ôl.  
 Wylwn lif, Gymry ifainc;  
 Chwarddent a ffrwynent wŷr Ffrainc.  
 Os llynges a ollyngir,  
 52 Â thân dôn' weithian i dir.  
 Pan ddêl cad i bob adwy  
 —Y bw mawr aeth heibio mwy—  
 Da oedd i ieirll wedy'i ddydd  
 56 Fwrw gwal o fôr i gilydd.  
 Eisiau'i fur, hen Seferus;  
 Mwy eisiau'r wal am Syr Rhys.  
 Ein holl ynys fu'n lluniaw  
 60 Wrth Ddofr drych Wrthefyr draw.  
 Pe'n lanwaith pan na lunnir  
 Brân â gwayw 'nhop Bryngwyn hir?

64 Ni chladdwyd—och, lueddwyr!—  
 Farchog well o feirch a gwŷr.  
 Ni cholled, o châi'i 'wyllys,  
 Maes erioed ym myw Syr Rhys.  
 Nis gorfau arfau lluoedd;  
 68 Arfau Duw'n ei orfod oedd.  
 Ni 'mrodde nes marw uddyn';  
 Ymroi i Dduw nid mawr i ddyn.

72 Och, feirdd, am vychaf urddol!  
 Och finnau uwch fyw 'n ei ôl!  
 Och farw nai, awchfran, Owain!  
 Och am frawd Gwalchmai a'i frain!

- 76 Och Iau trist! Och eto 'rhawg!  
Och f'erchwyn! Yn iach, farchawg!  
Y frân henwych frenhinol  
Aeth i nef. Mae'n gwaith yn ôl.  
Os brân yw'r daroganwr,  
80 Bo'n frân iarll ar Benfro'n wŵr:  
Aros bath o wres y banc,  
Aros haf Syr Rhys ifanc.  
Dwg enw, Deau eginyn,  
84 Dy hen dad, ys da henw dyn.  
Iarll unwaith ar holl ynys,  
Aros yr iarll, wŵr Syr Rhys.

*Ffynonellau*

A—Pen 77, 419 B—Pen 80, 14 C—Card 5.167 [= Thelwall], 356<sup>r</sup> D—BL Add 14866 [= RWM 29], 249<sup>v</sup> E—BL Add 14971 [= RWM 21], 196<sup>r</sup> F—Stowe 959 [= RWM 48], 135<sup>r</sup> G—Card 4.101 [= RWM 83], 175<sup>r</sup> H—BL Add 14966, 103<sup>r</sup> I—Pen 112, 194 J—Card 2.201 [= RWM 63], 307 K—Gwyn 3, 150<sup>r</sup> L—LIGC 642B, 20<sup>v</sup> (*collwyd dechrau a diwedd llawer o'r llau.*) M—LIGC 727D, 116 N—LIGC 13068B, 76<sup>r</sup> O—LIGC 20574A, 304 P—BL Add 31059, 7<sup>r</sup> Q—Pen 121, 105<sup>r</sup> R—Brog (y gyfres gyntaf) 5, 298 S—LIGC 8330B, 148 T—Llst 133, rhif 937 U—LIGC 5474A [= Aberdâr 1], 225 V—Card 2.40 [= RWM 26], 77 W—Llst 147, 274<sup>v</sup> X—BL Add 10314, 201 Y—Card 4.10 [= RWM 84], 1279 Z—BL Add 14991, 252 a—LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 137 b—BL Add 31090, 12<sup>r</sup>

*Ffynonellau eraill*

Card 3.2 [= RWM 27], 244 (*yn dilyn F*); LIGC 2033B [= Panton 67], 26<sup>r</sup> (*yn dilyn B*)

*Amrywiadau*

1 *F* ..ryw., *DEFH-KNPQSTV-Yb* ..odwrdd., *U* ..adwrdd.. 2 *B-EH-MO-Yab* mae r llef., *Z* mae r llif.. 4 *Z* [ ], *G* ..a roed inn., *M* ..a roed., *N* ..y roed., *Xa* ..ir oed., *FNRW* ..ym llyvyr.. 5 *Z* [ ], *TU* ..o aflwydd.. 6 *Z* [ ], *a* llef sy r ieirll., *AEFHJLPQRXY* ..sy r ieirll., *NU* ..fur jarll., *TW* ..sy r iarll., *BCO* ..jarll., *GM* ..ierll.. 7 *Z* [ ], *F* mayr., *U* ..hwn., *N* ..hwnt oerchwedl hawg, *F* ..am wchagwl hawg, *EI* ..ar wych., *T* ..hoedlawg 8 *Z* [ ], *F* may mwy.. 9 *KS* cwynfain.. 11 *FG* ..wrth ryw., *BCEIJNQR* ..ryw., *G* ..a gynynt, *AHKPR-UWXYa* ..rhy genynt 12 *A* cwyn., *W* ..rhiw., *UZ* ..cwymp.. 13 *F* kwympo twr., *N* kwymp twr., *L* cwymp yw r., *Z* cwymp yw r cwyn cwerwr., *C* ..kwnkwerw., *G* ..kwngrerw., *K* ..cadr ryw, *S* ..caderryw 14 *G* bar., *F* ..owain u glynn.. 15 *N* 17–18, 15–16, *G* kad..kyd., *O* ..cae., *R* ..kaed deulun, *DFG-L NPQSVXYab* ..teulu 16 *N* ..y faink..y fy,

 51 *A* ..Elfel.. 53 *D* ..cyfaill.. 54 *ABC* ..yw ddwyn.. 55 *D* o ffynant.., *BC*  
 ..lle i.. 57 *BCD* ..dre delyn 58 *D* ..pe ar.. 59 *BD* ..vwch.. 60 *A* eisav.. 63 *A*  
 ..cwympir llid, *BCD* ..kwympy r llid 65 *BCD* kael glewder lle th.. 67 *BCD*  
 ..yt arfav.. 69 *BC* ..y ti 71 *BC* ..lle th.. 72 *BC* ..duw.. 73 *D* ..cait.., *A*  
 ..rheoli 75 *D* ..i ben 77 *BCD* ..ydych 78 *BCD* ..a fo..styfn wych

*Moliant Lewys Gwyn, Trefesgob*

Af i'r ddâr i fwrdd eryr,  
 I nyth gwalch a phennaeth gwŷr.  
 O fardd oediog, freuddwydwalch,  
 4 Addas y gwn ddewis gwalch.  
 Megis glander ederyn  
 Meistr Lewys, *mau ddewis ddyn*.  
 Siancyn edn sy'n cau'n odwyh  
 8 Seirff can gwypm sierffawcwn gwych;  
 Merliwn gwyn Lywelyn law,  
 Mab Gwilym hebog aelaw;  
 Griff Adam a'i gorff ydwyd,  
 12 Gwres y llew â gwayw Rhys Llwyd.  
 O nyth henweilch ni thynnais  
 Edn un sut ag Einion Sais:  
 Eryr a'i nyth ar war Nedd  
 16 A chyw Einion, iach Wynedd.

Tarian, wyd lân fflower-dy-lis,  
 Tri cheiliog trwy iach Alis;  
 Tri phen gwayw at orffen gynt,  
 20 Tri dafn trwy waed a ofnynt.

Brenin, aed dydd daed, ydywch  
 Brychan gwaed Brycheiniog, ywch.  
 Gosawg hyd frig Wysg wyd fry,  
 24 Galawnt ieuanc Glyn Tawy.  
 Gwalch *am* liw, Gwalchmai lawen,  
 Gwrid Nudd i Gaerhodni wen.

Garw eich llid, gwrych llew ydwyd,  
 28 Ac oen doeth i'r gwindai wyd.  
 Ni thâl dros o'th law d'aur iach  
 Win dan haul un dyn haelach,  
 Ifraith ben arferiaith bêr,  
 32 Arferedig ar freuder.  
 Mawr y cefaist, mwy'r cyfoeth,  
 Maner trwy ddysg mewn *nort*r ddoeth.

36                    Waetia orddwy at urddas;  
                       O waetio'r aeth yt ei ras.

                      Caeresgob, cyw aur wisgwych,  
                       Cenais dwbl gwawd cwnstabl gwych.  
 40                    Capten Mars Hafren yw'r swydd,  
                       Clo'r teirgwlad, er clod d'arglwydd.  
                       Llai ladron, llai le i edrych,  
                       Llai dreth i'w llywodraeth ych.  
 44                    Lle bu ladd ac ymladd gynt  
                       Llonyddach bob llan uddynt.  
                       Eu glendid, am gael undyn,  
                       Eu cwrt wyd, mawr cariad dyn.

                      Rhigal oeddut arglwyddi;  
 48                    Wrth fort ieirll gwrthfawr wyt ti.  
                       Cariadus, y câr, ydwyd,  
                       Cawn Gymraeg, can Gymru wyd.  
                       Cawn roi gwin, caen aur gennyh,  
 52                    Cawn nerth gair, canhorthwy gwych.

                      Gwŷr a fyn, gwir yw f'anun,  
                       Gwadu eu hiaith a'u gwaed eu hun.  
 56                    Nos daed, ni wedaist dy iaith  
                       Na'ch gwaed, aml ywch, gydymaith.  
                       Rhai, 'n ei fôn rhan fu uniawn  
                       A'i frig, â'n afrywiog iawn.  
                       Pan dyfo fal pendefig  
 60                    E dyf o'i wraidd hyd ei frig.  
                       Ni aned o'r wythfed iach,  
                       Hap, i wraig fab rhywiogach.  
                       Rhagoraist, rygyw eryr,  
 64                    Rhag y gweilch yrhawg a'u gwŷr,—  
                       Rhagoriaeth â'r hug eurog  
                       Rhag yr ieirch rhygarw a'i og.

                      Meistr Lewys, mae stôr lawen,  
 68                    Mae teiriaith berffaith i'th ben:  
                       Mae'r doethder, dewrder â dur,  
                       Mae'r nerth a fu 'mron Arthur.  
                       Mae'r ffortun yn ymunaw,  
 72                    Mae wrth lot yn ymroi i'th law.

76

Mae'r damwain lle ordeiniwyd;  
 Mae gradd ywch; 'mgyweirio 'dd wyd.  
 Mae'r breuder, mor bur ydych,  
 Mae glendid y byd lle bych.

*Ffynhonnell*

Pen 114, 5

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 ..yr ddar.. 6 ..mae dewis dyn 17 ..fflower.. 25 gwachmai liw.. 26 ..y  
 gaer.. 28 ..yr gwindai.. 34 ..mewn ordyr.. 35 waettio.. 41 ..y edrych 42  
 ..yw llywodraeth wych 44 ..vddvnt 45 ..gleindyd.. 48 ..gwerthfawr.. 50  
 ..gymry.. 62 ..y wraig.. rywiogach 63 ..ry gyw.. 64 ..y rawg.. 66 ..rygarw..  
 68 ..tair iaith.. 71 ..ynhynaw 72 ..yth law 76 ..gleindyd..

*Awdl foliant i Lewys Gwyn, Trefesgob*

4 Pumllwyth twysoglwyth at Sedd—Brytanwaed,  
Bron henwaed brenhinedd,  
Post dan nen Powys hyd Nedd,  
Pwy yw pinagl pob bonedd?

8 Os bonedd, eistedd, iustus,—uwch Hafren  
Gyda chyfraith brawdlys;  
Eurer yr L, orwyr Rys,  
Nos da i'r L, yw Meistr Lewys ...

... Undyn nis edwyn,  
Nid oes sadach dyn,  
Un gair a'i ofyn yn ddigrifach.

12 Ni wnaeth Duw o draeth  
A dŵr, iach arfaeth,  
A tân, wybr ffyddiaeth, ddyn berffeiddiach.

16 Efrog Brycheiniog,  
Braich iach Garadog,  
Arfog tri cheiliog tŷ'r ucheliach.

20 Serchog calonnog  
Glanach no'r hebog,  
Ni bu i d'wysog d'wybodusach.

Pumllwyth twysoglwyth, &c.

*Ffynhonnell*

Pen 114, 72

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 ..oi pingls.. 15 ..Brycheniog.. 20 ..y twysog..

*I erchi gwartheg gan lawer o wŷr Morgannwg  
ar ran Lewys Gwyn, Trefesgob*

Mawr yw'r swydd ar y Mars aeth;  
 Mwya' gair i'w magwriaeth.  
 Myfyriais gerdd, mwy frys gwawd,  
 4 Am faerdy, yw'r myfyrdawd.  
 Mae tir ym o waed dau Rys,  
 Maestir lawer Meistr Lewys  
 8 Mab Siancyn, Llywelyn Llwyd,  
 Mab Wilym ym mhob aelwyd.  
 Mae teirmil o gorff Wilym;  
 Y mae sy well i'm oes ym.  
 Arglwydd o swydd sy heddiw  
 12 Presen uwch Hafren, gwych yw.  
 Gorau arglwydd arglwyddi  
 Â gwleddau ieirll f'arglwydd i.  
 Gorau y gwnaeth was'naethwr.  
 16 Erglyw, Dduw, arglwydd, ei ŵr.  
 Adeilodd, ir'waed Wilym,  
 Heblaw ei swydd ryw blas ym.  
 Â chanïad o Frycheiniawg  
 20 Arch a roes ym erchi 'rhawg:  
 Anfon dyn yn fwyn a'i dwg  
 Ar gennad i Forgannwg  
 At frig y pendefigion  
 24 I weled dawn y wlad hon.

Enwaf Leision ben bonedd,  
 —Ai byw dyn well?—Abad Nedd.  
 28 Abad, oleuad, Lewys,  
 Mair, a gaem, lamp Margam lys.  
 Meistr Water a bryderir,  
 Meistr Stiwart, Herbart hir.  
 Syr Tomas â'r het emaur,  
 32 Gamais, a wisg maes o aur.  
 Syr Rhys, edn, Sain Siors ydyw,  
 Am honsel iarll, Mawnsel, yw.



- 36 Meistr Siors yn eu mwstro sydd  
 Â bort lawn, Herbart, l'wenydd.  
 Meistr Tomas drwy ras a dring  
 Ystaer hoedl ieirll Ystradling.  
 Meistr Siors sy yma dros wŷr,
- 40 Math wrol, Mathau, eryr.  
 Meistr Mil, mwya' stôr moliant,  
 Mathau, o'i gwrnt am wyth gant.  
 Meistr Arnallt i'r mwstr arnynt
- 44 Mal Bwtler, ysgwier, gynt.  
 Edwart doeth, ar dir y tyf,  
 Lewys hael, ail i Selyf.  
 Robart, am wythwart, Mathau,
- 48 Rhyw eog braisg rhywiog brau.  
 Crystor o'r hen flaenoriaid,  
 Twrbil, aeth â'r rhent ar blaid.  
 Watgyn lwydwyn ar wledydd,
- 52 Lochwr hael, yw'r gwalch a'i rhydd.  
 Crystor ar fainc rhoes drwy'r farn,  
 Fflemin, hil Godwin gadarn.  
 Siôn yma weithion, Mathau,
- 56 Sâl o bryd sy hael a brau.  
 Rhoes ar rai wres yr haearn,  
 Rhoes aur teg hael, Rhisiart Carn.  
 Am roi aur, am roi arian,
- 60 Am win at feilch, Emwnt Fan.  
 Siamas wŷr Tomas o'r taid  
 Sy i gleimio maes Gwilymiaid.  
 Oes wleddau ar fyrddau fil?
- 64 Oes! Teirbord Siamas Twrbil.  
 Morgan, ail Forgan fawrgad,  
 Mathau a'i law am wyth wlad.  
 Morgan, draig ymwan, Gamais,
- 68 Mab serchog, nid swyddog Sais.  
 Dafydd, mae'n rhaid ei ofyn,  
 Sy ar hyd gŵr, Rhisiart Gwyn.  
 Iefan wŷr Ieuan a rydd,
- 72 Addoedd Iefan, ddau Ddafydd.  
 Iefan hynaf o Ddafydd  
 Siancyn oedd *ap Siancyn* Nudd.  
 Siôn, naf Tomas ap Dafydd
- 76 Ap Hywel, fath mab hael fydd.

- Wiliam, barn pan âi arnyn',  
 Dewraf a doethaf un dyn.  
 Matho, 'nghâr, am waith 'y nghân,  
 80 Sef o achos Rhys Fychan.  
 Lawres, aml o ras yma,  
 O Wiliam ddoeth, hael am dda.  
 Morgan, myn Ieuan, fy nai,  
 84 Y mae buwch ym a bucha-i.  
 Tomas, yn ras ynn a rodd,  
 Henw Ffylib, hwn ni ffaeliodd.  
 Mae 'n ôl ynn Lywelyn lân  
 88 —Oes fuwch?—mab Domas Fychan.  
 Llên ymlaen oll, un mal naf,  
 Llên o'u hôl llawen haelaf,  
 Syr Siôn Iefanc ap Siancyn  
 92 A ry fuwch dros aur a fyn.

- Lle henwais oll eu hunain  
 Hon yw'r rhol â henwau'r rhain.  
 Ym y mae buarth gwartheg  
 96 A hefyd dŷ hafod deg  
 A thir gwellt wrth ddŵr a gwŷdd  
 A gwair mân goror mynydd.  
 Pawb a roes, pae bro isel,  
 100 Pob i fuwch fal pib o fêl;  
 Llongau a badau bydol,  
 Llyna hwynt a'u lloi 'n eu hôl.  
 Nid ŷnt waeth, y penaethiaid,  
 104 A mi'n well yma a wnaid.  
 Cerdd a gân' croywdda gennym;  
 Gwerth y gerdd fydd gwartheg ym.

*Ffynhonnell*

Pen 114, 41

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 ..yw swydd.. 2 mwy a gair yw.. 4 ..mefyrdawd 9 ..tair mil.. 10 ..ym oes..  
 12 presten.. 17 adeiliodd y waed.. 19 ..channad.. 22 ..y forgannwg 28 ..ag  
 am lamp.. 35 ..mwstrio.. 40 mal wrol.. 43 ..yr mwstr.. 46 ..y selyf 47  
 Robert.. 48 ..rywiog.. 50 ..rent.. 52 Lochor.. 54 ffleringe.. 60 ..Emwn  
 vann 62 ..y gleimiaw.. 64 ..tair bord.. 72 yddoedd.. 74 ..a svn kynn.. 79  
 Math o.. 84 ..buchi 85 ..yn y rodd 87 ..yn.. 94 ..y rhain 99 ..pai.. 100 pob  
 y..

*Marwnad Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn*

Llef aruthr oll a fwriynt  
 Y dreigiau oedd dan dŵr gynt.  
 Mewn awyr fry am nai'r frân  
 4 Mae dreiglef am waed Raglan.  
 Bu ryw dwrf fal bwrw derwen  
 Yn bwrw tŵr o Herbart hen:  
 8 Bwrw dâr Gwent, brodir y gwin,  
 Briwo coed hen barc Godwin;  
 Bwrw ceiliog torchog at wart,  
 Brân Syr Rhys, bwrw'n Syr Rhisiart.  
 Dallwyd brud llewod a brain  
 12 Dwyn ewythr, dwyn nai Owain.

Mawr yw cwyn ym mrig Conwy,  
 Marchog o Went, mawr uwch Gwy,  
 Syrthio dwy oes wrth hyd wart:  
 16 Sain Siôr oes hen, Syr Rhisiart.  
 Bwlch mawr bai Walchmai, âi win,  
 Bwrw fry bren breufawr brenin.  
 Un wryd yn ei orwedd  
 20 Â Syr Bŵn wrth fesur bedd.  
 Bedd hir i hil Syr Wiliam;  
 Hyd ei fedd gynt Dafydd Gam.  
 Mynwgl aur mewn gwâl Urien,  
 24 Main clòs oedd am Niclas hen.  
 Prudd wely pridd o'i elawr  
 Bai wely maen Beli Mawr.

Pand duon, poened Dwywent,  
 28 Peisiau gwŷr Powys a Gwent?  
 Acwy duodd Cedewain;  
 Ddoe'r âi'r haul oddi ar y rhain.  
 Cwypwyd ail Glewlwyd y glyn,  
 32 Cawr, afaeldid, Caerfaldwyn.

Cwyned Wythfed hiraethfawr,  
 Cwyn Sawyl Mars, cwysel mawr:

Colled pryns, called pai raid,  
 36 Cainc hirwych y cynghoriaid.  
 Ba iustus ar Bowystir  
 Bwrw o Went—och!—ail Braint Hir?  
 Marw cyfraith ym mrig Hafren,  
 40 Marw 'n y pwll lle mae'r un pen.  
 Ni chaid i wan a chadarn  
 Ei fath ar fainc fyth i'r farn.  
 Arhoen' wŷr i herwa nos;  
 44 Ddoe, 'n wir, ni feiddien' aros.  
 Llew dig oedd ar wylliaid gynt;  
 Llonyddach bob llwyn uddynt.  
 Ymladdan' bob llan a llys;  
 48 'F aeth y bw fyth o Bowys.

Chwarae'r bêl y mae'n gelyn  
 Nos a dydd am einioes dyn.  
 Chwarae ag angau nid gwiw;  
 52 Rhy gadarn yrhawg ydyw.  
 Bilain trwch a'r blaned drom  
 Satwrnys fai'r set arnom.

Och gau câr Marchog y Cawg  
 56 Â'r dywarchen, aurdorchawg!  
 Arfau i'w gorff aur fu gynt,  
 Gŵr addas, oedd gawr, uddynt.  
 Curas macwy a orwedd,  
 60 Cai Hir a'i farc, ar ei fedd;  
 Aesawr wen hen Syr Enac  
 Ar fedrod Lawnslod dy Lac;  
 Baner a'i gledd bai'n aur glân,  
 64 Bwned gwydr Bendigeidran.

Mercuriws, mawr y'i cerynt,  
 Fo ddôl y gŵr o'i fedd gynt  
 68 Ag arf las, gryfliw aesawr,  
 Ym mrwydr maes amherodr mawr.  
 Bo'n fyw i'r Wyth, ban fai raid,  
 Herbart, doen' wŷr, Brytaniaid!

72 Wbwb trwy Went, bob tŷ 'rhawg,  
 Utgyrn am fawrchwyrn farchawg.

Tawent! Na folent filwr!  
 Tawen' mwy, waed hwn, am wŵr!  
 Tynnu bu ffortun y byd  
 76 Tra fu'n anturio'i fywyd.  
 Awr dda i ddewr, ddiwedd ei wart,  
 Iesu, rhoes i Syr Rhisiart.  
 Trugaredd, diwedd pob dyn,  
 80 Trindod aed ato, 'r undyn!

*Ffynonellau*

A—Pen 99, 375 B—Pen 101, 178 C—CM 12, 205

*Amrywiadau*

5 C ba.. 6 C y bwrw.. 8 AB briwio.. 12 C ..iau.. 27 B ..duo.. 29 AB ..i  
 dvodd.., C acw y duodd.. 30 C ddoe dd ai r haul odd ar.. 35 C collwyd..,  
 ABC ..prins.. 36 BC caingc.. 37 C ..ustus.. 41 A ..y wann.. 46 C ..iddynt  
 49 C ..a wna r.. 51 ABC chwara.. 52 AB ry.. 54 ABC saturnvs.. 57 ABC  
 ..i gorff.., C ..a fu.. 58 C ..ar gawr iddynt 65 AB ..i kerynt, C ..ei cerynt 69  
 ABC ..yr wyth.. 75 C tynn bu.., AB ..i bv.. 77 C ..ei ddart 78 ABC ..roes..,  
 AB ..y syr..

*Moliant Pirs Mytwn, Alltmelyd*

Mae sieryf â mas Harri,  
 Y milwr Pirs, aml yw'r P,  
 Sarff arfau, Sain Siôr ffyrfawr,  
 4 Sersiant—gras yt!—â'r mas mawr.  
 Meistr Pirs yn Westmestr yw'r parch,  
 Mwynder llew mewn dur Llywarch.  
 Mawr oedd wryd mor ddewrwyd,  
 8 Mwy wyt o nerth, Mytwn wych.  
 Uwchder mal gwycheder milwyr,  
 Uchel yw'r gwaed uwchlaw'r gwŷr:  
 Mawr iawn o waed Cymry Nordd;  
 12 Mae o Loegr mwy olygordd.  
 Tawed llwyth y teidiau llai!  
 Ust i henlwyth Ystanlai!  
 Uchel yw gwaed uwchlaw Gwy.  
 16 Oes dau cannoes, waed Conwy!  
 Llew wyd o'u rhyw, llywiawdr hael,  
 Llew doethiach hollwaed Ithael.  
 I'r milwr hir aml yw'r rhain:  
 20 Edwin waywyr, Ednowain.  
 Braint Hir fath a brynut fwy,  
 Braisg cenedl bro Is Conwy.

Powystir, Fflint, post dewr fflwch,  
 24 Post swydd, pwy iustus heddwch?  
 Ysgwier braisg Harri braff  
 Wyt a arwain aur teirraff.  
 Yn ben o flaen dy frenin  
 28 Aro gloi *aur* ar y glin.

Piau unrhodd y Penrhyn?  
 Pirs. Hap i'r oes yw hyn.  
 Merch Wiliam oruchelwyd  
 32 Ym mraich Cai Hir, marchog gwych,  
 Merch hirddoeth ym mraich urddas,  
 Margred rydd, mae'r gwrid o ras.

- 36 Tŷ rialwaed tri Wiliam,  
 Tewi am waed tŷ ei mam.  
 Os edliw iarll ystil ing,  
 Nis doir *i* edliw Ystradling.  
 40 Llewes, wyth iarll sy i'th wart,  
 Llew Torbocs, hollwaed Herbart.
- Cawr o Degeingl, cair dugiaeth,  
 Cornéus, bwrw cewri a wnaeth.  
 Ti a fwrt i foroedd  
 44 Y cawr gynt ym mhen craig oedd.  
 Wrth filwyr i'th ddyfalu,  
 Wrth wŷr ei fort, Arthur, fu.  
 Y tŵr hen a yty 'rhawg  
 48 Acwy'n ddewrwyd cynddeiriawg.  
 Felly 'dd aeth â'r fwyall ddur,  
 O bai raid, dros Baredur.  
 Y trywyr ffeils cyn troi i'r ffydd,  
 52 Oedd goel, a laddai'i gilydd.  
 Cweryl Duw, cair alw dy win,  
 Cadw i'th fron cyda'th frenin.  
 Cefaist, mwy fu lwc ifainc,  
 56 Clod, Cai Hir, dyffryndir Ffrainc.  
 Fo'th ddyfelid wrth Fwlen;  
 Dy ffriw at hyd Odffred hen.  
 Mawrddewr dewr, mae i'r ddâr deiroes,  
 60 Mwy, tri mwy, no'r tir i'm oes.  
 Mwy yw'ch grym uwch gwŷr yma,  
 Mwy hap a dawn gampau da.  
 Ar feddwl ni orfyddynt  
 64 O gas â gwayw *Aiacs* gynt.  
 Samson ddwyfron a'i ddeufraich,  
 Selyf *un* farn, sylfaen faich,  
 Hirfraisg wyd, mwy 'th arswydynt,  
 68 Hwy no'r gwŷr yn Nhroea gynt.  
 Hirddeur gawr hardd rhagorwyd,  
 Hiroes gŵr i'r rhyw was gwydch!

*Ffynhonnell*

LIGC 6681B, 276

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..am lvr pi 5 ..yw parch 8 ..mwtwn.. 10 ..yr gwyr 11 ..kymrv.. 17

..lliaviwr hael 18 ..doethoch hollwaedd.. 19 yr milwr.. 21 ..a bryn ti fwy  
22 ..ir konwy 24 ..vstvs.. 28 ..war ar glin 30 ..yr oes.. 31 ..orwychelwych  
35 ..reolwaed.. 36 ..tv.. 38 nystoir edliw.. 39 ..ysy.. 41 ..kaer.. 42 ..anaeth  
44 ..kraic.. 48 akw yn.. 50 os bai..byredvr 59 mowddewr..mae r ddar.. 60  
..yn nor tir.. 63 ..nith orfyddynt 64 ..gwaw aygasc.. 66 ..yn farn.. 67 ..mwy  
ith.. 68 hwyn nor..



*Moliant Siôn Salbri, Dinbych*

- Cenais gerdd lle cawn was gwych:  
 Cerdd i unben caer Ddinbych.  
 4      Dau farchog aeth, deuфраich gwart;  
         Oes dros dau feistr stiwart?  
         Meistr Siôn, maes draw a seinir,  
         Maeslwybr helm Salbri hir.  
 8      Mae rhisg dur am rwysg derwen  
         Goruwch corff y marchog hen.  
         Dy roi 'n y brud, 'r onnwayw bras,  
         Os rhoed dim at Syr Tomas,  
 12     Llew o dad, llewod ydynt,  
         Leon Gawr, Lleweni gynt.  
         Rhoed bonedd Gwynedd i'th garn,  
         Rhoed Don, gwaed Dytwn gadarn;  
         Deau a Môn o dŷ mam,  
 16     Dwy dalaith dy daid, Wiliam.  
         Gwalch Wilym, galw uchelwaed,  
         Gwalch/mai, Ystanlai, nos daed.
- 20     Gwisgud dorch; aur gwaissg i ti;  
         Gwisg, ysgwier, wisg Harri.  
         Byddai'n uwch 'rhawg bodd ein iaith  
         Be'th enwer o'r bath unwaith.  
 24     I'r dewr e roir ordr o'i Ras  
         A'r waeg eurdorch a'r gardas.
- 28     Od ymwanud am einioes,  
         Nid ai 'n d'ôl un naid yn d'oes.  
         Band ir wyd, bôn tir Edwin,  
         Â bar dur awch lle bo'r drin?  
         Brau torrud—ba raid Harri?—  
         Brawn a nerth i'n brenin ni.  
 32     Mae nerth yt mewn aer i'th ddur  
         O bu nerth a byw 'n Arthur.  
         Hyn a wnai i gyd, henwen' gamp,  
         Hap, arafgorff, pob prifgamp.

36                   A wnaen' gwŷr neu hen gewri,  
                       Oes ynot o'u hact nas gwnaut ti?  
                       Oes yn nhŷ bryns yn eu bron  
                       Wyth galont o'r fath galon?

40                   Rhyw darw dewr daear a dŵr,  
                       Rhyfelwych fal rhyw filwr,  
                       Pan *aud* ffwrdd, pen wyd a phont,  
                       Pen aerlew, 'nhop hen Eirlont,  
 44                   Llŷr Llediaith, a'th dalaith dau,  
                       Lle tiriaist drylliwyd tyrau.  
                       Clywch, gyw Emrys, cloch Gymru,  
                       Capten palfre Franwen fry.  
 48                   Cyweiriaist, byddinaist, baedd iôn,  
                       Cywirddant, Ffrainc o 'Werddon.  
                       Canech chwi gainc *yna* i'ch gwŷr,—  
                       Cainc arw i'r cwncwerwyr.  
 52                   Curaist, diwreiddiaist drwyddynt,  
                       Caerau â'th gainc Gareth gynt.  
                       C'nheuaist dân cannost Ionawr  
                       Can roi mwg i'r Conor mawr.  
 56                   Câi sir twym, cynw Syr Tomas;  
                       Can laddfa'r ieirll caen' wledd fras:  
                       Cerfer a sewer pob saeth,  
                       Cennyt, Siôn, caent w'sanaeth;  
                       Caent wŷr meirch cennyt, iôr mau,  
 60                   Caen' waywyr i'w ciniawau;  
                       Caen' eu diod cyn dwyawr:  
                       Caen' waed li o'r cnawd i lawr.  
                       Oes ŵr llawr sy i'r lluoedd?  
 64                   Oes law a braich, Salbri, oedd?  
                       Os o'r eigion Serigi,  
                       Nid â, os daw, yn d'oes di.

68                   Gŵr o wledd, Greal, uddynt,  
                       Galath a gâi, G'leiaith, gynt.  
                       Ysgraff a droes o grefft draw  
                       Ei gledd a'r gwely iddaw:  
 72                   Addurn esgyrn ddwrn wisgoedd,  
                       Asur a physg a sarff oedd.  
                       Gwyliwch long, gwely a chledd;  
                       Glew y'th gawn, Galath Gwynedd.

- 76 Gwisg ei darian, gwasg dewrwyd,  
A'i gledd a'i farch; arglwydd fych.  
Os dur mael, os dewr milwr,  
Dewraf a gwychaf un gŵr.
- 80 Os brau derw, os mawr Berwyn,  
Breuaf a doethaf un dyn.  
Os glân aur osglyn araul,  
Glanaf dyn, haelaf dan haul.
- 84 Os iach pysg, nis achub haint,  
Iechyd hwn ywch at henaint!

*Ffynhonnell*

J 140 [= RWM 15], 45

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..ddimbych.. 4 ..feistir.. 7 ..rhwyg.. 9 dy roi ni bud run wayw.. 10  
 ..rhoid.. 15 ..du.. 17 ..wilin.. 18 gwalmal.. 19 ..y ti 21 ..rawg.. 23 yr  
 dewr..o ras 27 bant hir..bron.. 29 ..torrid.. 30 ..yn nerth yn.. 31 ..aur y thur  
 33 ..wnai gid.. 35 ..ne.. 36 ..gwnait.. 37 ..yn hu bryns.. 41 ..aed.. 46  
 ..palfred.. 48 kywair ddant.. 49 kanech i gaink yma ych gwyr 51  
 ..diwraiddaist.. 53 ..kan ost.. 56 ..kan.. 58 kenit..kaen.. 59 ..kenit.. 60  
 ..weywyr yw kinawiau 67 ..oeddynt 68 galaeth.. 70 ..yddaw 81 ..os glyn..

*Gofyn march gan Robert ap Rhys, Plasiolyn, dros Owain ap Syr Rhys*

Awn atad i'th wlad a'th wledd,  
 Gŵr llên a gân holl Wynedd,  
 Mastr Robart, Wesmestr obaith,  
 4 Am gnyw gwych ym, egni gwaith.  
 Dysg wyd a drefnwyd yn drwm,  
 Pab Rhys a wŷyr pob rheswm,  
 8 Ail Nudd o Faredudd frau,  
 Orwyr Dudur, aur deidiau.  
 Praffa' edn y'ch proffwydir  
 O frig Crach y Cerrig hir.  
 Argae ydwyd ar gedyrn,  
 12 Wŷyr Hywel, wayw chwarel chwyrn.  
 Edn o Ruffudd aur ydwyd,  
 Goch iawn, ac edn gwych wyd.  
 Ceidwad un dyfiad yn d'oes,  
 16 Cynnal Ddolgynwal gannoës.

Aed i'th batent bob rhenti,  
 Aed pob urddol yn d'ôl di.  
 Gwnaethost, mewn man amcanoedd,  
 20 Lle bu Rys, yn y llwybr oedd,  
 Caer a thŵr o gan gwryd,  
 Neuadd galch newydd i gyd.  
 Dy blas di sy'n dyblu stad;  
 24 Mal tŷ arglwydd mawl teirgwlad.  
 Can wŷyl yno cawn weled  
 Porthi'r llu, a'r pyrth ar lled.  
 Nid wyd waeth yn Hiraethawg  
 28 No brenin rhoddwin yrhawg.  
 Mae gwŷr ffens, mae gwaywyr ffyn,  
 Mewn tai aml mae yt iwmyrn.  
 Mae deféin gwych, mwy dwfn gwart,  
 32 Mae ystor abl, Mastr Robart.

Mastr Owain a'i frain yn frau,  
 Ap Rhys, o dywys Deau,

- 36                   Minnau yn ddiau a ddaw  
Am beth atoch i 'mbwythaw.  
Erchi hyn a fyn efô,  
A'i drwst i ofyn drosto.
- 40                   Cnyw da'i lun a ddymunais  
A rhyw arian byw 'n ei bais.  
Nid cwrser ond hawg garsyth  
Pan ganwn a fynnw'n fyth.  
Hobi yw'r march a archwn
- 44                   I chwi, w'r hael, o chair hwn.  
Rhydain a red trwy'r gwledydd,  
Rhygyngog dan farchog fydd;  
Hydd meinglust a haedd mwynglych
- 48                   Rhawnhir a welir yn wych;  
Ffriw onest dda i'w grest grai,  
Ffroen llydan, ffrwyn a'i llidiai.  
Hacnai glew, byr ei flewyn,
- 52                   Hedeg i'r faneg a fyn,  
A hedeg tros y ffosydd  
A nodi 'rhawg naid yr hydd.  
Sêr neu wreichion eu llonaid
- 56                   O'r sarn dan bob carn y'u caid:  
Torchi gwraidd; tywyrch a gro  
I'r gwynt âi i'r wybr ganto.
- 60                   Rhowch i urddol er moliant  
Hobi glân buan ar bant.  
E dâl Owain a'i dylwyth,  
Siars byw, ap Syr Rhys, ei bwyth.

*Ffynonellau*

A—J 137 [= RWM 12], 211 B—BL Add 14976 [= RWM 22], 116<sup>v</sup> C—  
Card 3.37 [= RWM 20], 307 D—Pen 101, 218 E—Llist 124, 303 F—CM  
12, 666 G—Card 4.10 [= RWM 84], 371 H—BL Add 31090, 16<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

1 A ..atat.. 3 A ..was meistir.., C ..was m<sup>r</sup>.., D ..wesmest.., FG ..Westmestr..,  
E ..obaeth 4 C am gwiw.., DFH ..egin.., CE ..i gwnayth, G .. gwnaeth 5 B—  
H dysgwyd.. 6 DH ..reswm 7 BDFGH ail i nvdd.., C ail nyd.., G ..i  
fredydd.. 8 A owyr.., BDFGH o wyr.., A ..i deidiav, G ..didau 9 C ..ith  
broffwydir, E ..ith proffwydir 10 A o fraig.. 12 CE ..chwedel.. 13 ACE  
..ruffydd ydwyd 15 ACE ..yn dyfiad.. 16 BDFGH ..dol gynwal.., C ..gynfel..,

*E* ..gynfal.. 17 *E* aed yt., *C* ..yt batten.. 20 *CE* ..ynn y.. 21 *H* ..chwr., *ACE*  
 ..hwryd 22 *A* nevoedd., *C* neydd.. 23 *C* ..di n dyblv., *AE* ..di yn., *D*  
 ..dyblu r stad 24 *C* ..tv., *D* ..arglwydd y teirgwlad 25 *ABDGH* ..i kawn.. 28  
*ABDFGH* na.. 29 *A–H* ..gwewyr.. 30 *BDFGH* mae., *ACE* ..aml yt.. 31 *C*  
 may dynion gwych dyfn a gwat, *E* mae dyn gwych yn d ofyn a gwart 33  
*ACE* ..a frain.. 34 *D* ..y deau 35 *H* ninau.. 36 *BDFGH* ..attoch ym  
 bwythaw 37 *ACE* ..fo 38 *E* ..drvt., *A* ..ne i ofyn., *BDGH* ..yw  
 gwneuthvr., *F* ..yn gwneuthur.. 39 *C* karw da i bvn., *E* carw., *G* ..lun  
 ddymunais 40 *A* i rhyw., *C* a rhw., *A* ..byw iw bais 41 *AC* ..ond enwog., *E*  
 ..ond ewig.. 42 *BDGH* pann gawn., *F* pan gawn hwn., *G* ..a fynwn i fyth  
 44 *CE* ..o cher.. 46 *A* rhygynog.. 47 *AC* ..maynglych 48 *C* rhonir.. 49 *A–*  
*DGH* ..i grest., *EF* ..ei grest.. 53 *E* a rhedeg.. 54 *C* o.. 55 *AC* ..ne.. 56 *CE*  
 ar sarn..a gaid, *ABDGH* ..i kaid, *F* ..eu caid 57 *CE* trochi.. 58 *ACE* ..gwynt  
 ar wybyr.. 59 *A* ..ir moliant, *CE* ..ir foliant 60 *C* bobî.. 61 *C* [61], *E* [ ], *A*  
 fo.. 62 *F* sars byw ab., *G* ..ai bwyth

*Awdl farwnad Robert ap Rhys, Plasiolyn*

- Och Ddydd Farn gadarn â chyrn gwÿs—'meirydd  
 Marw Mastr Robart ap Rhys!  
 Och wÿr llên a chaer a llys  
 4 (Och!) a chenedl chwech ynys!
- Aeth llys ein hynys a'n hannedd—a'n rhodd  
 A'n rhent a'n anrhydedd;  
 Aeth roi gwin athro Gwynedd,  
 8 Ef aeth roi bwyd fyth i'r bedd.
- Torred bedd, Gwynedd, o'i gynnal—dwyn naf  
 Dinefwr, Mathrafal;  
 Torres a soddes ei wâl,  
 12 Troedle gwin, tŵr Dolgynwal.
- Tŵr Rhys ap Tewdwr fu'r tŷ—a'r gwleddoedd,  
 Tŵr arglwyddi Cymru;  
 Trig gair fwy i'r ail, tŵr ceirw fry,  
 16 Teiroes byd, tai'r Ysbyty.
- Oesoesoedd, iawn oedd, yn weddus—o faint,  
 Mal ar fedd hen Emrys,  
 Rhoen' fain, rhyw naf i ynys,  
 20 Ar fedd—pe rhyfedd?—mab Rhys.
- Mab Mair, Iesu grair, (oes grudd—heb ddagrau?)  
 Ni bu ddigrin drabludd;  
 Marw edn Rhys Amharedudd  
 24 Mawr, doe'n well marw dau *no* Nudd.
- Dwyn Nudd, haelion, Môn, Manaw,—Dwy Wynedd,  
 A'u dinistr hyd Dyddbrawd;  
 Doe 'n y dref o gynefawd  
 28 Dwyn—ba chwedl waeth?—Dinbych dlawd.
- Tlawd torri aelawd megis troed—neu fraich  
 Neu frig daear brysgoed;

32 Hen a'i cwyn, ifanc unoed,  
Dan gri'r un dyn gorau 'rïoed.

Eisiau dyn gorau dan goron—Caer-gaint  
Dwyn câr gwaed twysogion;  
36 Gwae Hiraethog, oer weithion,  
A'r tair sir am *Breutur* Siôn!

*Breutur* John, mab Non, am benaig—Gwynedd,  
Cwynwch haelaf mab gwraig;  
40 Ni bu Dderfel na ffelaig  
A roes well ei fara a'i saig.

I'm iacháu seigiau gwresogwin,—fenswn  
Fy ansawdd cyffredin;  
44 Ymiachaer (mae och) werin!  
Och! Dwbl och! Yn iach dabl win!

Yn iach, Ddwy Wynedd, a gyfeddoch,  
Ni 'mwela', Bowys, mal y buoch;  
48 O'i ddwyn yr aeth cwyn Traeth Coch—hyd Hafren,  
Deau i'th ddiben, *neud* aeth heboch.

Mastr Robart o'i blas a ddygasoch,  
Mab Rhys ddaeargrys, fu'r waedd arwgroch;  
52 Marw Moesen gwÿr llên, llai *unoch*,—wyrda,  
Morda' gwledd Asa a gladdasoch.

Ni aned llên well uwch Castell Coch  
Â'r llaw fawr ar gledd, â'r llyfr a'r gloch;  
56 Ni fagwyd rôï fwyd tra foch—dan yr haul  
Allai fwy ei draul. Hollfyd â'r och.

Ple'r aeth ail Derfel pan ryfeloch?  
Ple'r aeth ail Dewi pan weddioch?  
60 Padarn barodfarn o bai ('r och!)—Gamlan,  
Pa un a 'mddiddan pan ymddyddioch?

Ple mae ei lueddwyr, pawb ymladdoch,  
A Beuno dda ywch ban heddychoch?  
64 Peblig arbennig, derbynioch—eich câr,  
Pedrog a Lasar; Pedr galwasoch.



- Ple'r aeth gwybodau pan ddadleuoch?  
 Pwy *un* tebyg pan ateboch?  
 68 Ple, bu ben llawen, darlleoch—fath wŕ?  
 Pwy yn eglwyswr er pan glywsoch?
- E fu ar lwyth draw farwolaeth droch  
 O dyrfa Ieuan lle darfuoch;  
 72 Aeth perchentyaeth; tawoch—Gymru i gyd;  
 Oes gwŕ o fywyd nis gorfuoch?
- Ni roir mwy am gerdd hyd y cerddoch,  
 Ni roir i eirchiaid er a archoch;  
 76 Ni thelir, cwynir, cannoch—am dŷrn,  
 Am win y tefyrn, maint a yfoch.
- Eirchiaid, palmeriaid,—ple mwy eroch?—  
 Noethion hudolion, trist lle deloch;  
 80 Ynfydion mudion fal moch—rhag cawad,  
 Eich ffo o'r ddwywlad, i'ch ffordd eloch.
- Tewch, gerddorion,—beth a wnair ohonoch?—  
 Tafodau tannau, lle cytunoch;  
 84 Tristach feirdd bellach lle boch—hyd Dyddbrawd,  
 Trindawd, o'r dynrawd a roed arnoch.
- Pob dim aeth waethwaeth, aethoch—i'w angau,  
 Pob maeth eisiau, pawb methasoch.  
 88 Pob cerddau lleisiau collasoch—rhag llaw;  
 Wylaw byth geisiaw beth a gawsoch.  
 Wylom, wylasom, wylasoch—dair oes  
 A cherddau eisoes lle chwarddasoch.  
 92 Cwynom, cwynasom, cwynasoch—farw hwn,  
 Cwynion, cwyn nasiwn lle canasoch.  
 Llefom, llefasom, llefasoch—wyliau,  
 Llai sâl o'i eisiau, lle selasoch.  
 96 Ei fath offeiriad tra fythoch—chwi fyw  
 O Gaer i Fynyw nac erfynioch.  
 Ymddifaid weiniaid, unoch—gael a roes  
 I'w enaid, wythoes a fendithioch.  
 100 Ys dël trwy angel y saint, rhyngocho,—Nêr,  
 Yr un nid oeter, 'i enaid atoch.  
 Diwedd Dwy Wynedd ordeinioch—ar frys,  
 Daear iawnwaed Rhys, dŵr Noe trosoch.

104 Diwedd anrhydedd, hir och—eglwyswyr,  
Diweddbraw', dowch, wŷr, Dyddbrawd, Och! Och!

Och Ddydd Farn gadarn, &c.

*Ffynonellau*

A—BL Add 31059, 188<sup>r</sup> B—BL Add 14966, 150<sup>r</sup> C—Bangor (Mos) 11, 7  
D—BL Add 31090, 77<sup>r</sup> (*collwyd 77<sup>r</sup>–78<sup>r</sup> ar y ffilm yn Llyfrgell  
Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, ac ni welais y tt. hyn*)

*Amrywiadau*

1 *B* ..dydd., *D* ..chryn.. 5 *C* ..ynghynys.. 13 *A* ..gwledd[ ] 14 *ABC* ..kymry  
15 *ABC* ..fwy r ail., *C* ..twr kei w fry 23 *C* ..ap mharedydd 24 *AB* ..dav o  
nvdd, *C* ..dan o Nudd 25 *ABC* ..manawd dwy., *A* ..wyne[ ] 26 *BC*  
..dvnist..ddyddbrawd 28 *C* ..waith.. 29 *ABC* ..ne.. 30 *ABC* ne., *C*  
..trysgoed 33 *BC* ..llen gorav.. 36 *A* [ ] tair., *A–D* ..breter.. 37 *A–D*  
preter., *C* ..non bennaig., *A* ..benaig gw[ ], *D* ..benaig 40 *A–D* vo roes..  
41 *A–D* ymiachav.. 42 *C* sy.. 43 *B* ymiacher., *D* ymiachau.. 48 *C* ddeau.,  
*A–D* ..nid aeth.. 51 *A–D* ..ynoch.. 52 *C* ..o Assa.. 55 *D* ..rhoi fwyd.. 57 *C*  
ple aeth.. 62 *BC* ..da., *A–D* ..vwch.. 64 *BC* Pedr.. 66 *A–D* ..ym tebic.. 67  
*ABC* ..darllevoch., *D* ..darllenochoch.. 69 *BC* ..ar llwyth.. 70 *BC* ..Iefan., *ABD*  
..llai.. 73 *B* ..roer., *BC* ..hydd i.. 74 *CD* ..eirchiad., *D* ..ond a.. 75 *ABD*  
..kanoch.. 77 *A–D* ..palmariaid.. 80 *C* ..dwywlad., *A–D* ..ych ffordd.. 83 *C*  
..feirw bellach., *AD* ..ddyddbrawd 85 *A* [ ] dim..aethoch i [ ], *BCD*  
..aethoch angav 86 *D* ..methiasoch 88 *A–D* wiliaw.. 90 *A–D* ..eisioes.. 91  
*ABD* kwynion., *C* [ ]wynassom.. 92 *C* [ ]wynwn.. 94 *D* ..o eisiau lle  
seliasoch 95 *A* ..effeiriad., *B* ..offeriad.. 97 *D* ..rhoes 98 *D* yw.. 99 *A* ys[ ]  
trwy., *D* y sel trwy angel y sant.. 100 *BCD* ..oeter enaid.. 101 *A–D*  
..orddeinioch..

*Moliant Cadwaladr ap Robert, Rhiwlas*

Yr eryr aeth ar war Iâl  
 Oedd lew gwyn i Ddolgynwal,  
 Oes gyw'r gwalch i wisgo'r gart?  
 4 Oes, draw! Hebog Mastr Robart.  
 Cadwaladr, cadw ei aelwyd,  
 Cyw o nyth sierffawcwn wyd;  
 Yderyn Rhys, darn aur rhudd,  
 8 Fry o adar Faredudd;  
 Hiraethog walch yn nhraeth Gwy,  
 Osawg gwyn gwŷr Is Conwy.  
 Llu gwŷr, nerth gwaywyr, i'th garn,  
 12 Llwyn o goed Penllyn gadarn.  
 Lle i'th ais oedd fal llwyth Sedd  
 Lle dygynnull waed Gwynedd.  
 Llew o waed eurlliw ydych;  
 16 Llyna wedd bonedd lle bych.  
 Afal o Idwal ydwyd  
 Ac imp pêr holl gampau wyd.  
 Yr wyd ifanc ar dyfiad;  
 20 Ni fetha dyn o'i fath dad.  
 Nis gorfu'i gas, gŵr fu gynt,  
 Nes cau bedd Siacob uddynt.  
 Mae ei lin mwy olynol;  
 24 Mab Rhys, mae imp ar ei ôl.

Caterwen wyd, coeterw'n iaith,  
 Cadwaladr, o'r coed eilwaith.  
 Cefn i waed, cyfion ydych,  
 28 Cadw ran gŵr, cadarn gwydych.  
 Dechrau dy chwarae yn chwyrn;  
 Draig waedwyllt wyd ar gedyrn.  
 Beth yw gair byth o gariad?  
 32 Beth yw dyn ond mab i'th dad?  
 Pen fu ar bawb pan fu'r bw;  
 Beth yw pen byth heb hwnnw?  
 Gwayw a dorrud, gyw dewrwydych,  
 36 Gwaedlyd rest Gadwaladr wydych.

Galath ddewr, glew y'th dduriwyd,  
 Gwas gwych hael mewn gwisg awch wyd.  
 O chais rhai chwysu ar ôl,  
 40 Os trawant, dos di i'r heol.  
 Ni lechud yn ôl awchwin,  
 Ni chæir drws rhoch a'r drin.  
 Gwŷr, yn ddig dan grynu'i ddant,  
 44 Yn weinion yr enynnant.  
 Yn dân onn od enynni,  
*Yn ffrwd* ton y deffrout ti.  
 Arth i gad wrth ddig ydwyd  
 48 Ac oen doeth i'r gweiniaid wyd.

Tydi, fab y tad a fu,  
 Ti a welynt yn talu.  
 Brau fu Nudd, fo'th gyhuddwyd,  
 52 Brawd i Nudd, breua' dyn wyd.

Os glander disgwyl undyn,  
 Glana 'n d'oes galon un dyn:  
 Seren wedd i Wynedd wen,  
 56 Siân, daeoni Sain Dwynwen.  
 Ef âi wrid o Faredudd  
 A dawn a gras Duw 'n ei grudd.  
 Rhyw Ieuan dan aur rhial,  
 60 Rhobert wŷr [       ] yw'r tâl.  
 Gwledd Morus, arglwydd Meirion,  
 Gwinoedd maeth Gwynedd a Môn.  
 Arwain, rhyw Owain yrhawg,  
 64 I dad Epyllt dau dwysawg.  
 Nid oes wraig—dwyoes i'r wedd!—  
 Well ei henw yn holl Wynedd.  
 Ni chaud wraig un uchder iach.  
 68 Ni châi wraig eich rhywiogach.  
 O ddeudad da ydd ydych,  
 O Dduw Nef da ddeuddyn ych.  
 Rhag glaned yw'r calonnau  
 72 Wythoes fo'ch dwyoes eich dau!

*Ffynhonnell*

LIGC 3051D [= Mos 148], 649

*Darlleniadau'r llawysgrif*

6 ..sierffawcyn.. 11 ..gwewyr.. 14 ..di gynvll.. 16 ..llel bych 21 ..gorfv  
 gas.. 29 ..charae.. 39 ..chwsv.. 42 ni chei ir drws.. 46 [ ]d ton.. 59 ..rheial  
 60 ..wyr ribyw yw.. 69 ..daf..

*Moliant Siôn Wyn, Gwedir*

- Oes gledd Dwy Wynedd? Dydd daed!  
 Oes agos i dwysogwaed?  
 Oes waed heb Sais i dop sedd?  
 4 Siôn Wyn, oes un o Wynedd?  
 Gosawg yr haf, gwisg aur rhudd,  
 Gwalchmai, 'r edn, gwalch Maredudd;  
 Rhyw Ieuan dewr, yr hen daid,  
 8 Rhobert un, rhyw Brytaniaid.  
 Tad i dad teidiau a wn;  
 Ti o'r undad â'r Trwyndwn.  
 Pymthecllwyth yw'r tylwyth tau;  
 12 Pand dy waed fu i'r penteidiau?  
 Llew Ieuan wyd o'r llwyn ir,  
 Llwyd, o had holl deheudir.  
 O'th fonedd ni thyf anwr;  
 16 Wyt un gwych â ffortun gŵr.
- Pand dy wenllys, pwynt winllawr,  
 Print i'r Mwnt? Prynud dir mawr.  
 Trefnaist, adeilaist bob darn,  
 20 Tŵr Gwedir tir Hu Gadarn.  
 Tai'n un ywch tan nen uchel;  
 Tano mae tŷ i win a mêl;  
 Tyrau i fwg, bentwr o fain,  
 24 Trwy'i brig tua'r wybr, ugain.  
 Ai llai sylfaen, llys seilfawr,  
 Lleia' i'th gwrn no llwyth i gawr?  
 Pa blas lle daw pawb i wledd?  
 28 Plas Siôn, siampl sy i Wynedd,  
 Lle aml seigiau'r byrddau'n bêr,  
 Lle maent aml oll mewn tymer.  
 Cawn win at bob cinio i ni,  
 32 Crehyrod, ceirw o'r 'Ryri.  
 Ni rôl'r can ar war Conwy  
 Gŵr sy fyw, a groeso fwy.

Mae i Elen fraint, molwn fry,  
 36 Merch Goel, Gymro, ywch g'wely;  
 Lloer Morus, lliwrwym urael,  
 Llawenydd holl Wynedd hael;  
 Eluned Siôn Amhredudd,  
 40 Loywliw Non, lawlaw â Nudd.  
 Idwal, Esyllt Elisau,  
 Elen ddoeth o lin y ddau.  
 Ei rhyw hi arglwyddi'r Glyn  
 44 A'r Rhuddallt; da ryw oeddyn'.

Siôn Wyn, wyd Iason un wedd,  
 Sangweinus Owain Gwynedd,  
 Llew 'n iau a'r lliw'n wineuwyn;  
 48 Lliw da yt fydd llwyd o wyn.  
 Tri chyfoeth, wyt dra chyfiawn,  
 A'r tri yw dysg, nort'r a dawn.  
 Llew â gair moes, Lloegr a'i mawl,  
 52 Llaw â theiriaith, llythyrawl.  
 Gwledd Owain Gwynedd a'i gan,  
 Dy wledd ail Dolwyddelan.  
 Pysg Môn ac Arfon a Gwy,  
 56 Penaig gwyn deupen Conwy,  
 Cloch ar wŷr cylch Eryri,  
 Caned, doent nawcant i ti.

Cynnull unllu, cun llawnllwyth,  
 60 Cadw'r rhain cyda Harri Wyth.  
 Cyfraith a heddwch weithion  
 Cadarnhewch cyda'r rhan hon.  
 Rhoud i wylliaid rwyd allan;  
 64 Ymroen' mwy neu eu meirw'n y man.  
 Aech chwi yn frawd ucho'n frau  
 A'ch gwŷr ogyrch i greigiau.  
 Â'th arf awch ni'th orfu un;  
 68 I'ch haearnwisg aech arnun.  
 Un anian yr enynni  
 Â ffair tân o chyffrout ti.  
 A gair yt un o'r gwŷr tau  
 72 Heb weywyr a bwaau?  
 Ni bu 'rriod â bar Eidol  
 Lai ofn dyn â'th leifiau 'n d'ôl.

- 76 Sy gadarn ei rwysg ydwyd,  
 Sy loyw mewn iaith, Salmon wyd.  
 Sy ddoeth iawn, sy dda i'th einioes,  
 Saif i'th ôl sy fyw i'th oes.  
 80 Saif enw i ti, ni safant hwy,  
 Siôn Wyn, cannoes 'Nanconwy.

*Ffynonellau*

A—LIGC 3051D [= Mos 148], 687 B—Card 4.101 [= RWM 83], 34<sup>v</sup> C—  
 Pen 99, 286 D—Pen 101, 210 E—LIGC 3051D [= Mos 148], 738 F—CM  
 12, 131

*Amrywiadau*

1 *BCDF* ..gwledd.. 2 *A* ..y dwysawgwaed 3 *F* ..i Sais.., *A* ..y dop.., *E* ..o.. 5  
*E* ..gwisgi rhvdd, *A* ..rvdd 6 *A* ..gweilch.. 7 *E* ..doeth or hen.. 8 *BCDF*  
 ..dyn.., *A* ..dyn ryw.., *E* ..ryw.. 9 *E* ta i dad.. 10 *BCDF* ti yw r.. 11 *E*  
 ..llwyth ar wellav 12 *AE* ..vvr pen.., *BCDF* ..yw r penn.. 14 *BCDF* ..llew  
 deheudir 16 *A* wyt dyn.., *CDF* ..o.. 17 *BCDF* ..iownllawr, *E* ..vnllawr 18 *A*  
 o print yr mwnt.., *BCF* ..mownt.., *E* ..maes prenav twr.. 19 *AEF* ..adeilieist..  
 20 *E* ..tir i gadarn 21 *E* ty yno gwnaeth.., *BCD* ..vwch.., *A* ..vwchel 22 *A* ..i  
 mae.., *E* ..ty win.. 23 *E* tref fawr ar benn twrr.., *BCDF* ..pentwr.. 24 *E* twr  
 brig.., *F* trwy r brig.. 25 *E* lle sylfaen a llys haelfawr, *F* a..eilfawr 26 *E* lle  
 ith gwr t a.., *F* lleia th gwr t.., *A* ..yth gwr t.., *A-DF* ..na.. 27 *E* ..i daw.. 28 *A*  
 ..sampl.., *E* ..ail powls i.. 29 *E* ty aml seigiav byrddav.. 31 *E* ..ar.., *F* ..at ein  
 cinio ni 32 *A-D* keryrod.., *E* kreryrod..yr yri, *F* cryryrod.. 33 *E* ar avr  
 kaw n.. 34 *E* a gwres feirdd pa.., *BCDF* ..ne groeso.. 35 *A-DF* mae elen..  
 36 *A* ..ych gwely, *BCDF* ..koel gymro ch kywely, *E* ..ich gwely 37 *CD*  
 ..llywrwym.., *E* ..lliwrym.., *B-F* ..evrael 38 *ABCE* llywenydd.. 43 *A* y  
 ryw.., *E* ..hi o.. 44 *A* a rvddallt.., *B-F* a rhvddallt.., *BCDF* ..da r rhyw.., *E* ..i  
 rhyw.. 45 *E* ..wynn Jason i wedd, *BCDF* ..siason.. 46 *CDF* sangwenws.., *E*  
 san gwniwns.. 47 *B* ..lliw winevwyn 48 *C* ..sydd.. 49 *E* tri chyfaeth.. 50  
*B-F* y tri..natvr dawn 51 *A-DF* ..gar..a mawl 52 *E* lleith eirir rith lythrawl  
 53 *A* ..a gann, *E* ..a gan 54 *E* yd ail wledd dol.. 55 *E* arfon a gair afon gwy  
 56 *E* penn kenedl.. 58 *E* kaw n yt wyr.., *F* canent.., *A* ..y ti 59 *E* ..vnllaw..,  
*A-DF* ..kynn.., *D* ..llowllwyth 60 *A* kadw r rain.., *E* kadw rhain.., *BCDF*  
 cadw rann.., *CD* ..gida.. 61 *E* kyfiaith..weithian 62 *A* ..kida rann.., *BC* ..kida  
 rhann.., *E* ..ki daran hon 63 *BCDF* rhoed.. rhwyd.., *E* rhaid.rhod.., *A*  
 ..williad.. 64 *CDF* ymroent.., *CD* ..mwr ne i.., *B* ..ne.., *E* ..ne meirw.., *F* ..ne  
 meirw yw eu rhan 65 *E* ewch i.., *B-F* ..yn frwd.., *A* ..vrawd n vraw 66 *E*  
 och gwydr.., *A* ..y greigiav 67 *AB* aeth.. 68 *AE* ych.., *D* ith..aeth.., *F*  
 ath..aeth.., *C* ..aeth.. 70 *D* a phai r tan.. 72 *B-F* ..wewyr.., *AE* ..bwav 73 *A*  
 ..eidiol 74 *E* ..ai.. 75 *BCDF* ..rhwysc.. 77 *F* ..sy dda th.., *E* ..einiones 78 *A*  
 ..yth ol..yth oes 79 *D* ..ni safant, *F* ..i ti safant..



*Moliant Robert Salbri, y Rug*

Pwy'r dur da? Pwy'r dewr a doeth?  
 Pwy o Rug? Y mab breugoeth.  
 Pa wiw sôn? Piau synnwyr?  
 4 Piau'r gamp fal pai ar gŵyr?  
 Mastr Robart, fowart tra fych  
 Dros lu brwydr, Salbri ydych;  
 8 Iustus gwiw, ys da 'sgwier,  
 Nothr o'th ben a'r teiriaith bêr.  
 Eured dy war; rhout dy win;  
 'R hyd dy fron rhoed dy frenin.  
 12 O dair rhodd, yn dŵr rhuddaur,  
 Y dylûd ddwyn dôl o aur:  
 Dyn doeth gwych, dawn Duw i'th garn,  
 Dewr â chodiad tra chadarn.

16 Dy deidiau, da waed ydynt,  
 Ieirll, a gwŷr mawr Lloegr ym ŷnt.  
 Bonedd Dwy Wynedd, dydd daed,  
 Brytaniaith, Robart, henwaed.

20 Syr Gei'r Mars ar Gaer a Môn,  
 Siryf, eryr, sir Feirion,  
 A siri wyd i'r sir wych  
 Sy radd iawnbarch, sir Ddinbych.  
 24 Siroedd ffordd y'u mesurwyd,  
 Siwel a braint, Salbri, wyd,  
 Salmon gyfion a'i gyfoeth,  
 Sêl yw d'air i'r cwysel doeth.  
 28 Ateb a roech at y brig;  
 Hwyr atebai ŵr tebyg.  
 Ym mhob dowt mab od ytwyd,  
 Ym mhob sir mwya'i bwys wyd.  
 Y stiward iarll—nos da i'r dyn!—  
 32 Harri Wyth wyd i Ruthun,  
 A pha rent o'r dyffryndir  
 Na bai rent ywch fal Braint Hir?

36 Ar dy fater, dof ytwyd,  
A'i orffen, ddewr, ffynnu 'dd wyd.

Hapiai anap i wannwr,  
Ym mhob pwynt mae hap i wŕ  
Am roi o Dduw 'rhawg mor ddoeth  
40 Ywch wreigdda wych rywiogddoeth,  
Robart hael, teirbort teulu,  
Â Chatrin, ferch tēym fu;  
Merch Siôn, eurferch synhwyrfawr,  
44 Wisg aur, merch ysgwïer mawr;  
Llin o dwysoglin hyd Sedd,  
Llin genedl Llŷn a Gwynedd.

Dy dŷ, Robart, da dribwrdd  
48 I roi i bawb bryd ar bob bwrdd,  
Plas y tad,—pa lys i ti?  
Pa wŕ selbraff?—Pirs Salbri.  
Barwn doeth lle bu'r hen daid  
52 Bro Dyfrdwy, bro dy fawrdaid,  
Prynech hwn, pryn ychwaneg,  
Gwledd-dai'r taid, arglwydd-dir teg.  
Ni roi mwy ar erwi mân  
56 Eithr cyfoeth a thir cyfan.

Cefnog iaith fywiog o'th fin  
Carbron pob mainc i'r brenin.  
O rhoist dadl, er a 'studien',  
60 Dyn byw wyd i'w dwyn i ben.  
Os d'allu, os daw wellwell,  
Oes gair un ysgwïer well?  
Os dewr, tradewr, traw ydywch,  
64 Dewr, Uthr, a dewr wrth raid ywch.  
Os odidog, sad ydwyd,  
Os hael brau, da, Salbri, wyd.  
Os Duw sy ben iustus byd,  
68 Duw cynnail bob da cennyd.  
E bair d'air, Robard wrol,  
I chwi air, dyn gwych, ar d'ôl.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14875 [= RWM 30], 215<sup>v</sup> B—Pen 100, 380 C—Pen 101, 227  
D—Bodewryd 1, 328 E—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 444<sup>f</sup> F—J 140 [=

RWM 15], 68 G—J 101 [= RWM 17], 591 H—BL Add 14901, 14<sup>r</sup> I—Llst 133, rhif 121 J—BL Add 31090, 19<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

1 *AF* pwywr dvr dvr., *BHIJ* ..da pvr dewr., *DEG* ..dur pur dewr., *C* ..da pur dewr doeth, *F* ..pwy yw r dewr doeth 2 *A* ..pregoeth 4 *BCDHIJ* ..fal pab ir gwyr, *EG* ..val perl gwyr, *F* ..ar y gwyr 5 *EFG* meistir., *HI* mal., *BCHIJ* ..fowrwart.. 6 *BCHIJ* tros.. 7 *A–J* ysdys.. 8 *B–EGHI/J* noter oth benn tair / dair., *F* notter oth benn or.. 9 *BCHI* ..rhoid., *DEGJ* ..rhoed.. 10 *EG* hyd.. 11 *EG* od ai r rhodd., *J* ..dur.. 12 *A* y dylavd., *BCDHIJ* y dyli wisg., *F* y dylu ddwyn dol dda aur 14 *F* tewr., *HJ* ..rhodiad tra cadarn 18 *EGJ* brytanieth., *B–EG–J* ..iawnwaed 21 *A* ..sirif., *F* ..yr sir.. 22 *C* ..iownbarch ddinbych 23 *A–J* ..i mysyrwyd 24 *EG* ..y braint.. 25 *A* ..sy gyfoeth 27 *F* ateb a rhoi dowt i brig, *BCEG–J* ..roid., *D* ..Roid.. 29 *AF* ..mab o dytwyd 30 *F* ..mwywa bwys.. 31 *B–J* + *i*, *B–J* ystiwart.. 32 *EG* od o radd wytti rythyn, *BCDHIJ* ..wyt.. 33 *D* ..Rent., *A* ..rend oi., *EG* ..oi., *F* ..renti o ddyffryntir 34 *EG* na boi rhent hwy val., *F* na bo rhent vwch., *A* ..be rrent., *BCDHIJ* na bo rhent it., *HJ* ..fab.. 35 *EG* er.. 37 *EG* o hapie anap i anwr, *BCHIJ* ..i anap i anwr, *DF* ..anwr 39 *EG* ..roi dduw., *F* ..dduw wr., *G* ..rhag.. 40 *D* ..Rowiogwddoeth 41 *F* ..teirbert.. 42 *F* ..a fu 43 *A* ..synhwrfawr 44 *B–EG–J* a wisg., *F* ..merch i sgwier.. 45 *BCDHIJ* hon o dwyssogion., *EFG* ..dwyssogion., *A* ..hyt.. 46 *EG* ..llyna., *F* ..llun.. 47 *EFG* dy dv.. 48 *EG* i roi bawb., *J* Roi., *B–J* ..bwyd.. 49 *B–J* ..palis., *B–EGH* ..itti, *F* ..y ti 50 *B–J* ..seilbraff.. 51 *EG* ..llel by r., *BEG–J* ..hendaid 52 *A* ..dyfrdw., *BCDI* ..bro stiwardiaid, *F* ..brodur fowrdaid, *H* ..Dyfrdw stiwardaid, *J* ..dyvrddy stiwardiaid 53 *B–EG–J* ..prynv chwaneg 54 *BCDHIJ* gwledd dvr taid., *F* gwleddair.. 57 *EG* ..fwrog.. 58 *BCDHIJ* ..nai car y brenhin, *E/G* ..pob min / mai kar brenin 59 *B–EG–J* or rest dadl hir astudien, *F* ..hir astydien 60 *BCHIJ* ..wyt yn., *DEFG* ..yn., *A* ..yw.. 62 *A* os., *J* ..gwell 63 *EG* ..draw., *BCHIJ* ..tra ydych, *DEFG* ..ydych 64 *A* dewr i vthr., *BCDHIJ* nid dewr wrth wan dewr wrth wych, *EG* dewr wrth rai dewr, *F* ..vch 65 *B–J* + *ii*, *EG* [65–6] 67 *A–J* ..ysdys.. 68 *B–EG–J* ..kynnal., *F* ..pob.. 69 *B–EG–J* heb air dair Rhobart..

*i*

Ni roech i gas ir rhoi ch gwin  
oth law ti fyth led ewin

*ii*

Doeth wyd pob da ath edwyn  
os doeth wyd ysda iaith dyn

*Awdl foliant i Domas Mostyn*

- Tri chawr Rhodri Mawr a'i dir maith,—tair rhan,  
     Tri iawnwaed Brytaniaith,  
     Tair rhan yn un trown, ein iaith,  
 4      Troed teulu y tair talaith.
- Rhyhir dilyn rhyw'r dalaith  
     Tad i dad, teidiau *a* aeth;  
     Ni weddai ynn ddwyn heddiw'n ddoeth  
 8      Ond dwyn i'w wlad dŷ neu lwyth.
- Teŷmllwyth dylwyth, delen'—yt gotârms  
     Pymtheg tŷ uwch Hafren;  
     Troed yr enw trwy dai Rhonwen,  
 12      Tomas, d'enw hwnt, Mostyn Hen.
- Meistr Tomas, Rhun Bras, mab Rhisiart,—Baladr,  
     Beli 'mlaen y teirgwart,  
     Ysgwier, gwisg aur a gart,  
 16      At garbwncl Tegau Herbart.
- Herbart, dri Edwart Drydydd,—Wesmestr sail,  
     Oes Meistres Siân Gruffudd;  
     Holl gronig Lloegr a'i henwydd  
 20      I Gymraes, holl Gymru, sydd.
- Llin Cymru frenin o fron—hen Esyllt  
     Yn oesoedd twysogion;  
     Llin merch Eigr, llwyn marchogion  
 24      I'r llew sydd a'r llewes hon.
- Llew Gloddaith lle gloyw addurn,  
     Llew Hywel â'r llu hëyrn;  
     Llin Ieuan Fychan hyd farn  
 28      Lle bu wingoed holl Bengwern.
- Pen bonedd Gwynedd, mae'n dy gylch—Powys,  
     (Piau'r llwythau difylch?)

32 Pe dôi'r gad pwy draw a'i gylch?  
Pen Tegeingl a'u pont ogyrch.

Ti yw'r pen-perchen parchus—ar dy wledd,  
Tau eistedd: wyt iustus;  
36 Tymerwaith wyt myrr a thus,  
Ti o wryd Saint Iorus.

Tomas, Saint Tomas a'r Tad—goruchel  
I'ch gadel, wych geidwad;  
Torrech wenwyn trwch, ynad,  
40 Triagl ywch, rhwng y tair gwlad.

Tair gwlad, dad i dad, hyd Wy,—tros wŷr mawr,  
Teirsir Môn hyd Ddyfrdwy,  
44 Ti, 'r undyn, math Trwyndwn, mwy  
Twysog hen tai Is Conwy.

Macwy Is Conwy, esgynnawdr—tradoeth,  
Rhodder, â chyfoeth, ar ddrychafiawdr;  
Eurer dy war, nêr, Anarawd—Rhodri,  
48 O'i emau, Harri, *ein* amherawdr.

Marchog tywysog, twysawdr—byddinoedd,  
Un teyrn oesoesoedd, ein tyrnasawdr;  
52 Llew Môn, Caerllion, llywiawdr—cyfraith Eingl,  
A llewod Tegeingl, llew wyt, dygiawdr.

Llŷr Llediaith paswaith, campusawdr—campau,  
A Lloegr a'i moesau llew grymusawdr;  
56 Llewpart, llew Rhisiart, llaw rysawdr,—rampant,  
Galant llew pasant, llaw hapusawdr.

Llew pwys mainc Ysbwys, cosbawdr—uwch eu pen,  
Llaw â'r wialen, llew reolawdr;  
60 Herwyr, llai drethwyr, llywodraethawdr—clau,  
Llai drais hyd angau, lleidr ostyngawdr.

Llawr cledd i Wynedd, byddinawdr—batel,  
A llywydd uchel, holl heddychawdr;  
64 Holl galon beirddion, barddawd—*Rhuon* gynt,  
I roi aur uddynt, a'u harweddawdr.

- Y llys rydd beunydd, derbyniawdr—pob to,  
 Duw a'th gynhalio, doeth gynheiliawdr;  
 68 Plasau sy olau, seiliawdr—pedeirlllys,  
 A'u tir, a'u dilys, tau, 'r adeiliawdr.
- Llawenaf, haelaf gwin heiliawdr,—Gwalchmai,  
 Holl win, o delai i'ch llaw, 'n dalawdr;  
 72 Llywied Crist, croesed Crist Croesawdr—un gŵr  
 Lle 'dd âi yn oeswr llwyddianusawdr.
- Gwaed o'r gwin Brenin Brynawdr—ar Groes wŷdd  
 Heddiw a pheunydd d'amddiffynnawdr;  
 76 Trindod fydd trosod, hir, oesawdr,—gynnal,  
 Tair rhan y Greal, Tri Un Greawdr.

Tri chawr Rhodri Mawr, &c.

*Ffynhonnell*

LIGC 3027E [= Mos 96], 337

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..ownwaed.. 6 ..teidiau aeth 7 ..yn ddwyn.. 8 ..y wlad.. 17  
 ..Westminster.. 20 y Gymraes.. 21 ..Cymry.. 24 ..llawes.. 33 ..yw pen.. 34  
 ..wyt i ustus 47 ..Anarawdr.. 48 ..yw n amherawdr 63 ..ruon.. 70 ..delai ch  
 llaw.. 76 ..creal..creawdr..

*Moliant Huw Conwy, Bryneuryn*

- Pwy sy farc rhag pwys o fôr?  
 Pobl Wynedd, pwy eu blaenor?  
 Hebog adeiniog hyd Wy,  
 4      Hawc o Wynedd, Huw Conwy.  
 Lloegr a wyl y llew gar allt,  
 Llew bronwyn, lle bu Reinallt.  
 Hwde'r gair drwy gywiriaid;  
 8      Hwde, dwg fal Huw dy daid.  
 Pwy'n gadarn? Mae'r pwys arnoch.  
 A phwy oedd gynt? Gruffudd Goch.  
 Marchudd waed, mae awch o ddur,  
 12     Mwy d'urddas am waed Iarddur.  
 Dy waed mawr o deidiau mam,  
 Da dilys o'th daid Wiliam.  
 Saf ar welch, sefy i roi'i win,  
 16     Secer wybr, os cyw Robin.  
 Dyma waed Deau a Môn  
 A Dwy Wynedd: had Einion.  
 Saith lu dros Gymru a gaf  
 20     Salbriaid dros hil Briaf.  
 Llwythau â gwaed ieirll i'th garn  
 Lle gorau gwaed Lloegr gadarn.
- Y griffwn wyd neu gorff Nudd,  
 24     A'th riffes o nyth Ruffudd.  
 Os gwawl a'i had dros Goel hen,  
 Oes dros wawl Meistres Elen!  
 Mawr y rhoed i Gymro 'rhawg,  
 28     Eich rhodd, ferch o'r ddau farchawg:  
 Ystanlai, stil tri Wiliam,  
 Stil eurlliw mil ieirll ei mam.  
 Dwy arglwyddes doe i'r gwleddoedd:  
 32     Dâm Siân; dawn Dâm Sioned oedd.  
 Henwaed o'r ieirll hon a dring;  
 Nos da i'r hoedlwaed, Ystradling,—  
 Nith Harri gynt â thair gwart,  
 36     Winsor waed hen Syr Edwart.

Penrhyn hael, pen rhan hilient,  
Pen bonedd Gwynedd a Gwent.

40 Barwnwaed dy waed dy hun,  
Barwn eurwaed Bryneuryn.  
Bywyd tair mil, bwyd tair mwy,  
Bara can brau Huw Conwy.  
44 Sewer i'th blas arferol,  
Sew a gwres seigiau ar ôl.  
Tri waetier i'r tŷ'r ytwyd  
Ar dri bwrdd i ordrio bwyd.  
Tri llyn o fêl, trallawn fydd,  
48 Trilliw win, tra llawenydd.

Glain aur, Huw, wyd, glân yrhawg,  
Glân yw'r rhyw galon rhywiawg.  
52 Prynaist, mynnaist bob maenawr,  
Parcau; ys mwy'r pwrcau mawr.  
Yr hen lloer fydd rhai'n lleihau  
Eu rhent wedy'r hen dadau.  
56 Lloer newydd lle'r â nawoes,  
Llyna'r dydd llawn ar dy oes.  
Môr y'ch cawn ym mraich Conwy;  
Eithr y môr ni threia mwy.  
Rhed i fyny'r rhod fannawg;  
60 N'ad Duw i'r rhod atroi rhawg.  
Naid ymlaen (nid mal anwr)  
Yn llew gwych er ennill gŵr.  
Ni ofnud drin neu fan trwch,  
64 Ni wnaud dyddiau ond heddwch.

Eurir torch a roer i ti  
O waith eurych Wyth Harri.  
68 Marchog fych, marchoga fwy,  
Moes draw, cawn, Meistr Huw Conwy.  
Cryfder Arthur i'th guras,  
Cwrtais hir, cawr at y sias;  
72 Gŵr gwaywffyrf o Gaergyffin,  
Gwychder draig uchod i'r drin;  
Gŵr â chan gwayw, gwreichion gwn,  
Gwrolaeth Gei ar aliwn;  
Gŵr o ddawn uwch no gradd neb,  
76 Graen da i'th ddawn, grwn doethineb.



80

Gwrolder megis eryr,  
 Gŵr yn dal gwaith, grwndwal gwŷr;  
 Gŵr i wisgo, aur ysgwyd,  
 Gardas aur, gŵr dewis wyd.

*Ffynonellau*A—Llst 123, 77 B—LIGC 6681B, 309 C—BL Add 31090, 95<sup>v</sup>*Amrywiadau*

1 *B* ..farc pwy sy for 2 *B* ..wyned pwy blaenor 5 *AC* ..wyl llew., *B* ..ger.. 8  
*B* ..a dwc.. 10 *B* ..rvffvdd.. 11 *B* ..maer awch.. 15 *ABC* ..sef i roi win 16  
*AC* sacer., *B* sabyr wybyr dros gyw.. 18 *B* ..vnion 21 *B* ..or gwaed.. 24 *B* a  
 thriffeth oth nyth.. 27 *B* ..i roed.. 28 *B* ych rodd.. 33 *B* ..hen a., *AC* ..a  
 ddring 34 *B* ..henwaed.. 35 *B* ..geint.. 37 *B* ..havl pen pan.. 40 *B* ..evraid  
 bron.. 41 *B* bwyd..bowyd tri.. 44 *AC* sy a gwres.. 45 *B* ..watier.. 46 *B* ..yn..  
 48 *B* ..tri llywenydd 50 *B* ..yw ryw., *C* ..yw rhyw., *B* ..rowiawc 51 *B*  
 ..manawr 52 *ABC* parciav., *B* ..is mwy pwrkas.. 53 *B* ..fvr hai.. 54 *B* yr  
 rend..deidiav, *ABC* ..wedi., *AC* ..tadav 56 *B* ..yr dydd llawen yn does 58 *B*  
 ..threio.. 59 *B* ..fynv rhod.. 60 *B* ..i rhod ddattroi.. 62 *B* ..ynill.. 63 *B*  
 ..ofvd.. 65 *B* avr ir torch.. 67 *B* march fydd.. 72 *B* ..i drin 73 *B* ..chan  
 gwaw gwn, *C* ..rhangwayw.. 74 *B* gwrolieth.. 75 *B* gwr a ddaw yn vwch..  
 76 *AC* ..grownd.. 78 *B* ..dala., *AC* ..y gwaith.. 80 *B* gardys..

*Moliant Wiliam ap Wiliam, Cwchwillan*

Y llew uchel o'r llechwedd  
 Lle dôl lu llewod i'w wledd,  
 Wiliam, lew, helm oleuwawr,  
 4 Ab Wiliam, mab i lew mawr,  
 Gwinwydd, Môn, Gwynedd, Manaw,  
 Gruffudd dros Gaerffawydd draw.  
 Fo wyl pawb yr afal pêr  
 8 O imp Rhobin, mab breuber;  
 Pwmpa i Wynedd, pump henwaed,  
 Pumwaith o'u cyff pymtheg gwaed.  
 Yr eog cryf ar wŷr Cred  
 12 Wyd yn afon Ednyfed.  
 Y grawn glân o gronigl waed  
 Yt sy egin twysogwaed.  
 Hwde o'r Glyn hyd ar Gledd  
 16 Had Einion aeth hyd Wynedd.

Amlach win a mêl a chan  
 No chwellys yng Nghwchwillan.  
 Gwŷr a seigiau gwresogion  
 20 A gair heb rif gar eu bron.  
 Gwin Ysbaen gan osb a wn,  
 Gwin o Fawns gwyn a fenswn.  
 Geiriau teg gan wŷr y tŷ,  
 24 Gwres tân, groeso at hynny.

Gwraig Edyrn, gŵr gwiw ydoedd,  
 Gwawl aur wisg i Lowri oedd.  
 Lili, o Salbri i Sedd,  
 28 Lowri, dawn, loer, Dwy Wynedd.  
 Dyweddi i ferch, dedwydd fam,  
 Da y'i dylych, daed, Wiliam.  
 Rhyw Owain Hen ei rhan hi,  
 32 Rhyw Gloddaith a'i harglwyddi.  
 Wiliam hael yma a hon,  
 Fyth einioes i'r fath ddynion!

Fal llin eog brenhinol,  
 36 Fal llin dy waed, felly 'n d'ôl.  
 Pa Wiliam, mab hael, am aur  
 Pai, Wiliam, Frenin Pelaur?  
 Gŵr oediog i'th gaer ydwyd,  
 40 Gŵr o lys y Greal wyd.  
 Wiliam y tad, helmed dur,  
 Henw a brawd hen Baredur.  
 Gwyl Gwynedd gael a ganwyd,  
 44 Genau llew'r hen Gŵn Llwyd.

Ni'th dry swydd, un, i'th dair sir  
 I roi geuog ar gywir.  
 Ni throi, caid wrth air cadarn,  
 48 Na breib un o bai roi barn.  
 Ni ddowntian' air a ddoetych,  
 Insel yw d'air, Lawnslod wych.  
 Llonydd wyd yn llanw y ddôl  
 52 Lle'ch gyrrir; llew ywch gwrol.  
 Tynni did dy hen deidiau;  
 Tyn i'r allt atun i'r iau.  
 Iawn yt arwain, naturwalch,  
 56 War o fewn aur, Arfon walch.  
 Saf yn ail, sef un aelwyd,  
 Syr Gei ar wŷr sir Gaer wyd.  
 Syr Ffwg, hyder sarff cadarn,  
 60 Selyf un ben, sylfaen barn.  
 Synnwyr a dysg sy'n wir dau  
 Saith Doethion. Os wyth dithau.

Dwg einioes ar dy gynnydd,  
 64 Dwg, sy raid, degoes yr hydd.  
 Nid ai i'th ôl ond i'th elor;  
 Ni wnâi'r mellt enynnu'r môr.  
 Rheded hap yt, rhediad pêr,  
 68 O rhed Teibr at ei haber.  
 Rhod dan haul ffortun, haelion,  
 Ymroi i ti mae'r rhod hon.  
 Drychefaist aur a chyfoeth;  
 72 Dirwyn ydd wyd dir yn ddoeth.  
 Ni roi'n wan er a 'nynnwyd  
 Orddod gŵr; urddedig wyd.

76                    Dechrau at warae y tad,  
                       Dwyn set ar dennis atad.  
                       Dwg y bêl hyd yr elych,  
                       Dybla fet ar dy balf wych.  
 80                    Dod i Wynedd sias heddiw,  
                       Dod Dduw'n borth da, da ddyn byw.

*Ffynhonnell*

LIGC 3048D [= Mos 145], 280

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..yw.. 7 fo wyr.. 13 ..gronicl.. 18 ..yng Hychwillan 20 ..ger.. 27 ..y sedd  
 29 dyweddi ferch.. 30 da i dylych.. 43 ..ganwyd 44 ..yr hen gwynn llwyd  
 54 ..yr iav.. 59 ..Ffwc.. 62 ..oes.. 65 nid ei thol.. 70 ..ti y mae.. 75  
 ..warav.. 78 dyblia..

*Moliant Syr Wiliam Gruffudd, y Penrhyn*

Pa bryns ieirll piau bron Sedd?  
 Pryns gwyn aparawns Gwynedd;  
 Sawden Môn, sef edn Manaw,  
 4 Siambrlen wyd tros Wmbrland draw;  
 Syr Wiliam dros aer Elen,  
 Serloyw 'mhais Syr Wiliam hen;  
 8 Marchog breiniog i'ch brenin,  
 Mae ywch gloi *aur* am eich glin.  
 Maes a wna, rhoi Tems yn rhudd,  
 Maes teirw, griffwnt Mastr Gruffudd.  
 12 Tri enw â phrint o'r un ffrâm,  
 Ti yw'r ail o'r tri Wiliam.  
 Penna' gwaed, penaig ydywch,  
 Pen ar hen waed Penrhyn ywch.

Aeth i fro Wynedd heddiw  
 16 I chwi'r un ferch orau'n fyw:  
 Iarlles, arglwyddes gwleddoedd,  
 Iestyn wlad, gost aml oedd.  
 Oes gras arglwyddes o Gred?  
 20 Oes! Siân Arglwyddes Sioned.  
 Oes frenin ond llin a llwyth  
 Ystradling, Wesmestr waedlwyth?  
 Is yw *dugiaid*, os dygant,  
 24 No thras hon, nith Harri Sant.  
 I'r lle'i rhoed a'r iarll yrhawg  
 Rhoed Esyllt i'r rhyw dwysawg.  
 Sioned, ferch Cing Siôn hyd fedd,  
 28 Arall, Siân, iarlles Wynedd.  
 Ni châi Elen, ni choeliwyd,  
 Ferch Goel y rhyw farchog wyd.

Tair talaith yn un weithion,  
 32 Tair gwledd maent yt, arglwydd Môn;  
 Tair gwlad danad hyd unawr,  
 Tair o dir maint Rhodri Mawr.

36 Nid cyfyl un duwc hoywfalch  
 Na'i dir yt, na dryw i walch.  
 Gwiall oeddynt arglwyddi  
 Neu frwyn, doen' gar dy fron di.  
 40 Blagur oeddyn' ble'u gwreiddiwyd;  
 Braens pêr o bren seipr wyd.  
 Gwaed Lloegr ywch yn goed di-dal,  
 Gwydr yw eich gwaed rial,  
 A'th fonedd aeth o Fanaw,  
 44 O lan Trent i Sgotland draw.  
 Maent hwy yn naint mân tan un;  
 Mor chwyrn â'r môr ywch arnun.  
 A'th filiodd y mae'n soddi;  
 48 Fo wyl dŵr o'th filio di.  
 Gallwch ei ladd. Gwell ywch luddias.  
 Gadwch y cwymp gyda'ch cas.  
 Pa uchafymddrychafant  
 52 Uwch yw'r cwymp. Yn chwerw y'i cânt.  
 Mae rhai mewn ing 'mron angau.  
 Ai drwg ar hyn drugarhau?  
 Chwi yw'r gwalch. Ewch ar y gwynt.  
 56 Mwsgedau i'ch mysg ydynt.  
 Mal llew wyd glew. Hwde glod.  
 Mil âi'n rhugl mal wŷn rhagod.

60 Lle'r âi *i* ynys llu'r wennol,  
 Llauer dug ac iarll ar d'ôl.  
 Sain Siôr gynt â siawns i'r gwaith;  
 Syr Wiliam Sain Siôr eilwaith.  
 Bu dy lid bw hyd Lydaw;  
 64 Bu yn dy ras Ysbaen draw.  
 O thiriwyd lle'r aeth Harri,  
 Nid aeth dug ar dy waith di.  
 Ni thrawodd â'th wyr *ieuainc*,  
 68 Iarll na phryns, wŷr well yn Ffrainc.  
 Od aeth ofn hyd eithafoedd,  
 Yr ofn ywch ar Rufain oedd.

72 Pas o gadarn, pysg ydwyd,  
 Pas o rent; eu pwyso'r wyd.  
 Pas o wŷr rhif pwy sy 'rhawg,  
 Pas o feirch pwy sy farchawg.

- 76 Pas o'ch cost, hapus y'ch caf,  
 Pas bonedd pwy sy bennaf.  
 Pas o urddas pais eurddail.  
 Pa syr uwch? Nis pasia'r ail.
- 80 Pas holl Gred, pwys Lloegr ydych,  
 Pe i'm oes bas, pumoes y bych!

*Ffynhonnell*

LIGC 16B, 19

*Amrywiadau*

1 ..brins.. 2 prins.. 8 mae vwch gloi am.. 13 ..yduch 14 ..wuch 23  
 ..digiaid.. 24 na.. 25 ..lle rhoed.. 26 ..dwssawg 32 ..mae it.. 34 ..maent  
 Rhydri.. 36 ..it.. 38 ne fwyn.. 40 brains.. 42 gadr..reial 45 ..mau tan.. 46  
 ..vwch.. 47 ..maen yn.. 49 gellwch.. 50 gedwch.. 51 ..vcha.. 52 ..i kant 53  
 ..miawn ing.. 56 ..iw mesg.. 59 lle rau ynys.. 61 ..iw r gwaith 64 ..Spaen..  
 67 ..ifaink 68 ..ffrins.. 70 ..vwch..

*Marwnad yr Arglwyddes Siân*

Y ferch âi, 'r Gras, freichiau'r Grog  
 O dŷ erchwyn aurdorchog,  
 Mae sôn byth am sy'n y bedd  
 4 Marw Siân, Marsia o Wynedd.  
 Mae hiraeth, mal mab maeth, mam,  
 Oes drwy wylo Maestr Wiliam.  
 Ymroi *i* wely marwolaeth;  
 8 Briod wŷyr Iarll Harbard aeth.  
 Marw—och cwyn!—wŷyr marchog call,  
 Merch, ac wŷyr marchog arall;  
 Merch agos o'r marchogion,  
 12 Mwya'i rhyw fu 'Nghymru hon.

Duw'n dwyn—pam na edid ynn?—  
 Y bu anrhaith o Benrhyn,—  
 Angau 'n ôl Degau digoll  
 16 O i wrth Dduw anrheithoedd oll.  
 Duw a'i gelwis, waed Gwilym;  
 Duw 'r byd dwys nid arbed dim:  
 Dwyn griffes o edn Gruffudd,  
 20 Dwyn o fewn côr dan faen cudd.

Syrthioedd lle duoedd Dwywent  
 Seren tir siambrlen tros Went;  
 Duo Lloegr waed a holl Gred;  
 24 Du yw nifer Ednyfed.  
 Llefain dwys, llif Noe a'i dwg,  
 Llef ar gŵyn holl Forgannwg.  
 Dagrau, hyd ruddiau a dring,  
 28 Sy draw hidlaid, Ystradling.  
 Arglwyddes Siân a r'gladdent  
 O dŷ'r ieirll Harbard ar Went.  
 Siân, fry 'n hynys frenhinwaed,  
 32 Sy dan lawr, Ystanlai waed.  
 Ar elor mae wŷyr Wiliam  
 Ym mraich côr, y Marchog Cam,



36 Gwawl ddwysfawl arglwyddesferch,  
Siân draw, mal Casandra, 'i merch.  
Seren, i siambrlen nosáu,  
Draw sy dywyll dros Deau.

40 Chwarae ag angau nid gwiw;  
Rhy gadarn yrhawg ydyw.  
Duw sydd, fâl disïau iddaw,  
Ar ennill oll i'r un llaw.  
44 Gwae Ddwy Wynedd, gwaedd union,  
Gladdu merch o Arglwydd Môn.

Mae i hon fab am hen fanc:  
Etifedd, Harbart ifanc.  
48 Y mae, 'n fab, am wyn ei fam  
I chwi dâl chweched, Wiliam:  
(Tri o Wynedd, tŷ'r henieirll,  
Tri o Went, penna' tŷ'r ieirll;  
52 Pen llwythau Deau, Dwywent,  
Pen bonedd Gwynedd a Gwent.)  
Duw a wŷl adu Wiliam  
Oni fo iarll. Nef i'w fam!

*Ffynhonnell*  
Llst 164, 130

*Darlleniadau'r llawysgrif*

7 ymroi wely.. 20 ..ceir.. 22 ..dros.. 30 or ty..herbart.. 34 y mreuch.. 39  
chwarav.. 40 ..ydiw 41 ..vel dissav yddaw 48 y chwi.. 54 ..yw..

*Moliant Edward Gruffudd, y Penrhyn*

Oes eryr rhos â'r aur rhudd?  
 Oes draw griffwalch? Meistr Gruffudd.  
 Mae edn gwalch, mae dawn a gwedd,  
 4 Merliwn gwyn siamrlen Gwynedd.  
 Mawr y'ch caf o'r marchog gwyn,  
 Meistr Edwart, am oes tridyn:  
 Tri Wiliam tŷ rialaer  
 8 Wedy'r Tri Edwart i'r aer.  
 Sut gŵr o'r cwnwerwr Cam  
 Sy ar aelwyd Syr Wiliam,  
 Pen i'r hen lys, Penrhyn wledd,  
 12 Pen caer gwin, pencarw Gwynedd;  
 Preutur Siôn Môn a Manaw,  
 Perl a maen trwm parlment draw.  
 Pum llin henllin brenhinllwyth,  
 16 Pumwaith gwell hil pymtheg llwyth.  
 Tair helmed Ednyfed naf  
 Targed ywch, tŷ'r gwaed uchaf.  
 Glin yt fydd, galont i Fôn,  
 20 Gartr ac aur gŵr tŷ'r goron.

Ni ddaw gwaed newydd godi  
 —Tawed hwn!—at dy waed di.  
 24 Uwch wyd o ris; iach a dring  
 Ystaer waedlwyth Ystradling  
 Lle gwreiddfawr ieirll a'u graddfainc,  
 Llwyth gorau ffrwyth Lloegr a Ffrainc.  
 28 Drwy waed Tri Edwart a'r rhos,  
 Dwysogwaed, yd sy agos.  
 Gwaed dugiaid eich gwaed dygent,  
 Gawg aur Morgannwg a Gwent.  
 Gwaed Harbart yn goed hirbell;  
 32 Ba waed ieirll yn y byd well?  
 Dy waed uchel, da dichon  
 Daly o'th waed y dalaith hon.  
 Dy dir taid, Edwart, yw hwn:  
 36 Tir i hendad y Trwyndwn.

O 'mwichiai rhai am eich rhent,  
 Mae achos nad ymwichient.  
 On'd Harri Mwnt, tarw, a'i medd?  
 40 Wyt iarll enw tir holl Wynedd.  
 Y maen trwm cyn eu mynd draw  
 A dybiasen' dy bwysaw.  
 Ni'th bwysir, ys gwir, was gwyh;  
 44 Ar dri modd rhydrwm oeddych:  
 O nerth gwŷr neu aur i'th garn,  
 Achos gwaed, chwi sy gadarn.  
 Pa rai 'n y gwynt, mal pren gwan,  
 48 Eisiau gwaed yr ysgydwan'?  
 Y ddâr wyd o'r ddaear ir  
 Sy gadarn. Ni'th ysgydwir.  
 Rhoi 'sgwyddau, mal rhwysg eddi  
 52 Wrth y tŵr maen, wrthyt ti,  
 Ti a'u blinut, y blaenawr;  
 Nerth dirym ŷnt wrth dŵr mawr.  
 Ni bydd twyll lle byddut ti  
 56 O'th fod, dŵr Wythfed Harri.

Obry y clywch, aber Cledd,  
 Gloch Môn, Gwalchmai o Wynedd.  
 Trychan tarian anturiynt,  
 60 Trychan cledd, ieirll Gwynedd gynt.  
 Trychan gwayw trowch yn y gwaith,  
 Taro 'mlaen teirmil unwaith.  
 Y môr oll o 'mry allan,  
 64 Y naint a fawdd; maent hwy'n fân.  
 Môr dwfn mawr wyd a ofnir;  
 Mor draws d'ofn â môr dros dir.

Ni chyingain i'r ych wingaw  
 68 Wrth y draen a'r ierthi draw.  
 Tyn dy rwn tan waed Ronwen,  
 Tyn o bwyll atun i ben.  
 Moes roi dydd am hasard aeth  
 72 A moes dis am iustusaeth.  
 O chai'r dis, chwarae dy waith,  
 Na choll hwn o'ch llaw unwaith.  
 Bwrw maent heb rym yntun;  
 76 At y bwrdd ni'th etyb un.

- A ddotont a ddaw iti  
 A gwitia oll d'erygd di.  
 Pand tydi fal pont hyd fedd  
 80 Pan yw'r un pen ar Wynedd?  
 Pen yn lle siambrlen a saif,  
 Pen hwy einioes pen-hynaif.  
 Penrhyn caiff wyn a phennaeth;  
 84 Pen Gwynedd wen gan Dduw aeth.  
 Pen wyt, Edwart,—pond Tewdwr?—  
 Penrhaith tra fo pen ar wŷr.

*Ffynonellau*

A—Llst 164, 147 B—Card 2.630 [= Hafod 20], 110<sup>v</sup> C—Card 5.44, 213<sup>v</sup>  
 D—Llst 134, 203<sup>v</sup> E—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 418 (*collwyd  
 rhannau o'r testun ar ymyl y ddalen*) F—LIGC 6511B, 158 G—LIGC  
 13061B, 228<sup>v</sup> H—BL Add 31090, 34<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

1 *AH* ..ros..rudd, *B-H* ..o aur., *C-F* ..Rydd 2 *B-H* ..griffwallt., *CD* ..y  
 maestr.. 4 *A* ..siambrlenn., *C-F* ..marliwn.. 5 *D* ..kof.. 7 *B-F* ..tri Riolaer, *H*  
 ..tri., *G* ..Riolaer, *H* ..riolaer 8 *H* wedi., *A* wedi.yr aer, *B-H* ..yw r aer 9 *G*  
 syt wr or kwmkwerwr.. 11 *A-H* ..yr hen., *A-G* ..penryn.. 12 *CE* ..gwnn..  
 13 *AG* pretur., *B-EH* prester., *F* presten.. 15 *B-H* penn llin..vrenhinllwyth  
 18 *E* targed yw., *A* ..vwch., *G* ..ywchaf 19 *B-H* ..vardd.. 20 *A* gart.. 23  
*CE* ..ras., *E* ..ach.. 27 *BCE-H* trwy., *D* trwy waed hir., *A* ..ar ros, *B-H* ..a  
 Ros 28 *BFGH* twysogwaed yt., *CDE* twysogion yt.. 30 *D* gwaed.. 32  
*BEFH* ..jarll.. 33 *BDGH* da waed., *G* ..ywchel., *A-H* ..da i.. 34 *B-H* dalyth  
 oes.. 35 *CDE* ..tad., *B* ..Edward.. 36 *D* tir o., *E* yw tir hendad.. 37 *AH* om  
 wychiei., *C-G* om wichai., *BFGH* ..rai., *AB* ..rent 38 *A* ..nag ymwychient,  
*B-G* ..ymwichent, *H* ..ymwychent 39 *CDE* ond tarw mwnt Harri., *F* ond  
 tarw ai mwnt harri.. 40 *G* wyd.. 42 *CF* a dy basen., *D* a dybasyn.. 43 *B-H*  
 ..ysgwir.. 44 *FGH* ..rydrwm.. 45 *G* ..gwyr nad yth garn, *A-FH* ..yth garn  
 47 *AG* ..rhai., *B-FH* ..val., *G* ..vel.. 48 *A-EG* eisav., *F* ysai., *H* aesau., *B-  
 H* ..ir ysgydian 49 *B-H* [49-50] 51 *G* roi., *B-FH* ..val., *G* ..vel., *H*  
 ..rwyg.. 53 *BGH* ..blinynt.. 55 *A* ..llei.. 56 *B-G* oth vodd twr.. 57 *D* obry  
 klywch hyd.. 59 *BCDFH* ..entiriynt 60 *G* trych kledd., *D* ..gwledd iarll.,  
*EF* ..iarll.. 61 *C* 62-61, *B-H* ..gwaew gwyn., *A-H* ..trewch.. 63 *BH* ..oll  
 cymry., *G* ..oll ymry.. 65 *AG* ..dyfn.. 66 *E* mor traws dwfn val mor tros dir,  
*BCDFH* ..dwfn., *G* ..dyfn.. 67 *A-H* ..yr ych., *A* ..wingiaw 68 *C-H*  
 ..jerthv.. 69 *BCDF* ..Rwnn., *E* ..rwm.. 71 *A* ..rhoi., *FG* ..dis., *B-EH*  
 ..dis..hasart.. 72 *C* ..jestysaeth 74 *H* ..och law.. 75 *CDE* ..i maent.. 76 *AF*  
 ..atteb.. 77 *B-FH* ..yti, *G* ..ynti 78 *A* e., *B-H* ..gwita.. 79 *CE* pond., *G*  
 ..vel.. 80 *B-H* paen., *C* ..yw r ail.. 81 *C* ..yn llv., *B-H* ..siamrlenn.. 82 *G*  
 penn hwn., *A-G* ..einoes.. 83 *ABCFGH* penryn.. 85 *DE* ..pont.. 86 *B* penn  
 raith., *CDE* ..try vo..

*Moliant Rhys Gruffudd, y Penrhyn*

- Mae sôn byth am sy 'n y bedd.  
 Mae'r llew gwyn am iarll Gwynedd?  
 Duw o Gymru dug Emrys.  
 4 D'alw Uthr ail i'r dalaith, Rys.  
 Wedy i'w frawd fry ei adel,  
 Uthr, *bu'i* wŵr, ef aeth â'r bêl.
- 8 Gwydr ydoedd gwayw draw Edwart,  
 Gwrdd *i'w* wisg, ar y ddwy wart.  
 Hir fydd ym *anrhyfedd*awd  
 Orfod fry arfau dy frawd.  
 12 Mastr *Rhys*, moes di wau aur *rhudd*,  
 Moes, dwg raffau, 'r Mastr Gruffudd.  
 Gwynedd nid rhyfedd yrhawg,  
 Gwilym eurchwyrn, gael marchawg  
 16 O'r ddau Wiliam urddolion,  
 Ysgwier mawr dros gaer Môn.  
 Ewch gan hoes, farchogion hil  
 Ednyfed, hyd yn nwyfil.
- 20 Yr haf yr aeth yn draethen,  
 Yn llyn o ddŵr, holl Wynedd wen.  
 Wrth ras yr Wyth a'r Iesu  
 Fal hyn i Benrhyn y bu.
- 24 Sy o hil marchog Wiliam  
 Ni fetha fyth, *a'r* fath fam.  
 Rhaid oedd rhoi iarll, rhod a ddring,  
 Rys, drwy waedlwyth rhyw Stradling.  
 Nai wyd iarll ni aned well:  
 28 Iarll Herbert a'r llu hirbell;  
 Rhyw'r iarll hen, i oerwyr llai,  
 Rhys, da henlwyth o Stanlai.  
 Pob tŷ o Gymru, 'n ddi-gêl,  
 32 A Lloegr ywch, ieirll goruchel.  
 Aros. Aud yn *syr* o'r iaith,  
 Syr Wiliam Gaer *sir* eilwaith.

36 Etewyn ir *o'r* tân wyd  
 O'i roi'n olau *o'r* hen aelwyd.  
 Gwnfyd gael ywch ganfod gwledd,  
 Gŵr tŷ, i gynnal *gwart* Gwynedd.

40 Dihunwch do ohonun,  
 Deffro dy wŷr, da ffrîw dyn.  
 Rhowch win a mawrhewch henwyr;  
 Y rhain gynt a wnâi ran gwŷr.  
 Iustus wyt, Rys; waets rai trwch.  
 44 Rhys, trwyddynt rhoist *iau'r* heddwch.  
 Cadarn trwy'r cedyrn wyt, Rys;  
 Cadw *di'r* iawn, cadwr ynys.  
 Clo i ddeutu Cledd ytwyd  
 48 A bêr Ffrainc o 'Berffro wyd.  
 Bar wyt, Rys, hyd aber Trin,  
 Braich rhag Brynaich i'r brenin  
 Mal y mur ymyl morwynt,  
 52 Â nerth gwŷr, fu 'n y North gynt.

Arthur fai wrth air y ferch  
 I'r lle anial ar llannerch,  
 Ac a laddodd, heb gladdu,  
 56 Arch gwayw o dân, marchog du.  
 Drwy *ei* ben i'r unbennes  
 Yn weli waed *e* wnâi les.  
 A briw dur o bryderwch  
 60 Ym mraich, gwayw fflam, marchog fflwch.  
 Dwyn iarlles oedd dan eurlen  
 At y bar a wnaut ei ben.

64 Rhys, rhown di dros yr hen daid,  
 Rhys, goruwch rhyw 'sgwieriaid.  
 Rhys gadarn, ei rwysg ydwyd,  
 Rhys, yn Syr Rhys nesáu'r wyd.  
 Rhys, fy 'wyllys 'f â wellwell;  
 68 Rhys, ai byw Rhys dan wybr well?  
 Rhout d'enioes yn rhaid dynion.  
 Rhoad Duw iarl' yn yr het hon!

*Darlleniadau'r llawysgrif*

5 wedi i frawd..adael 6 ..ba wr.. 8 wyrdd wisg.. 9 ..ag ym rhyfeddowd 11  
 ..rys..rvdd 18 ..y nwyfil 24 ..or.. 28 ..herbert.. 29 ..ni oyrwyr.. 31 pob tv..  
 32 ..vwch..gorvwchel 33 ..yn Rys.. 34 ..syr.. 35 ..ir tan.. 36 ..olav r hen..  
 37 ..vwch.. 38 ..gowrt.. 42 ..rhan.. 43 evstys..waits rhai.. 44 ..wayw.. 46  
 kadwr r iawn i kad or ynys 47 ..y ddevtv.. 48 aber.. 56 march.. 57 drwy  
 benn.. 58 ymweli..a wnai.. 67 ..wllys.. 69 Rott..

*Moliant Siôn Pilstwn, Caernarfon*

Pa Siôn? Pwy sy o Wynedd?  
 Pwy uwchlaw pob camp â chledd?  
 Pawl Eidol,—pa le wedy?—  
 4 Pawl sy tan fraich Pilstwn fry;  
 Syr Gei Warwig, Syr Garwy,  
 Sarsiant hir, Sain Siors nid hwy.  
 Siôn, gwychder a chymeriad  
 8 Sy ynot ti Siôn y tad.  
 Capten mainc, hap a dawn Môn,  
 Cawr arfog ywch caer Arfon.  
 Clo gwart tŵr Edwart ydwyd  
 12 Canys dwbl wart cwnstabl wyd.  
 Cai Hir barwnfainc Harri,  
 Cadw'r tŵr, iarll, cadwr wyt ti.  
 Ysgwier, twits gŵr y tŷ,  
 16 Aur ar draed yw'r ordr wedy.

Ni ddug arfau ddau gawrfaich  
 Well i bryns â llaw a braich.  
 Â'th fas aur y'th fesurynt  
 20 Wrth wŷr o gwert Arthur gynt.  
 Fal clod Lawnslod neu Alath,  
 I'r Gron Ford 'f â'r gwŷr yn fath.  
 Pen-sieryf pen oes Harri  
 24 Wythfed hir i'th fyw wyt ti.  
 Braint Hir wyd obry 'n y tir,  
 Braich a brawn brau âi i'ch brenin;  
 Bron Melwas, barwn Maelawr,  
 28 Bual Môn, a Beli Mawr;  
 Penaig nod, pen Gwy a Nedd,  
 Pysg gwyn Powys a Gwynedd.

Pwmparis, pwmpa, eurwyd,  
 32 Pilstwn, imp Elystan wyd.  
 'Maelienydd mae o Linwent  
 Milwr gwych Maelor a Gwent.



36 Mae hyd Tomas ar d'asen;  
 Oes ŵr hwy no Roeser Hen?  
 Rhoed i ti, ar rod yt hyn,  
 Radd gŵr, Moreiddig Warwyn.  
 40 Gwalch Awdlai y'th bortreiwyd,  
 Gwalchmai, a Chwitnai, gwych wyd.  
 O ryw unferch ddi'r henfam;  
 'F âi ddeg iarll o Ddafydd Gam.  
 Eryr can ar war Conwy  
 44 A glywan' Gwent a glan Gwy.

Gelwch adar,—gweilch ydynt,  
 Gwna mal y gwŷr, ganmil, gynt.  
 Mawr yw'ch corff, mor wych y'i caf,  
 48 Mor weddus â'r mawr Addaf.  
 Mae campau da i ddeuwr;  
 A fu erioed fwy ar ŵr?  
 Corinéus, curai nasiwn,  
 52 Cai fwyall *da*, 'r cyfaillt, hwn,  
 Gŵr a *fwriai*, gorf farwor,  
 Gawr, grym wyth, dros graig i'r môr.  
 Eurer bron eryr brenin!  
 56 Draw dyláwd euraw dy lin.  
 Ti yw'r maen gwyrth trwy'r main gwn,  
 Ti a'u pwysud, topasiwn.  
 Mae'n ych i bryns, maen eich bron,  
 60 Maen cywirach mewn coron.  
 Main eraill mân a eurwyd;  
 Maen gwrthfawr Maelawr ym wyd.  
 Y Greal, Siôn, gweryl saint,  
 64 Gwaed hwn a'th gatwo i henaint.

*Ffynhonnell*

Llst 164, 149

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..pop.. 3 ..eidiol.. 4 ..freich.. 17 ..gawrfeich 18 ..brins..breich 21 ..nei..  
 24 ..yth vyw.. 26 ..ai ch brenin 37 ..rod hyd hynn 41 ..do r henfam 46  
 gwnae.. 47 ..i caf 48 ..a mawr.. 52 cev vwyall tav.. 53 ..a varrai.. 57 ..trwy  
 i.. 59 ..mae ny ch bron

*Moliant Syr Rhisiart Bwclai Hen*

- Eurwyd aerwy rhai dewrion,  
 Aurdorchog farchog o Fôn.  
 Syr Risiart, Sain Siôr, roesaw,  
 4 Siambrlen, troes mab Rolant draw,  
 Syr Glath i'w aesawr a'i gledd,  
 Syr Gei wyn teirsir Gwynedd.  
 Aeth aur rhudd i'th war heddiw;  
 8 Arfau clòs ar Fwclai yw  
 Tri phen, yn siambrlen, hyd Sedd,  
 Teirw gwnion dros tir Gwynedd;  
 Targed Ednyfed o'n iaith,  
 12 Tŷ Wilym iti eilwaith.  
 Bwriwyd torch obry i ti,  
 Beiriant aur, o brint Harri.  
 O'ch eurwyd dan eich aerwy,  
 16 Âi neges 'Môn giesio mwy.
- Da ferch, caud farchog cadarn,  
 Dyweddi boch hyd Dydd Barn.  
 Oes wraig, arglwyddes, o ryw,  
 20 Dâm Catrin, na dim cytryw?  
 Da enw merch â dawn ei mam,  
 Da i sir wawl dau Syr Wiliam.  
 Pa le caf epil cyfuwch  
 24 Â Dâm Siân, na dim sy uwch?  
 Llwyth, drwy wyth iarllaeth y dring,  
 Sy draw,—odlwyth Ystradling.  
 Lloegr waed, lle gorau ydyw,  
 28 Lloer briod Iarll Herbard yw.  
 Aur ferch, Eigr o farchogion,  
 Iarllsaw hil, ieirll sy i hon.
- Syr Risiart dan sêr eisoes,  
 32 Salmon marchogion i'ch oes,  
 Sarff gwnias, Syr Ffwg onnen,  
 Sy'n orau pwys synnwyr pen.

36 Ni thyfai iaith ddoeth o fin  
 Well garbron Lloegr a'i brenin.  
 Allwedd Gwynedd sy gennyd  
 A'u clo a'u gwŷr, Bwclai, i gyd.  
 40 Cadw'r gaer, câr wyd i'r goron,  
 Gwalchmai'r Mars, o gylch môr Môn.  
 Cadw wyth gwlad lle caid â'th gledd,  
 Capten, gwayw onnen, Gwynedd.  
 44 Cedwaist rhwng gwan a'r cadarn  
 Cyfraith y fainc fawr i'th farn.

Carw chwyrnllid, cyrch, yr henllew,  
 Coel enw a llun calon llew.  
 48 Llyn yn ddwfn, nid unlliw'n ddig  
 Â dŵr geirw, red ar gerrig.  
 Llef rhai oedd fal llif ar ryd;  
 Llonyddach no'r llyn oeddud.  
 52 Band diwredd erbyn taran?  
 Bron y gwynt a wnâi bren gwan.  
 A fo cryf acwy o'i wraidd  
 Ni chryn, bren chwyrn barwnaidd.  
 56 Dechrau'n wan, dichwyrn einioes,  
 A'i gwna'n wŷr gwan yn ei oes.  
 Chwarae'r gŵr yn nechrau'r gwaith  
 Yn grwn a wna gŵr unwaith.

60 Aeth hap ywch fyth, a'ch epil,  
 A gair fwy nog i wŷr, fil.  
 Mae'r un ych mawr yn y wedd,  
 Os dowch, un, nos dawch, Wynedd,  
 A chyd-dynnwch at hynny  
 64 I'ch tid fraisg â'ch teidiau fry.  
 Na edwch gael un adwy  
 Yn eich mysg, ynoch chwi mwy.  
 Mawr eich gwaed, marchog ydych,  
 68 Mor lân gwalch â'r merliwn gwych;  
 Môr nerthfawr, mirain wrthfaen,  
 Mawrwerth graig, mawrwrthiog raen;  
 Mawrlawn ras, mwy'th urddaswyd,  
 72 Mawr ydd aeth hap, mor ddoeth wyd;  
 Mawdreth gost mordraeth gastell,  
 Mawr yw'r pwys rhag morwyr pell;

- 76 Mawr lu i`th lys, mwy arlwy i`th wledd,  
Mawrlanw gwin, siamrlen Gwynedd;  
Mawrwaith cwrt mawr i wyth cog,  
Mawrfaeth feirch. Mae`r fath farchog?  
80 Mawr fyth fo mawrfaith fywyd,  
MawrDduw`n borth, mawrddawn y byd!

*Ffynonellau*

A—CM 312, 207 B—CM 11, 445 C—Bangor 5946, 187

*Amrywiadau*

1 C ..arwydd rai.. 5 ABC ..galaeth.., AB ..yw aessawr gledd, C ..oessawr.. 8  
C ..clod.., AB ..fwlclai.. 9 A ..yd.. 13 C ..turch.. 14 B ..breint.. 17 B ..caid..,  
C ..caed.. 18 C ..hyd ddydd.. 19 B oes wr.., AB ..oi ryw 20 AB ..cattryng..  
23 AC ..i caf.. 24 AB na dam.., A ..ywch 25 A ..iarlleth.. 26 C ..adlwyth.. 30  
A ..ierll.. 32 A ..ych oes, B ..eich oes 33 C ..Ffowc.. 37 C ..sydd.. 38 AB  
..bwcle.., C ..bwclau.. 39 B ..caer wyd.. 40 C ..mur mon 41 AC ..caed.. 43  
C ..gwayw.. 46 ABC cael.., C ..llin.. 47 B llinyn ddwfn.., C y llyn ddwfn..  
48 C ..rhed.. 49 AB ..rai.. 50 B ..na.. 51 C ..tewredd..tarian 52 A ..a nai..  
53 ABC ..acw.., C ..ai.. 54 A ..barwnniaidd 57 A chare r gwr.. 58 C ..wna r  
gwr.. 59 C ..it fyth at.. 60 B ..nag.. 64 A ych tid.., B eich tid.., C ..och.. 66  
C fon ych.. 67 C ..ywch.. 69 AC ..mvrain.., AB ..wyrthfaen, C ..werthfaen  
70 C ..grair mor wrthiog raen, A ..maw wyrthiog.. 71 AB ..ras ith.. 75 AB  
..lv th lys.., B ..arlwy th wledd 76 ABC ..siambrlen.. 77 C ..cowrt.. 79 AB  
..mawrfaeth.. 80 B ..mawrddyn..

*Marwnad Tudur Aled*

- Pren fal derwen a dorres,  
 —Pa anap?—brawd y pen pres,  
 Pan dorres, berw Taliesin,  
 4 Pair awen cryf fal pren crin.  
 Gwae fi roi'i gyfryw awen  
 A rhoi 'n y pwll yr un pen,  
 8 A rhoi Tudur, hyd tudwedd,  
 Aled, bardd, ar waelod bedd.  
 Bwrw un henfeistr brenhinfeirdd,  
 —Ba awen byth?—oedd ben beirdd,  
 Bwrw ein tad, a'n braint ydoedd,  
 12 Bwrw y dysg hyd Dydd Brawd oedd.  
 Torred iau'r gerdd, troed i'r gwaith,  
 Torred dôl y tair talaith.  
 Afar adfyd ar frawdfeirdd  
 16 Wedy'r ych bôn, eurdorch beirdd,  
 Ddoe'n fud a heddiw'n ei fedd,  
 Echdoe annerch Dwy Wynedd.
- Dŵr a wylais drwy wylad,  
 20 Dafnau tawch, wedy f'un tad.  
 Duw a ddug, ni adodd waig,  
 Dyn newyddfrau deunyddfraisg.  
 Breuder yn berwi ydoedd,  
 24 Brag y gerdd, un brigog oedd;  
 Prydferw dwfn, prydfawr dafawd,  
 Pruddfawr oedd faen gwrthfawr gwawd;  
 Prydfardd braisg, parodfardd brau,  
 28 Prydlwybr, digwmpâr odlau.
- Cuddio rhwysg cywyddau'r rhawg  
 Cau dôr ar fardd cadeiriawg.  
 32 Cof llyfrau, gwybodau byd,  
 Cyfr oedd i bob cyf'rwyddyd.  
 Awen fu'r awch yn ei fron  
 Yn naddu cynganeddion.

36 Fy llyfr oedd; â'i fwyall frau  
Fy saer i'r holl fesurau.

Yn iach ganu ywch, gwynwyr,  
I ferch, gerdd, i feirch a gwŷr.  
Ni chenir—yn iach, Wynedd!—  
40 Oni chair bardd ywch o'r bedd.  
Ni wisg gwanfeirdd ysgawnfeirch,  
Nis gwedd mwy wisgoedd a meirch.  
Ba enw o fardd na bo'n fud?  
44 Heb Dudur ba wiw dwedyd?

Bardd ar dâl rhial yrhawg  
Bwrdd, â dadl bardd odidawg,  
Byw ar naid garbron ydoedd,  
48 Byw'n hydd gwyich, bonheddig oedd.  
I'r rhod yr oedd yn rhydeg,—  
Rhod o ddysg nas rhedai ddeg.  
Rhoed o nef, rhod iawn ofwy,  
52 Rhodd i fardd nis rhôi Dduw fwy.

Beirdd sydd heb urddas heddiw;  
Bond da i feirdd na baent fyw?  
Och ni, fyw, oni chawn fyd,  
56 Naturfeirdd, gan watwarfyd!  
Nid oes gwin, dwysog ynys,  
Nid oes rhodd wedy Syr Rhys.  
Bwrw un urddol, brain orddwy,  
60 Bu law Dduw mawl heb ladd mwy.  
Bu orddod drom, beirdd, hyd draeth,  
Bron gorfod brain gwyarfaeth,—  
Arwydd 'mlaen, marw ei flaenawr,  
64 Farw un o feirdd y frân fawr.

Ni orwedd, aeth yn ardd win,  
Y rhyw fardd yn nhre Fyrddin.  
Nid âi i gôr dan do a gwŷdd  
68 Fyth, y brawd, y fath brydydd.  
Yna rhoed yn anrhydedd  
Awen y beirdd yn un bedd:  
O feirdd teilwng fardd dulwyd  
72 Fu wraidd holl iaith yn fardd llwyd.

76

Ei frawd, a'i fardd fry ydyw,  
 A ffryns i Sain Ffrawnses yw.  
 Archangel aeth o'i wely  
 Â'r enaid hwn i'r un tŷ:  
 Tŷ wir Grist, doctor i Gred,  
 Tŷ da'r wyl, Tudur Aled.

*Ffynonellau*

A—Card 5.44, 129<sup>v</sup> B—Card 2.630 [= Hafod 20], 17<sup>r</sup> C—Llst 134, 162<sup>r</sup>  
 D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 205 (*collwyd dechrau rhai o'r llau.*)  
 E—LIGC 6511B, 58<sup>v</sup> F—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 106<sup>v</sup>  
 G—LIGC 13061B, 272<sup>r</sup> H—Card 2.40 [= RWM 26], 407

*Ffynhonnell arall*

LIGC 989B, 58 (copi o LIGC 970E)

*Amrywiadau*

1 *G* penn.. 2 *D* ..prenn.. 5 *G* och vi roi kyfriw.., *AD* ..Roi gyfriw.., *BEH* ..roi kyfriw.., *CF* ..Roi kyfriw.. 6 *BCE-H* a roi.. 7 *BE-H* a roi.. 9 *CDH* bwrw yn.. 12 *BEG* a bwrw dysg.., *A-F* ..hed.. 15 *A-H* af ar.. 19 *A-H* ..wilad 21 *G* ..adoedd.. 23 *CH* ..beri.. 25 *G* ..dyfn.. 26 *D* prydawr.., *G* ..gwerthfawr.. 27 *CH* ..prav 29 *BE-H* ..rwysg.., *A-H* ..kywyddav r hawg 30 *A-FH* ..kadairawg 32 *BE* kyfr oedd pob.., *CFH* kyfr oedd bob.., *G* kyfr oedd mewn.. 36 *G* vu saer.., *ACFGH* ..yr holl.. 37 *A-H* ..kanv.. kwynwyr 38 *F* ..varch.. 41 *C* ..wannfairdd.., *H* ..wannfardd.., *DG* ..ysgawnfaich 45 *B* ..rial.. 47 *ACDFH* ..geyr bronn.., *BE* ..gyr bronn.., *G* ..gair bron.. 48 *BE* ..gwyn.. 49 *H* ir rod..yn redeg, *CH* ..i ddoedd.. 50 *H* ..redai.. 51 *H* ..rod.. 52 *E* ..nas.., *BH* ..roi.. 55 *D* ..vairdd.. 58 *H* ..rodd.. 59 *CH* ..bran.. 60 *BG* bu laddfa mawl.., *D* ba..bv ladd.., *G* ..ble ddaf mwy 61 *D* ba.., *E* ..troi n.. 62 *ABEFG* ..gwy arfaeth, *CDH* ..Gwy aurfaeth 64 *D* ..vn vairdd.. 66 *H* y ryw..yn re.. 67 *A-H* nidae gor.. 69 *ACEFG* ..i Roed.., *BH* ..i roed.., *A-E* ..anrydedd 71 *G* o vair.. 72 *BEG* ..oll.., *AD* ..iairll.., *CH* ..iaich.. 74 *G* ..san ffiranses.. 76 *BEF* ..or.. 77 *A-H* ..y gred

*Marwnad Iorwerth Fynglwyd*

Ba fileinfyd, byw flinfardd?  
 Beth yw byd heb obaith bardd?  
 Byd di-gerdd, byd dig orddwy.  
 4 Ba wiw galw mawl heb gael mwy?  
 Pam y chwarddaf heb dafawd  
 A myfi'n brudd am f'un brawd?  
 8 Marw Iorwerth,—oes mwy'r owron?—  
 Marw cerdd a Chymræg hon.  
 Maen ar fedd, anrhydeddwn,  
 Mynglwyd doeth: mae 'ngwaelod hwn.  
 Gwely sy *i* fardd, gelwais Fair,  
 12 Gardd a geidw'r gerdd gadair.

Myrddin, bardd y frenhiniaeth,  
 Mawr gŵyn Gwent, Morgannwg aeth.  
 Deau'n fud dan ofudion;  
 16 Dial o thau'r dalaith hon.  
 O thau hanes Taliesin,  
 Ni thau fyth a wnaeth o'i fin.  
 Awen fwy roed yn ei fron  
 20 No thri o'r hen athrawon.  
 Tydai fardd, tawed fawrddysg,  
 Tad Awen, dwyn tad ein dysg.

Ba ddyrnod bu ddoe arnom,  
 24 Beirdd Tir Iarll? Bu orddod drom:  
 Diwedd gwawd a oedd gadarn,  
 Diweddu beirdd fal Dydd Barn.  
 Poen yw priffordd pen praffwawd;  
 28 Pwy mwy ar ôl fal pai 'mrawd?  
 Pwy pêr ysgol pob breisgerdd,  
 Praff, wedy cwymp proffwyd cerdd?  
 Prifardd braisg cywyddfraisg gân,  
 32 Prudd waethwaeth pob bardd weithian.  
 Pencerd d brywysgerdd a'i brig,  
 Pencerd odl pwnc urddedig,



36 Prydydd digwmpâr ydoedd  
Es deg oes ar osteg oedd.

Mae'n drist am un awdur aeth  
Mwy gau'r ddôr am gerddwriaeth.  
Mae'n fud dysg, mwy 'nafwyd hon,  
40 Mae ias oer i'r mesuron.  
Mae gwayw, 'nghwyn am gynghanedd,  
Mewn f'ais am awen o'i fedd.  
Mawr o wendid marw undyn;  
44 Meddal yw dull meddwl dyn.  
Marw rhwysg beirdd Cymru yrhawg  
Marw dadl bardd mor odidawg.  
Digalonfyd gŵyl wanfeirdd,  
48 Di-hoen yw'r byd hwn i'r beirdd;  
Di-wisg o addysg Addaf,  
Di-fri cerdd wedy'i farw caf;  
Digedymaith wyf weithïon,  
52 Difri' yw'r och o'm dwy fron;  
Di-wên orig dwyn Iorwerth,  
Di-ferw o nwyf, di-fawr nerth;  
Di-dad, ymddifad ydwyf,  
56 A di-frawd wedy'i farw wyf.

Cwyn i'r beirdd can wae i'r byd;  
Clywaf weddill celfyddyd.  
Dwyn yr undyn dan rwndwal  
60 Diwreiddio cerdd drwy ddeg gwal.  
Wb o'r dydd am brydyddion!  
Wylais am wawd Lewys Môn.  
'F aeth Iorwerth fyth i orwedd;  
64 Fath fardd nid â fyth i fedd.  
Angau a'i dug yngod, wŷr,  
A'i iawn frawd, fy hen frodyr.

Aros awr yr oes wrol,  
68 Ofnhau 'dd wyf innau'n eu hôl  
Fal ungwr wrth fileingerdd  
Yn cadw caer. Gwan yw coed cerdd.

Wedy 'mrawd yma'r ydwyf;  
72 Ato, Dduw, 'mbar'toi 'dd wyf.

76

Os da fardd yn llys Duw fydd;  
 San Ffred, os hwn *ei* phrydydd,  
 I'r nef at yr henafiaeth  
 Angel Duw â'r Mynglwyd aeth.

*Ffynonellau*

A—Llst 134, 162<sup>v</sup> B—Card 2.630 [= Hafod 20], 19<sup>r</sup> C—LIGC 6511B, 60<sup>r</sup>  
 D—Card 5.44, 130<sup>r</sup> E—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 206 F—LIGC  
 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 107<sup>r</sup> G—LIGC 13062B, 346<sup>v</sup> H—BL  
 Add 14964, 37<sup>r</sup> I—BL Add 14964, 75<sup>r</sup> J—BL Add 31084, 72<sup>v</sup>

*Amrywiadau*

1 *DEF* ..vlinfairdd 2 *DEF* ..bairdd 4 *J* ..ganu mawl.. 7 *CEJ* ..os.., *HIJ*  
 ..awron 9 *BD* mae n.. 10 *G* ..maen gwaelod.. 11 *A-J* ..sy vardd.. 12 *J*  
 ..gadw.., *BDEG-J* ..i gerdd.. 13 *H* ..fardd y frenhiniaith 15 *H* ..ofidion 16 *I*  
 dial [ ] y dalaith hon, *H* ..o chae r.. 17 *H* o chae.., *I* o chaf.., *J* a thau.. 18 *H*  
 ni chae.., *I* ni chaf.., *A* ..thav a wnaeth.. 19 *ACDE* ..Roed.. 20 *A-J* na.. 21  
*AE* ty da vardd.., *BDF-J* ty da i vardd.., *C* ty di vardd.. 22 *E* tid awen.. 26  
*D* diweddy byd.. 27 *H* ..y pen proffwyd, *GI* ..proffwawd 29 *A-FHIJ* pwy r  
 per.., *G* ..pur.., *I* ..pab.. 30 *H* ..wedi.. 32 *A-GI* ..waithan 33 *I* ..brwysgerdd..  
 36 *J* os.. 37 *J* ..awdwr.. 38 *J* ..gerddoriaeth 39 *J* ..dysg navwyd.. 41 *C*  
 ..gwae.. 45 *BFGHJ* ..rwysg.., *CFG* ..kymry.., *I* ..y Cymru.. 47 *E*  
 digalonfyl.. 50 *AD* ..korff.., *A-FI/H* ..wedy / wedi varw i kaf, *G* ..wedy  
 varw.., *J* ..i kav 51 *EFH* digydymaith.., *A-J* ..waithon 52 *D* ..awch.. 53  
*BHIJ* ..orug.. 54 *A-DFHI* di varw.., *J* di vraw.. 56 *I* ..wedi.., *A-G* ..wedy  
 varw.., *HJ* ..wedi farw.. 59 *BHIJ* ..rowndwal, *E* ..Rwndwal, *G* ..rywndwalh  
 60 *A-GJ* diwraiddo.. 64 *E* i vath vardd.. 66 *A-J* oi hiawn vrawd.. 67 *H* ..yn  
 oes.. 68 *BCDF-J* ofnav..ny ol, *E* ofnav.. 71 *I* wedi.. 72 *D* ato o dduw.., *H*  
 ..im parratoi.. 74 *A-J* ..yw phrydydd

*Marwnad Rhydderch Dai Wëydd*

- Mae llef dolef gan delyn:  
 Marwnod yw; och marw un dyn.  
 Mefyriaais yma fawrwydd:  
 4 Mefyrwawd ffyrf am frawd ffydd.  
 O'm dwy ddrem, di-wedd ar ŵr,  
 Am Rydderch, mwy arweddwr,  
 Gwalchmai, ar ogyrch moroedd,  
 8 Wŷr wrth gerdd, mawrwrthiog oedd.  
 Claddwyd Derfel cerdd delyn,  
 Cywir ei gorff i'r carw gwyn.  
 Marchog doniog Sain Dunwyd,  
 12 Mawr, drosto ef mor drist wyd.  
 Syr Edwart, dy sir ydoedd,  
 Ar ei frest dwyn d'arfau'r oedd.
- Medent gerdd mudent i gôr;  
 16 Medel wan am delynor.  
 Ystod y gerdd, astud gynt,  
 I'r tir, Rhydderch âi trwyddynt.  
 Breuder nifer *âi* i nefoedd;  
 20 Breua'i dant hyd Dydd Brawd oedd,  
 Brawd Troelus, unbrawd Rholant,  
 Brawd i'r dyn *Brïdo* ar dant.  
 Brau canai wawd tafawd dyn,  
 24 Brau duloyw, gan bur delyn;  
 Bron rwydd brenhinbren yrhawg,  
 Brig breugerdd brywiog brigawg.  
 Pryfiedydd, pryfiau ydoedd,  
 28 Pyncau ar ddysg, pencerdd oedd.  
 Marw eos holl Gymru serch,  
 Mawr o weddi am Rydderch.
- Mab gwraig hael ym mhob gair call,  
 32 Mwy gariad nis mag arall.  
 Ar fawrddysg i roi'i fwrddwn  
 Oedd fwy holl gyneddfau hwn.

36 Pedair camp pe ddi i'r côr,  
 Pa, ar hugain, gamp rhagor?  
 Bwriodd, rhedodd ar adwy;  
 Bar a maen ba wiw bwrw mwy?  
 40 Neitio, noefio un afon,  
 Am fwa saeth mwy fu'i sôn.  
 Ni chair uddynt chwaryddiaeth;  
 Y bêl fach yn ei balf aeth.  
 44 Cwympo ar bont campau'r byd,  
 Coeliaf foddi celfyddyd.  
 Coffr dysg, caiff air dewisgerdd,  
 Cloi o fewn côr colofn cerdd.  
 48 Caniadau'r iaith cwyn a drig  
 Cloi mur ar bob clwm orig.

Cafas hwn, cof a sonien',  
 Clod a saif Colades hen.  
 Ni wna draw, ei enw a drig,  
 52 I gaer Debas gŵr debyg.  
 Tra fu enaid Tyrfanoedd  
 A phan aeth ail Amffion oedd.  
 Adar o goed ar y gwynt  
 56 Am Rydderch fal meirw oeddynt.

Cariad a fag gwayw hiraeth;  
 Cof a hyllt ais; cyfaillt aeth.  
 60 Meddylio 'mdano mud wyf;  
 Mwy ddolur ban meddyliwyf.  
 Dwyn f'enaid, yn fyw ynof,  
 Dagrau gant a'm dwg ar gof.  
 64 Llawenydd fy holl einioes,  
 Breuddwyd drom yn brudd y troes.  
 Ni chwardda 'm oes na cherdd merch  
 Wedy 'mreuddwyd am Rydderch.  
 68 Ni chawn gerdd, yn iach wyn gwen,  
 Ni chair achos, na chrychwen.  
 Ni bydd na chywydd na chainc  
 Na llawen un llu ieuainc.  
 72 Chwarae mawr na charu merch  
 Ni chair heddiw. 'n iach, Rydderch.

O bu feius,—ba feiwn?—  
 Yma, Dduw hael, maddau i hwn.

76

Hwdiwch enaid uwch hoywnef  
A'i delyn ywch, deulu nef!

*Ffynonellau*

A—Card 2.630 [= Hafod 20], 20<sup>v</sup> B—Card 5.44, 130<sup>v</sup> C—Llst 134, 163<sup>v</sup>  
D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 207 (*collwyd dechrau rhai o'r llau.*)  
E—LIGC 6511B, 61<sup>v</sup> F—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 107<sup>v</sup>  
G—LIGC 13061B, 225<sup>r</sup> H—BL Add 31090, 31<sup>r</sup>

*Ffynhonnell arall*

J.R. Hughes 6, 387 (*testun llwgr*)

*Amrywiadau*

2 *AG* marnod., *C* marwnod och., *D* marwnod owch., *H* marnad.. 3 *C*  
..wawrydd 4 *AGH* myvyrwawd., *C* mevyriad., *D* mevyrdawd., *E*  
mevyrwaed.. 5 *C* ..diwedd.. 6 *G* ..mawr.. 9 *G* ..telyn 10 *AGH* ..y karw..  
11 *BC* ..sant Dynwyd, *EG* ..san Dynwyd 13 *A-FH* ..Edwart y sir.. 14 *AEH*  
ar dy vrest.. 15 *C* medynt..medent.. 16 *H* ..delynior 17 *ABEFH* ystad.. 19  
*A-H* ..niver i.. 20 *A-G* ..hed.. 22 *A-H* ..brydo.. 24 *D* ..du lwybr.. 25 *B-G*  
..Rwydd.. 26 *C* ..briwiog.. 27 *BD* pryviedig.. 28 *H* pynkiau.. 29 *EF*  
..gymry.. 33 *A-H* ..roi vwrddwn 35 *E* pedai r kamp., *G* pedair kampav diav  
r kor, *BD* ..ar kor 36 *ACE-H* pai arigaint., *BD* pai., *CG* ..kamp., *FH*  
..ragor 37 *AFGH* ..redawdd.. 39 *AH* naito., *E* ..nevio., *F* ..novio., *ADG*  
..noevio n vn., *H* ..novio n un.. 40 *C* ..a saeth., *A-F* ..vy son, *GH* ..vu son  
41 *A-H* ..yddynt.. 43 *BD* ..ar benn.. 44 *B-F* koelaf.. 46 *BD* di ofn oedd  
benn kolofn.. 48 *H* [48–51] 50 *BD* ..kaladis., *CEF* ..kalades.. 52 *A-H* y  
gair.. 58 *D* ..kyfaill.. 63 *A-G* ..einoes 67 *D* ..wenn gwen 69 *E* ..na  
chwydd.. 72 *AGH* na chair.. 74 *C* ..maddav hwnn 75 *A-H* ..ywch.. 76 *H* ai  
dderbyn..

*I Harri'r Wythfed am iddo briodi Ann Bwlen*

Y iarll gynt ar y lle gâi  
 A wnâi gaer yn y Garrai.  
 Neithor a wnaeth—eu rhan êl!—  
 4 Ferch Hensiestr fry a'i chwysel;  
 Dwyn wasâel mewn dawns â hon,  
 'Drink hail' a dorrai'n calon.  
 Neithor ail a wnaeth yr Wyth  
 8 O waith Alis a'i thylwyth:  
 Gwledd frad i arglwyddi fry;  
 Gwnaeth Ann o'i gweniaith hynny.  
 Gwall Lloegr oedd golli i Gred;  
 12 Gwae'r ynys pan goroned.

Magwyd o'r llwyn llwyd ei llin,  
 Morwynwisg Harri 'mrenin,  
 Megis ynys lle megynt  
 16 Morwyn a rôl'r gwenwyn gynt.  
 Er rhoi gwen, anrheg unawr,  
 I'r mab Alecsander Mawr,  
 Â diod win wedy'i dwyn  
 20 E'i llanwoedd oll o wenwyn.

Crist, Harri Wyth, Croes Duw'r rhawg,  
 Carw o Wynedd coronawg,  
 Ti a delaist i dylwyth  
 24 Ronwen, lawer pen, eu pwyth.  
 I'r Tŵr Gwyn, i'r teirw a gaid,  
 Y trout, Harri, 'r traeturiaid.  
 Torraist bennau wyl Ieuan;  
 28 Y tarw o'r Tŵr, tro rai i'r tân.

Agos oedd dy gas heddiw,  
 Harri, bydd wych; rhybudd yw.  
 Na chyfod ar ddrychafiaeth  
 32 O flaen gwaed filain neu gaeth.  
 Na wna i'th rin annoeth yrhawg  
 Neu waed isel yn dwysawg.

36 Ni chai dwyll, frenin, wych dâl,  
Natur yw, gan waed rhial.  
Canmol Loegr canmil ogylch;  
Cymer i'th gwr't Cymry i'th gylch.  
40 Nid âi wenwyn am d'ainioes  
Neu frad twyll. Ni fyrheid d'oes.  
Ein holl frud a'n llyfrau aeth;  
Yt, Harri, mae naturiaeth.

44 Pwy weithian ddaroganwr?  
Y tarw gwych, pand ti yw'r gŵr?  
Carw o waed decainc ar iaith  
Cadwaladr, Ffrainc, wyd, eilwaith.  
48 Gwisg i'th iad, wlad fflŵr-dy-lis,  
Gap o aur ar fainc Paris.  
Brenin ni bu ar a aned  
Yn Lloegr well nac yn holl Gred.  
Arwain hed aur a wna hil  
52 Ednyfed hyd yn nwyfil.  
Y llew ydwyd â'n llwydwyn;  
O'i febyd wyd fab y dyn,  
Ac oen a ddaroganwyd  
56 Â'r gwlan aur i Gwlen wyd.  
Mae llun i'm llew a'i wyneb,  
Mae enw a nerth mwy no neb.  
Ni ddaw cawr neu ddeg coron  
60 Yn oes Wyth i'r ynys hon.

Â'th wayw aros, Wyth Harri;  
Weithian nos da i'th ynys di.  
64 Cai air ynys, cyw'r wennol,  
Cans rhoi d'act cannoes ar d'ôl.  
Llywia di i gyd wyllt a gwâr,  
Llaw Dduw dros dy holl ddaear,  
A'r Iesu rhoed ras yrhawg;  
68 Y mae deisyf am dwysawg.  
E ddaw tâl gan Dduw i ti,  
Wynfyd tarw: Nawfed Harri!

*Ffynonellau*

A—Llst 164, 128 B—Card 5.44, 227<sup>v</sup> C—Llst 134, 233<sup>r</sup> D—LIGC 970E  
[= Merthyr Tudful], 445 (*collwyd rhannau o'r testun ar ymyl y ddalen*) E—  
LIGC 6511B, 237<sup>r</sup> F—Card 2.630 [= Hafod 20], 170<sup>r</sup> (*llau. 1-46*) G—

LIGC 13062B, 420<sup>r</sup> H—LIGC 2010B [= Panton 42], 147 I—BL Add 31090, 47<sup>v</sup> (*llau. 1–46*)

*Ffynhonnell arall*

LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 166<sup>v</sup> (*collwyd rhannau helaeth o'r testun*)

*Amrywiadau*

1 *H* ..a gai 3 *H* neithior.. 4 *BE–I* ..Hainsiestr.., *CD* ..Hainsiest.. 5 *A* ..was hael.. 6 *A–I* ..hael.. 10 *H* ..ai.. 11 *A–H* ..y gred, *I* ..golli r gred 12 *A* gair.., *BCDG* ..ban.. 14 *E* morwynwaisg.. 15 *FI* ..lle i megynt 16 *H* morwyn roi r.., *A* ..a rhoi gwenwyn.., *BDG* ..Roi.., *CFI* ..roi gwenwyn.. 17 *BCDGH* Roi gwenwyn.., *E* roi gwenwyn.., *FI* ..roi.. 19 *C* diod o win.., *A* ..wedi.., *B–GI* ..wedy dwyn, *H* ..wedi dwyn 20 *A* ae llanwoedd.., *B–I* au llanwodd.. 21 *A–I* ..duw rhawg 25 *A* ..yr teirw.., *C* ..ar tairw.. 26 *B–EGHI* ..troid.. 28 *AE* ..rhai.., *BCDG* ..Rai r tan, *FI* ..rai r tan 30 *BGH* ..bydd ddoeth.., *I* ..rybydd.. 31 *A* ..ddrychavaeth, *BCG* ..dderchaviaeth 33 *BG* na wna th Rin.., *H* na wna th rin.., *I* na wna yti rin.., *C–F* ..yth Rin.. 34 *D* ..jsel jawn dwysawg, *EFI* ..isel o jawn dwysawg, *G* ..yn dwsawg 35 *B–GI* ..vrenhinwych.., *H* ..frenhindwyll.. 36 *A* ..real, *I* ..rial 38 *B–I* ..yth gwrt..yth gylch, *A* ..Cymry th gylch, *BCDG* ..kymrv.. 39 *E* ..yn.., *A–G* ..deinoes 40 *I* ..vyrhaed.. 41 *A–GI* ..fryd.., *H* ..frad.., *BH/G* ..an / ar llyfr a aeth, *C–FI* ..an llyfr aeth 43 *B–GI* ..waithan.. 44 *B–I* ..pond.. 45 *B–I* ..or jaith 47 *FI* [47–70], *B–EG* ..yth jad.., *B–EGH* ..fflwrdeilis 49 *A–EGH* ..ar aned 51 *DH* ..had.. 52 *E* ..hed.. 53 *ABEGH* ..ydwyd yn llwydwyn, *C* ..sy n llwydwyn 54 *B–EGH* ..vebyd ef.. 56 *A* ..y gwlen.., *BCGH* ..o gwlen.., *DE* ..ar gwlen.. 57 *ACDEG* ..ym llew.., *B* ..yn llew.. 58 *B–EGH* ..na.. 62 *A–EG* weithan.., *A* ..nosta th.., *B–EG* ..yth ynys.. 63 *A* ..aur.. 64 *A* ..rovd act.., *B–EGH* ..Roy ackt..ar ol, *BH* ..kannos.. 65 *A–EGH* ..di gyd.. 66 *B* ..dduw dy holl.., *H* ..Dduw [ ] dy holl.., *G* ..ar dy.., *E* ..yr holl.. 70 *D* ..twr.., *CE* ..y nawfed..



*Awdl foliant i Harri'r Wythfed*

- Twysog coronog, Loctrinus,—Siarlmaen,  
 Tarw Brytaen, tir Brutus,  
 Tarw Ffrainc a'i thalfainc wrth wŷs,  
 4 Tarw o Wynedd tair ynys.
- Tarw Owain Llundain tros llawr—y ddaear  
 Yn ddiwyd tan Dduw mawr,  
 Tarw Wythfed Harri weithfawr,  
 8 Ti ar war Mwnt eryr mawr.
- Brenin eryr gwŷr, mawr y rhagoraist.  
 Brenin, Lloegr, Wythfed, a Ffrainc ehedaist.  
 Brenin etifedd, barn iawn y tyfaist.  
 12 Blaen iarll Iwerddon, blaenor, llu orddaist.
- Pen wyt y ddaear; pand Duw weddïaist?  
 Pennaf tan Dduw Nef, pand da ymddrychefaist?  
 Pen eglwys d'ynys, pinagl ystynnaist,  
 16 Pen ffydd, a pheunydd yr ymddiffynnaist.  
 Pen wyt a'n llywiawdr; pand da y'n llywiaist?  
 Pen at hen Arthur, pand da y'n nerthaist?
- Amheuwyr Duw ffydd, mawr, y diffoddaist.  
 20 Ei gnawd a'i allor (gwn) y diwellaist.  
 Anghredwyr Iesu, tân a gynuaist,  
 Eu mêr a'u holl esgyrn, meirw y'u llosgaist.
- Ddoe Esgob Rhufain o ddysg y profaist.  
 24 Y sy i'th dernas o'i waith a derniaist.  
 Yn dallu ei elyn ei dwyll a welaist.  
 Am air dy ynys yma ordeiniaist.
- Ei sêl a'i gyfraith, hyn a ddiffeithiaist.  
 28 Yn iach mwy hynny! Yn wych 'mwahenaist.  
 Ffalswyr crefyddwyr a'u côr a faeddaist.  
 Am dwyll a phechod i'r llawr y'u dodaist.

- 32 Eu tra a'u balchedd da y diweddaiſt.  
Drwy weddi deilwng drwy Dduw dielaist.  
Y llew gwrol nawdd, Lloegr a lonyddaist.  
Eu bradau henwaith obry dyunaist.
- 36 Eu bryd, dy alon, a'u bwriad telaist.  
Nos daed, tarw y Tŵr! Ys da traeturiaist.  
O radd y fwyall rhai a ddifeaist.  
Chwarae, Wyth Harri. Rhai a chwarthoriaist.
- 40 Yr oedd ost iangwyr Nordd a ostyngaist.  
Ein twysog euraid, hwynt a wasgeraist.  
O'u tir i'w carchar i'r Tŵr y'u cyrchaist.  
Y lluoedd ost draw oll a ddistrywiaist.
- 44 Yr oedd *ywch* ynys. Yr ardd a chwynnaist.  
Y llwynau byrion allan y bwriaist.  
Yr hadau rhywiog, rhai da, yr heaist,  
O waed urddedig, yn d'ardd a edaist.
- 48 Ei holl afreol, Cymru, a rolaist.  
Herwyr ymladdwyr yma a luddiaist.  
Wedy'u holl drethau da llywodraethaist.  
Am eu cywired mwya' y'u ceraist.
- 52 Uwch bryniau, Sgotiaid, gwych bryns, a gwitiaist,  
Fry âi lueddwyr, yn farw a leddaist.  
Â'i lu banerau Alban a yrraist  
I greigiau mynydd. Gwŷr a gymynaist.
- 56 Ffrawns gaerau anial a'u ffrins a grynaist,  
Wyth Harri filwr. Â'th wyr rhyfelaist.  
Hen furiau Terwyn yn friw y torraist.  
Y wal ar Dwrnai i lawr y dyrnaist.
- 60 Eryr Amherodr a'i rym a hyriaist.  
Hyd tan dy faner tanad a fynnaist.  
Y llu, aml oeddynt, y lle ymleddaist,  
Rhai'n feirw o ddilid, rhai'n friw a ddeliaist.
- 64 Pe bai gan coron, pawb a gwncweraist.  
Pob ynys gadarn, pob un a ysgydwaist.  
Pob mur is heulwen, pob môr a saeliaist.  
Pob ternas hafnau, pob tir nis ofnaist.

- 68 O dir mawr rial dy wŷr mawrheaist.  
O raddau, oesog, hwy a urddesaist.  
A thrysor uddynt o'th ras a rodداist  
A thir o'r ynys i'th wŷr a rennaist.
- 72 Brenin Nef erchyll, bronwyn naf, erchaist.  
Brenin rhwydd cyfiawn, brenhinrodd cefaist.  
Bo dy enw wellwell! Y byd a enillaist.  
Byw ydd wyd heddiw. Bodd Duw a haedداist.
- 76 Emperial rial 'Nhroea a'r—Tŵr Gwyn  
Wyt, Harri, rosyn am y Tri Risiart.  
Brenin gorllewin, llywia'r—tair aelwyd,  
Y mab dewr, ydwyd, am Bedwar Edwart.
- 80 Breisgwyn ederyn hyd wart—Wlcesar,  
Bron un o adar y Brenin Edwart,  
Ymrodded holl Gred, Lloegr wart,—cwnwewrwr,  
I'th filwriaeth, ŵr, i'th filwyr a'th ddart.
- 84 Crist a roes ar Groes gwir ar—trwy ddolur  
Er glynu ar ddur y galon ar ddart,  
Rhodded i'r Wythfed ar war—trychanmil  
Er ynnill epil ynn wŷr hen llewpart.  
Rhoed Duw d'oes ddwyoes hen ddâr—tros hynny!
- 88 Rhoed dwyoes gwedy i'r Twysog Edwart!  
  
Twysog coronog, Locrinus, &c.

*Ffynonellau*

A—Pen 99, 360 B—BL Add 14880 [= RWM 36], 76<sup>r</sup> C—BL Add 14971  
[= RWM 21], 160<sup>v</sup> D—LIGC 6209D, 277 E—Pen 101, 166 F—CM 12,  
194

*Amrywiadau*

3 B ..frainc.. 6 C ..gan.., DF ..dan.. 7 F ..werthfawr 8 B ..mownt.., CDE  
..Mawnt.. 9 B ..gwy.., AE ..ragoraist 10 BD [10], CE ..wyth.. 11 B  
..elvydd.., CD ..y torfoedd..y terfaist 12 B ..ordaist 13 AEF ..wyd dy  
ddaear.., E ..pan duw.. 14 AC-F ..dan.., BD ..naf.., CF ..mddyrchefaist, D  
..pan da ymdderchefaist 15 B ..ecles..pinacl estennaist, EF ..estynnaist 16 B  
pen fydd.., AEF ..amddiffynnaist, B ..amddeffynnaist 17 E ..wyd.., CD ..a  
llywiawdr.., BCD ..y llywiaist 18 D ..pan da.., BCD ..y nerthaist 19 B  
..fydd.., A ..diffodaist 20 BCD [20] 21 CD ac yno o awydd..gynnevaist, B  
..tan gynneuaist 22 CDF ..oi holl.., CD ..marw.., B ..hescyrn marw y

loscaist, *AC-F* ..y llosgaist 23 *D* Dduw..., *CD* ..oi ddysg.. 24 *A* ..yth dernas..., *B* ..deyrnas..., *DF* ..dyrnas..., *F* ..y derniaist 25 *AF* ynn dallv elyn..., *D* ..i ely.. 26 *A-F* ..aur..., *AE* ..yma i ordeiniaist 27 *BCD* ..ar gyfraith..., *CD* ..hen.. 28 *C* ..ymwenaist, *D* ..amwenaist 29 *C* ..oi kor.. 30 *B* [30-1], *AE* ..yr llawr..., *ACEF* ..i dodaist, *D* ..a dodaist 31 *CD* i traha ai balchedd a ddiweddaist 33 *AEF* y lle.. 34 *AE* ..dyhynaist, *BCDF* ..dyhunaist 36 *C* ..traw y twr..., *A-E* ..i traetvriaist 37 *C* ..dy fwyall..., *ABE* ..rai..., *CD* ..a faddevaist, *EF* ..ddifeiaist 38 *C* ..wyt..chwrtoraist, *AE* ..rai..., *B* ..chwarthoraist, *D* ..chwrthoraist, *F* ..chwartheraist 39 *BCD* ..o jangwyr..., *AE* ..jengwyr..., *F* ..iengwr.. 41 *A-E* ..yw karchar..y kyrchaist, *AE* ..yr twr.. 42 *D* ..ddistrowaist 43 *AC-F* ..wych ynys..., *B* ..wyth ynys.. 44 *A* ..bwraist, *F* ..eu bwriaist 45 *C* yn hadav..., *B* ..rowiog..., *ACE* ..rywioc rai da.. 46 *CD* ..yno ardd.. 47 *CD* a holl..kymry..., *B* ..reolaist 48 *C* henwyr..yma lvddiaist 49 *CD* [49], *B* wedir holl..., *F* wedy holl..., *ABE* ..da i llywodraethaist 50 *CD* am fyw kywiriaid..., *BF* ..kowiriaid..., *A-F* ..i keraist 51 *A-E* ..brynnav..., *F* ..wych brins..., *ABE* ..brins..., *C* ..breins y gwiliaist, *D* ..breins y gwytiaist, *B* ..y gwi[ ] 52 *D* vry lueddwyr..., *ABEF* ..luyddwyr..., *B* ..yn vawr..., *CDE* ..yn feirw.. 53 *B* ai llu.. 54 *A* y greigiav.. 55 *B* frawns..., *C* ..gaerav n aml ai ffreins..., *D* ..ffreins.. 56 *AE* ..ryfelaist 59 *BC* ..ymerawdr..., *D* ..oi rym..., *AEF* ..hvriaist, *BCD* ..yrraist 60 *D* y dan.. 61 *A-E* ..i ymleddaist 62 *B* [..], *AEF* ..ddilyd..., *CD* ..ddylyd..., *A* ..rai..., *D* ..frau.. 63 *B* [..], *D* ..goron..., *DF* ..gwnkweriaist 64 *BF* ..vn ysgydaist 65 *A-D* ..seiliaist, *EF* ..seliaist 66 *B* ..teyrnas..., *DF* ..tyrnas..., *B* ..hofnaist 67 *B* ..rreal..., *CD* ..reial..., *F* ..rhial..., *D* ..mawrheiaist 69 *AE* ..yddynt..., *F* ..iddynt.. 70 *AE* ..yth wyr.. 71 *B* ..net erchyll.. 72 *CD* barn iownwydd kyfiawn brenhinoedd..., *ABE* ..rwydd..., *B* ..brenhinoedd.. 73 *D* bod dy..o nillaist, *F* ..ynnillaist 74 *D* ..Duw heuddaist 75 *D* empreial reial..., *BC* ..rreal..., *F* ..rhial.. 76 *C* ..Rossvn..., *B* ..Risiard 78 *B* ..Edward 79 *CF* ..aderyn..., *D* ..yderyn hyt..., *B* ..yderyn hyd ward..., *AF* ..wart, *B-E* ..wlkassar 80 *E* bron fu..., *AEF* ..adar brenin..., *B* ..Edward 81 *B* ..war.. 82 *AE* yth..yth..., *AEF* ..ath art, *B* ..ath ddard 83 *B-F* ..gwir art..., *ABEF* ..drwy..., *CD* ..gan ddolvr 84 *D* ..or ddur.. 85 *AEF* [85], *D* rhodd..ar wart.. 86 *AE* ..ennill..., *F* ..hepil..., *CD* ..hepil wyr..., *ABF* ..yn wr..., *E* ..yn wyr.. 87 *A* roed..., *F* ..yn ddwyoes..., *CD* ..hen ddart dros..., *BE* ..dros hynny 88 *AE* roed..., *B* koed..., *AE* ..yr..., *B* ..Edward

*Moliant Harri'r Wythfed*

Y tarw o'r Mwnt, eryr Môn,  
 Wyt ti, carw y tair coron.  
 Ni ddaw twyll (ni wedda) i ti,  
 4 I'th fyw tarw, Wythfed Harri.  
 Harri yr Wyth Hir a red  
 O Rinwits orau aned;  
 8 Emperial Brutus dalaith,  
 Emprwr sydd, mab Harri Saith;  
 Brenhinfab o'r un henfainc,  
 Brenhinllwyth ffrwyth Lloegr a Ffrainc;  
 12 Llew Cymru oll, cae am Rôn,  
 Llew irddewr holl Iwerddon.

Llywiawdr, ymddiffyniawdr ffydd,  
 Llywia ynys dda'n llonydd,  
 16 Paun dan Grist, penna' dan Gred,  
 Braens hyd nef Bryns Ednyfed;  
roed dyw., *AJLQa* ..yr iddewon, *F* ..iddewon 23 *Z* [23–4], *FX* Jwdas., *GJLNOPRSab* svddas., *H* siwddas., *KMT-WY* Siwddas., *O/P* ..yr ardd isaf / jsay ydoedd, *GW* ..am., *A-EIJLQa* ..ddise., *STUY* ..dissia., *V* ..ar ddifil. 24 *OP* am gais am yr Iessu yr oedd, *ADSb* amws as., *BCEH* amvs as., *FQ* ams as., *J* yn ames as am yr., *Y* amas as., *L* ames as am yr., *TU* annas as Iesv. 25 *G* yr oedd ar i., *Q* y wedd., *Z* ydd oedd., *HLOPV-Y* ..dvw., *Jb* ..duw ar wedday, *HNRXa* ..ar i., *W* ..ar weiau 26 *G* ef fwriwyd twn., *HKNR* ef yrwyd., *J* ferowdydyn., *L* ferowd dyn., *M* ef a roed., *VW* ef a yrwyd., *a* vo hirwyd., *F* ..hyn., *A-GIJLN-XZab* ..yw. 27 *Z* [27–30], *J* ofon ar fynyw y fy faint, *K* ofn fy nfw fv o faint, *M* ofn a fv fynvw o faint, *NR* ofn dw fv fawr o fraint, *Q* ovon y vy ar vyniw vaint, *VW* os ofni fu fy nuw o faint, *G* ofni fv fy., *H* ofn fv fy., *L* ofn ar fynyw., *OP* ofn a fu ar Dduw., *XY* ofni ar., *b* ..fyny faint, *A* ..yn faint, *GH* ..o faint 28 *B-EIMNR-UYb/Qa* ..ofn / ovan dioddevaint, *JL* ..ofan y ddiodeffaynt, *H* ..y ddiodeffiaint, *X* ..i ddiodeffaint 29 *B-EI* duw welas., *AJLQa* ..y welas., *FGHK MNPRV-Yb* ..a weles., *STU* ..a welis., *FGMPVWYb* ..y dylunt, *H* ..i delymt, *KNQRSTUa* ..i delynt, *L* ..y dialynt, *OX* ..a dylunt 30 *GHKNRVW* diodeffodd., *P* ddiodeff., *X* addo gwaith., *Y* ddiodeff gwaith., *NR* ..duw gwaed Adda., *OP* ..gwaeth., *FQS-Y* ..adda., *L* ..jaddaf. 31 *AHa* rwymau., *STUX* Rwymo., *Y* rhwymo n chwyn..mawr chwant, *HQX* ..rai., *A* ..rai mwy chwant, *F* ..Rhoi mwy oi., *JL* ..arhai mwy chwant, *VW* ..rhag mawr chwant, *a* ..y rai mwy chant, *MOPQ* ..mwy., *STU* ..mwia., *b* ..mwy chwant 32 *J* am yr Iesu y rhwmasant, *AHQa* rai., *O* Rhin ar., *P* Rhon ar., *B-EZb* ..jesv Rwymysant, *IQ* ..Iesu rwymysant, *KMOPSTU* ..jesv rhwymasant, *H* ..jessv i rrwymassant, *FY* ..jesv j Rhwymassant, *L* ..Jessy y rhwymyssant, *a* ..jessu rwymassant, *W* ..a rhwymasant, *X* ..ai rwmasant, *A* ..rwymysant 33 *B-EG-Zab* dav., *F* dav oi flaen., *A-EIZ* ..vilaen., *H* ..vilen., *MOPW* ..fvlain., *XY* ..fylen., *B-EIZ* ..yn lle dav., *KPTVWY* ..lle i., *FKM-PRV-Yb* ..filoedd, *H* ..vilodd 34 *BDEM* dwy sgwrs., *FGXY* a dav., *R* a duw., *W* a dur., *V* a dur..ai dasg., *Z* dwy., *A* ..scwg., *K* ..yskwrt., *NR* ..yscwr., *Q* ..surch., *F* ..am., *GW* ..ar dasg., *STU* ..yw dwysko., *Y* ..i dwysog. 35 *GY* ..darn..dyrnawd, *JL* ..darn nadyrnawd, *VW* ..nid., *X* ..na ddoedd. 36 *G* nag iach vn fan., *JL* nag vn man yn jach., *OP* nag vn Rhan na man., *HKMNR VW* ..fann., *T* ..o gnawd 37 *FHKN-R* pa., *Z* bwy., *HKNRS* ..ni., *BD* ..bv. 38 *FHKNR* pa., *OP* oi ben yw draed nad., *Q* bai., *Z* bwy., *L* ..Ryw dwch., *G* ..dwytis., *H* ..twits., *J* ..dwch am., *Q* ..dwytt., *S* ..dwyth., *VW* ..dwyt wys heb waed., *a* ..dwytch., *W* ..ydoedd 39 *Z* [39–40], *AFHKL N-R* pa., *JL* ..draed., *H* ..draw., *X* ..drio. 40 *FHKN-RVa* pa., *JLa* ..law heb., *OP* ..law a ddaw., *Y* ..law na bai hoel., *X* ..hoel ddolvr, *NR* ..liwddvr, *H* ..loiwddvr 41 *G* barnv yn dost., *VW* barnau yn dost., *Y* ..bu ara., *OP* ..yw dwyn 42 *O* barn marw bu ir mab morwyn, *P* farn i farw i fab y forwyn, *JL* ..mab bry., *XY* ..mab morwyn 43 *G* ni bv yn well., *OP* ni bu im a wel., *Q* ny bym awel., *A* ..ymwoel., *FSTUa* ..ymwel., *HKMNR* ..ymwell., *JLXY*

..yn ol., *VW* ..ddim well., *b* ..ymwal., *AFJLOPQab* ..y bymoes, *XY* ..y pvmoes 44 *V/W* na / no rhoi yr oen., *FIL* ..Roi., *OP* ..Roi r., *E* ..vn krist., *Q* ..ar kroes 45 *F* duw fo roes waed i fron, *J* duw y Roddes y waed ay fron, *K* duw fry a roes gwaed i fron, *OP* Iessu fru Rhoes waed ei fron, *Q* Dyw vry roes gwaed y vron, *U/b* duw nef a roes gwaed / waed i fron, *NRVX* dwv nef a roes waed., *Z* duw ve roi., *L* ..efo a roes y wayd ay fron, *A* ..roes., *B-E* ..roe waed., *GSTWY* ..roes waed i fron, *H* ..roes gwaed., *I* ..Roe., *Ma* ..roes waed., *EV* ..i vronn, *a* ..y vron 46 *F* ..i ais., *GHJKNOPRVW* ..y dynion, *L* ..y dynon, *Q* ..dynon 47 *AQa* ..y vy.. 48 *B-EIZ* dall ny bv dywyll ny byd, *F* dall bv awr dywilly r byd, *a* dall by wawr dywilly byd, *GHKMNR-U* dall bv., *J* deally y by., *L* dyall y by., *O/P* ..y bu / a bu yn dywull bud, *X* ..ni bv..dwyll n y byd, *Y* ..ni bv., *VW* ..bu dowyll., *HLV* ..dwyll., *Q* ..dywyll byd 49 *J* ar ol y loes., *Y* ar loes., *VW* ..wres Iesu 50 *FGHMNRVW* newidio., *X* ..y byd., *B-EIZ* ..enaidav., *GHKNRV-Y* ..enyd i bv, *M* ..ennyd bv, *Q* ..enid ay bu, *BDFIJLS* ..i bv 51 *D* [51-2], *ABCEJLQZa* wedy varw., *FMNORXY* wedi., *GKPB* wedi farw., *I* wed varw., *STU* wedi fwrw., *VW* gwedi i farw., *BCEIZb* ..o vawredd, *FGHJ-TVWY* ..ai fowredd 52 *GJLS* oi farw., *TU* oi farw bv., *XY* ..farw bv.. 53 *Z* [53-4], *J* llawenydd oedd wen y ddyw, *L* llawenydd oedd ollwen ydyw, *FOPTU* ..oll a wnai dduw, *G* ..holl hyn heddyw, *HNRW* ..oll yn eddiw, *KY* ..oll ynn heddyw, *MV* ..oll yn eiddyw, *S* ..oll awanedduw, *X* ..oll ini heddiw, *a* ..oll awnaeddyw, *b* ..oll weneddyw, *A* ..awenddyw, *Q* ..a inddiw 54 *B* ..i varw y vyw, *CDEI* ..i varw o vyw, *F* ..o farw yn fyw, *GVW* ..i farw ai fyw, *NR-UX* ..o farw i fyw, *OP* ..pan fai fo yn fuw, *a* ..o varw y vyw, *HM* ..ai fyw 55 *OP* ar y difiau oedd yn dyfawd, *FGHJ-NR-W* duw svl., *HX* ..yn holl., *B-EJLZ* ..weddsawd, *GHKMNR-W* ..fedysawd, *QX* ..weddisawd, *Y* ..ddewisawdd 56 *J* en dug ni yr nef duw., *L* yn dyg ni yr nef vn dyw., *O/P* dug ir / yr nef duw ei., *Z* i dyg i nef duw., *A* yddyc., *AQa* ..y nef., *H* ..dw ai gwawd, *C* ..i gnawd, *X* ..oi gnawd 57 *VW* am gyfraith., *JL* ..yw., *OPa* ..bump., *B-EI-LN-RZa* ..archoll 58 *K* wr i ras i nerth ni oll, *A* wth., *D* ..i vab., *FOP* ..Ras., *M* ..ras im., *G* ..yn eithyr oll, *H* ..i neithir oll, *JN-RVWb* ..ynerthyr., *XY* ..ai wrthie oll 59 *AGIb* erchir jesy., *XY* archa., *OP* erchai ar Iessu., *Z* erchi jesu., *D* ..i jesv., *JLa* ..yr Iesu., *Q* ..er iessu., *TU* ..ar Iessv., *EFLOP* ..Rasawl 60 *X* erchi ir wy or vcha fawl, *Y* archa fi orvcha., *F* ..Ras erchi i fawl, *Aab* ..arych yfawl, *B-EGHIKMNR* ..ir vcha i vawl, *J* ..eyrwyh fawl, *L* ..eyrwyh y fawl, *OP* ..oi vchaf fawl, *Q* ..yr ycha fawl, *STU* ..eiriach i fawl, *VW* ..ir vchaf fawl, *Z* ..ir ywcha i vawl 61 *Z* [61-4], *G* erchi i rwyf er., *OP* archaf., *V* ..weddiau, *W* ..wedd i ddau, *a* ..weiliay 62 *GX* o faich., *H* ofiach., *VW* om., *X* ..o haint.. 63 *STU* erchi vn arch., *b* erchi i nerth., *V* ..ner., *AQab* ..yr ycha., *J* ..yr ychaf naid, *L* ..yr ychaf nad, *F* ..i wr arch a wnaf, *OP* ..yn arch a wnaf, *B-EGHIKMNR-UXY* ..a wnaf, *AQVWb* ..naf 64 *J/L* er y wrthiay ay ferthyrad / ferthyrriad, *O* ..archollion., *P* ..archoll ion., *Q* ..y archaf, *a* ..y harchaf 65 *NRV* erchis., *OP* arch o Ras., *VW* archaf., *J* ..yw

ras., *L* ..y ras., *B-E* ..rodd., *F* ..Ras., *G* ..arch., *STU* ..arch y sv., *NOPRV* ..svdd., *EFIOP* ..Raid 66 *Y* archa ar vn arch., *F* ..vnarch., *OP* ..yn arch i fenaidd, *BE* ..arch i venaidd, *VWXY* ..arch ir enaidd

*Awduraeth*

*a* Dienw; *BL Add 31090* Ieuan Deulwyn (ond yn yr adran sy'n cynnwys gwaith Lewys Morgannwg); *Llst 166* Lewys Môn; *OP* Siôn Cent neu Ieuan Deulwyn neu [Gwilym] Tew Brydydd neu Ruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan

105  
*Hiraeth*

Hiraeth sydd bob dydd i'm dwyn:  
Haint serch am lwysferch lasfwyn.  
Hwn a dynn, henw ei dad,  
4 Hiraeth, oerguriaeth, gariad.  
Heno y'm gad dan f'adain  
Hiraeth, nwyf serch y ferch fain.  
Heddiw y gwn, mal hydd gwyllt,  
8 Hiraeth, magwriaeth gorwyllt.  
Hwn a drig dan frig y fron,  
Hiraeth, magwriaeth gwirion.  
Hyn, tro sad, haint a roes ym;  
12 Herod hiraeth serch hoywrym.  
Hwn oedd ddig heno o'i ddwyn,  
Hiraeth ddyn lwysfaeth lasfwyn.  
Hiraeth a bair hwyrwaith boen;  
16 Hi nis gŵyr, hoywnaws goroen.  
Hwn a weodd hen waywyr;  
Hai how, hiraeth! How! Ni thyr.  
Hyn a roes bun yn unawr:  
20 Hiraeth, trwm waith tra mawr.  
Hwyr ym adel, gafel gwaeth,  
Herwydd ym gario hiraeth.  
Hwn, nid â er henwi dydd,  
24 Hiraeth, sy boenwaith beunydd.  
Hawnt a rydd hwnt ar wreiddyn.  
Hiraethed y blaned on'd blin?  
Hyrddiodd i'm calon hwyrddig  
28 Hireth, llym doreth, llam dig.  
Hynod medraf ei henwi;  
Hiraeth, gyfyngwaith, gwae fi!  
Hyn a'm gyr heno i'm gorwedd;  
32 Hiraeth, Mair, a bair y bedd.  
Hynaws boen, hyn sy beunydd,  
Hiraeth, gelyn aeth gly 'nydd:  
Hiraeth am wen gymhengamp,  
36 Hiraeth gur, hwyr araith gamp.

Hiraeth, rhew odiaeth ydoedd,  
 Hai how! Gwae fi! Hygof oedd.  
 Hon a ddaliodd hen ddolur:  
 40 Hiraeth, magwriaeth i gur.  
 Hon a roes hoen i'm poeni:  
 Hiraeth, fal mamaeth, i mi;  
 Haint i'm dal mewn gofalfyd,  
 44 Hiraeth, heb obaith o'r byd.

*Ffynonellau*

A—Brog (y gyfres gyntaf) 6, 90<sup>v</sup> B—Tanybwllch 112

*Amrywiadau*

1 *B* [1–4] 15 *AB* ..hwyrwaeth.. 20 *A* hiraith.. 23 *AB* ..af.., *B* ..er henw y  
 dydd 24 *A* ..boenwaeth.. 27 *B* herddiodd.., *AB* ..ym kalon.. 30 *B*  
 ..gyfyngwaeth.. 31 *AB* ..ym gorwedd 34 *AB* ..gelyniaeth gle nudd 41 *A*  
 ..ym poeni 42 *A* ..y mi 44 *A* ..he..

106  
*Gwayw serch*

Pa fyw ddelw? Pa feddyliau?  
Pa arwydd haint sy *i*'m pruddhau?  
Trwm yw 'maich, term 'y muchedd,  
4 Yr hwn bwys a'm rhy 'n y bedd.  
Am oes dyn—moesed annerch!—  
Ni thrymhâi f'oes eithr am ferch.  
Dwyn 'y maich dan ymochi;  
8 'F allai o'i ddwyn fy lladd i.  
Poen yw baich pen heb achos;  
Poeni wnaif heb huno nos.  
Mi a guriais am gariad  
12 Mwy no dyn am fam neu dad.  
Nid oes, mau enaid, i wan  
Yma hanner myhunan.  
Un sud â'r eos ydwyf  
16 Ac ar ddrain gorwedd yr wyf.  
Mae gwŷn yn magu ynof  
Mal dur gwyn y moldiai'r gof.  
Un llafar wyf yn llefain  
20 Â geirw môr wrth guro main.

Ei charu bŷm ddechrau byd;  
Iawn y mae *i* ddwyn 'y mywyd.  
24 Edrych, gwen, mil a'i cennyw,  
Arwyddion bedd ar ddy'n byw.  
'Y mhoen, hyd draw am hynt trwm,  
Ni ddygai farch ei ddegwm.  
Dygais, a briwais i'm bron,  
28 Maen o goel mewn y galon.  
Och na wŷr ferch wen eirian—  
Och nad gwell!—uchenaid gwan!

Nid un, wen, ydyw â neb,  
32 Nid un raen dawn ar wyneb.  
Nid oedd wyn hudai ddynion  
Ond yr haul a gwynder hon.

- 36 Mwyn yw gwen, a main ei gwedd;  
Ni bu fwyn na bai fonedd.  
Bonheddig yw bun heddiw,  
Balch yw bun o'i llun a'i lliw.  
40 Nid un wasg pawb dan wisg pen,  
Nid un fonedd dyn feinwen;  
Nid un ddeurudd dan ruddaur,  
Nid un ddull dyn dan ddellt aur:  
Mewn y foled mae'n felyn,  
44 Yn gnotiau, aur ar gnawd dyn.

- Dyn wyf erioed yn noefiaw  
Yn niben llyn heb un llaw.  
Meddwl a wnaif fy moddi  
48 Yn aros help 'n ei gras hi.  
Mae gwayw 'n y fron a'm gwnâi'n friw,  
Mae 'nghudd, a'm angau heddiw.  
Ni chël ei grudd uchel gron;  
52 Mi a'i celais i'm calon.  
Y mae hiraeth i'm hoeri  
Mwy no saeth i'm mynwes i.

- A fu undyn un fwynder  
56 Na dyn o'i siwt dan y sêr?  
Canmol dyn manol meinwych,  
Hudoles wen, hoywdlos wych.  
Ni bu, nid oes i'n oes ni,  
60 Ni bydd, tebyg neb iddi.

### *Ffynonellau*

A—Stowe 959 [= RWM 48], 108<sup>r</sup> B—Card 5.44, 277<sup>v</sup> C—Llst 47, 429  
D—Llst 134, 290<sup>v</sup> E—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 527 F—LIGC  
21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 210<sup>r</sup> (*collwyd rhannau o'r cwpleidi  
olaf*) G—BL Add 31090, 93<sup>r</sup>

### *Amrywiadau*

1 *A* py..py., *CG* ..pwy., *A-G* ..veddylay 2 *CEFG* ..hynt., *ABEFG* ..ssym  
pryddhay, *CD* ..sym pruhav 3 *B-G* ..trem.. 4 *A* ..ym Ry mywn bedd 5 *B*  
..mosed.. 8 *B-G* velly ddwy yn vy lladd j 9 *E* ..yw i baich.. 10 *B-G* poen a  
wna., *A* ..u wnaif., *G* ..uno.. 12 *CG* vwy., *B-G* ..na., *A* ..nay dad 13 *B-G*  
..mae., *E* ..inoes., *A* ..y wann 14 *B-G* ..ym hvnan 15 *B-G* ar syt yr eos  
ytwyf 16 *B-G* ..ddraen., *A* ..ddrain wryd.. 17 *BCEFG* ..gwnn.. 18 *CDFG*  
val..a voldiai., *A* ..voldyay.. 19 *B-G* ..llavur ir wy.. 20 *B* ..wr guraw.. 22

*A-G* ..may ddwyn.. 23 *A* ..a heniw 24 *ACDFG* arwyddon.. 27 *A-F* ..ym  
 bronn 29 *A* [29–30] 30 *D* ..nad ychenaid., *CFG* ..gwiw.. 32 *A* ..Raen., *B-*  
*G* ..yr wyneb 33 *A* [33–6], *B-G* ..a hvdai.. 39 *E* ..vn wisg.. 41 *ABDF*  
 ..Ryddayr 42 *F* ..ddell.. 43 *D* ..velen 44 *A* ..gnotyay ar.. 45 *AF* ..novyaw  
 46 *BDEF* aniben.. 47 *A* vy meddwl u wna., *BE/CDFG* meddwl mae gwell  
 y / yw moddi 48 *B-G* nag aros help.. 49 *A* gwayw..ym gwnai., *D* ..gwae..  
 50 *B-G* ..ym., *A* ..ym vangay.. 51 *B-G* ..y grudd.. 52 *A-G* ..ym kalonn 53  
*A* [53–4], *B-F* ..ym hoeri 54 *B-G* ..na., *BDF* ..ym mynwes.. 56 *BDE* ..syt..  
 59 *BDFG* ni bydd., *A* ..yn hoes., *BDE* ..yn oes., *C* ..ynn oes., *G* ..ym oes..  
 60 *A* ny tebig., *A-E* ..yddi

*Awduraeth*

*G* Dienw (ond yn yr adran sy'n cynnwys canu'r bardd)



*Cwyn y bardd tlawd*

- Y fun weddw, *mor* fwyn oeddych,  
 A theg iawn, gyfoethog, wych,  
 O chefaist bryd a chyfoeth,  
 4 O ddawn a dysg myn ddyn doeth.  
 Od ydwyf, dy gydoedi,  
 Wrth dy fodd, na wrthod fi.
- 8 Rhoi 'mryd yn rhwym yr ydwyf;  
 Edrych o'i roi'r drych yr wyf.  
 Os dedwydd, os da ydwyd,  
 Eisiau rhent fy nghasáu'r wyd.  
 Ni wn fod ym rwn o rent  
 12 Na thir, fun, eithr y fynwent.  
 I farw 'dd af, yn fardd Ofydd,  
 Er nadau wen yr un dydd.  
 Och na baech, wen ei buchedd,  
 16 Neu na bawn innau 'n y bedd!  
 Ni bu gur i neb o Gred  
 Na dolur cyn dy weled.  
 Meddwl hir sy i'm eiddilhau;  
 20 Och i'r meddwl na'ch maddau!  
 Nid wyf iach; llyma'r achos:  
 Eisiau, gwen, awr gysgu'r nos.  
 Ni bydd aelod heb ddolur;  
 24 Ni pharhâi gorff o'r rhyw gur.  
 Ai mawr cariad mur cywraint?  
 Och, ferch, na wyddech ei faint!  
 Mae dwy saeth i'm dwyais i  
 28 Ym mhob hanner i'm poeni.  
 Blaen arf fydd blin i wirion;  
 Brau mae'r awch yn briwo 'mron.  
 Blin yw'r hynt mal helynt hydd;  
 32 Och flined na chaf lonydd!  
 'Dd wy' 'mhoen na ddoi i'm hannerch;  
 Er dy fwyn yr ydwyf, ferch.

- 36 Llun iarlles mewn llen eurllawr  
 Yw dy lun o'r iad i lawr:  
 Dy fanwallt dros dy faneg  
 Yn gnotiau aur ar gnawd teg;  
 40 Main yw d'ael, mwyn yw d'olwg,  
 (Mwynder y drem a wna drwg)  
 Dy wyneb *mal* ôd unnos  
 A dau rudd *mal* blodau rhos;  
 Dy barabl di a burwyd  
 44 O'th fin doeth; fy enaid wyd.  
 Mi a wn lle mae anwar;  
 Mi, o'th gaiff, yw'r mab a'th gâr.  
 Fy maneg fo i'm einioes  
 48 A garo merch gŵr i'm oes.

- At dy wyneb y'm tynnwyd;  
 Ni alla-i rwn o'r lle'r wyd.  
 Bardd o fyd breiddfyw ydwyf:  
 52 Ba waeth i ferch ba beth wyf.  
 O'm hoedaist baham ydoedd;  
 O chai sy well achos oedd.  
 Oni'th gaf am fy nhrafael,  
 56 O chai fo gwaeth, och fi'i gael!  
 Oni ddaw mae ym ddial  
 Am un dyn ym iawn neu dâl.  
 'Y mun, gwybydd mewn gobaith  
 60 Y tâl Duw i'r tlawd ei waith.

### *Ffynonellau*

A—Llst 6, 236 B—Pen 99, 34 C—Pen 101, 213 D—Card 5.44, 264<sup>v</sup> E—  
 Llst 47, 372 F—Llst 134, 275<sup>v</sup> G—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 502  
 H—BL Add 31090, 90<sup>v</sup> I—CM 12, 360 J—Stowe 959 [= RWM 48], 32<sup>v</sup>  
 (*llau. 1–23; collwyd y ddalen ddilynol*) K—BL Add 15057, 14<sup>r</sup> (*llau. 16–  
 26, 33–8, 43–4, 39–40, 45–60; collwyd rhannau o'r testun*)

### *Ffynhonnell arall*

LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 198<sup>r</sup> (*collwyd rhannau o'r  
 testun*)

### *Ffynonellau sy'n cynnwys llau. 9–12, 53–6, 25–6, 59–60*

BL Add 14967 [= RWM 23], 267; LIGC 5269B, 229<sup>r</sup> (*collwyd llau. 55–6*);  
 Pen 112, 494; LIGC 834B, 177; LIGC 19904B [= J. Gwenogvryn Evans ii  
 i], 85<sup>r</sup>; Bangor 13512, 209

os adwen ofnvs ydwyd  
 Eisie rent ynghassav rwyd  
 ni wn vod ym rwn o rent  
 Nathir vvn eithyr y vynwent  
 os oedi ofnvs ydyw  
 o chai sy well achos yw  
 onith gaf am vynrravael  
 o chai vo gwaeth och vi gael  
 ai mawr karriad mvr kowraint  
 och verch na wyddych i vaint  
 vy mvn gwybydd mewn gobaith  
 y tal duw ir tlawd i waith

### *Amrywiadau*

1 *J* vynyn.., *AD-H* ..weddw vwyn.., *BCIJ* ..fy Nuw.. 2 *BCI* a theg wen.., *D-HJ* a theg wyd.. 4 *C* ..myn ddoeth 5 *H* os.., *A* ..dy gyd doi di, *BCI* ..o gyd oedi, *D-H* ..i gyd oedi, *J* ..yth gid oidi 7 *A* roi..rwym.., *BCI* ..ymryd rhwym.., *J* ..ydydwy 8 *H* ..o roi.., *BCI* ..ar roi drych.., *G* ..Roi.., *J* ..u drych.. 10 *D-G* aisav.., *AH* ..rent.., *BC* ..rhent ai nghassau.., *I* ..ai chasau.. 11 *BC* ni wr dduw wn ym rwn o rent, *I* fi ni wn am.., *J* ny wnn ym Rwn.., *H* ..rwm.., *DFG* ..Rent 12 *BC* na thri.., *J* i a thir.. 13 *AJ* y varw.., *BCI* yn farw.. 14 *AJ* er na day wen.., *D* er nadae wenn.., *F* er nad av wenn.., *BCI* er nad af yn yr.., *J* ..nyr vn.. 15 *J* ..bych.. 16 *G* ..ninnav.. 17 *A* ..y neb.., *J* ..ym neb.. 19 *J* + *i*, *AD-I* ..sym aiddilhay, *J* ..hir [ ]il hav, *K* ..sy n eiddilhav 20 *BC* nych yw meddwl.., *D-H* och ym meddwl.., *I* wych yw meddwl.., *AJ* ..yr meddwl.., *K* ..y meddwl.. 21 *BCI* ..dyma r achos, *J* ..dyma v achos, *K* ..lle mae r achos 22 *A* aisay.., *BCI* ac os gwan wyf gysgu nos, *D-H* aisav gwann wy gysgi nos, *K* ..gwenn yw.., *J* ..gwenn yw y.. 23 *J* ny by.. 24 *A* ..o ryw.., *BCI* ..vnrhyw.., *D-G* ..ny Ryw.., *H* ..ny ryw.., *K* ..a rruw.. 25 *BCI* mawr yw cariad mvr.., *A* ..myr.. 26 *BCI* ..wypech.., *D-G* ..wyddiech.., *F* ..maint 27 *ABD-G* ..ym dwy.. 28 *ABD-H* ..ym poyni 29 *A* ..araf.., *BCI* ..arf a blin.., *A* ..y wirion 30 *BCI* blino mae r awch blaen y mron, *D-H* ..briwa.. 31 *AD-H* ..val.. 33 *AD-HK* ..ny.., *DFGI* ..ddoi m hannerch, *AEH* ..ym hanerch 36 *BCI* ydyw r llen.., *K* ydiw r llvn.., *A* ..y lawr, *BCIK* ..ir llawr 38 *K* y gnotae.., *BCI* ..yn gnwd teg 39 *K* ..yw r ael..yw r olwg, *A* ..yw del.. 40 *BCI* eboir y drem a bair drwg, *D-H* mwynder yw ym.., *A* ..y wna.., *K* ..ydiw r drwg 41 *A-I* ..val.. 42 *BCI* a dwy rudd fal dau o ros, *DFG* dy rudd fal bagad o Ros, *AEH* ..val..ros 43 *D-H* [43-4] 44 *K* ..y doeth.. 45 *BCI* minneu a wnn / wn y mae n anwar 46 *A* ..ath gaiff.., *K* ..gayff y mwya.., *B-I* ..yw r mwya th gar 47 *A* ..yvo.., *K* ..a vo.., *H* ..am.., *D-G* ..am einoes, *AK* ..ym ainoes 48 *A* y garo.., *D-HK* a gar merch a gwr.., *ABD-H* ..ym oes 50 *AC-I/G* ..allai rwn / Rwn.., *K* ..alla Rwn.. 51 *BCI* [51-2], *K* ..ovyd.. 52 *K* pa.., *A* ..y verch.., *D-HK* ..verch beth a vwylf 53 *D-H* om hoeded.. 54 *A* o

choy., *EH* o chael.. 56 *A* o choy., *D* ..sy well., *K* ..a vo., *ADEGHK* ..och  
 vi gael, *F* ..oi gael 57 *A-I* ..y mae yn ddial 60 *A* ..yr tylawd..

*i*

meddwl Ryddwl y ddalaf  
 meddylyaw *keissaw* nys kaf

*Awduraeth*

*H* Dienw (ond yn yr adran sy'n cynnwys canu'r bardd)

*Atodiad i*  
*Tynged y serchog*

- 4 Y ferch wyl fry uchelwaed,  
Yn oes dyn dos, a nos daed.  
Nid oes latai fis Mai, 'merch.  
Wyd wen, a feiddio d'annerch.  
Gwna', dihun er un o'r iaith,  
Dy annerch, er Duw, unwaith.
- 8 Meddylia em y ddwywlad  
Fy neol i yn y wlad.  
Ym nid rhydd na glaswydd glyn,  
Na lle i 'nhroed, na llwyn rhedyn.  
12 Cariad ni fyn fy ngadaw;  
Caethdir ym yw'r cyweth draw.  
Myned oedd well ym, meinir,  
I'r tân nog i fan o'r tir.  
16 Dywod dy blaid, myn Dewi,  
Y'm crogid o'm delid i.  
Och ar y mab, o cherir,  
A rôl ei serch ar oes hir!  
20 Ni byddaf, deuaf i'r daith,  
O farn dyn farw ond unwaith.  
Gwell gan serchog ei grogi  
No byw a bod hebod di.  
24 Ni'm lluddian' oni'm lleddir,  
O daw nos, lle 'dd wyd, yn wir.  
Och am faen Luned ddedwydd  
A'm cuddiai pan ddelai'n ddydd!  
28 Oer na chaid rhag orn a chur,  
Llwyn o wrthiau, llen Arthur  
Yr hon yn rhyfedd, meddyn',  
A guddiai danai bob dyn.  
32 Mau tŷ'r gog rhag swyddogion  
Â mân frig ym yn y fron.  
Edrych dan gêl a'th welwy'  
A'th wyllo oddi yno 'dd wy';  
36 Gwyllo'r ffenestr ddirgeloed  
A drws y cau dros y coed.

Och am wydr Rhydychen  
 Drwy'r pared i'th weled, wen!  
 Ni chair gwên ar fy ngenau  
 40 Y dydd ni 'mwelom ni'n dau.

Llawer fal cwrs y lleuad  
 I'th gylch a gerddais; ni'th gad.  
 Cerdded dy dir, feinir fain,  
 44 Yr wy' fal sercel Rhufain.  
 N'ad ym golli'n annedwydd  
 Bôn y troed heb enaid rhydd.

Y llwyn ir ar dir dy daid  
 48 I'th aros yw'r Porth Euraid.  
 Poena cwlpa yw annerch;  
 Pardwn sy rhag purdan serch.

Dy weled, wen, deupen dydd  
 52 Sy baradwys i brydydd:  
 Gollyngdod o'm pechodau,  
 A nef oedd dy gael yn fau.

### *Ffynonellau*

A—Pen 76, 179 B—BL Add 14979, 144<sup>v</sup> C—BL Add 31087, 152<sup>v</sup> D—LIGC 6471B, 169 E—Brog (y gyfres gyntaf) 4, 64 F—Card 2.68 [= RWM 19], 607 (*llau. 1–46*)

### *Amrywiadau*

1 BC ..or vchelwaeydt, E ..hael or vchelwaed 2 BC ..a nos da yt 3 E ni bv., A ..fis fai i verch, D ..fis fai ferch, C ..mis., BC ..y merch, E ..ferch 4 F na dyn., E hyd hyn ni beiddiwyd., BCDF ..feiddia.. 5 A ..dyhvn., B–F ..dy hvn.. 6 E mynn d anerch fy myd., D ..er du., F ..f enaid.. 8 E ..ne ol yn.. 9 BC/E/F nid / na / nad Rhydd na glaswydd na glyn 10 DEF na lle n rhoed., C na lli., BCE ..mewn llwyn., D ..mwyn.. 11 E ..ni myn.. 12 BCF ..ym y koweth., E ..yw y.. 13 E myned gwell oedd er meinir, A ..oyd well., BC ..well a meinir 15 B–E dyfod., F dywyd.. 16 E im collid.. 18 B a Roe., F a ro., A ..roy serch., AE ..ar i oes.. 19 E ni bydd raid dai ir daith, A ..bydda deyaf., BC ..bydda o deva., D ..dawaf., F ..bydda o da i daith 22 A–F na.. 24 D deua r nos lle r wyd., E a daw nos lle rwyd., F nad ar nos llei rwyd., ABC ..ddwyt.. 25 BC och am y lvned., F [ ] ail vned.. 26 ABCE ..pen.. 27 F och..heb orn na chur, DE ..rhag oerni a., BC ..ofn.. 28 F lawn..lenn.. 29 E hon a oedd rhyfedd., B ..oedd Ryfedd., C ..oedd ryvedd.. 30 D a gudd hi dani., E ..dan [ ] bob.. 31 EF mae., A ..tv.. 32 E mae man frig ym min y fron 33 F 34–3, F a golwg fyth ai gwelwy 34 F gwilio o ddyno., A ..oddyno.. 36 E dros y cae a drws., F ..kor.. 38 F ar., D ..pured dy weled..

39 *A* ..genav 40 *A* ..ymwlom., *BC* ..ni welom., *D* ..ymwelwn., *E* ..mwelwn  
 ein dav, *F* ..nim gwelom yn dau 42 *E* ..rodiais.. 43 *F* + *i*, *F* ar hyd dy dir..  
 44 *D* ..ryfain 45 *E* [45–6] 46 *AD* boen y trayd., *F* hoen y traed heb vn oed  
 rhydd 47 *E* ..dan dir.. 49 *ACE* penna., *B* pina., *D* prima., *AE* ..kwpla., *E*  
 ..im hanerch 50 *ADF* ..sydd.. 51 *E* ..em., *A* ..ddevpen., *D* ..deuben., *BCE*  
 ..deiliw dydd 52 *A* syd., *DE* oedd.. 53 *E* ..am bechodav 54 *A* nef oyd., *E*  
 nev n dwyn oddi yma ein dav

### *Awduraeth*

Lewys Morgannwg *A*, Gutun Owain *BC*, ‘ni wn i pwy ai kant’ *D*, Bedo  
 Aurdrem *E*

### *Trefn*

*BCD* 1–24, 27–30, 37–8, 25–6 (nis ceir yn *D*), 39–42, + *i*, 43–6, 49–54

*i*

ail yr hawl loyw ar helynt  
 ner gwalch pen gymero r gwynt

*Atodiad ii*  
*Nychdod y bardd*

Dyn wyf ym mhurdan Ofydd.  
Ai nes i dâl nos na dydd?  
Y pwynt yr wyf poen y trig.  
4 Pwynt diobaith pond tebyg?  
Mae'n od, wen, mwyn yw d'annerch,  
Marw neu fyw am yr un ferch.  
8 Dyn a wna, dyna 'niwedd,  
Dwyn f'wyneb i dan faen bedd.  
Beth a dâl torri'r galon?  
Beth yw 'mrad? Gobaith 'y mron.  
12 Ni chêl, mynych y hwylais,  
'Y ngrudd a fo 'ngwreiddiau f'ais.  
Ni chredy'r drych yr ydwyf.  
O! Ddelw Grist, myddylgar wyf.  
16 Mwy bwys ym no'r mab symud  
Neu'r dyn a fai 'rloed yn fud.  
Er un ferch mi a rown f'oes.  
Ni rôi faneg er f'einioes.  
20 Dyn ni w'yr fod hanner fu,  
Duw a'i g'wyr, i'm digaru.  
Digariad wyf, di-gred wan,  
Digasog wyd o gusan;  
Difwynder â'th arferoedd.  
24 Darn o saeth drwy 'nwyais oedd.  
Dy olwg fal dau elyn,  
Diludded ynt i ladd dyn.  
Ni wna fun yn y fynwes  
28 ('Y meddwl ym) ormodd les.

O dda mwy ni ddamunwn  
Ond nef a'r un dyn a wn.  
Maen yw f'enaid, mwyn feinwawr;  
32 Y mae'r maen yn y môr mawr.  
Noefio eirw a wna, forwyn,  
Drwy chwe môr draw er eich mwyn.  
Meudwy yn fy myw ydwyf  
36 Neu sant o fewn ynys wyf.



- Mi a boenais, mab unoed.  
 Mynnaisrawn i'm nesa' 'rïoed.  
 Darfu 'ngwedd a'm nerth heddiw,  
 40 Darfu oll-oll droi fy lliw;  
 Darfu'r hun drwy fawr henaint,  
 Drwy fy mhoen darfûm o haint.  
 On'd rhyfedd—on'd hir hefyd?—  
 44 O ddyn byw ydd wy' ny byd?  
 A chael awr Achelarwy,  
 Fy nhyb na cheisiwn fyw'n hwy.  
 Bûm am ferch—ba wiw ym fod?—  
 48 Bum awr fal y bûm erod.  
 Antur, fun, nad hir f' einïoes.  
 Y ferch fwyn, na fyrehwch f'oes.  
 Yfory 'dd af i orwedd.  
 52 Ewch chi, fy mun, uwch fy medd.  
 Erchwch i wen arch o chaid:  
 (Wyf ym mhoen) nef i'm henaïd.

*Ffynonellau*

A—Card 5.44, 260<sup>f</sup> B—Llst 47, 351 C—Llst 134, 271<sup>v</sup> D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 494 E—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 193<sup>r</sup> F—Stowe 959 [= RWM 48], 32<sup>r</sup> G—Wy 1, 306, 305, 289 H—Card 2.40 [= RWM 26], 149 I—BL Add 31090, 88<sup>r</sup> J—Card 2.114 [= RWM 7], 671 K—LIGC 834B, 111 L—LIGC 5269B, 135<sup>r</sup> M—Pen 101, 115 N—J 139 [= RWM 14], 74 O—CM 23, 107<sup>v</sup> (*llau. 1–26*) P—Pen 83, 62 (*llau. 35–54*) Q—LIGC 16964A, 109<sup>v</sup> (*llau. 35–54*) R—Bangor 13512, 73

*Amrywiadau*

2 *N* nid oes dal na nos na dydd, *J–MOR* nid., *CH* ..ym dal., *F* ..y dal., *ABDEI* ..a dydd 3 *G* pwynt yr wyf poenae.. 4 *G* ..pand., *HJ–OR* ..poen.. 5 *A–EGI* mae n oed., *F* may noed., *H* mae oed., *J–OR* mae ynod., *N* ..mwyn dy annerch 6 *HJ–MOR* farw.. 7 *JN* dyn a wnaif dan vn wedd, *O* ..dyna aniownwedd 8 *A–EG–I* ..ywch dan., *JNO* ..byth dan.. 9 *K–MR* ..y galon 10 *J–OR* byth., *GHI–OR* ..vy mrad..vy mron 11 *C* ..mynych wylais, *K* ..lle mynych hwiliais, *LM* ..lle mynuch wiliais, *R* ..lle mynych chwiliais, *G* ..yr wylais, *H–JNO* ..hwyliais 12 *F* vyng rydd vo., *GHI–OR* vnygrudd., *N* ..a fu., *A–G* ..yngwraiddav., *H* ..ngriddie., *J–MOR* ..yngwraidd.. 13 *A–EG–I* ny chredir., *J–MOR* ni chred y drych., *N* ni chred edruch.. 14 *H* o Dduw., *JN* i ddelw., *O* am., *A–EG–IK–NR* ..meddylgar.. 15 *F* [15–16], *ABHIK–MR* ..na., *C–E* ..na mab.. 16 *G* nen ryd., *H* nar dyn.. 17 *CFHR* ..mi rown., *AD* ..Rown.. 18 *AD–F* ..Roi., *A–FN* ..vainoes 19 *G* ni wyr vod haner a vu, *K–MR* ..a fv 20 *F* dyw a gwyr ym., *ABDEG–IKLNR* ..ym dy garv, *C* ..yn

dy garv, *M* ..am dy garu, *O* ..na digarv 21 *BGI* dy gariad., *J-OR* ..dy gred..  
 23 *A-JNO* dy vwynder., *C* ..at.. 25 *F* [25-6], *O* [..] 26 *J* dy laned wedd.,  
*K-MR* dy laned wyd., *B-EG-IO* ..wyd., *N* ..oedd.. 27 *O* [27-54], *F* ..myn  
 yn ymynwes 28 *FHJN* vym eddwl., *K-MR* meddwl..o les, *H* ..lles 29 *FNR*  
 ..ddymynwn 30 *N* ..yr vn.. 31 *F* [31-8], *A* mae n yw., *K-MR* mae yn  
 fenaid., *G* ..venaid [ ], *A-EHI* ..vaenawr, *L* ..feinwar 32 *G* mae r., *K-MR*  
 mwy nor maen.. 33 *JN* nofio fory am forwyn, *GHK-MR* nofio., *CDH* ..a  
 wnai vorwyn, *ABEI* ..wna.. 34 *G* drwy y chwe mor er., *BEIKMR* drwy r..  
 35 *A-CGIN* ..y myw., *P* ..yn vyw., *H* ..fy min.. 36 *H* ..saint.. 37 *R* mi  
 boenais.. 38 *J-NR* mynwes., *A-E* ..Rawn., *H* ..yn nessa., *L* ..a red, *KMR*  
 ..a roed, *N* ..i roed, *P* ..roed 40 *DE* darfy oll ym droi., *H* darfu oll droi., *JN*  
 darfv oll fry.. 41 *GQ* darvu hvn., *HJN* darfu hyn., *K-MR* darfv er hyn., *D*  
 ..hoen.. 42 *JN* darfv ym hoen derfyn am haint, *K-MR* deryw ym hoen draw  
 om haint, *A-EG-I* darfv m hoen., *H* ..a darfu mhaint 43 *P* ..ryfedd.. 44  
*J/K-MR* o dduw byw / n byw ddyd yn y byd, *N* o dduw byw i ddun ny bud,  
*A* ..i dwy., *P* ..yn byd, *Q* ..i ddwyn ny byd 45 *F* achiel awr., *A-CEI* ..ail  
 vchel arwy, *D* ..ail achilarw, *FHK-MPQR* ..ychel arwy, *JN* ..ychar aelwy 46  
*F* yn hyb., *J-NR* fy hvn., *K-NR* ..ni., *H* ..na chowswn., *A-EIP* ..chaiswn.,  
*A* ..vwy n hwy, *K-MR* ..fyw hwy 47 *A-EHI* bv am vvn., *G* bu., *K-MR* ..y  
 ferch., *K* ..pe., *R* ..be., *F* ..by wiw.. 49 *B* ..vvm., *A-FINP* ..veinoes 50 *G*  
 o.. 51 *E* [51-2], *J-NR* ..i raf., *F* ..rraf y orwedd, *P* ..y orwedd 52 *G*  
 dewchwi., *A-DGI* ..y mvn., *FPQ* ..vym yd., *H* ..y myd., *A* ..ywech medd,  
*B-DG-I* ..y medd 53 *GJ-NR* erchi., *F* ..y wann., *A-EG-IK-MR* ..wan., *R*  
 ..o archiaid 54 *A-EGI* af., *H* er fymhoen., *J-NR* am fym hoen., *A-DFNPQ*  
 ..ym henaid, *E* ..ym enaid

### *Awduraeth*

*A-H, PQ* Lewys Morgannwg, *J-NR* Tudur Aled, *O* Dienw (*collwyd y diwedd, ond dilynir J-N yn hytrach nag A-I*), *I* Dienw (*ond yn yr adran sy'n cynnwys canu'r bardd*)

*Atodiad iii*  
*Englynion y ffydd*

Y ffydd o newydd i Ni a gafwyd  
Da unwyd daioni  
Gwiwlwydd ar ffydd Nef Geli  
4 Gwirffydd hardd goreuffydd hi.

Ffydd hedd a gwiredd rhagorawl in oes  
Ffydd ein Iesu nefawl  
Ffydd ddifaswedd ffydd foesawl  
8 Ffydd deg er ffeiddio Diawl

Ffydd yn Nuw ddofydd iawn ddefod ai mawl  
Ffydd moliant ir Drindod  
Ffydd gwbl hoffaid ei gwybod  
12 Ffydd glaer a phraff iddi glod.

Ffydd ddiragrith bendith byd  
Ffydd cyfiawnder mwynber mad  
Ffydd wir yn gywir i gyd  
16 Ffydd ein Rhi ffydd Jon a'i rad.

*Ffynhonnell*  
LIGC 13154A, 278

*Priodoliad*

Lewys Morganwg ai cant pan oedd bedwar ugeinmlwydd a deg oed Ym Mromiart yn Sir Henffordd (o Lyfr Twm Rhobert).

*Atodiad iv*  
*Amryfal linellau a chwpledi*

*i*

Ni bu synnwyr pen *gyn* gymhened,  
Ni bu iaith tafod *gyn* baroded,  
Ni bu ym mron galon *gyn* ddigeled,—frau,  
Nac un â geiriau *gyn* gywired.

*Ffynhonnell*  
Llst 55, 42

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 ..ry gymhened 2 ..ry baroded 3 ..cyn.. 4 ..geirev..

*ii*

Ni ddeil hwy dan ddwylo hon

Ni wŷr dyn fyrred einioes;  
Fo wŷr Duw fyrred yw oes.

Sabl y gwisg dros bali gwen,  
Sioned, unwisg Sain Dwynwen.

Gwae frawd o'r fedrawd a'r fam

E wŷs eisiau'n y sesiwn  
Y wlad o'r rhyw wladwr hwn.

O dynged y daw angau

*Ffynhonnell*  
Llst 55, 87

*Darlleniadau'r llawysgrif*

5 ..yn wisc.. 7 ..eishev n y Siesswn..

*iii*

Un seren ar nos hirynt

Arwydd trist orddod Duw 'rhawg

*Ffynhonnell*

Llst 55, 61

*iv*

Af â mawl ofwy milwr

Gŵr glewddewr a gwraig loywddoeth

Mae' byd cennyd a'r can

Cyneddfau, moesau a mawl

*Ffynhonnell*

Llst 55, 33

*Darlleniad y llawysgrif*

3 ..gennyd..

*v*

Y llew du sy wllwyd ynn

*Ffynhonnell*

Llst 55, 25

*vi*

Noddyn wyd, ni wedda neb

A ddoeth ynod ddoethineb

*Ffynhonnell*

Llst 55, 10

*vii*

Gan cinio a gwin canel

*Ffynhonnell*

Card 3.12 [= RWM 82]

*viii*

Gwendid yw newid dy naith

*Ffynhonnell*

LIGC 13091E, 25

*Olnod*

Lewis Morganwg, Dychan y diwygiad crefydd.

*ix*

Peraidd yw'r ffrinc ar tincan

*Ffynhonnell*

LIGC 13091E, 244

*Olnod*

L<sup>s</sup> Morg. i'r delyn.

*x*

Glas iawn oedd glwys fwyn ei ddair  
 Golygon fwyn gloyw glain Fair  
 A glas oedd Fernagl Iesu  
 Ag un gwedd ag eurddrom gu.

*Ffynhonnell*

G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 184.

*Priodoliad*

Lewys Morganwg, in praise of the Monastery of Glynn Nedd, 1520

*Atodiad v*

*Englyn gan Forys Gethin i groesawu Lewys Morgannwg i Gaernarfon*

Lewys, gwrdd ddilys gerdd, wiwlan—ddwned,  
A'i ddeunydd pereiddgan,  
Crai awen cerdd, cry' o ran cân,  
Cefn awengerdd cyfiowngan.

4

*Ffynhonnell*

CM 25, 48; LICy xvii, 118





## Nodiadau

51

Cywydd moliant i Wiliam Fychan, Porthaml, mab Watgyn Fychan ap Rhosier ap Syr Rhosier Fychan, Tretŵr, ap Syr Rhosier Fychan ... Moreiddig Warwyn, gw. WG1 242–3; WG2 461, 463; ByCy 938–9; LPMG 241. Nid oedd Wiliam wedi ei urddo yn farchog pan ganwyd y cywydd hwn; daeth yr anrhydedd hwnnw i'w ran rhwng Medi 1541 a Mehefin 1542, gw. KWLC 519. Bu Porthaml yn gyrchfan boblogaidd gan y beirdd. Diogelwyd canu i dair cenhedlaeth o'r teulu: i Wiliam Fychan ac i'w dad a'i daid, gw. yr arolwg yn NBSBM 174–95, 726–7. Canodd Huw Arwystl, Ieuan ap Huw Cae Llwyd a Lewys Morgannwg gywyddau i Wiliam Fychan (dylid bod yn wylriadwrus ynghylch yr awdl o waith Ieuan a grybwyllir yn NBSBM; fe'i canwyd yn gynnar yn y pedwardegau yn dilyn urddo Wiliam yn farchog, ond 1477–1500 yw'r dyddiadau a gynigir i'r bardd yn HCLl 27), a chanodd Lewys a Rhisiart Fynglwyd farwnad yr un iddo.

- 1 **neidr** Y mae'r neidr yn symbol amlwg yn y canu i Wiliam Fychan a'i hynafiaid. Yn ôl traddodiad, treiddiodd neidr i gorff mam Moreiddig trwy ei genau pan oedd yn feichiog, a phan aned ei mab, Moreiddig, yr oedd neidr o gylch ei wddf, cf. llau. 15–16 *Y neidr ... / Fu ar wddf hen Foreiddig*. Tri phen bachgen a neidr o gylch gwddf pob un yw'r arwydd a gysylltir â'i ddisgynyddion, gw. DWH i, 209–10; ii, 386–7.
- 2 **Einion Sais** Siân, merch Ieuan ap Gwilym Fychan ab Ieuan o Beutun ... Einion Sais, oedd gwraig Watgyn Fychan, gw. WG1 101–2; WG2 207.
- 7 **dygynnull** 'Cynnull, casglu, crynhoi', gw. GPC 1133–4. Rhannwyd y ddwy elfen yn yr unig lsg. ond digwydd yn y canu yn 64.62; 81.14.
- 10 **Talgarth** Yno yr oedd Porthaml, gw. WATU 181. Disgrifir y cartref yn S.R. Jones & J.T. Smith, 'The houses of Breconshire', *Brycheiniog*, x (1964), 77–83. Ymwelodd John Leland â'r cartref a dweud amdano: *In the Englisch Talegart is no notable building but a little prison by Talegarth Chirch in the town, and Mr. William Vehans Esquiers place caullid Porthamal, i.e. Porta copiae, half a mile from Talegarth Chirch in the valley. The howse hath a fair gate and a strong waul embatelid*, gw. IWJL 108.

- 20 **Dafydd Gam** Gwladus, merch Dafydd Gam, oedd mam Syr Rhosier Fychan, Tretŵr.
- 25 **rholwr** Fe'i rhestrir yn GPC 3058 ymhlith yr amryfal ffurfiau ar y gair *rheolwr*.
- 27–8 **Gwilym ... / Fychan** Ei hen daid o ochr ei fam, gw. 51.2n.
- 29 **[y] Peutun** Gw. 51.2n.
- 51 **ni bu 'rïoed grair** Am enghreifftiau o dreiglo ac o gadw'r gysefin yn dilyn *erioed*, gw. 1.43n.  
*n wreiddgoll, a hefyd yn llau. 54, 62, 77.*
- 54 **mab rywiogach** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 63–4 **deily ... / ... a ddeily** Ffurf 2 un.pres.myn. *daly* yw'r blaenaf (ac yn ddeusill) a ffurf 3 un.pres.myn. yr un f. (ond yn unsill y tro hwn) yw'r ail.
- 65 **cant heol** Y gynghanedd yn mynnu'r cyfuniad hwn. Y ffurf *can* sy'n digwydd o flaen e., gw. 44.61 *can caer*, 55.48 *can sylfaen*, 85.73 [*c*]an *gwayw*, ond efallai fod enghraifft o *cant* ac e. yn 52.39 *cant trent* (gw. Darlleniadau'r Llawysgrif), ond gan fod yr e. yn dechrau â'r gytsain *t* diau mai ymgais y copïwr i gofnodi *can trent* sydd yno.
- 68 **Manbri** Ni laddwyd Syr Rhosier Fychan, Tretŵr, a llysfrawd Wiliam Herbert, Iarll Penfro, yn y frwydr honno yn 1469. Siasbar Tudur a fu'n gyfrifol am ei farwolaeth, a hynny ddwy flynedd yn ddiweddarach, gw. WWR<sup>2</sup> 124; uchod 23.3n.
- 69 **Hors** Cydymaith Hengist a chynrychiolydd cenedl y Saeson, gw. BD 91; uchod 19.19–20n.
- 72 **Camber** Yn ôl y Brut, bu i Frutus dri mab, sef Locrinus, Camber, Albanactus, *A Locrinus, canys hynhaf oed, a gymerth y rann berued o'r enys, yr honn a elwir Lloegyr o'e enw ef; ac y kymerth Kamber o'r tu arall y Hauren, yr hon a elwir o'e env ef Kymry*, gw. BD 21.
- 74 **waets** 'Gwyliadwriaeth'. Nodir y ffurfiau *watsh*, *wats* a *waets* yn GPC 3729. Digwydd y f. *waetsio* yn 90.43.

Bu farw Syr Wiliam Fychan rhwng Mawrth 1547 a Rhagfyr 1549 ('cyn 1553' yn ôl ByCy 939). Nid oedd ei fab, Rhosier Fychan, wedi ei urddo yn farchog pan ganodd Lewys Morgannwg y farwnad; fe'i hurddwyd yn ystod misoedd olaf 1549 neu yn hanner cyntaf 1550, gw. KWL 288.

- 4 **ail Dyddbrawd** Am enghreifftiau eraill o'r gysefin yn dilyn y rhif. *ail*, gw. 13.26n.

- 8 Gw. 4.110n.
- 14 Digwydd yr un ll. yn 36.10.
- 20 **Gwallter Sais** Un o gyndeidiau Syr Wiliam Fychan, sef hen daid Syr Rhosier Fychan, Tretŵr.
- 21 **Melwas** Canmoliaethus fel arfer yw cyfeiriadau'r beirdd at Felwas. Diogelwyd drylliau gwasgaredig am ei garwriaeth â Gwenhwyfar a gwyddai'r beirdd am y garwriaeth honno, gw. WCD 469–70.
- 22 **iarll** Bu Wiliam Fychan yn rysyfwr arglwyddiaeth Crucywel a Thretŵr o dan Harri, Iarll Caerwrangon, gw. W.R.B. Robinson, 'The lands of Henry, Earl of Worcester in the 1530s', B xxv (1972–4), 196–200 a cf. isod ll. 50. Cymerodd Harri ran yn y cyrch i Ffrainc o dan arweiniad Charles Brandon yn 1523, a chymerodd ran hefyd yn y gwarchae ar Fwlen yn 1544. Awgrymir yn llau. 49–54 i Wiliam Fychan ei ddilyn ar un o'r achlysuron hyn. Gellid tybio mai yn ystod oes Harri, yr ail Iarll Caerwrangon (m. Tachwedd 1549), y canwyd y farwnad hon i Syr Wiliam Fychan.
- 23 *n* berfeddgoll.
- 29 Cyfatebiaeth caled a meddal  $t = d$ .
- 36 **Catrin** Ei wraig. Merch Siancyn ap Tomas Hafard Hir oedd hi, gw. WG2 957.
- 39 **can trent** Gw. 51.65n.
- 44–6 **Harri ... / ... / ... Chwech Edwart** Urddwyd Wiliam Fychan yn farchog yn ystod teyrnasiad Harri VIII ond wedi ei farw (m. Ionawr 1547) ac yn ystod teyrnasiad ei fab, Edward VI, y diweddodd oes Syr Wiliam Fychan. Awgrymir yn yr awdl farwnad a ganodd Rhisiart Fynglwyd mai yn fuan wedi marw Harri VIII y bu farw Syr Wiliam Fychan, gw. Pen 100, 79 *Rhyw ddav i ddeau ni ddaw gweitheroedd / wyth harri ai farchawg / nid oes o iarll neu dwysawg / obaith rhai o i bath yr hawg*.
- 47 **heb blaenawr** Disgwyliid treigladau i'r e. sy'n dilyn yr ardd. *heb*. Yn ôl T.J. Morgan, enghreifftiau o gopiwyr yn dilyn y clust yn fwy na'r llygad sy'n cyfrif am gyfuniadau megis *heb pechod*, *heb perigl*, gw. Treigladau 389. Y mae'r gynghanedd yn y ll. hon yn galw am y caledu sy'n digwydd pan ddau dwy gystain feddal nesaf at ei gilydd, a rhaid derbyn bod y bardd yn anwybyddu'r treigladau. Nid oes un enghraifft sicr o fethu â threiglo ar ôl *heb* yn y canu, ond gw., o bosibl, 33.34n. Gellid goresgyn yr anhawster trwy ddiwygio'r geiryn gofynnol ar ddechrau'r ll. a threiglo ar ôl yr ardd., a rhoddai *Ba le yna heb flaenawr* l. reolaidd ac ynddi *f* ledlafarog; sicrheid hefyd fod dwy l. y cwpled yn dechrau â'r un gysain.
- 55 **dihareb** Ffurf amrywiol ar *dihareb*, gw. GPC 1006. *Dihareb* yw'r

ffurf yn 39.47 (ac ailadroddir yr un syniad yn y ddau gwpled, 52.55–6 a 39.47–8) er mai yn Llist 164 yn unig y diogelwyd y naill gywydd a'r llall.

62 Twyll gynghanedd *g*.

64 **Maestr Rhoser** Ei fab a'i etifedd. Y mae'n amlwg nad oedd wedi ei urddo yn farchog pan ganwyd y cywydd. Ni ddiogelwyd un gerdd iddo ef, ond erys ar glawr awdl farwnad i'w frawd, Tomas Fychan. Iddo ef y gadawodd Syr Siôn ap Rhys, Aberhonddu, ei lyfrau Cymraeg, gw. Glanmor Williams, 'Syr John Pryse of Brecon', *Brycheiniog*, xxxi (1998–9), 49–63 (td. 61).

### 53

Cywydd moliant i Siôn Games, mab Morgan ab Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam ... Einion Sais ... Bleddyn ap Maenyrch, gw. WG1 104; WG2 212. Ar y garreg uwchben y lle tân yn y Drenewydd diogelwyd yr arysgrif *John Games, mab eg etyfedd hena Edward Games ap John ap Morgan ap Edward ap Dafydd Gam, 1582. Ar Dduw y gyd. Games*, gw. E.P. Jones, 'Cartrefi enwogion sir Frycheiniog', *Brycheiniog*, xiii (1968–9), 112–13. Wyr Siôn Games a adeiladodd y tŷ presennol; Siôn oedd y cyntaf o blith y Gamesiaid i breswyllo yn y Drenewydd, ac ymddengys iddo ymsefydlu yno tua diwedd y bymthegfed ganrif neu ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. Ef hefyd yw'r aelod cyntaf o'r gangen hon y gwyddys i'r beirdd ei gyfarch, gw. NBSBM 271–82.

2 Awgrymir i Siôn fod yn ymladd yn Ffrainc, megis Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn y dywedodd Huw ap Dafydd amdano, gw. GHD 21.1 *Mae act ar drum Ector draw*.

7 **einion** Nid yr e.p. sydd yma fel y tybiodd copïwyr llsgrau. BC, ond yr e.c. *einion, eingion*, gw. GPC 1190 a cf. GSC 14.21–2 *Uwch y nen y'ch enynnwyd, / A thân o nerth einion wyd*.

9 **Brochwel** Brochwel Ysgithrog oedd brenin Powys yn y 6g., ac ef oedd tad Cynan Garwyn a'r sant Tysilio, gw. ByCy 47; G 78; WCD 59–60. Ei fam oedd Tutglyd, merch Brychan. Ystyriai llawer o deuluoedd Powys eu bod yn disgyn ohono, ond fel y dangosodd Enid Roberts, yr oedd dau Frochwel arall yn hawlio lle amlwg yn yr achau, sef Brochwel ab Aeddan a Brochwel ab Elise (ac yr oedd yr olaf yn un o ddisgynyddion Brochwel Ysgithrog), gw. Enid Roberts, 'Gwehelyth', *Mont Coll* lx (1967–8), 55–6; *id.*, 'Hen Nantcriba', *ib.* lxiii (1973–4), 170; tablau 14 a 48 yn WG1.

13 Twyll gynghanedd *d*.

- 17–18 **Margred ... / Merch Wiliam** Bu i Siôn ddwy wraig, a Marged oedd enw'r ddwy. Merch Tomas Hafard oedd ei wraig gyntaf, ond priodasai â'i ail wraig erbyn llunio'r cywydd hwn. Merch Wiliam ap Dafydd ap Gwilym oedd hi, gw. WG1 421; WG2 768, a chan ei bod, fel Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went, a'i fab, Wiliam Herbert, yn hanu o gyff Godwin, gallai Lewys ymfalchïo ei bod yn *agos i'r marchogion, / Ac os ieirll agos yw hon.*
- 19–20 **marchogion, / ... ieirll** Gw. y nodyn blaenorol. At hyn, priododd Wiliam, tad Marged, ag Elisabeth, merch Syr Tomas ap Morgan ap Siancyn o Ben-coed, gw. WG2 394–5, a chwaer Syr Wiliam Morgan, gwrthrych cerdd 28. Priododd Syr Tomas yn ei dro â nith i Wiliam Herbert, Iarll Penfro.
- 23 **ymaelaf** Trafodir y f. *gafael* a'r ffurfiau *ymaflyd, ymaelyd* yn WG 344–5. Nodir yr amrywiad *amaelyd* yn GPC 80 ac fel y dangosir yn yr Amrywiadau, y ffurf *amaelaf* a welir yn y ddwy lsg. hynaf yn achos y ll. hon, ond *ymael-* yw'r bôn yn yr un llsgrau. yn y cwpled sy'n dilyn. Cynigir yr ystyron 'gafael, cydio; ymgodymu' yn GPC 3756.
- 28 **pa bynnag lle** Yr arfer yw rhoi'r e. rhwng y ddwy elfen *pa ... bynnag*, a'i dreiglo, gw. Treigladau 178; GMW 81–2. Sylwer mai cynghanedd draws sydd yn y ll. ac nad atebir y gytsain ll.
- 35–6 **Dafydd ... / Gam** Cyffredin yw'r epithet Cam neu Gam, ond gwnaeth disgynyddion Dafydd Gam beth anghyffredin trwy fabwysiadu'r epithet yn gyfenw teuluol, gw. W Surnames 66–7. Yr ystyr a roddir i'r epithet yn Lewys Morgannwg: Gw 811 yw '*with the squint eyes*', ac awgrymir yn *ib.* 920 mai gwrthrych y cywydd hwn oedd y cyntaf i fabwysiadu'r cyfenw.
- 37–8 **blac lew ... / ... dri cheiliog** Gwelid tri cheiliog Einion Sais ar arfbais Siôn, gw. DWH ii, 162. Un o arwyddion herodrol Dafydd Gam oedd 'a lion rampant Sable', gw. DWH ii, 104–5. Gelwir sylw at ddisgrifiadau o arfbais y teulu yng nghanu Wiliam Llŷn a Dafydd Benwyn yn DWH i, 152–3, 165–6.
- 37 Cyfatebiaeth c.l.g.l = g.l.
- 38 **gowl** 'Lliw coch (mewn herodraeth)', gw. GPC 1517. Rhestrir y ffurfiau *gowls, geuls* a *gewls* yn *ib.*
- 40 **drwm** I flynyddoedd olaf yr 16g./dechrau'r 17g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf a restrir yn GPC 1089.
- Amhaeneirch** Ffurf ar *ap* a ddefnyddir o flaen y sain drwynol *m* yw *am*, gw. GPC 80 d.g. *am*<sup>5</sup> a cf. 82.39 *Eluned Siôn Amhredudd*. Maenyrch yw'r ffurf arferol ond y mae'r odl yn mynnu'r ffurf *Amhaeneirch* yn yr achos hwn.

- 42 **Iarll Breichfras** Caradog Freichfras yn ddiau gan fod traddodiad yn ei gysylltu â siroedd Brycheiniog a Maesyfed, gw. 43.55n.
- 44 **dau iarll** Wiliam Herbert, gw. llau. 19–20 uchod, a'i fab, Wiliam Herbert, Iarll Huntingdon.
- 53 Cyfatebiaeth t = st. Ceir enghreifftiau eraill yn 67.33 a 96.23 ond y mae'r gyfatebiaeth yn rheolaidd yn 20.77 *Dychrynaist iachau Rhonwen*, ac yn 41.37, 54.23, 86.71, 98.67.
- 56 **o'r cai** Y cysylltair o, *od* a'r geiryn cadarnhaol *ry*, gw. GPC 2611–2; GMW 241.
- 58 **etifedd** Enwir dau fab yn y farwnad a ganodd Trefnant i Siôn Games, sef Edward a Maredudd, gw. NBSBM 271–82. Cyfarchwyd Edward mewn dau englyn gan Wiliam Salesbury, ac mewn dwy farwnad iddo (m. 1564), gwaith Hywel ap Syr Mathau a Wiliam Llŷn, talwyd teyrnged i'w ddysg a'i ddi-ddordebau diwylliannol. Fe'i henwir drachefn ymhlith cymwynaswyr Salesbury yn rhagymadrodd y casgliad 'Y Diarebion Camberaec', sef argraffiad diweddarach o *Oll Synnwyr Pen*, gw. Rhyddiaith Gymraeg i, 69.
- 60 *n wreiddgoll*.
- 61–2 Ailadroddwyd y cwpled hwn mewn cywydd arall, gw. 6.35–6.

## 54

Canodd Lewys Morgannwg i Siôn ap Rhys ar dri achlysur. Y cywydd hwn yw'r darn cynharaf. Canodd yr ail gywydd i ddathlu urddo Siôn yn farchog ddydd Mawrth Ynyd 1546/7 yn dilyn coroni Edward VI yn frenin (cerdd 55), a rhwng y flwyddyn honno a 1555 pan fu farw Siôn lluniodd y drydedd gerdd, awdl y tro hwn (cerdd 56).

Ceir ach Siôn yn WG1 107, 109; WG2 226, 228; gw. hefyd ByCy 739–40; CLC<sup>2</sup> 596; Glanmor Williams, 'Syr John Pryse of Brecon', *Brycheiniog*, xxxi (1998–9), 49–63. Mab ydoedd i Rys ap Gwilym Gwyn ap Llywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd ab Adam ap Rhys ab Einion Sais, ac olrheindir yr ach honno o dad i dad yn y cywydd cyntaf. Cofir am Siôn ap Rhys (dichon fod y ffurf John Price / Prys / Prise yn fwy cyfarwydd) am mai ef a luniodd y llyfr cyntaf a argraffwyd yn yr iaith Gymraeg, sef *Yny lhyvyr hwnn*, y dadleuodd R.G. Gruffydd ddarfod ei gyhoeddi yn y flwyddyn 1546, gw. '*Yny lhyvyr hwnn* (1546): the earliest Welsh printed book', B xxiii (1968–70), 105–16. Ef hefyd a wynebodd yr her o ateb cyhuddiadau'r Eidalwr, Polydore Virgil, pan awgrymodd hwnnw mai ffug oedd yr hanes a adroddodd Sieffre o Fynwy yn ei 'Historia Regum Britanniae', er mai wedi ei farwolaeth y cyhoeddwyd ei *Historiae Brytannicae Defensio* (Londini,

1573). Bu i Siôn nifer o swyddi cyhoeddus. Yr oedd yng ngwasanaeth Thomas Cromwell erbyn 1530, a diau i'w briodas yn 1534 â nith i wraig hwnnw hybu ei yrfa yn ddirfawr. Yr oedd yn un o'r rhai a ddewiswyd i ymweld â'r mynachlogydd a meddiannodd lawer o'u trysorau llenyddol.

Diogelwyd y tair cerdd yn llaw Siôn ap Rhys ei hun. Cynnwys 'Llyfr Amrywiaeth Syr Siôn Prys', fel y galwyd ef gan E.D. Jones, gw. *Brycheiniog*, viii (1962), 97–104, gorff o gerddi gan y Cywyddwyr ynghyd â chasgliad o ddjarhebion, copi o ramadeg barddol a nifer o fân destunau eraill.

Ceir cyfeiriadau yn y tair cerdd sy'n dangos bod y bardd a'i noddwr yn gyfarwydd â Brut y Tywysogion a'r Dares Phrygius, a'u bod yn hyddysg hefyd yng ngwaith Sieffre o Fynwy. Enwir rhai o'r beirdd clasurol—Homer ac Ofydd—a chrybwyllir gwaith y mynach Gildas, gwaith y rhoddodd Siôn gryn sylw iddo yn ei *Historiae Brytannicae Defensio* fel y nododd Ceri Davies yn 'Syr John Prise ac amddiffyn hanes Prydain', *Traeth clviii* (2003), 164–85.

7 Cafodd Gwilym (ap Llywelyn) ei enwi yn y cwpled blaenorol, ac nid amhriodol felly fyddai diwygio > *Llaw Wilym a Llywelyn*. O ddiwygio, gwelir bod y bardd yn enwi pob un o gyndeidiau Siôn dros chwe chenhedlaeth.

8 **hail** Fe'i dehonglir yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *heilio* 'tywallt, arllwys', gw. GPC 1840 (ar gadw cysefin y gwrthrych yn dilyn ffurfiau 3 un.pres.myn. y f., gw. Treigladau 189), ond gallai fod yn e. 'gwledd, cyfeddach', gw. GPC 1814.

**llew ... gwyn** Gw. 55.35–8n.

13 **Llywelyn** Llywelyn oedd hendaidd Siôn, ond fe'i henwyd eisoes yn ll. 7. Yr oedd sawl Llywelyn ymhlith cyndeidiau Gwenllïan, gwraig Rhys ap Gwilym Gwyn, gw. WG1 248.

14 **pump brenhinwaed** Am enghreifftiau eraill o gadw'r ffurf annibynnol *pump* pan y'i dilynir gan e., cf. 41.1n *pump henwaed* a thrachefn yn 86.9 a 43.28 *pump brenhiniaeth*.

15 **Einion** Aileiriwyd y cwpled yn 55.27–8 *Pysg nod yn nhop Wysg a Nedd*, / *Penaig Einion, pen Gwynedd*. Tebyg fod yma gyfeiriad at Einion Sais, gw. yr ach yn y nodyn brig, ond yr oedd Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd, tad yng nghyfraith Llywelyn ap Gwilym, yn un o ddisgynyddion Einion ap Collwyn, gw. WG2 607.

17 **Homer** Gw. 19.52n d.g. *Omer*.

17–18 **Aber ... / Hodni** Yn Aberhonddu yr oedd gwreiddiau'r teulu ond cafodd Siôn hefyd brydles ar briordy Sant Ioan yn y dref yn 1537 yn sgil ei orchwylion yn ymweld â'r mynachlogydd. Enwir Aberhonddu drachefn yn y cywydd sy'n dilyn, gw. 55.30, er ei fod erbyn hynny wedi ymgartrefu yn swydd Henffordd, gw. 56.47n.

- 19 **Dared** Bernid mai Dares o Phrygia oedd y cyntaf i gofnodi hanes rhyfeloedd Caerdroea a honnid bod cyfieithiad Llad. o'i waith wedi goroesi, gw. OCD<sup>3</sup> 430; *Dictionary of Greek and Roman Biography and Mythology*, i (London, 1858), 943–4; RB 12 *Dared groec yr hyn a ysgriuenys ystoria gyvr troea*. Diwedda'r cyfieithiad Cymraeg o'r Dares Phrygius â'r geiriau *Ac uelly y teruyna ystoria dared*, gw. RB 39.
- 20 **Tre Ludd** Ar ôl Lludd, mab Beli Mawr, yn ôl y Brut, yr enwyd dinas Llundain, gw. BD 44 *y gvr ... a atnewydhavys muryoed Llundein a'e thyroed ... ac vrth hynny y gelwit Caer Lud. A guedy hynny trvy lygru y henv y gelwit Llundein*.
- 21 **Ofid** Y bardd Lladin Publius Ovidius Naso, gw. OCD<sup>3</sup> 1084–7.
- 23 Sylwer ar ddarlenniad 86.71 *Drychefaist aur a chyfoeth*.
- 48 **oes yn y print** Awgrymir yn Lewys Morgannwg: Gw 715 fod yma gyfeiriad at y gyfrol o waith Siôn ap Rhys a ymddangosodd yn 1546, gw. y nodyn brig. Rhaid felly fyddai dyddio'r cywydd i'r misoedd rhwng ymddangosiad *Yny lhyvyr hwnn* ac urddo Siôn yn farchog. Y mae'r trosiad 'print', fodd bynnag, yn un y mae'r bardd yn chwannog i'w ddefnyddio, cf. ll. 34 *print haf*, a phrin, felly, fod angen dehongli'r ymadrodd hwn yn llythrennol.
- 49–52 Bu Siôn ap Rhys yn Ysgrifennydd Materion y Goron yng Nghymru a'r Gororau rhwng 1540 a 1555, blwyddyn ei farw, a bu hefyd yn ysgrifennydd i Gyngor Cymru a'r Gororau.
- 51 **dyddfawr** Diau fod yr elfen gyntaf, *dydd*, yn gyfystyr ag 'oed, adeg i farnu', gw. GPC 1119.
- 52 **cansail** Rhannwyd y ddwy elfen yn y llsg. a chafwyd y cysylltair *cans* a'r rhif. *ail*, ond bernir mai gair cyfansawdd < *can(t)* a *sail* sy'n gweddu orau, a cf. yr ymadrodd *can sylfaen* yn y cywydd sy'n dilyn yn 55.48 ac yn 28.60.
- 57–8 Cf. tystiolaeth Gruffudd Hiraethog, gw. GGH 19.73–4 *Cymro a dawn Cymru deg, / Cymroaidd eich Cymræg*.
- 57 Deusill yw *cadw* yn y ll. hon.
- 71 **cofiawdr** 'Cof' yw'r ystyr a gynnir yn GPC 537, ond mwy priodol yn y cyd-destun yr ystyron 'gwybodaeth, doethineb'.
- 72 Gellid *A chalon Hu*.
- 73 **brawder** Nis rhestrir yn GPC 312. Gallai fod yn eg. wedi ei ffurfio o'r bôn *brawd* 'barn, dedfryd', ond gallai fod yn wall am *breuder*. Digwydd yr ymadrodd *breuder bron* yn y canu, cf. 3.15 *Pen doethder a breuder bron*.
- 75 Cyfatebiaeth d = -d h- lle y disgwyliid caledu.



- 78 Camosodiad s.dd = dd.s (ar ôl diwygio sy > sydd) neu r wreiddgoll o ddilyn darlleniad y llsg.

## 55

*kywydd i syr Sion ap Rhys pan wnaethpwyd yn varchog* yw hwn yn ôl y pennawd yn yr unig lawysgrif sydd yn llaw Siôn ap Rhys, ac wrth odre'r cywydd cofnodwyd mai *Lewys morgannwg ai kant 1548*. Gweler nodyn brig y gerdd flaenorol lle y rhestrir yr hynafiaid a enwir yn llau. 14–28.

Lluniwyd testun o'r cywydd gan E.D. Jones yn 'Llyfr Amrywiaeth Syr Siôn Prys', *Brycheiniog*, viii (1962), 102–4. Diogelwyd ail gopi o'r cywydd, ond bod y diwedd yn eisiau, yn Pen 114. Ymddengys mai llawysgrif teulu Trefesgob oedd hon, a diogelwyd ynddi nifer o ddarnau i'r penteulu, Lewys Gwyn, a gollasid fel arall. Yr oedd Lewys Gwyn yn gefnder i Rys, tad Siôn ap Rhys, a disgynnai'r ddau, felly, o Lywelyn ap Gwilym, Porthgogof, gw. WG2 226–8.

- 4 **Cadwaladr** Ef oedd y brenin olaf o blith y Brytaniaid i deyrnasu dros Brydain a'i farwolaeth sy'n cloi hanes Sieffre, gw. 27.14n. Egyr cywydd Gruffudd Hiraethog i Siôn ap Rhys, fel y cywydd hwn o waith Lewys, ar nodyn alaethus, ond barnai Gruffudd fod y Cymry bellach yn rhydd, diolch i Harri Tudur, gw. GGH 19.9–10 *O'n cof oergaeth a'n cyfrgoll, / Ynn rhydd nerth yn rhyddion oll*. Bu'r testun o'r Brut sydd bellach yn rhan o gasgliad Peniarth (llsg. Pen 42) ym meddiant Syr Siôn ap Rhys, gw. Neil R. Ker, 'Sir John Prise', *The Library* (Fifth series, vol. x, no. 1, March 1955), 1–24.
- 8 *n wreiddgoll* (neu  $n = m$ ), a thrachefn yn llau. 32, 61 a 64.
- 15–18 **Syr Cradog ... / ... / ... sarff Breichfras** Am ei gyswllt â Brycheiniog, gw. 43.55n. Dywedir i Degau achub bywyd Caradog pan lynodd sarff wrth ei fraich, gw. TYP<sup>2</sup> 512–14.
- 15 **câr** A cf. ymhellach y disgrifiad yn ll. 45 '*nghywirfyd < cywir + byd* 'anwylddyn'. Os yw'r bardd yn honni ei fod ef a'i noddwr yn geraint, yna rhaid derbyn nad yw'r cyswllt gwaed cydrhyngddynt yn agos iawn. I dylwyth Einion ap Collwyn y perthynai Lewys Morgannwg. I'r un tylwyth, ond i gangen arall, y perthynai Siwan Ddu, merch Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd, ac ail wraig Llywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd, gw. WG2 607. Ceir cyswllt cryfach o fynd yn ôl ddwy genhedlaeth. Priododd Rhys Llwyd ab Adam â Gwenllïan, merch Rhys Fychan o Dir Iarll, ac un o hynafiaid uniongyrchol y bardd, gw. WG1 302, ond nid hi oedd mam Gwilym, gorphendaidd Syr Siôn ap Rhys.
- 17 [y] **marchog llawir** Gallai fod yn gyfeiriad at Gadwallon Lawir a

enwir yn 14.61n.

- 21 **Liwlod** Fe'i henwir ymhlith pedwar marchog ar hugain llys Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 250, 345, a chofnodir ei ymddiddan ag Arthur, ac yntau yn rhith eryr, yn y gerdd 'Ymddiddan Arthur a'r Eryr', gw. ymhellach WCD 245; G 470 d.g. *Eliwlod, Eliwlat*.
- 28 **Einion** Cf. 54.15n. Einion ap Collwyn yw hwn gan fod y bardd yn enwi Einion Sais yn ll. 14.
- 31–2 Cf. yr hyn a ddywed y bardd wrth annerch Crystor Twrbil yn 16.61–2 *Er rhannu'r tir i'r henwaed / Neu aur gwiw ni rennir gwaed*.
- 35–8 Disgrifir yma arfbais Syr Siôn ap Rhys, gw. DWH ii, 467, 'Sable, on a chevron between three lions' faces Argent, three spear-heads Sable, embrued Gules; on a chief Argent three cocks Gules, armed', a cf. y disgrifiad llawnach yng nghywydd Gruffudd Hiraethog i'r un gŵr, GGH 19.39–44. Enwir ganddo ef y tri llew yn ogystal â'r tri cheiliog a'r tair gwaywffon. Arwydd Bleddyn ap Maenyrch oedd y tair gwaywffon ac Einion Sais a feddai'r tri cheiliog, gw. DWH ii, 32, 141. Camddarllenodd golygydd Lewys Morgannwg: Gw y llsg. a chafwyd ganddo *tri nowls ymewn tarian wen*. Dehonglwyd *nowls* yn ffurf ar y S. *noule, noul, nowl*, sef 'pen', a barnwyd bod y bardd yn galw sylw at y tri phen ar arfbais Moreiddig Warwyn, gw. DWH ii, 386–7.
- Gwall yn ddiau yw *waedsais* Pen 114, ond gwelid tri phen Sais ar arfau Ednyfed Fychan a'i ddisgynyddion, gw. DWH ii, 129–30; isod 86.3n.
- 35 Cyfatebiaeth caled a meddal t = d.
- 38 **tri gwayw** Trinnir *gwayw* yn eg. ar achlysuron eraill, gw. GPC 1606 a cf. 5.19 *gwayw tanrest*, 101.52 *gwayw du*, ond disgwyliid i'r a. sy'n dilyn yr e. gadw'r gysefin.
- 47 **cenud y gainc** Digwydd yr ymadrodd mewn cwpled nid annhebyg i'r cwpled hwn, gw. 28.59–60.
- 51 **disgwylien'** 'Aros' yw'r ystyr amlwg ond ystyrion yma hefyd fel yn 81.53 fyddai 'edrych ar, craffu ar', gw. GPC 1045.
- 53 **myrr, tus ... aur** Y rhoddion a ddygodd y doethion i'r baban Iesu, gw. Math 2.11. Cyfleant y bendithion a ddaeth i ran Siôn ap Rhys.
- 55–6 **ystaen ... / A chopr** Disgrifir adnoddau naturiol Ynys Prydain ym Mrut Sieffre fel a ganlyn *Amyl yv yndi pob kenedyl o'r mwyn eur ac aryant ac euyd ac ystaen a phlvm a hayarn*, gw. BD 2. Defnydd diwerth yw *ystaen* a *chopr* yn GDG<sup>3</sup> 68.17 *Rhidyll ystaen yn rhydu* ('Y Niwl') a TA XXIV.78 *Chwi piau'r aur, a chopr ýnt*, a'r awgrym yma yw fod pob ustus arall yn ddiwerth ochr yn ochr â

Siôn ap Rhys.

Dechreuodd y grefft o engrafio ddatblygu yng ngogledd Ewrob tua ail chwarter y 15g. Platiau copr a ddefnyddid yn bennaf ac ar ôl eu hengrafio, a'u hincio, gellid amlhau delweddau cain unffurf, gw. DMA 4, 487–90. Tybed a oes awgrym fod Syr Siôn ap Rhys yn gopi perffaith neu yn atgynhyrchiad o Solomon ei hun?

Ar darddiad *ystaen* o'r Llad. *stagnum*, gw. GDG<sup>3</sup> 467–8 (26.28n) a GPC 3860 d.g. *ystaen*<sup>2</sup>; fe'i hacennir ar y sillaf gyntaf yma.

55 **iuſtus** Gw. rhestr ustusiaid sir Frycheiniog ar gyfer 1543 yn JPWM 252.

56 Twyll gynghanedd g.

59 **Gildas** Y mynach Brythonig (*fl. c. 495–c. 570*) sy'n llawdrwm iawn ar y beirdd yn ei 'De Excidio Britanniae', gw. CLC<sup>2</sup> 272; J.E. Caerwyn Williams, 'Gildas, Maelgwn and the bards', *Welsh Society and Nationhood*, ed. R.R. Davies *et al.* (Cardiff, 1984), 19–34. Ymhlith trysorau pennaf Syr Siôn yn ei lyfrgell yr oedd llsg. (a ddaeth i Aberhonddu o abaty Battle) y barnai ei bod yn waith Gildas, gw. Neil R. Ker, *art.cit.* 6–7.

67 **Syr Rhys** Methwyd â chanfod unrhyw gyswllt achyddol rhwng gwrthrych y cywydd hwn a Syr Rhys ap Tomas o Gaerfyrddin a urddwyd yn farchog yn dilyn buddugoliaeth Harri Tudur ar faes Bosworth yn erbyn lluoedd Rhisiart III. Diau i'r bardd uniaethu ei noddwr â Syr Rhys am fod hwnnw yn un o'r ychydig Gymry a gydnabuwyd gan y goron a'i ddyrchafu i swyddi o bwys.

72 **cydfaeth** Rhoddir iddo'r ystyron 'wedi ei gydfagu, cyfoed; brawd maeth; yn ffig. cyfaill, cymar, cydymaith' yn GPC 661. Tybed a oes yma awgrym i Siôn a'r bardd dderbyn hyfforddiant gyda'i gilydd pan oedd y ddau yn llanciau?

73–4 Ailadroddir y syniad yn 49.52–4 *Doeth lw a dynged i'th law / Na châi hedeg na chodi / Wrth ddaly d'oes awr o'th law di*. Swta braidd yw'r diweddglo. Tybed a gollwyd cwpled clo'r cywydd?

## 56

Cyfeirir at yr hynafiaid a restrir yn llau. 37–44 yn nodyn brig cerdd 54.

### *Y mesurau*

- 1–36 Cyfres o naw englyn unodl union.
- 37–44 Chwe ll. yn proestio, a'u dilyn gan un cwpled ar fesur awdl gywydd, a phrifodl y mesur hwnnw eto yn proestio â'r llau. a'i rhagflaenodd.
- 45–74 Cyfres o doddeidiau.

- 4 **oes Noe, pryd** Deallir hwn i olygu ‘hirhoedledd a gwedd Noa’. Yr oedd hirhoedledd Noa yn ddjarhebol. Yn ôl Gen 9.28–9 *A Noa a fu fyw wedi’r dilyw dri chan mlynedd a deng mlynedd a deugain. Felly holl ddyddiau Noa oedd naw can mlynedd a deng mlynedd a deugain; ac efe a fu farw.* Ond Addaf, yn hytrach na Noa, a oedd yn enwog am ei brydferthwch, gw. rhif 48 yn TYP<sup>2</sup> a cf. GLGC 138.49–50 *Pryd Adda a Seth ... / pryd Nyf a Selyf a roed i Siôn.*
- 5–6 **Twysogion ... / Brut ... Brytaniaith** Cyffelybir Siôn i’r tywysogion yr amlinellir eu hanes a’u gorchestion yn y testun ‘Brut y Tywysogion’, gw. CLC<sup>2</sup> 66.
- 9–10 Ailadroddir yr un syniad yn 55.1–6.
- 16 **aur is y glin** Gw. 2.3n. Digwydd y ll. *Aro gloi aur ar y glin yn 77.28.*
- 19 **ni bu ’rïoed gradd** Am enghreifftiau o dreiglo ac o gadw’r gysefin yn dilyn *erioed*, gw. 1.43n.
- 23 Twyll gynghanedd *l*.
- 31–2 Ailadroddir y syniad hwn ar achlysuron eraill, e.e. 89.23–4 *Uwch wyd o ris; iach a dring / Ystaer waedlwyth Ystradling.*
- 32 *r wreiddgoll.* Cyfatebiaeth st = -st t-.
- 33 **pen ... Brycheiniog** Bu Siôn yn siryf Brycheiniog yn 1543.
- 35 Gwelwyd trawiad tebyg yn y gerdd flaenorol lle y cyferchir yr un gwrthrych, gw. 55.13 *Syr Siôn, Sain Siors a enwais.*
- 38 **henllew** Ar y caledu, gw. 10.5n.  
**Gwilim** Cadwyd y terfyniad *-im* er mwyn sicrhau bod chwe odl broest wahanol yn llau. 37–42.
- 41 **Sem** Un o dri mab Noa oedd Sem, gw. Gen 6.10. Cyfeirir ato ef ac at Seth, mab Adda, pan ddymunir hiroes i’r noddwr (gw. Gen 11.11 *A Sem a fu fyw wedi iddo genhedlu Arffacsad, bum can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched*) a phan fynir pwysleisio bod y noddwr yn perthyn i linach hirfaith (ar ôl y Dilyw, *Duw hefyd a fendithiodd Noa a’i feibion, ac a ddywedodd wrthynt, Ffrwythwch a lluosogwch, a llenwch y ddaear*, gw. Gen 9.1).
- 42 **heniarll trwm** Meddelir y gytsain galed sy’n digwydd yng nghysgod *ll* mewn geiriau megis *gwallt, mellt, swllt*, gw. J. Morris-Jones: CD 208–9, ac ymddengys mai cytsain feddal a glywai’r bardd yn yr achos hwn. Anodd gwybod a ddylid dehongli’r cyfeiriad at *iarll* yn llythrennol ai peidio. Gwraig gyntaf Llywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd oedd Marged, chwaer Gwladus Gam (mam Wiliam Herbert, Iarll Penfro).
- 46 **[y] Fêl Ynys** Enw cynnar ar Ynys Prydain, gw. TYP<sup>2</sup> 228.
- 47 **Caerffawydd** Ysgrifennwyd ‘henffordd’ ar ochr y ddalen yn y

llsgr.; ar yr e., gw. G 95 a cf. GSC 27.2. Prynodd Siôn briordy Guthlac Sant yn Henffordd, ac ymgartrefodd yno tua 1540.

**Gweirydd** Nid Gweirydd ap Rhys a oedd yn bennaeth ar un o'r pymtheg llwyth, ond yn hytrach Gweirydd Adarweinidog. Prin iawn yw'r cyfeiriadau ato yng nghanu'r Cywyddwyr, ond digwydd ei enw ar dri achlysur yng nghanu Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 16.37n a cf. hefyd G 650; WCD 309; GLIL1 23.67. Arwyddocaol hefyd ei fod yn cael ei enwi ym Mrut Sieffre yn un o'r brenhinoedd a fu'n ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid, gw. BD 55–8. Ar ei arch ef yr adeiladwyd dinas Caerloyw, a gwyddys i Siôn ap Rhys bwrcasu tiroedd yn swydd Gaerloyw.

- 55 **Morda'** Sylwer ar yr odl gudd yn y ll. hon, a thrachefn yn ll. 65.
- 56 **Cawrdaf** Mab Caradog Freichfras, gw. 3.77n, 55.15–18n. Y mae iddo yntau, fel ei dad, le yn y Trioedd, gw. rhif 13 yn TYP<sup>2</sup>.
- 57–8 **Crastant ... childant ... / Hwyldant cyweirdant** Cyffelybir Syr Siôn a moliant swynol a syberw y bardd iddo i *hwyldant*, sef 'y tant y cyweirir telyn wrtho', gw. GPC 1938, a'r un ystyr sydd i *cyweirdant*, gw. GPC 830. Llai soniarus yw'r sain a gysylltir â'r *crastant* 'tant neu nodyn uchaf offeryn cerdd llinynnog', gw. GPC 581, a'r *cildant* 'un o'r tannau manaf ac uchaf yng nghil neu ran uchaf y delyn', gw. GPC 479, ond cadarnhaol yw'r cyfeiriad yn 66.31–2 *Brenin, arghwyddlin, i'r glêr / Wyt, a childant eich haelder*.
- 60 **Addaf** Tybed ai'r bardd a'r brudiwr Adda Fras sydd dan sylw? Arno, gw. 18.51n. Dichonadwy hefyd yw Adda, tad dynolryw, gw. 91.48n.
- 61 **Bedaf** Awgrymir mai'r e.p. Beda, Bedaf, gw. G 53, sydd yma yn hytrach na'r e.c. *bydaf* 'nyth y gwenyn'. Yr oedd 'Historia Ecclesiastica' Beda ym meddiant Siôn ap Rhys, gw. Ceri Davies, 'Syr John Prise ac amddiffyn hanes Prydain', *Traeth clviii* (2003), 164–85 (td. 168).
- 66 *n* wreiddgoll neu *n* = *m*.
- 70 Anghyflawn yw'r gyfatebiaeth yn y ll. hon.
- 73 **tri cheiliog** Gw. 55.35–8n.

Bu'r Dwniaid yn byw yn ardal Cydweli er y drydedd ganrif ar ddeg, ond Gruffudd Dwnn ab Owain ap Robert ap Gruffudd ap Maredudd a gododd y cartref yn Ystradmerthyr, a hynny yn y flwyddyn 1518. Olrheinir ei ach yn fanwl yn L. Dwnn: HV i, 20; ii, 58–9. Nid yw hynny'n destun syndod gan fod Lewys Dwnn yn honni ei fod yn perthyn i'r un tylwyth, gw. ByCy 163.

Gw. hefyd WG1 615–16; WG2 1193; ByCy 162–3 (lle y rhoddir iddo'r dyddiadau c. 1500–c. 1570); G.H. Hughes, 'Y Dwniaid', THSC, 1941, 115–49; NBSGaerf 361–92. Yn ôl Eurig R.Ll. Davies, 'Rhaid ei ystyried yn un o foneddigion mwyaf llengar a dysgedig yr oes; ymroes i gopiö a chasglu llawysgrifau yn ogystal â noddi beirdd yn hael ... Yng nghyfnod Gruffudd Dwinn, blodeuodd Ystradmerthyr fel canolfan nawdd a ddenai feirdd o bell ac agos', gw. NBSGaerf 369. Cofnodwyd llawer o gerddi'r beirdd a ymwelodd ag Ystradmerthyr gan Ruffudd ei hun yn Llst 40. Nododd Gruffudd ar ddiwedd ei gopi ef o'r cywydd yn y llawysgrif honno *Lewys morgannwg ai kant nydolig pan oedd oed krist mil a hanner ag vn vlwyddyn a deigain*, ac ychwanegodd nodyn i'r un perwyl ar ddiwedd y pedair llinell a gopiodd ar ymyl y ddalen yn LIGC 3063E, *y ddau gwpl gyntaf or kywydd awnaeth lewys morgannwg i ryffydd dwinn yw r hain pan oedd oed krist mil 5 ag vn a deigain*. Llawysgrif sy'n cynnwys 'Chwedl y Greal' yw'r olaf, ac fe'i copiwyd ar gais Syr Rhys ap Tomas, gw. YSG xvi–xvii. Cyffelybir Gruffudd yn ll. 63 i Alath, sef prif arwr y chwedl.

- 4 **y blaidd gwyn** Disgrifir arfau Gruffudd yn L. Dwinn: HV ii, 59 fel a ganlyn: *Ef a ddwc maes assur a blaidd ariant wedi arvu a gowls i ddannedd a'i dafod*. Gw. ymhellach DWH ii, 126–7.
- 10 **Gwrgan, dau Gadwgan** Enwir y rhain yn yr ach, ond mewn gwirionedd yr oedd mwy na dau Gadwgan ymhlith hynafiaid Gruffudd.
- 11 **Urien** Yr oedd Elisabeth, gwraig gyntaf Gruffudd Dwinn, yn wyres i Syr Rhys ap Tomas, gw. WG2 652, ac ystyriai'r olaf ei fod yn disgyn o Urien Rheged, gw. 7.23n.
- 12 **Idwal** Ni ddigwydd yr enw hwn yn yr ach a gofnododd Lewys Dwinn. Gan fod y bardd yn enwi [Iorwerth] Drwyndwn, mab Owain Gwynedd, isod, yn ll. 55, gellid tybio mai brenhinllin Gwynedd sydd dan sylw yma. Yr oedd Idwal yn wŷr i Rodri Mawr.
- 13 **gwaisg** Unwaith eto, gwrthodir awgrym GPC 1594 mai ffurf l. yr e. *gwaisg* sydd yma, a deellir yn hytrach yr a. *gwaisg* fel y gwneir yn 3.7n.  
Cyfatebiaeth -sg g- = sg.
- 14 **Elidir** Nid yw'r e. yn digwydd wrth ddilyn yr ach o dad i dad, ond priododd sawl aelod o'r teulu â gwragedd a hanai o ryw Elidir neu'i gilydd. Nain Gruffudd oedd Isabel, merch Llywelyn ap Rhys ... Llywelyn Foethus ... Gruffudd ab Elidir, gw. WG1 406, 408.
- 16 **Ysgudmoriaid** Gw. 57.47n isod.
- 17 **henllwyth** Ar y ffurf hon, a *henllew* a *gwreichionllafn* yn ll. 66, gw. 10.5n.

- 20 **Gwenllïan** Ail wraig Gruffudd oedd hon, sef merch Lewys ap Tomas ap Siôn ap Rhys, gw. WG2 381 a marwnad Lewys Morgannwg iddo, cerdd 61.
- 24 **Gwernan** Cartref ym mhlwyf Trefdeyr yng nghwmwd Iscoed yng Ngheredigion, gw. Francis Jones, *Historic Cardiganshire Homes and their Families* (Dinas, Newport, 2000), 141–2. Disgynyddion Gronwy Goch, arglwydd Llangathen, a drigai yno yn y 15g. Enwir y cartref yn y cerddi a ganodd Lewys Glyn Cothi i Hywel ap Dafydd ap Tomas, gw. GLGC cerddi 83–5. Elin Llwyd, merch Gruffudd ap Rhys ap Dafydd ap Tomas, oedd gwraig Lewys ap Tomas, a mam Gwenllïan, gw. WG1 404; WG2 727.
- 26 **Tegau** Collwyd yr e. hwn sy'n digwydd ar waelod y ddalen yn Llst 40, ac ymgais i lenwi'r bwloch hwnnw sy'n cyfrif am *deau* Llst 133, ond diogelwyd y darlleniad dilys yn y llsgrau. eraill.
- 36 **dyn rywiogach** Esbonnir y treigladd yn 1.43n.
- 37–8 Mynegir yr un syniad mewn cywydd o waith Tudur Aled i'r abad Dafydd ab Owain, cf. TA XVI.41–5 *Nid adwen iwch, dad yn iaith, / Gwedi Omer, gydymaith; / Wedi'r Saith, od eir i sôn, / Y modd eithaf, am Ddoethion, / Yn iaith Rufain y' th rifais ...*
- 39–40 **Brawdwr ... / Beirdd** Cyfeiriwyd uchod at waith copïo Gruffudd. Bu nifer o lsgrau. pwysig yn ei feddiant gan gynnwys Llawysgrif Hendregadredd. Diogelwyd ambell gerdd o'r eiddo yn ogystal. Gwelodd gladdu nifer o'i blant; canodd englynion i goffâu ei feibion a chywydd i goffâu dwy o'i ferched, gan roi lle amlwg i'w hiraeth: *och wyr may dolyr bob dydd / yn oeri kylch ynayrydd / a ffob awr nym dawr im dwyn / o dduw varw y ddwy vorwyn*, gw. Llst 40, 79. Yn ôl Thomas Wiliems, Gruffudd oedd athro barddol cyntaf Wiliam Llŷn, gw. Card 4.330, 223, ac y mae'n arwyddocaol mai'r darn cyntaf o eiddo Llŷn y gellir ei ddyddio yw'r englynion a ganodd yn 1557 i Ruffudd. Awgrymais mewn man arall y gall mai enwogrwydd Gruffudd fel athro a noddwr a ddenodd y bardd Mathau Brwmffild i sir Gaerfyrddin, gw. GMBr 8.
- 46 **ystorïau** Tebyg mai benthyciad o'r S. *story, storey* yw hwn. Gweddai'r ystyr 'haenau, lloriau' yn y cyd-destun. Digwydd y gair yn S. o tua 1400 ymlaen, gw. OED<sup>2</sup> xvi, 799; hefyd GPC 3865 lle y dyfynnir y cwpled hwn.
- 47 **Hen Owain** Awgrymir yn Lewys Morgannwg: Gw 850 mai cyfeiriad at dad Gruffudd Dwinn yw hwn, ond tebycach mai Owain Glyn-dŵr sydd dan sylw. Digwydd y cwpled *llawen fu Wenllïan ferch / Owain Hen, Duw'n ei hannerch* ym marwnad Lewys Glyn Cothi i Wenllïan ferch Glyndŵr, gw. GLGC 188.3–4, a cf. y cwpled o waith Lewys Morgannwg yn 86.31–2n *Rhyw Owain Hen ei rhan hi*,

/ *Rhyw Gloddaith a'i harglwyddi* (ond gall fod yma gyfeiriad at Owain Hen, un o ddisgynyddion Owain Brogyntyn, gw. y nodyn ar y ll.). Gwraig Gruffudd, hendaidd Gruffudd Dwinn, oedd Sioned, merch Syr Siôn Scudmor. Yr oedd mam Siôn yn ferch i Owain Glyndŵr, gw. WG2 1595. Cyffredin oedd cyfeirio at y llys yn Sycharth wrth ddisgrifio cartrefi'r noddwyr, gw., e.e., GGI<sup>2</sup> XLI.35–6 *Nef ym yw, wanafau main, / Neuadd fal seren Owain*. At hyn, bu nifer o hynafiaid Gruffudd Dwinn allan gyda Glyndŵr, gw. G.H. Hughes, 'Y Dwinaid', THSC, 1941, 116, 118.

55 **y Trwyndwn** Gw. uchod ll. 12.

63 **gwisg gledd** Hawdd tybio ar sail y portread milwrol yn y llau. hyn i'r bardd ganu ei gywydd tua 1544. Rhestrir *Gryffyn Dunne* ymhlith y boneddigion y disgwyliid iddynt godi gwŷr yn eu sir i wasanaethu yn Ffrainc, gw. LPFD xix/i, cofnod 273. Ond fel y tystia Gruffudd ei hun, gw. y nodyn brig, lluniwyd y cywydd cyn y flwyddyn honno a chyn 1543 pan ddechreuodd Gruffudd wasanaethu ar y fainc, gw. JPWM 156. Bu'n feili Caerfyrddin yn 1535–6, gw. R.A. Griffiths: PW i, 347.

65 **trafn** Rhoddir iddo yn GPC 3547 yr ystyr 'arweinydd, arglwydd, tywysog', a chynigir yn betrus yr ystyron 'ffynhonnell, cartref, trigfa; cwrs, ffordd'. Gw. hefyd y drafodaeth yn GDG<sup>3</sup> 546. Yr ystyr 'cwrs, ffordd' sy'n gweddu orau yn y cyd-destun.

69 **berf** Awgryma'r treigladd i'r a. yn narlleniadau'r llsgrau. mai eb. yw hwn, ond o ran ystyr, yr eg. *bery, beryf, beri* 'aderyn ysglyfaethus, barcud' sy'n taro orau, gw. GPC 276.

## 58

Englyn agoriadol yr awdl yn unig a ddiogelwyd. Fe'i cofnodwyd gan Ruffudd Dwinn ei hun ar ymyl y ddalen yn LIGC 3063E, ac ychwanegodd ar y diwedd *lewys morgannwg ai kant y ddau gwpl gyntaf ar odl i ryffydd dwinn ab owein ab robert*. Bu copi o'r awdl gyfan ym meddiant Siôn Dafydd Rhys ar un adeg gan iddo restru rhai o'r geiriau sy'n digwydd yn y gerdd yn ei eirlyfr yn Llist 55, 73.

4 **gŵr â ffydd Duw** Y mae arlliw Protestannaidd ar y disgrifiad a gallai hyn awgrymu bod Gruffudd Dwinn yn gwyro tua'r Ffydd Newydd, ond perthyn cywair Pabyddol diamheuol i englyn Dwinn a ddyfynnir yn y nodyn ar Atodiad iii.



## 59

Ychwanegodd Gruffudd Dwnn wrth droed yr englyn, *lewys morgannwg ai kant i blas gryffydd dwnn ab owein dwnn ab robert*.

- 1 **calis** Enwir Calis, y porthladd sydd ar arfordir gogleddol Ffrainc, ar ddau achlysur yn y canu, ond cynigir mai'r e.c. sydd yma. Benthyciwyd *calis* o'r S. *chalice* 'cwpan cymun', gw. OED<sup>2</sup> ii, 1074–5, ond i'r 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir yn GPC 394.

**Caerberis** Y ffurf Gym. ar *Porchester*, gw. G 95.

## 60

Prin iawn yw'r cyfeiriadau achyddol yn y cywydd hwn. Nid yw hynny yn nodweddiadol o'r bardd ond gall fod y cywydd yn un cynnar, a cf. cerdd 21. Apeliodd y cywydd yn fawr at gopiwr CM 206; ar ôl y teitl *Marwnad Howel Penrhi*, ychwanegodd y geiriau *a da ydi*. Ar sail yr ychydig gyfeiriadau, fodd bynnag, gellir cynnig yn hyderus mai cywydd i fab Henri ap Gwilym ap Tomas Fychan ap Tomas yw hwn, gŵr a hanai o gyff Gronwy Goch, arglwydd Llangathen (ll. 16), gw. WG1 405; WG2 731; L. Dwnn: HV i, 139–40. Canodd Lewys Glyn Cothi awdl i Hywel, gw. GLGC cerdd 32, a chanodd hefyd i'w dad ac i ddau o frodyr hwnnw, gw. *ib.* cerddi 38, 51–4.

Ymddengys fod Hywel ar gychwyn i ogledd Lloegr pan ganodd Lewys y Glyn iddo, gw. *ib.* 32.9–12 *Pen rhan gyda'r frân i'th frenin—ydwyd / o adail Caerfyrddin; / chwythwch feichiau o eithin / i roddi gwres i'r Nordd grin*. Gwyddys i Syr Rhys ap Tomas (*y frân*) arwain pum cant o wŷr meirch yn erbyn lluoedd ieirll Stafford yn 1486, a thybed a oedd Hywel yn eu plith? Y flwyddyn ddilynol, cymerodd Syr Rhys ap Tomas ran ym mrwydr Stoke pan ddaeth lluoedd y goron wyneb yn wyneb â lluoedd yr ymhonnwr, Lambert Simnell, gw. R.A. Griffiths: RhT 234–7.

Sicrhaodd Henri ap Gwilym les ar gastell Dryslwyn gerllaw ei gartref a hynny bron yn ddi-fwlch rhwng 1461 a 1493, gw. R.A. Griffiths: PW i, 265–6. Cartrefai yng Nglan-lais yn Llangathen cyn iddo godi cartref newydd iddo'i hun, sef Cwrt Henri, gw. Francis Jones, *Historic Carmarthenshire Homes* (Carmarthenshire Antiquarian Society, 1987), 42–3, 96, a diau mai Hywel a etifeddodd yr hen gartref yn hytrach nag un o'i bum chwaer, ond ymddengys mai â Pharc-y-rhun ger Llandybïe yr ymwelodd Lewys Glyn Cothi. Bu Hywel yn briod ddwywaith, ond nid enwir yr un o'r gwraedd na'r un o'r ddwy ferch a oedd iddo yn y cywydd marwnad.

- 3–4 **Hywel ... o Lydaw / ... nai Arthur** Hywel mab Emyr Llydaw. Fe'i gwneir yn nai i Arthur ym Mrut Sieffre, ond awgrymir yn

TYP<sup>2</sup> 407–8 mai Sieffre ei hun a ddychmygodd y cyswllt hwn. Ar y llaw arall cynigir yn WCD 372 y gall fod y cymeriad yn hysbys cyn dyddiau Sieffre. Ar ei dad, Emyr Llydaw, gw. TYP<sup>2</sup> 346–7.

4 *r* berfeddgoll.

5 **Hywel y Fwyall** Bu'n gwnstabl castell Cricieth rhwng *c.* 1359 a 1381 ac yr oedd yn un o'r ychydig Gymry a gafodd swydd o awdurdod yn y 14g., gw. CLC<sup>2</sup> 354. Fe'i hurddwyd yn farchog yn dilyn brwydr Crécy (1346), a myn traddodiad mai ef a ddaliodd frenin Ffrainc ym mrwydr Poitiers (1356). Bu'r cywydd a ganodd Iolo Goch iddo yn bur boblogaidd, gw. GIG cerdd II; D.J. Bowen, 'Cywydd Iolo Goch i Syr Hywel y Fwyall', LICY xv (1984–8), 275–88; A. Cynfael Lake, 'Breuddwyd Iolo Goch', YB xv (1988), 109–20. Fe'i diogelwyd mewn 52 o lsgrau. a diau fod a wnelo enwogrwydd diweddarach Syr Hywel â'r cywydd hwn. Ni ddylid synnu, felly, fod y cyfeiriadau gan feirdd diweddarach at Syr Hywel a'i gampau milwrol yn dra lluosog. Fe'i henwir gan Ruffudd Llwyd (GGLI 12.47), Guto'r Glyn (GGI<sup>2</sup> LXXXVI.41–4), Dafydd Nanmor (DN XXIII.23), Ieuan Deulwyn (ID XXXVII.43–4), Deio ab Ieuan Du (GDID 15.24), Ieuan ap Tudur Penllyn (GTP 43.43–4) a Hywel Rheinallt (Hywel Rheinallt: Gw 15.29–30).

8 **Penri** Enwir Henri, tad Hywel, yn y cywydd i Siors Mathau, gw. 5.19–20. Yr oedd un o'i ferched yn briod â Syr Wiliam Mathau, Radur, gwrthrych cerdd 4.

17 **Sir Gaer fu'n nesa' i'r goron** Tybed ai ar gyfrif yr anrhydeddau a ddaeth i ran Syr Rhys ap Tomas y maentumir bod statws aruchel yn perthyn i sir Gaerfyrddin?

22 **Is Cennen** Cwmwd yng nghantref y Cantref Bychan a gynhwysai blwyfi Llandeilo Fawr, Llandybïe ac eraill, gw. WATU 95.

23 **daearolydd** E. wedi ei ffurfio o'r a. *daearol* + *-ydd*, 'un o drigolion y ddaear, bod dynol', ond nis rhestrir yn GPC 877. Er mai un gair yw *daearolydd* yn yr holl lsgrau., gellid cyfrif *daear oludd* < *goluddio* 'atal, rhwystro, llesteirio', gw. GPC 1453, yn sangiad.

27 **gwladyddu** 'Trigiannu, preswyllo', gw. GPC 1680. Codwyd y gair o eiriadur John Davies (1632), a digwydd copi o'r cywydd yn ei law yn Pen 100. Gw. ymhellach l. 45n isod.

**gwladeiddion** Yr a. *gwladaidd* a'r terfyniad ll. *-ion*, yma â swyddogaeth enwol, '(pobl) druenus, a gwael eu cyflwr'.

28 *n* wreiddgoll a thrachefn yn ll. 55.

30 **troes du** Gallai *du* fod yn oddrych y f. ond nid anghyffredin oedd cadw cysefin y gwrthrych yn dilyn ffurfiau berfol a ddiwedddai yn -s, gw. 14.17–18n.

- 34 [y] **farwolaeth fawr** Atgof, tybed, o'r Pla Du a ymwelodd â Chymru yn y 14g.?
- 36 **cyfraith Hywel** Cyfraith Hywel Dda. Gw. ymhellach 43.18n.
- 45 **anfodus** 'Ysgeler, drwg'. Dyfynnir y ll. yng ngeiriadur John Davies, Mallwyd, gw. GPC 114.
- 46 Camosodiad a chyfatebiaeth dd = th.

## 61

Yr oedd Lewys, gwrthrych y farwnad hon, yn fab i Domas ap Siôn ap Rhys ... Cydifor Fawr, gw. WG2 381; L. Dwinn: HV i, 233 (lle y ceir dryll o'r ach). Cysylltir y teulu â Chwmgwili, cartref a safai ar lan ogleddol Afon Gwili, ym mhlwyf Glangwili, ac nid nepell o bentref Glangwili, gw. NBSGaerf 219. Canodd Lewys Glyn Cothi awdl i'w rieni, Tomas a Gwenllïan, gw. GLGC cerdd 67. Yn ôl y pennawd yn BL Add 14880, *marnawd lewys thomas ap John yw r vn sydd yn kanlyn a vy varw y 6 o ebrill 1542*, ac ychwanegwyd wrth droed y cywydd *Lewys morganwc ai kant 1541 y 6 o ebrill yn ol hynny ai vab a gla[ ] y 32 dydd oi vlaen y tad*. Gellid tybio mai gwall am 1543 yw 1541, h.y. canwyd y farwnad flwyddyn i'r diwrnod yn dilyn marwolaeth Lewys ap Tomas (ond sylwer mai 6 Ebrill 1534 yw dyddiad marwolaeth Lewys yn ôl y pennawd yn BL Add 31090).

Daliodd Lewys nifer o swyddi cyhoeddus yn ei ardal yn y tridegau. Bu'n feili Caerfyrddin ac yn blwyfwas cymydau Gwidigada ac Elfed, gw. R.A. Griffiths: PW i, 346, 404, 409. Bu iddo un ferch ar ddeg yn ôl WG2 381. Priododd un ohonynt â Gruffudd Dwinn, Ystradmerthyr, gwrthrych cerddi 57–9.

- 1 **hud** Yr hud ar Ddyfed a ddisgrifiwyd yn nhrydedd gainc y Mabinogi.
- 4 **holl deheudir** Ar y calediad, gw. 45.59n.
- 7 **soniynt** Y ddwy ystyr a roddir yn GPC 3319–20 i'r f. *sôn*, *sonio* yn gweddu yma er mai'r ail sy'n taro orau (ond y gyntaf yn 12.21), sef i. 'crybwyll'; ii. 'gwneud sŵn' h.y. 'nadu, cwyno'.
- 9 **Llywarch** Diau mai Llywarch Hen, yr arweinydd milwrol o'r Hen Ogledd, yw hwn, gw. WCD 423–5; TYP<sup>2</sup> 430–3; CLC<sup>2</sup> 86–7. Am gyfeiriad tebyg ato mewn cywydd marwnad, gw. GLD 21.11–12 *Mynd i orwedd mewn derwen, / Mal arch oedd am Lywarch Hen*. Ar y cyfuniad *ail Lywarch*, gw. 13.26n.
- 15 **Gronwy** Yr oedd Gronwy Goch, arglwydd Llangathen, yn un o hynafiaid Elin Llwyd, gwraig Lewys ap Tomas, gw. WG1 403–4; WG2 727.

- 20 **yr iarll** Gallai fod yn gyfeiriad at Harri, Iarll Caerwrangon. Bu gwrthdaro rhyngddo ag Arglwydd Fferes yn y tridegau, gw. R.A. Griffiths: PW i, 165–6, ac fel yr awgrymir yn y nodyn sy'n dilyn, ymddengys fod Lewys ymhlith cefnogwyr yr olaf erbyn hynny.
- Syr Rhys** Cyffelybir Lewys i Syr Rhys ap Tomas, prif gefnogwr Harri Tudur yng Nghymru. Yr oedd cyswllt teuluol rhwng y ddeuddyn gan fod Syr Rhys yn ewythr i Elin Llwyd. Gwyddys hefyd fod gan Syr Rhys feddwl uchel o Lewys gan iddo ei ddewis yn ysgutor ei ewyllys, gw. R.A. Griffiths: PW i, 295; R.A. Griffiths: RhT 79, 80, 90. Yn ddiweddarach ymunodd Lewys â phlaidd Arglwydd Fferes, ac fe'i hanafwyd pan ymosododd Rhys ap Gruffudd, wŷr Syr Rhys, ar Fferes yng nghastell Caerfyrddin yn 1529, gw. R.A. Griffiths: RhT 96; nodyn brig cerdd 64.
- Diwygiwyd *hen syr Rys* y llsgrau. > *henw Syr Rhys*. Ar Syr Rhys Hen, a'i gyswllt â Syr Rhys ap Tomas, gw. 65.3n.
- 21 **cynnor** Mentrwyd diwygio *cyngor* y llsgrau. er mwyn gwella'r ystyr, er bod y diwygiad yn arwain at gyfatebiaeth nn = ng.
- 23 **Garwy** Y mae'r cyfeiriadau at ei ferch, Indeg, un o gariadon Arthur, yn fwy lluosog na'r cyfeiriadau ato ef. Ymddengys fod traddodiad am ei doniau yntau fel carwr, gw. TYP<sup>2</sup> 354–5; WCD 272–3.
- 25–6 **Tair morwyn ... / Tair tynged** Y tair morwyn sy'n cynrychioli ffawd yw Cloto (Clotho), Letises (Lachesis) ac Awtrôpôs (Atropos), cf. GGI<sup>2</sup> LIII.41–6 *Tair merched, tair tynged hon, / Y sy'n dwyn oes ein dynion. / Un a gynmail cogeilyn; / Arall a nydd dydd pob dyn. / Trydedd yn torri edau / Er lladd iarll a'r llu dduw Iau*. Cysylltid pob un o'r tair â symbol penodol: '... in works of art, they are represented as grave maidens, with different attributes, viz. Clotho with a spindle or a roll (the book of fate); Lachesis pointing with a staff to the globe; and Atropos with a pair of scales, or a sun-dial, or a cutting instrument', gw. *Everyman's Smaller Classical Dictionary* (London, 1956), 193. Sylwer bod swyddogaethau Cloto a Letises wedi eu cyfnewid yn y llau. hyn o'r eiddo Lewys; Cloto sy'n dal y cogail a Letises sy'n nyddu. Cyfeiria'r bardd at y tair yn y cywydd sy'n dilyn, gw. 62.51–2, a dywed y tro hwn *Dwy a nydd i bob dyn oes; / E dyr un edau'r einioes*.
- 42 **mw y boen** Ar y cyfuniad, gw. 1.18n, a cf. *mw yobaith* yn ll. 68.
- 47–50 Cyffelybir Lewys a'i fab, Gruffudd Llwyd, i dadau a meibion adnabyddus y chwedlau, sef i. Lawnslod a Galath; a ii. Efrog Iarll a Pheredur.
- 53–4 **Elen ... / ... Elen** Dygir i gof enw'r cymeriad chwedlonol, Elen

ferch Coel, wrth enwi'r weddw, Elin Llwyd ferch Gruffudd ap Rhys, gw. ll. 15 a 3.34n.

- 57 **unmath** Darlleniad llsgr. A *winmaeth* sy'n cynnig yr ystyr orau, ond disgwyli'd *gwinfaeth*, gw. GPC 1664.
- 64 **Arglwydd Rhys** Priododd Siôn ap Rhys ag un o ddisgynyddion Cydifor ap Dinawal, gw. WG1 164–5. Catrin, merch yr Arglwydd Rhys ... Rhys ap Tewdwr (ll. 41), oedd gwraig Cydifor.  
Sylwer ar yr odl *wiw / rhyw*, ond gallai hon fod yn ll. o gynghanedd draws ac ynddi *n.n* wreiddgoll er na sylwyd ar enghraifft arall yn y canu.
- 65 **elain** Un plentyn yn unig a oedd i Ruffudd Llwyd a'i wraig, Siân Bowen o Bentrefan, sef merch, Elisabeth. Ymddengys fod y bardd yn ymfalchïo bod ganddi fab eisoes a fydd yn olynydd teilwng i'w dad a'i daid. Priododd Elisabeth â Richard Jones, ail fab Syr Tomas ap Siôn, Abermarlais, gwrthrych cerdd 65, gw. WG2 647. Enwir y mab hwnnw—Tomas Jones—yn L. Dwnn: HV i, 190. Priododd brawd Richard, Syr Harri Jones, ag wyres Syr Siors Herbert, Abertawe, a'i ail wraig oedd merch Harri, yr ail Iarll Caerwrangon.
- 69 **Gwernan** Etifeddodd Dafydd Llwyd, brawd Elin, y cartref hwn yn Nhrefdeyr yng nghwmwd Iscoed yng Ngheredigion, gw. 57.24n.

## 62

Yr oedd y tri brawd a farwnadwyd, sef Wiliam, Siôn a Thrahaearn, yn feibion i Harri ap Trahaearn ap Morgan ap Siancyn ap Ffyllib ap Morgan, gw. WG1 201; WG2 394, 396. Yr oedd eu tad, Harri, yn gefnder i Syr Wiliam Morgan, gwrthrych cerdd 28. Rhoddir cryn sylw i daid y brodyr, Trahaearn ap Morgan, yn L. Dwnn: HV i, 218–19 (ac iddo ef yn hytrach nag i dad y brodyr y rhoddir y flaenoriaeth yn y farwnad). Yno dywedir mai ef oedd y *pendefig kynta ar a veddianodd ar dir Moelysgomb*. Buasai'r cartref ym meddiant y Dwniaid, ond bu farw Wiliam, mab Harri ab Owain Dwnn, yn blentyn pum mlwydd oed yn 1470 ac etifeddodd Sioned, un o ferched Harri, a gwraig Trahaearn, y cartref, gw. Francis Jones, 'The annals of Muddlescwm', *The Carmarthenshire Antiquary*, xxi (1985), 11–26; *id.*, *Historic Carmarthenshire Homes* (Carmarthenshire Antiquarian Society, 1987) 134–5. Â Lewys Dwnn rhagddo i ddweud fod Trahaearn yn *uchel Ystiward 3 chomod Kydwely dan Harri 7 a Harri 8, ag ef oedd Ystiwart Penvro dan yr un brenhinoedd, a lyfftenant dan Syr Rys ap Tomas, achos i vod yn ddysgedig ag yn raddol ynghyfraith Lloegr*. Bu'n weithgar iawn o blaid Harri Tudur yn ystod teyrnasiad Rhisiart III, ac iddo ef yr ymddiriedwyd y dasg o geisio annog Syr Rhys ap Tomas i gefnogi achos y Lancastriaid, gw.

R.A. Griffiths: RhT 38–40. Yn ôl NBSGaerf 310–11, 478, dyma'r unig gerdd ar glawr i'w wyrion.

Awgryma'r bardd i'r tri brawd farw yn *un haf*, a hynny yn ystod blynyddoedd teyrnasiad Edward VI (1547–53). Yn ôl Francis Jones, *art.cit.*, profwyd ewyllys un o'r brodyr, sef Trahaearn ap Harri, ym mis Gorffennaf 1551. Enwir Wiliam, ei frawd, yn yr ewyllys, ond ni chrybwyllir Siôn a gellid tybio bod hwnnw wedi marw o'i flaen. Yr oedd Trahaearn yn arglwydd maenor Ystrad, a'i ddymuniad oedd gweld brawd arall, Tomas (gw. ll. 57) yn ei olynu. Awgryma Francis Jones mai tua 1564 y bu farw Harri, tad y brodyr, ond nid oes unrhyw awgrym yn y farwnad ei fod yn fyw er bod y bardd yn sôn am alar y fam ar ôl ei meibion (*mawr wae'i fam* ll. 7).

- 2 **tri brodyr** Am enghreifftiau eraill o'r e.ll. yn dilyn y rhif., gw. 7.59n.
- 5 **meirw'r tri** Nid anghyffredin yng nghanu'r cyfnod yw gweld talfyrru'r fannod yn dilyn *w* ansillafog, gw. J. Morris-Jones: CD 197–8, er na ddigwydd hynny yn fynych yng nghanu Lewys Morgannwg (ond gw. ll. 6). Diwygiwyd darlenniad y llsgrau. yma ac yn ll. 17.
- 7 **mam** Nid enwir mam y meibion, ond crybwyllir ei thylwyth isod, gw. 62.34n.  
*n* berfeddgoll ac *f* led-lafarog. Gellid cryfhau'r gynghanedd o ddiwygio > *Marw fu oes ...*
- 8 **Wiliam** Ef yn ddiau oedd y *W. Morgan Kidwelly* a wasanaethai ar y fainc yn sir Gaerfyrddin rhwng 1543 a 1549, gw. JPWM 156. Enwir *Wm Morgan de Kidwelly* drachefn ymhlith boneddigion y sir a ymunodd â chyrch Harri VIII yn erbyn y Ffrancod yn 1544, gw. LPFD xix/i, cofnod 273.  
Diwygiwyd *am oes* y llsgrau. gan fod yr ymadrodd *moes Troelus* yn digwydd mewn cerddi eraill, a cf. yn benodol 6.22 *Mastr Wiliam â moes Droelus*. Ceir cyfatebiaeth -s t- = st yn y ll., ond ceid cyfatebiaeth reolaidd o dreiglo'r e.p. yn yr ymadrodd genidol fel y gwnaed yn 6.22.
- 11 **ail dydd** Ar y cyfuniad, gw. 13.26n.  
*f*led-lafarog. Unwaith eto, gellid diwygio > *diwedd fu ...*
- 13 Deusill yw *bwrw* yn y ll. hon, a *meirw* yn ll. 44.
- 14 **ei dri mab, Rodri Mawr** Gw. 4.38n.
- 17 **gŵr well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 28 **Mathau a Godwin** Ail wraig Morgan ap Siancyn, a mam Trahaearn, oedd Marged, merch Dafydd Mathau a Gwenllïan, merch Dafydd ap Gwilym ... Godwin, gw. WG1 421, 473.

- 29–30 **Syr Wiliam, / ... y torchog Cam** Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went, a Dafydd Gam. Gwraig gyntaf Morgan ap Siancyn oedd Elisabeth, merch Syr Rhosier Fychan a Gwladus Gam. Ail wŷr Gwladus oedd Syr Wiliam Tomas, gw. 8.20n, 43.21n. Priododd Trahaearn ap Morgan yn ei dro â Sioned, merch Harri Dwinn (ll. 32) a Marged Wgon (ll. 34). Yr oedd mam Marged Wgon yn ferch i Syr Wiliam Tomas, gw. WG1 616.
- 33 *r* berfeddgoll.
- 34 **Wgon** Gwraig Harri ap Trahaearn oedd Marged, merch Harri Wgon a Siân Dwinn, gw. WG1 86; WG2 167. Gw. hefyd 62.29–30n.
- 36 **difawd** Disgwyliid y ffurf deirsill *difaawd*, ond geilw'r mesur am ffurf ddeusill. Ar y terfyniad amhrs.grff.myn. *-awd*, gw. GMW 125.
- 46 **tros deheuwlad** Ystyrion fyddai *Trist wylo, troes deheuwlad*, ond derbyniwyd y darlleniad *tros deheuwlad* am fod enghreifftiau eraill o'r gysefin yn dilyn yr ardd. *tros*, cf. 11.37n.
- 48 **Tewdwr** Hendaidd yr Arglwydd Rhys (Rhys ap Gruffudd ap Rhys ap Tewdwr), a chynrychiolydd llinach frenhinol Deheubarth.
- 50 **[y] tair tyngaed** Gw. ymhellach 61.25–38n. Ni nodir y ffurf *tyngaed* yn GPC 3672, ond rhaid wrthi er mwyn sicrhau odl.
- 57 **Tomas** Pedwerydd mab Harri ap Trahaearn. Y mae'n amlwg iddo oroesi ei dri brawd.

## 63

Yr oedd Syr Rhys yn fab i Domas ap Gruffudd ap Nicolas ap Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. WG1 330; WG2 643, 645; L. Dwinn: HV i, 210; ByCy 790–1; R.A. Griffiths: PW i, 162. Trafodir ei yrfa yn ail a thrydedd bennod R.A. Griffiths: RhT a chynigir arolwg o'r canu iddo yn NBSGaerf 104–40, ynghyd â rhestr o 40 cerdd a ganwyd iddo gan bedwar bardd ar bymtheg, gw. *ib.* 462–5. Y mae ei waedoliaeth yn destun balchder yn y cerddi moliant iddo, ond nid yw honno yn thema amlwg yn y tair marwnad, sef gwaith Lewys Morgannwg, Iorwerth Fynglwyd a Siôn Ceri. Wrth drafod gwaith yr olaf—yr unig awdl farwnad gan mai cywyddau a ganodd y ddau fardd arall—awgrymais 'y barnai Siôn Ceri fod statws ac enwogrwydd Syr Rhys cyfuwch fel nad oedd angen cynnwys enwau'r hynafiaid yn ei farwnad', gw. GSC 214. Trafodir dyddiad marw Syr Rhys yn nodyn brig cerdd 93 ac isod 63.75n.

Canodd Lewys Morgannwg gywydd gofyn ar ran Owain, mab Syr Rhys, gw. cerdd 79, a chywydd arall i foli ei wŷr, Rhys ap Gruffudd, gw. cerdd 64.

RWM 82] d.g. *godwrdd* y rhoddir iddo'r cyfystyr 'trwst'.

- 2 **brain** Gw. 65.21n.  
*r* berfeddgoll.
- 5 **Llefelys** Cyfeiriad arall at yr ail ormes yn y chwedl 'Cyfranc Lludd a Llefelys', gw. 10.60n.
- 13 **Caeryw** Yr oedd Syr Rhys wedi meddiannu'r castell hwn cyn diwedd y 15g. ac y mae'n debyg fod y safle wedi ei adnewyddu erbyn 1506 pan gynhaliodd dwrnameint yno i ddathlu ei ddyrchafu yn aelod o Urdd y Gardys, gw. R.A. Griffiths: RhT 74–5. Adnewyddodd gaer Castellnewydd Emlyn hefyd (ll. 16), ac yr oedd yno stablau helaeth a fyddai wrth fodd un yr oedd yn dda ganddo hela, gw. *ib.* 75.
- 14 **câr Owain Glyn** Methwyd â chanfod cyswllt gwaed amlwg ond gw. isod 63.73n. Gellid olrhain cyswllt â'r tywysog trwy Fabli, mam yng nghyfraith Syr Rhys, a gwraig Henri ap Gwilym o Langathen, gw. WG1 405. Gw. hefyd 57.47n a WG1 330. Mabli, chwaer Gruffudd Dwinn y cyfeirir ato yn y nodyn, oedd ail wraig Gruffudd ap Nicolas, a nain Syr Rhys ap Tomas o du ei dad.
- 15–16 **cad deulu / Camlan** Yr e. cyfansawdd *dau + llw* yn hytrach na'r e.c. *teulu* sydd yma. Ymladdwyd brwydr Camlan rhwng lluoedd Arthur a Medrod, gw. TYP<sup>2</sup> 160–3, a dygai'r beirdd y frwydr i gof pan fynnent gyfeirio at drychineb, argyfwng neu elyniaeth.
- 20 **Camalod** A barnu wrth y rhan fwyaf o'r llsgrau., tybiodd y copiŵyr mai ffurf ar *cymal* oedd yma. Ni nodir y ffurf l. *cymalod* yn GPC 753. I ddiwedd yr 16g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf o'r f. *cymalu* 'cysylltu neu gydio dau gymal', gw. *ib.* 754 a'r Amrywiadau, ond nid yw'r ystyr honno yn taro yn y cyd-destun. Gellid *cymalog* 'aml neu amlwg ei gymalau', gw. GPC 754, ond ceir y darlenniad gorau o ddilyn llsgr. A a deall *Camalod* yn e. lle, sef ffurf Gym. sy'n cyfateb i'r S. *Camelot*. Yn ôl un o'r Trioedd, *Teir Prif Lys Arthur* oedd *Kaerllion ar Wysg yg Kymry, a Chelli Wic y Ghernyw, a Phenryn Rioned yn y Gogled*, gw. TYP<sup>2</sup> 211; WCD 28. Ond fel hyn yr egyr 'Chwedl y Greal', testun yr oedd Lewys Morgannwg yn gyfarwydd ag ef: *Megys yd oed yr amherawdyr Arthur yn y llys a elwit Camelot nos Sadwrn Sulgwynn ...*, gw. YSG 1. Cyfeiria Gruffudd Hiraethog at y lle hwn yn un o'i awdlau, gw. GGH 6.83–4 *I amllder llawer (fal llewod)—o'ch gwŷr / Holl seigiau milwyr llys Gamelod*.
- 28 **gwaed Urien** Gw. 7.23n ac isod ll. 73n.
- 34 **aur am y glin** Gw. 2.3n.
- 36 **relics** Parodd y gair yn safle'r orffwysfa gryn drafferth i'r copiŵyr, a diau mai ymgais i wneud synnwyr o'r ll. a arweiniodd at y



darlleniad *Fydd yr ail i fedd Rolant*. Gwrthodwyd *rhylesg* am nad yw'n arfer gan y beirdd, yn wahanol i Siôn Cent, ddisgrifio'r corff gwan ac eiddil yn y bedd. Y mae *rhylew* ar y llaw arall yn fwy cyson â chywair canu'r beirdd. Tybed, fodd bynnag, nad ymgais y copïwyr i gyfleu sain y gair *relic(s)* sy'n cyfrif am y darlleniadau *rhylesc*, *Ryleke*, *rryleks*, *rylex*, sef benthyciad o'r S. *relic* 'crair gwerthfawr', gw. OED<sup>2</sup> xiii, 562–3; GPC 2980?

- 46 **aeth wyn** Bydd y bardd ar dro yn ailadrodd yr un gair naill ai yn yr un cwpled neu yn yr un ll., gw. llau. 11–12, a diau mai'r ffurf ferfol *aeth* sydd yma, megis ym mraich gyntaf y cwpled yn hytrach na'r e.c., ond sylwer ar ddarlleniad *A aeth hwy'n Lloegr*.
- 50 'Chwarddai gwŷr Ffrainc a ffrwynent [y Cymry].'
- 57 **Seferus** Yr ymherodr Rhufeinig Adrian a barodd godi mur 73 milltir o hyd o Solway Firth yn y gorllewin hyd aber Afon Tyne yn y dwyrain ond fe'i hadnewyddwyd gan yr ymherodr Septimus Severus a dreuliodd dair blynedd olaf ei fywyd ym Mhrydain, gw. EncB iv, 159–61; MEnc; BD 64–5.
- 60 **Dofr ... Wrthefyr** Cafodd y bardd achlysur i gyfeirio at yr hanes am Werthefyr mewn cywydd marwnad arall pur gynnar o'i waith, gw. 21.51–60n. Methodd copïwyr y ddwy lsg. gynnar, AB, â llwyr werthfawrogi arwyddocâd y cyfeiriad.
- 63 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 65 a 69.
- 64 **marchog well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 73 **nai ... Owain** Owain ab Urien, gw. 65.14n. Ond yr oedd Syr Rhys ap Tomas yn nai yn llythrennol i Owain ap Gruffudd o Fryn-y-beirdd, gwrthrych cywydd cofiadwy o'r eiddo Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC cerdd 17; WG1 330.
- 75 **Iau** Dywed Iorwerth Fynglwyd yn ei farwnad i Syr Rhys ap Tomas *Dwyn gŵr aeth yn saeth nos Iau*, gw. GIF 18.23, a geilw'r golygydd sylw at nodyn yn llaw Gruffudd Dwinn i'r perwyl i Syr Rhys farw ar *ddygwyl deilo*, sef 9 Chwefror. Dydd Iau oedd diwrnod yr ŵyl honno yn 1525 (ond 19 Chwefror yw'r dyddiad a roddir yn KWL 288). Cynnig y rhan fwyaf o'r llsgrau. y darlleniad *Och Ferchyr* yn hytrach na *Och ferchwyn* yn y ll. sy'n dilyn. A oes yma awgrym ddarfod claddu Syr Rhys y dydd Mercher canlynol? Enwir y diwrnod hwn hefyd yn y farwnad a ganodd Iorwerth Fynglwyd i Syr Rhys ond gwahanol yw'r ergyd; cyfosodir y diogelwch a gynrychiolai Syr Rhys pan oedd yn fyw a'r ansicrwydd wedi ei farwolaeth, gw. GIF 18.43–6.
- 86 **ŵyr Syr Rhys** Rhys ap Gruffudd, gwrthrych y cywydd moliant sy'n dilyn.

A barnu wrth NBSGaerf 145–7, dyma'r unig gerdd foliant sydd ar glawr i Rys, mab Syr Gruffudd, ac wŷr Syr Rhys ap Tomas, gw. WG2 645; ByCy 790–1, 796; cerdd 63 uchod. Bu farw Syr Gruffudd, tad Rhys, yn 1521, a phan fu farw Syr Rhys ap Tomas yn 1525 daeth ei diroedd helaeth yn eiddo i'w wŷr ifanc nad oedd eto wedi cyrraedd ei ddeunaw oed. Tramgwyddwyd Rhys pan apwyntiwyd Water Defras, Arglwydd Fferes, yn brif ustus siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi wythnosau wedi marw ei daid, a'r swydd honno i'w dal am oes. Daeth swyddi eraill y bu Syr Rhys ap Tomas yn eu mwynhau i ran Fferes yn ystod y misoedd nesaf, a dyma o bosibl gefndir cwestiwn crafog y bardd *Pa chwarae am swyddau sydd?* (ll. 37). Bu cryn wrthdaro rhwng Rhys a Fferes yn ystod y blynyddoedd nesaf. Ym mis Mehefin 1529 ymosododd Rhys ar gastell Caerfyrddin mewn ymgais i ryddhau dau o'i weision. Daliwyd Rhys a sicraodd ei wraig, Catrin, merch Thomas Howard, Dug Norfolk, fod llu o'i ganlynwyr yn ymgynnull yng Nghaerfyrddin i geisio achub ei gam. Bu'n rhaid i Rys ac Arglwydd Fferes ymrwymo i gadw'r heddwch, a rhoi gwarant ariannol o #1000 i'r perwyl hwnnw, wedi i'r ddau ymddangos gerbron Cyngor y Gororau. Erbyn 1531 yr oedd Rhys yn wynebu cyhuddiadau o gynllwynio gyda Iago V o'r Alban i ddisodli'r brenin Harri VIII, ac o ysgogi a hybu proffwydoliaethau bradwrus. Fe'i cafwyd yn euog ac fe'i dienyddiwyd ar 4 Rhagfyr 1531. Am drafodaeth ar yrfa Rhys a'i helyntion, gw. pennod 4 yn R.A. Griffiths: RhT a Jerry Hunter, *Soffestri'r Saeson* (Caerdydd, 2000), pennod 1 yn benodol.

Nid oes awgrym o gwbl yn y nodiadau ar y cywydd yn Lewys Morgannwg: Gw 901–5 mai yn ystod oes Syr Rhys ap Tomas y canwyd y gerdd ond yn y rhagymadrodd honnir 'canodd [Lewys Morgannwg] hefyd i Mr Rhys Ieuanc, wŷr Syr Rhys ap Tomas pan oedd ei dad-cu yn fyw', gw. td. 21. Gellid tybio i'r cywydd gael ei lunio yn fuan wedi marw Syr Rhys ap Tomas, ac yn dilyn penodi Water Defras yn brif ustus ym mis Awst 1525. O ystyried y cyhuddiadau y buasid yn eu dwyn yn erbyn Rhys ymhen chwe blynedd, y mae cywair brudiol y cwpled agoriadol, a chwpled 11–12 yn ddadlennol, ond ni fuasai'r cyffyrddiadau hyn yn gwbl annisgwyl ychwaith mewn cywydd i lanc ifanc a oedd hefyd yn wŷr i wŷr a gafodd swyddi blaenllaw yn wobwr am y gefnogaeth a roes i Harri Tudur yn 1485.

1 **brân** Gw. 65.21–2n.

3 **ymordeiniaw** Parodd y gair gryn drafferth i'r ddau gopiwr, ac ychwanegodd Samuel Williams *darriaw* ar ochr y ddalen yn Llst 133 ac yn Llst 148 a fu yn ei feddiant. Ychwanegodd rai mân gywiriadau ar ochr y ddalen yn Llst 148.

6 *n* wreiddgoll ac eto yn ll. 24.

- 10 Cyfatebiaeth caled a meddal d = -t d-.
- 11 **R Hen** Syr Rhys ap Gruffudd o Lansadwrn, gw. 65.3n.
- 18 Cyfatebiaeth th = ch o ddilyn darlleniad y llsgrau.
- 27 **maen a chledd** Cyfeiriad arall at y maen rhyfedd a nofiodd dros y dŵr at lys Arthur ar ddechrau ‘Chwedl y Greal’, gw. 47.38n. Anogodd Arthur Walchmai i geisio tynnu’r cleddyf a oedd yn y maen, *Sef a wnaeth Gwalchmei yna roi y law arnaw. Ac ny allawd ef y dynnu ef o’r maen*, gw. YSG 4. Lle y methodd ef, llwyddodd Galath.
- 29 Nid atebir g o flaen yr acen yn y gynghanedd sain, ac felly diwygiwyd darlleniad y llsgrau. > *Walchmai*. Cyffredin gynt oedd treiglo goddrych ffurfiau amhff. y f., gw. Treigladau 214.
- 34 **prynswaed** Gw. y nodyn sy’n dilyn.
- 36 **Sainsion** Ni ddeallodd Samuel Williams arwyddocâd y cyfeiriad hwn. Mam Rhys oedd Catrin, merch Siôn ap Siôn ab Olifer ap Siôn St John (= Sainsion y bardd; am enghraifft arall o’r ffurf yn y canu, gw. 18.14). Margaret, merch Syr John Beauchamp, oedd gwraig Olifer. Wedi marw ei gŵr, ailbriododd Margaret â John Beaufort, Dug Somerset, a’u merch hwy oedd Margaret a ddaeth yn wraig i Edmwnd Tudur, gw. WG2 1567. Nid annichon fod y goron yn gweld Rhys yn fygythiad ar gyfrif ei gysylltiadau teuluol, yn enwedig yng nghyd-destun y trafferthion a gâi Harri VIII i sicrhau etifedd i’w olyn.
- 37 Am enghreifftiau eraill o’r odl *chwarae / swyddau*, gw. 76.51 *Chwarae ag angau nid gwiw*, 81.29 *Dechrau dy chwarae yn chwyrn*. Ond *chwarau* a welir yn y ddwy lsg. fel pe bai’r copiwr am ddangos i’r llygad bod yr odl yn un ddilys.
- 38 **chwarae hasart** Rhoddir i *hasart* ddwy ystyr yn GPC 1825 sef i. gêm a chwaraeid â dis’; ii. ‘antur mentr, perygl’. Digwydd yr ymadrodd *chwarae hasart* yn nifer o’r llau. a ddyfynnir yn *ib*.
- 47–8 Awgrymir bod Rhys wedi cael cam, ond na feiddasai neb dramgwyddo ei dad pan oedd hwnnw yn fyw.
- 51 **piau’i radd** Rhaid wrth y rh. blaen gan mai’r gysefin sy’n dilyn *piau* ac anodd fyddai cyfiawnhau *piau radd*, gw. Treigladau 330–1.
- 53 Diwygiwyd *kenaist ydfran* y llsgrau. am nad yw’r gynghanedd yn caniatáu gair diacen yn safle’r orffwysfa. Dweud y mae’r bardd fod y frân [Rhys ap Gruffudd] wedi dod i amlygrwydd cyn yr haf, *cyn Awst*, yn dilyn marwolaeth Syr Rhys ap Tomas. Bu ef farw ym mis Chwefror 1525, gw. 63.75n.
- 55 **câr Urien** Un o’r cyhuddiadau a dducwyd yn erbyn Rhys oedd

*That the said Rice tooke upon him a new name, (vizt.) Rice ap Griffith Fitzurian, to the intent that under this faire pretence, and title, he might more worthily obteyne the principallitie of Wales, which was the marke he assigned at after the conquest, ac atebodd Rhys It can be no new name that is of a thousand years standing,* gw. R.A. Griffiths: RhT 284, 289. Buasai'r beirdd yn ymhyfrydu ar gyfrif y cyswllt ag Urien a'i fab, Owain, ers cenedlaethau, gw. 65.14n.

Y mae'n bosibl fod *kiw airyri* y llsgrau. yn gywasgiad o *cyw a â i Eryri*.

64 **mab Elen** Gw. 27.44n.

66 **Ffranandus** Tybed ai ffurf ar yr e. Ferdinand, tad Catherine o Aragon, ydyw hwn?

**dyffryn India** Gallai hwn fod yn gyfeiriad at deyrnas y Preutur Siôn, gw. YGIV 3; GGI<sup>2</sup> LI.3; GLM XII.15n.

69 [y] **Mwnt** Tref Mantes yn Ffrainc sydd fwyaf ystyrllon yn hytrach na'r Mwnt ger Aberteifi, gw. 97.8n, 98.1n, ond ni ddisgwyliid y fannod o flaen y blaenaf (ond gellid ei hepgor heb amharu ar y gynghanedd). Gallai fod yma gyfeiriad at Mont St. Michel (megis, o bosibl, yn GDGor 4.64).

70–2 **Rhufain.** / ... / ... **Arthur** Gw. 44.55–6n.

75 Cyfatebiaeth caled a meddal c = g.

78 *Am air* a gopiwyd yn y lle cyntaf yn B, ond ychwanegwyd *au* wrth ymyl y cwpled.

## 65

Cywydd moliant i Domas Jones o Abermarlais, sef Tomas ap Siôn ap Tomas ap Gruffudd ap Nicolas ap Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. WG1 330; WG2 643, 647; hefyd R.A. Griffiths: PW i, 295. Fe'i gelwir yn *Syr tomas ssions* yn y pennawd yn llsgrau. EFI (tra chamarweiniol yw'r priodoli i Syr Rhys ap Tomas yn llsgrau. BJ), ond diau mai disgrifiad llawysgrif G sydd gywiraf: *Tomas Sion a vy gwedyn yn syr thomas Sions*. A barnu wrth yr hyn a awgrymir yn llau. 4, 75–6, nid oedd gwrthrych y mawl wedi ei urddo yn farchog pan ganwyd y cywydd, a rhaid dyddio'r gerdd ar ôl marw Syr Rhys ap Tomas (1525) ac ar ôl geni Edward, unig fab Harri VIII (1537) ond cyn 1542 pan urddwyd Tomas ap Siôn yn farchog, gw. KWLC 520. Hyd y gwyyddys, dyma'r unig ganu sydd ar glawr iddo, gw. NBSGaerf 160–2.

1 **ewythr** Yr oedd Syr Rhys ap Tomas yn ewythr i'r noddwr.  
**porth yr og** Gw. isod 65.14n.

3 **Rhys Hen** Priododd Tomas ap Gruffudd ag Elisabeth a ddisgynnai o Syr Rhys ap Gruffudd, neu Rys Hen, Llansadwrn (m. 1356), a

farwnadwyd gan Iolo Goch, gw. GIG cerdd VII; WG1 682; uchod 32.10n. Am gyfeiriad arall at Rys Hen yng nghanu'r bardd, gw. 68.6n.

- 6 Digion llwgr yw llsg. G, ond hi yn unig sy'n cynnig y darlleniad *carw Niclas* a fabwysiadwyd am fod yr ymadrodd *fal cawr* yn digwydd yn y ll. flaenorol.

Dilynyd yr un llsg. hefyd yn ll. 47; *Nertha Ddeau*, *nerth ddwyawr* yw darlleniad y llsgrau. eraill.

- 9 **ty'n Deau** Ceir enghreifftiau o galedu *ndd* > *nd* mewn geiriau cyfansawdd ac mewn e.p. (e.e. Ieuan Du) ac mewn cyfuniadau megis *lleian du*, gw. Treigladau 26–7, a gellid tybio bod y bardd yn dilyn yr un arfer yn y cyfuniad hwn lle y ceir berf orch. a gwrthrych. Am enghreifftiau o galedu'r gwrthrych sy'n dilyn y ffurf orch. *aros*, gw. 6.5n. Ond bydd y bardd hefyd yn cadw'r gysefin ar ddechrau ail ran y ll.

- 10 Anodd dehongli'r ll. hon gan fod y llsgrau. o bosibl yn cofnodi'r sain a bod hynny yn ei dro yn tywyllu'r ystyr. Mabwysiadwyd y darlleniad *Nid tyn* [un] *dyn at* [= ochr yn ochr â] *dy hen dad*, ond gellid *Nid dyn* [a] *dynn at dy hen dad*. Digwydd ll. nid annhebyg yn y cywydd blaenorol, gw. 64.10 *Nid un dyn at dy hen dad*, ac er nad yw'r gynghanedd cyn gryfed yn honno, y mae'r ll. yn fwy ystyrion.

- 14 **cawg a'r llech** Yn chwedl 'Iarlles y Ffynnon', disgrifir taith Cynon, ac Owain ar ei ôl, i *ystrat megys dyffryn mawr*, ac *ympheruedd yr ystrat y gwely pren mawr ... Ac y dan y pren hwnnw y mae fynhawn*, ac *yn emhyl y fynhawn y mae llech wawr*, ac *ar y llech y mae kawc aryant wrth kadwyn aryant mal na ellir y gwahanu*, gw. *Owein*, ed. R.L. Thomson (Bhaile Átha Cliath, 1968), 7. Yn wahanol i Gynon, llwyddodd Owain i orchfygu'r marchog a amddiffynnai'r ffynnon a daethpwyd i'w adnabod yntau yn ei dro wrth yr enw 'Marchog y Ffynnon', a cf. 1.104 *Marchog corff enwog carw y ffynnon*, 40.3–4 *Pwy aeth i frig ... Pen y ffynnon*, 34.49–59 ... *ni bu farchawg / Well acwy ond Iarll y Cawg*, 76.55 *Och gau câr Marchog y Cawg*. Yn yr un chwedl, carcharwyd Owain rhwng y porth a'r ddôr ddyrchafael (*porth yr og* ll. 1) a manteisiodd y bardd ar y digwyddiad hwn wrth iddo gyfarch Harri, Iarll Caerwrangon, gw. 43.56n a'r cyfeiriad pellach at y chwedl mewn cywydd i Wiliam, Iarll Caerwrangon yn 48.30n. Gw. hefyd drafodaeth Eurys Rolant ar y defnydd a wnaeth y beirdd o'r chwedl yn 'Rhamant hanes y beirdd', YB iii (1967), 28–38.

Digwydd enw Owain yn fynych yn y canu i Syr Rhys ap Tomas a'i dylwyth am fod y teulu yn barnu eu bod yn ddisgynyddion i Owain ab Urien, gw., e.e., 7.23n, 65.21–2n; GLGC 17.49–52,

20.21–2; R.A. Griffiths: RhT 8. Ar Owain, gw. TYP<sup>2</sup> 479–83; GLM LXXXIV.20n.

- 20 **Moreiddig Warwyn** Yr oedd Elisabeth, mam Tomas, yn ferch i Domas ap Watgyn Fychan, Brodorddyn, ap Rhosier Fychan ... Moreiddig, gw. WG1 243; WG2 451–2.
- 21–2 **Tair neidr ... / Tair brân** Symbolau herodrol Moreiddig Warwyn, gw. DWH ii, 386–7, ac Urien Rheged, gw. DWH ii, 561–2. Sonnir yn gynnil ar ddiwedd chwedl ‘Iarlles y Ffynnon’ am *vranhes* Owain, gw. R.L. Thomson, *op.cit.* 30, ond hawlia’r brain le canolog mewn chwedl arall. Yn ‘Breuddwyd Rhonabwy’ disgrifir gwŷr Arthur yn ymosod ar y brain a’r brain hwythau yn eu tro yn talu’r pwyth, gw. BRh 11–18.
- 28 **Awdlai** Priododd Tomas Fychan ag Eleanor, merch Robert Chwitnai. Elisabeth, merch Tomas Fychan, Hergest, oedd mam Eleanor, a hi oedd ail wraig Robert, ond Constans, merch Arglwydd Awdlai, oedd ei wraig gyntaf, gw. WG2 1748.
- 37 **Braint Hir** Sonnir amdano yn y Brut yn cynghori ac yn cynorthwyo ei ewythr Cadwallon, gw. BD 193–4; WCD 49–50. Olrheiniai nifer o deuluoedd Bodrychwyn yng nghantref Rhos eu hachau ato.
- 56 **Post Prydain** Gallai *post* fod yn e.c. ac yn drosiad yma, ond cafodd (Pabo) Post Prydain ei enwi ar achlysur arall, gw. 10.48n, ac y mae’n bosibl fod cyfeiriad pellach ato yn 67.35–6.
- 61 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 62, 66, 72.
- 62 **rhout gwt** Cymerir mai ystyr yr ymadrodd *rhoi cwt* (ar *cwt* ‘cynffon, tin, pen ôl’, gw. GPC 650; daw’r enghraifft gynharaf o waith Gruffudd Hiraethog) yw ‘cefnu, ildio’. Darlleniad llsgr. G yw *nid royt gwyts*, a rhoddir i *cwts*, *cwtsh*, *cwyts* yr ystyron ‘gorweddfa; congl fechan, cuddfan’ yn GPC 652.
- Rhita Gawr** Lluniodd Rhita fantell o farfau brenhinoedd a mynnai farf Arthur i’w chwblhau, a dug Arthur y digwyddiad hwn i gof ym Mrut Sieffre, gw. BD 170. Mydryddwyd yr hanes gan y bardd Gruffudd Llwyd yn ei gywydd i farf Owain ap Maredudd o’r Neuadd-wen, gw. GGLl 16.1–26.
- 67–8 **Dy ganmol ... / Mae Sieb-seid** Tybed a oes yma gyfeiriad at ddyletswyddau *Thomas Johnys of Kermerdenschir, gentilman huissher* yn y llys brenhinol, gw. W.R.B. Robinson, ‘Henry VIII’s household in the fifteen-twenties: the Welsh connection’, *The Bulletin of the Institute of Historical Research*, lxviii (1995), 173–90 (td. 190)?
- 77 **di-hun** Diau mai’r a. ‘yn effro, bywiog, egniol’ sydd yma yn hytrach na’r ymadrodd atblygol *dy hun*.
- 78 **gwawl** Gallai fod yn e.c. ‘goleuni, llewyrch, disgleirdeb, ysblander’,

gw. GPC 1605 d.g. *gwawl*<sup>1</sup>, ond mwy ystyrllon fyddai 'wal, mur, clawdd', gw. d.g. *gwawl*<sup>2</sup> (a sylwer ar ddarlleniadau llsgrau. A-DHJ).

**Alun** Cyfeirid yn achlysurol yn y farddoniaeth at y cymeriad chwedlonol Alun Dyfed, a gellid tybio ei fod yn un o arwyr traddodiadol Dyfed, gw. WCD 12; GGI<sup>2</sup> IV.15; GSCyf At. 45, ond ymddengys mai Afon Alun sydd dan sylw yma. Awgrymir bod awdurdod Tomas yn ymestyn hyd gyrrau'r gogledd, a cf. ll. 47. Ond enwir Alun ym Muchedd Dewi yn ogystal; dyma'r enw a roddwyd ar yr afon a lifai trwy Lyn Rhosyn, gw. BDe 45.

## 66

Perthynai Water Defras neu Devereux i deulu o Normaniaid a ymsefydlodd yn swydd Henffordd yn fuan wedi'r Goncwest. Dilynodd Water ei dad, John, yn Arglwydd Fferes yn 1501 (yr oedd oddeutu 12 neu 13 oed ar y pryd) ac fe'i dyrchafwyd yn Is-iarll Henffordd yn 1550, anrhydedd na ddaethai i'w ran pan gyfarchodd Lewys Morgannwg ef, gw. ByCy 156-7; DNB xiv, 443; CP v, 321-9; R.A. Griffiths: RhT 88-9. Water Defras a benodwyd yn brif ustus siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi yn dilyn marwolaeth Syr Rhys ap Tomas yn 1525, a'r flwyddyn ddilynol fe'i dewiswyd yn siambrlen, er mawr siom i Rys ap Gruffudd, wŷyr Syr Rhys, gwrthrych cerdd 64. Urddwyd Water yn farchog o Urdd y Gardys ym mis Gorffennaf 1523, gw. KE i, 21, a dengys llau. 33-6 fod rhaid dyddio'r awdl ar ôl y flwyddyn honno, ond cyn iddo dderbyn y swyddi y buasai Syr Rhys ap Tomas yn eu dal oblegid ni chrybwyllir y rheini yn yr awdl. Diogelwyd yr awdl yn Llst 7 y bernir ei llunio rhwng 1505 a 1530, gw. MWM 63.

Tybiodd Iaco ap Dewi yn Card 2.623 mai awdl er *Clod Wallter Iarll Esecs Arglw fferis o Chiarlley Marchog or Gartr* oedd hon, sef wŷyr Water Defras ap John Defras, ond fel y dangoswyd yn Lewys Morgannwg: Gw 959, taid y gŵr hwnnw a gyfarchodd Lewys Morgannwg.

Collwyd rhannau helaeth o'r testun yn y ffynhonnell gynharaf, sef Llst 7, gan fod ymylau'r dalennau wedi treulio. Y mae'n anodd darllen rhai adrannau o'r hyn sy'n weddill am i'r copïwr ddileu rhai llinellau ac ychwanegu eraill. Nodwyd yr hyn a gollwyd yn yr Amrywiadau os oedd lle i gredu y gallai darlleniad y llawysgrif fod yn wahanol i ddarlleniad y testun golygedig.

*Y mesurau*

11-36 Cyfres o naw englyn unodl union.

37-100 Cyfres o wyth tawddgyrch cadwynog.

Hynodrwydd yr awdl hon yw'r brifodl *-er* a gynhelir o'r dechrau i'r diwedd ac sy'n gyfrwng pwysleisio enw'r gwrthrych, Water Defras. Ni cheir

cyrch-gymeriad rhwng yr englynion, ond cysylltwyd dwy ran yr awdl trwy ailadrodd *ffêr / Fferes*.

- 1 **Teitus** Yr ymherodr a'r arweinydd milwrol Rhufeinig, Titus Flavius, gw. OCD<sup>3</sup> 1532–3. O dan ei arweiniad ef yr ymosododd y Rhufeinwyr ar Gaersalem a'i thrawsfeddiannu yn y flwyddyn 70 O.C.
- 2 **Mortmer** Daliai'r tylwyth hwn diroedd helaeth yng Nghanolbarth Cymru ac yn ardal y Gororau, gw. Tabl 12 yn John Davies, *Hanes Cymru* (London, 1990), 107.
- 9 **Breichfras** Gallai fod yn a., ac am enghreifftiau gw. GPC 316, ond fe'i cyfrifir yma yn elfen yn yr e.p. Caradog Freichfras, gw. 53.42n.
- 17 **Ffrancod** Bu Water yn ymladd yn erbyn gwŷr Ffrainc yn 1512 a'r flwyddyn ddilynol, a thrachefn yn 1523.
- 18 **laner** 'Aderyn o deulu'r hebog a geir yng ngwledydd Môr y Canoldir', gw. GPC 2052 (codwyd yr enghraifft gynharaf o waith Gruffudd Hiraethog). Y mae'n amlwg i Lywelyn Siôn gamddeall y cyfeiriad yn llwyr fel y tystia'r pedwar copi yn ei law.
- 19 **La Her** La Hire neu Étienne de Vignoles (c. 1390–1443), y bu iddo ran amlwg yn y brwydro yn erbyn y Saeson yn Normandi yn ystod cyfnod olaf y Rhyfel Canmlynedd. 'Sa fidélité et sa vaillance lui valent d'être très tôt l'un des personnages des jeux de cartes', gw. Jean Favier, *Dictionnaire de la France Médiévale* (Poitiers, 1993), 965. Dichon mai'r cyfeiriadau ato yng nghanu Guto'r Glyn i'r Cymry a fu'n brwydro yn Ffrainc a barodd fod ei enw'n hysbys i'r beirdd, gw. GGI<sup>2</sup> cerddi III–IV.
- 20 **Trowch yn ben trychan baner** Dynodai baner a'i phen i waered farwolaeth ei deiliad, a cf. disgrifiad Iolo Goch o ganlyniadau marwolaeth Syr Rhys ap Gruffudd o Lansadwrn *A'i bebyll didywyll du, / Nêr, a'i faner i fyny*, gw. GIG VII.51–2.
- 21 **bwriater** Y mae'r gynghanedd yn mynnu'r ynganiad llafar, a cf. y gyfres o ferfau yn llau. 41–4.
- 26 **Celyddon** Ymddengys i Fyrddin golli ei bwyll wedi brwydr Arfderydd ac ymneilltuodd i goedwig Celyddon a leolid rywle ar wastadeddau gorllewinol yr Alban, gw. TYP<sup>2</sup> 469–70; B. Clarke, 'Calidon and the Caledonian Forest', B xxiii (1968–70), 191–201.
- 27 Anghyffredin yw'r defnydd o'r gair gwan, y cys. *er*, yn safle'r brifodl. Am enghraifft arall, gw. 4.21n.
- 29 **Dyfnwal ... Moel Mud** Un o frenhinoedd cynnar Prydain. Wedi iddo gael yr awenau i'w ddwylo, *guneuthur coron eur a mein mavrweirthavc ydav. A gossot kyureitheu arnei o'r rei y mae y*



*Saesson etwa yn aruer*, gw. BD 32; WCD 214–15.

- 32 **cildant** ‘Un o’r tannau manaf ac uchaf yng nghil neu ran uchaf y delyn’, gw. GPC 479. Ei ystyr drosiadol yma yw ‘moliant’ ond gthg. 56.57–8n.
- 37–44 Ychwanegodd Iolo Morganwg ar ochr y ddalen yn LIGC 13105B, *Y mae cryn orchest ar y pennill hwn yma sef heblaw r odlau eraill yn cyfochri y mae prifodlau yr hanner cyntaf yn cyfochri au gilydd felly rhai r hanner diweddaf. E.W.*
- 40 **tuodd** Llst 7 yn sicr sy’n cynnig y darlleniad gorau, sef *tuedd*, ac efallai y dylid ei gadw er nad yw’r odl yn un reolaidd. Ymgais i sicrhau odl sy’n cyfrif am y ffurfiau *tuodd* a *tyoedd* a welir yn y llsgrau. eraill, sef ffurfiau ll. afreolaidd *tu* a *tŷ*.
- 47 **bateiliawdr** Yr e. *batel* neu *batail* ‘brwydr’ a’r terfyniad *-(i)awdr*. Ni chofnodwyd y gair yn GPC 264.
- 49 **mynnaist manau** Disgwylid i wrthrych ffurf 2 un.grff.myn. y f. dreiglo, gw. Treigladau 204, ond cf. 83.59 *O rhoist dadl, er a ‘studien’*.
- 50 **mwy rhannau** Am enghreifftiau o dreiglo ac o gadw cysefin yr e.ll. yn dilyn ffurf gmhr. yr a., gw. 1.18n.
- 54 **rhiau** Un o ffurfiau ll. *rhi* ‘tywysog, rheolwr, pennaeth’, ond awgrymir yn GPC 3065 mai yn anfynych y defnyddid y ffurf arbennig hon.
- 60 Barnwyd mai bwriad y copiŵyr yn ail ran y ll. oedd cyfleu’r geiriau *pond da’t h ddonier*, ac felly bu’n rhaid diwygio’r rhan gyntaf er mwyn sicrhau cyfatebiaeth gynganeddol.  
Twyll gynghanedd *t*.
- 65 **Gelau** Yr afon sy’n llifo trwy Abergele. ‘Perthyn i’r dosbarth hynod hwnnw o afonydd a nentydd a alwyd ar enwau offer o bob rhyw fath’, gw. EANC 100. Cafwyd achlysur i enwi afon arall yn y Gogledd-ddwyrain yn y cywydd blaenorol, gw. 65.78n.
- 66 **rholer** Rhestrir sawl amrywiad ar y gair *rheolwr* yn GPC 3058 ond nid yw’r ffurf hon yn eu plith.
- 68 **sylwr** Fe’i rhestrir yn amrywiad ar *seler* yn GPC 3219, ond perthyn yr enghraifft gynharaf i ddechrau’r 18g. Sylwer bod y gynghanedd yn mynnu’r ffurf *seler* yn 69.31.
- 69 **Merfyn** Gw. 4.38n.
- 76 Methwyd â gwneud pen na chynffon o’r hyn sydd yn y llsgrau., ac nid ymddengys fod y copiŵyr eu hunain yn gwbl sicr ynghylch y darlleniad.
- 79–80 **Colcas ... / ... croen aur** Cyfeiriad arall at gampau Siason yn

cyrchu'r cnu aur, gw. 1.47n.

- 85 **Geraint** Arwr y chwedl 'Geraint', gw. TYP<sup>2</sup> 355–60; WCD 275–6. Yn rhyfedd iawn, prin yw'r cyfeiriadau ato yng nghanu'r beirdd tra bod y cyfeiriadau at yr arwyr a roes eu henwau i'r ddwy ramant arall, 'Peredur' ac 'Iarlles y Ffynnon', yn dra lluosog. Enwir Geraint mab Elidir ymhlith y brenhinoedd cynnar a fu'n teyrnasu ar Brydain ym Mrut Sieffre, gw. BD 43; WCD 275.
- 87 **Bwlen** Gwyddys i Water gymryd rhan yng nghyrch milwrol 1544, ac efallai fod yma awgrym mai ar ôl y flwyddyn honno y canwyd yr awdl, ond nid annichon mai cyfeiriadau mwy penagored yw'r rhain at Fwlen, Cwlen a Chalais (ll. 85) ac at Aensio, Maen a Brytaen [= Llydaw] yn ll. 21.
- 88 **iaith Alis** Cenedl y Saeson. Ni ddigwydd un cyfeiriad at yr enw hwn yng nghanu Beirdd y Tywysogion, gw. Ann Parry Owen, 'Mynegai i enwau priod ym marddoniaeth Beirdd y Tywysogion', LlCy xx (1997), 25–45, ac nis rhestrir yn G, ond gwelir sawl cyfeiriad at *blant Alis* ac at *blant Rhonwen* yng nghanu brudiol Dafydd Llwyd o Fathafarn, gw. Mynegai GDLI; GPC 2818.
- 91 **iachaist** Diau mai ffurf ar y f. *iachu* yn hytrach na *iacháu* yw hon, gw. GPC 1995.
- galanasau** 'Gelyniaeth yn codi rhwng dau dylwyth pan leddir aelod o'r naill gan aelod o'r llall', ac, mewn cyd-destun cyfreithiol, 'iawndal am lofruddiad', gw. GPC 1373.
- 99 **ffrwythlondid ... ffyddlondid** Geiriau wedi eu bathu gan y bardd er mwyn sicrhau odl yw'r rhain, fe ddichon, a'r cwpled hwn sy'n cynnwys yr unig enghraifft o'r naill air a'r llall yn GPC 1321, 1332.

## 67

Cywydd moliant i Risiart Defras, mab Water Defras, Arglwydd Fferes, gwrthrych yr awdl foliant uchod, cerdd 66. Canwyd y cywydd cyn urddo Rhisiart yn farchog ar achlysur coroni Edward VI yn frenin ar 20 Chwefror 1547, gw. KE i, 150–1. Bu farw Rhisiart cyn diwedd y flwyddyn honno ac ni chafodd gyfle i wireddu'r dymuniad a fynegodd Lewys yn llau. agoriadol y cywydd am gael ei weld yn dilyn ei dad yn Arglwydd Fferes. Bu Rhisiart yn dirprwyo ar ran ei dad yn nifer o'r swyddi cyhoeddus a ddaliai hwnnw ond perthyn y cofnod cyntaf am y gweithgarwch hwnnw i'r flwyddyn 1537, gw. R.A. Griffiths: PW i, 165–6. Nid yw hi'n syndod, felly, i'r bardd ei gyfarch er bod ei dad—fel y prawf dechrau a diwedd y cywydd—yn dal yn fyw. Bu farw Water, Arglwydd Fferes, yn 1558.

2 **henllew ... llawnllwyth** Am y calediad *n + ll* yn y ddau air

cyfansawdd, gw. 10.5n.

- 3 **arglwydd a'i ddart** Water Defras, tad gwrthrych y cywydd. Dilynwyd darlleniad Llŷt 7, ond ystyrlon hefyd fyddai darlleniad y llŷgrau. diweddarach, *arglwydd o art*. Urddwyd Water yn farchog o Urdd y Gardys yn 1523, gw. nodyn brig cerdd 66.
- 11 **aur ... i'r glin** Gw. 2.3n.
- 13 **pen bràs** Gw. 24.12n.
- 16 **Gweblai** Yng Ngweblai yn swydd Henffordd y trigai hynafiaid y tylwyth.
- 18 **ieirll Henffordd** Perthynai Rhisiart i deulu o dras Normanaidd a ymsefydlodd yn swydd Henffordd yn fuan ar ôl y Goncwest. Dyrchafwyd ei dad yn Is-iarll Henffordd yn 1550 ond canwyd y cywydd cyn y flwyddyn honno.
- 22 **marcwes** Cymerir mai gwall am *marcwes* yw *marcus* y llŷgrau. Ni fyddai gan y bardd achos i gyfeirio yma at yr efenglydd, Marc. Yr oedd gwraig gyntaf Water, Arglwydd Fferes, a mam Rhisiart, yn ferch i Farcwes Dorset, gw. DNB xiv, 443.
- 25 **mwy goel** Ar y treigladd, gw. 1.18n, ond gthg. *mwy gwrolaeth* yn ail fraich y cwpled.
- 29 **trig** Cynigiwyd iddo yn betrus yr ystyron 'arhosiad, preswylad, preswylfa, trigfan' yn GPC 3593. Yr ystyr 'lleoliad' a weddai orau yn y cyd-destun hwn.
- 33 Cyfatebiaeth caled a meddal t = st. Gw. ymhellach 53.53n.
- 40 **naw gorau** Gw. 1.47n.
- 43 Dilynwyd darlleniad Llŷt 7. Disgwylid treigladd i'r gwrthrych yn dilyn un o ffurfiau l un.grff.myn. y f., gw. Treigladdau 202, ond ni threiglir yn rheolaidd ar bob achlysur, gw. 66.49n.
- 47–8 **Arthur ... / ... hen gawr fu 'Mrytaen** Cyfeiriad at frwydr Arthur a'r cawr a ddygodd ymaith trwy drais Elen, nith Hywel ab Emyr Llydaw. Wedi iddo ei ladd, gorchmynnodd Arthur i Fedwyr dorri ei ben ymaith, gw. BD 168–71.
- 47 **o i wrthynt** Gw. 41.44n a cf. 88.16 *O i wrth Dduw anrheithoedd oll*.
- 51 Cyfatebiaeth -st d- = s.d.
- 52 **ail Constans** Ar y cyfuniad, gw. 13.26n.
- 61 **Amig** Y mae'r testun Cymraeg 'Kedymdeithyas Amlyn ac Amic' a ddiogelwyd yn y Llyfr Coch yn adrodd chwedl y bu iddi gylchrediad helaeth yng ngwledydd Cred yn ystod yr Oesoedd Canol, gw. Patricia Williams, *Kedymdeithyas Amlyn ac Amic* (Caerdydd, 1982). Chwedl am gyfeillgarwch a ffyddlondeb oedd hon, a

naturiol, felly, bod y beirdd fel arfer yn dewis enwi'r ddau gymeriad gyda'i gilydd, gw., e.e., GLGC 72.61–2; GLM XCI.4. Amig yn unig a enwir yn y gerdd hon.

- 64 **Amias** Y ffurf Gymraeg ar y dref Amiens yng ngogledd Ffrainc. Erbyn yr 16g. datblygasai yn ganolfan frethyn lewyrchus. Digwydd ll. debyg (ond un a lygrwyd o bosibl fel nad yw ei harwyddocâd bellach yn eglur) yn un o gywyddau Iorwerth Fynglwyd, gw. GIF 10.18n.
- 65 Prawf y gynghanedd lusg yn y ll. a'r brifodl mai gair cadarnleddf yw *awyr*, gw. 38.23n.
- 66 *n wreiddgoll*.
- 69 **dadannudd** 'Adfeddiant neu adferiad meddiant o dreftadaeth', gw. GPC 868.

## 68

Awdl foliant i Siôn Wgon (III) o Gas-wis yw hon. Yr oedd yn fab i Syr Siôn Wgon (II) ap Syr Siôn Wgon (I) ap Syr Harri ap Syr Siôn ap Wiliam ap Siôn ap Mathau, gw. WG1 86; WG2 165–6. Priododd Siôn Wgon (I) â Mawd, merch Wiliam Clement, Arglwydd Genau'r-glyn, ac Angharad, merch Gruffudd ap Nicolas ap Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. WG1 330; WG2 322. Daliodd Siôn (III) nifer o swyddi cyhoeddus yn sir Benfro ac yng Ngheredigion, a bu hefyd yn un o wasanaethyddion siambr y brenin, gw. ByCy 1024; Francis Jones, *Historic Pembrokeshire Homes and their Families* (Dinas, Newport, 2001), 336–8; R.A. Griffiths: PW i, 542. Fe'i gelwir yn *sieryf* ... *Penfro* yn llau. 13–14 ac efallai i Lewys lunio'r awdl yn ystod tymor cyntaf ei siryfaeth, sef 1543. Bu'n siryf Penfro drachefn yn 1550 a 1554 ond erbyn hynny yr oedd wedi ei urddo yn farchog. Ni ddaethai'r anrhydedd hwnnw i'w ran pan ganwyd yr awdl hon a'r cywydd sy'n dilyn. Fe'i hurddwyd rhwng 8 Ionawr 1545 ac 8 Chwefror 1546, gw. KWLC 524. Priododd ei wŷr â merch Syr Edward Carn, gwrthrych cerdd 15.

Yn yr arolwg o ganu'r beirdd yn sir Benfro, gw. NBSB xiii–xxv, dangosir mai beirdd Morgannwg a ganodd y rhan fwyaf o'r cerddi sydd ar glawr i'r teulu hwn. Canodd Iorwerth Fynglwyd i erchi gosawg gan Siôn Wgon II dros Domas Gamais er mai yn ystod oes y genhedlaeth nesaf y cafwyd y cyswllt agosaf rhwng y ddau deulu; priododd Rhisiart ap Siôn Wgon III ag Elisabeth, merch Tomas Gamais (bu peth cymysgu yn y nodiadau yn GIF 112 rhwng Siôn Wgon II a'i fab). Canodd Rhisiart Fynglwyd i Siôn Wgon III—ar ôl ei urddo a barnu wrth y teitl yn Rhisiart Fynglwyd, &c.: Gw cerdd XXXII ond cyn hynny a barnu wrth y cynnwys.

*Y mesurau*

- 1–30 Tri englyn unodl union a thri phennill chwe ll. sy'n proestio am yn ail.
- 31–72 11 pennill ar fesur gwawdodyn ar yr odl *-is* (am mai Gwis oedd enw cartref y noddwr). Ceir sawl e.p. yn safle'r odl, a sawl gair a fenthyciwyd o'r S.

- 1 **Caswallon gwleddau** Gw. 27.59n.
- 3 **pum harcholl** Gw. 103.79n. Trafodir tarddiad yr anadliad caled yn dilyn rhai rhifolion yn Treigladau 137. Am enghreifftiau eraill o'r ymadrodd *pum harcholl*, gw. isod 104.57; GGLl 18.50. Nid yw'r ll. yn gwbl foddhaol gan fod *archoll* yn cael ei ailadrodd.
- 5 **Gwis** Bu cyndeidiau Siôn Wgon yn byw yng Nghas-wis yng nghantref Daugleddau er degawdau cynnar y 14g., gw. Francis Jones, *Historic Pembrokeshire Homes and their Families* (Dinas, Newport, 2001), *l.c.*
- Iarll Gwent** Wiliam Herbert, Iarll Penfro. Priododd Syr Harri Wgon â Marged, merch Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas, a Gwladus Gam, gw. 8.20n; WG1 97, 425; WWR<sup>2</sup> 136.
- 6 **Hen Syr Rhys** Priododd Tomas ap Gruffudd, brawd Angharad (gw. y nodyn brig), ag un o ddisgynyddion Syr Rhys Hen ap Gruffudd o Lansadwrn, gw. 65.3n.
- 9 **ail gŵr** Ar y cyfuniad, gw. 13.26n.
- 10 **bràs** 'Delw (efydd)', a benthyciad o'r S. *brass* er nas rhestrir yn GPC 308–9. Gw. 24.12n a'r cyfeiriadau at *ystaen a chopr* yn 55.55–6n. Cf. hefyd GHS 17.54n *Tri maen print tryma'n y pres*.
- 12 **Pryderi** Adroddir ei hanes ym mhob un o geinciau'r Mabinogi, gw. TYP<sup>2</sup> 496–7; WCD 545–6, ond â Dyfed y cysylltir ef.
- 13 **pwynt** Efallai mai'r ystyr 'pen blaenllym neu finiog' (ac yn drosiadol 'milwr, rhyfelwr'), gw. GPC 2950–1, sy'n gweddu orau yma. Dewisid siryf drwy bricio un enw o blith y tri a roddid gerbron. 'Sefyllfa (argyfngus)' yw'r ystyr orau yn 64.47.
- 18 **gwaywdwn** Disgwylid *gwayw onn*, ond cafwyd yr odl broest *-on* yn ll. 16, ac yn y tri phennill sy'n proestio yn yr awdl, nid ailadroddwyd yr odl. Gellir dehongli'r ail elfen yn yr ymadrodd *gwayw wn* sy'n digwydd yn yr unig lsg. mewn dwy ffordd: i. ffurf 3 un.pres.myn. *gwybod* 'gwayw y gwn amdani'; neu ii. yr e.c. *gwn* 'ergyd gwn sydd megis ergyd gwayw'. Ond tebycach mai gwall yw *gwayw wn* am *gwaywdwn* 'â gwaywffon doredig, hy, eofn', gw. GPC 1606.
- 19 **gair Alun** Yr arwr Alun Dyfed, gw. 65.78n. Gellid ystyried dau

bosibilrwydd arall, sef i. *ger Alun* ‘hyd at Afon Alun’; a ii. *Caer Alun*. Yn ei restr *Henwae trefydd Prydaen* yn Pen 215, dyry John Jones, Gellilyfdy, yr enw hwn ar Hwlffordd, gw. RWM i, 1037.

- 20 **iusus** Gwelir enw Siôn Wgon ymhlith ustusiaid Penfro yn ystod y blynyddoedd 1543–54, gw. JPWM 204.

**Iestyn** Priododd Dafydd Gam â Gwenllïan, merch Gwilym ap Hywel Grach ... Drymbenog, a phriododd Drymbenog yn ei dro â Gwenllïan, merch Iestyn, gw. WG1 242.

- 24 **Rhys ap Tewdwr** Disgynyddion Bleddyn ap Maenyrch a’i wraig, Elin, merch Tewdwr Mawr, oedd yr Wgoniaid, gw. WG1 85.

- 26 **gleindyd** Cadwyd orgraff y llsgr. er mwyn sicrhau bod yma chwe odl broest megis yn y ddau bennill arall. Gw. 31.62n.  
*n wreiddgoll.*

- 31 **Idris** Y cawr a roes ei enw i Gadair Idris, gw. WCD 381. Gyda’i hanes ef yr egyr traethawd Siôn Dafydd Rhys ar y cewri yn Pen 118, gw. Hugh Owen, ‘Peniarth MS. 118, fos. 829–837’, *Cy xxvii* (1917), 115–52. Mynegir syniad tebyg gan Ieuan ap Tudur Penllyn, gw. GTP 40.47–8 *Eryri fawr ar wŷr fydd / Wrth fryniau, arth Feirionnydd.*

- 33–4 Collwyd diwedd ll. 33, a chyflenwyd y llythrennau coll, ond o ganlyniad ceir bai trwm ac ysgafn yn yr odl *gynt / ýnt*.

- 36 **sis** Benthyciad o’r S. *sice, size*, gw. OED<sup>2</sup> xv, 409. ‘Y rhif chwech ar ddis’, gw. GPC 3214, ac yn ffigurol, felly, ‘rhagoriaeth, gwychder’. Rhoddir iddo yr ystyr ‘gwarchae’ yn NBSB, gw. cerdd 3 (a deallir *sis* hefyd yn ll. 34), sef benthyciad o’r S. *siege*, gw. EEW 126.

- 43 **Sain Gweinis** Nid yw hwn yn enw cyfarwydd. Awgrymir yn NBSB 315 mai ffurf ar yr e. *Gwynws* ydyw, gw. LBS iii, 247. Enwir ef a’i frawd mewn ffynhonnell sy’n perthyn i’r 16g., a dywedir eu bod yn feibion i Frychan, ond ni ddigwydd yr enwau yn y rhestrau a ddiogelwyd o blant y sant hwnnw. Y mae Gwnnws yn enw ar ddau blwyf yng Ngheredigion hefyd, gw. WATU 84.

- 44 **malis** Ffurf ar *malais* ‘drygioni; cenfigen’, gw. GPC 2327 a cf. 66.87. Fe’i gwneir yn e.p. yn Lewys Morgannwg: Gw ac yn NBSB ond nid esbonnir ei arwyddocâd.

- 45 Enghraifft arall o odl gudd yn un o awdlau’r bardd, a cf. isod ll. 73.

- 49 **Gasgwin** Y gynghanedd sain yn mynnu’r ffurf hon. Rhestrir *Gwasgwyn* a *Gwasgwin* yn GPC 1597, ond awgrymir bod dylanwad y gair *gwin* ar *Gwasgwin*, a digwydd yn fynych mewn cyd-destunau sy’n ymwneud â chyfeddach.

- 54 **bwmparis** Nodir y ffurfiau cyfochrog *pwmpa* a *bwmpa* yn GPC

2941 a cheir y ddau yng nghanu Lewys er mai'r ail sy'n digwydd amlaf, gw. yr Eirfa, ond ni nodir y ffurf *bwmparis* yn y cofnod ar *pwmparis*, sef 'pren sy'n dwyn math o ellyg tebyg i afalau' yn *ib*.

- 55 **rhos ffris** 'Darn garw helaeth o frethyn', gw. GPC d.g. *rhos*<sup>2</sup> a *ffris*.
- 56 **ysglis** Benthyciad o'r S. *slice*, gw. EEW 149 d.g. *ysglisen*; hefyd GPC 3244. Rhoddir iddo'r ystyron '*a fragment, a shiver, a splinter*' yn OED<sup>2</sup> xv, 693–4, ac fe'i defnyddir yma yn gyfystyr â 'draenen, ysglodyn, peth diwerth'.
- 57 **diamwnt Arca, main twrcis—Deibr wyd** Y mae un o gywyddau Tudur Aled o gymorth wrth esbonio'r gyfeiriadaeth yn y ll. hon. Dywed y bardd hwnnw am Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, TA LXI.31–2, *Main twrcas sy'm Mwnt Arca, / Mae ynod wyrth y main da*. Yr e.Cym. sy'n cyfateb i'r S. *turquoise* yw *maen twrcas*, ond ni chynhwysir ef yn y drafodaeth ar rinweddau'r amryfal feini gwerthfawr yn David Greene, 'A Welsh Lapidary', *Celtica*, ii (1954), 96–116. *Y deiamwnt sydd yn dyvod allan or India vawr ac o Arafia*, meddir, ond cysylltir un arall o'r meini gwrthfawr *bestwns* â'r *wlad a elwir Arkadi*. Tybed ai dyma Arca'r bardd? Cymerir mai afon yn yr Eidal sy'n tarddu yn yr Alpeninnau ac yn llifo trwy Rufain yw Teibr er bod y Lapidari yn cysylltu llawer o'r meini gwerthfawr ag afonydd yn y dwyrain.
- 59 **bris** Un enghraifft gynnar a ddyfynnir yn GPC 326, ond gwedda'r ystyr 'rhuthr, ymosodiad' yn y cyd-destun.
- 61 **grwmseirch** Ffurf ar *gwrwmseirch*, *gwrwmseirch*, *gwrymseirch* 'arfwisg neu harnais o liw dulas', gw. GPC 1711.
- fis** Tybed ai ffurf ar y S. *vice*? Y mae'n bosibl na fuasai'r ystyr 'offeryn a ddefnyddir gan saer i glampio darn o bren' yn gyfredol yng nghyfnod Lewys; perthyn yr enghraifft S. gynharaf i ddechrau'r 15g., gw. GPC 1267; OED<sup>2</sup> xix, 598, ond defnyddid y gair yn y 15g. i olygu '*a device of the nature of a screw or winch for bending a crossbow or catapult; a clasp or fastening for a hood*'. I ddechrau'r 17g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf o'r S. *vis* '*strength, force, energy, vigour*', gw. OED<sup>2</sup> xix, 681.
- 64 **adwy wlad** Nid yw'n gwbl eglur ai un gair (*adwywlad*) ynteu ddau (*a dwywlad*) sydd yn yr unig lsg.
- 66 **Sain Denis** Esgob cyntaf Paris a nawddsant Ffrainc, gw. NCE iv, 765–6. Awgrymwyd yn y nodyn brig mai yn ystod 1543, pan oedd Siôn yn siryf sir Benfro, y canwyd yr awdl, ond gallai'r cyfeiriad at frwydro ar dir Sain Denis awgrymu mai i'r flwyddyn ddilynol y perthyn y gerdd. Nid enwir Siôn ymhlith y milwyr a aeth i Ffrainc o Gymru yn 1544, gw. LPFD xix/i, cofnod 273, ond gwyddys ei fod

yn Ffrainc yn ystod cyrch 1513, gw. LPFD i/ii, cofnod 2480 (tybed ai ei dad yw'r Sir John Oghan a enwir ymhlith y capteiniaid a wasanaethodd o dan Syr Rhys ap Tomas yn y cyrch, gw. LPFD i/ii, cofnod 2481?) ac yr oedd yn Ffrainc drachefn pan gyfarfu Harri VIII â Francis I o Ffrainc gerllaw Calais ar Faes y Lliain Aur ym mis Mehefin 1520, gw. LPFD iii/i, cofnod 704 (td. 244).

- 69 **caerog** Disgrifiad o'r marchog yn ei arfwisg, a honno 'wedi ei (g)weu o edau gyfrodedd yn rhesi cyfochrog yn groes o gornel i gornel', gw. GPC 384.
- 70 **cawn pen** Ni ddisgwylid i wrthrych 1 ll.pres.myn. y f. gadw'r gysefin, ac nid dyna arfer y bardd, gthg. 41.27 *Cawn wledd merch Arglwydd heddiw*, 73.50 *Cawn Gymraeg, can Gymru wyd*, 78.1 *Cenais gerdd lle cawn was gwych*.
- cyn pen ddeufis** Enghraifft arall o dreiglo'r ail elfen mewn ymadrodd genidol, a cf. GMBr 3.56 *yn eitha' Fôn*.
- 71 **ysbeinys** O'r S. *spines*, gw. EEW 149 a cf. GIBH 12.21–2 *Drwy'i iad y gyrrwyd bob dri / Ysbeinys nes Ei boeni*.
- 73 Enghraifft arall o odl gudd, a dyfelir mai *inni* a ddylai fod yn safle'r brifodl, ond nid yw'r gynghanedd sain yn rheolaidd gan nad oes cyfatebiaeth gytseiniol o dan yr acen.

## 69

Cywydd moliant i Siôn Wgon, gwrthrych cerdd 68. Fe'i diogelwyd mewn pedair llawysgrif ddiweddar, ac y mae lle i gredu bod sawl ymadrodd yn llwgr. Ni chrybwyllir y ffaith fod Siôn yn siryf yn y cywydd, a gallai hyn awgrymu mai'r cywydd yn hytrach na'r awdl a luniwyd yn gyntaf.

- 8 **nôts** Diweddar yw'r S. *notch*, gw. OED<sup>2</sup> x, 541–2, ond hysbys oedd *nôt*, ll. *nôts* o'r S. *note*, 'nodyn (ysgrifenedig neu wedi ei argraffu)', yn yr 16g., gw. GPC 2598.
- 10 **Milfwrdd** Y gynghanedd yn mynnu'r ffurf hon a cf. 70.64 *Gafaelfawr, gwayw o Filfwrdd*, ond gthg. 71.34 [ ] *Myllfwrdd oedd*. Y ddwy ffurf Gymraeg a restrir yn B.G. Charles, *The Place-Names of Pembrokeshire* (Aberystwyth, 1992), 617, yw *Milffwrdd* a *Milffwrt*.
- Diwygiwyd y ll. er mwyn osgoi *l* berfeddgoll yn safle'r brifodl. Digwydd y gair cyfansawdd *hawlfainc* ar achlysuron eraill yng nghanu'r bardd, gw. yr Eirfa.
- 13 **tri Wiliam** Nid yw'r ll. fel y saif yn y llsgrau. yn cynnwys cynghanedd, ond gellir ei chywiro, a chynnig darlleniad ystyrion, trwy ddiwygio *syr* > *tri*. Enwyd dau Wiliam yn nodyn brig cerdd



- 68, sef Wiliam Clement (ond y mae'n bosibl ei fod ef yn cael ei enwi drachefn yn ll. 17) a Wiliam Wgon ap Siôn. Ond efallai mai Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas, ei fab, Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a'i fab yntau, Wiliam, Iarll Huntingdon, sydd dan sylw. Am gyfeiriad arall at y tri hyn, gw. 43.17n. Yr oedd Marged, merch Syr Wiliam Tomas, a gwraig Harri Wgon, yn chwaer i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. 68.5n a llau. 26, 46 isod.
- 14 **y torchog Cam** Gwladus Gam oedd priod Syr Wiliam Tomas. Ar y traddodiad fod Dafydd Gam wedi ei urddo yn farchog, gw. 43.21n.
- 15 **[y] frân** Yr arwydd a gysylltid â disgynyddion Elidir Ddu a ystyriai eu bod yn disgyn o gyff Owain ab Urien (llau. 44–5), gw. 65.21–2n.
- 18 **marchocle** Diwygiwyd darlleniad y llsgrau. er mwyn cryfhau'r gynghanedd (er bod sawl enghraifft o'r goddefiad caled a meddal yn y canu), ond sylwer bod y gynghanedd yn galw am *marchogwaed* yn ll. 4 uchod. Gw. ymhellach 26.22n.
- 21 Bai crych a llyfn.
- 23–4 **Pum Siôn ... / ... Pumed wyd** Gw. nodyn brig cerdd 68. Rhagflaenwyd gwrthrych y cywydd gan bedwar Siôn Wgon, ac ef, felly, oedd y pumed i dderbyn yr enw hwnnw.
- 25 **Preutur Siôn** Arno, gw. 11.39n. Mewn un llsgr. yn unig y digwydd y darlleniad hwn.
- 27–8 Darlleniad y pedair llsgr. yw *ar y frennisg* sy'n odli â *gwisg*. Y mae'n bur sicr mai *Gwis* a ddylai fod yn safle'r odl yn ail fraich y cwpled (sef enw cartref y teulu, a'r enw sy'n digwydd yn safle'r odl yn ail ran yr awdl, gw. cerdd 68 uchod) ond anodd gwybod pa air i'w roi yn yr un safle ym mraich gyntaf y cwpled er mwyn cwblhau'r ll. a chwblhau'r gynghanedd lusg.
- 29 **tëyrn well** Ar y treigladd, gw. 1.43n, a cf. *gŵr rywiogach* (ll. 38), *garddwrn wellwell* (ll. 39), *cyneddfau well* (ll. 40), *gŵr well* (ll. 43).
- 33 **ordeiniaeth** 'Darpariaeth'. Dyma'r enghraifft gynharaf a restrir yn GPC 2652.
- 36 **cwncwerwyr** Arferir y gair hwn wrth gyfeirio at y Nawyr Teilwng ac wrth gyfeirio at y Normaniaid, gw. 1.40n. Coffeir enw'r ymsefydlydd cyntaf, Wiz neu Wizo, yn yr enw Cas-wis, gw. Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities of the Counties and Country Families of Wales* (London, 1872), 867. Priododd merch un o'i ddisgynyddion â Gwgon, mab Bleddyn ap Maenyrch, ac felly y daeth y cartref yn eiddo i'r Wgoniaid, gw. WG1 85.
- Cyfarebiaeth g = nc ar ôl diwygio *cewrion* y llsgrau. Y mae'n bosibl y gallai *cewrion* fod yn ffurf l. *cawr*; rhestrir sawl ffurf l. yn GPC 443 ond nid yw hwn yn eu plith.

- 41 **nid heilio gwin** Cadw cysefin gwrthrych berf 3 un.pres.dib. oedd yr arfer gynt, gw. Treigladau 213.
- 46 **y iarll hen** Wiliam Herbert, Iarll Penfro, ond odid.  
Wyth sillaf yn y ll. ar ôl ei diwygio. Gellid *Tŷ a'r llwyth at y iarll hen*.
- 50 **Uthr** Uthr Pendragon, tad Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 520–2; WCD 636–7 a gw. y cyfeiriad *fal draig* ym mraich gyntaf y cwpled.  
Y mae'n dra sicr fod y ll. yn llwgr gan fod rhaid cyfrif *Uthr* yn air deusill a methwyd ag esbonio'r gair *horai* sy'n digwydd mewn tair llsg. Yn Lewys Morgannwg: Gw 854 awgrymir newid *wyth horai* > *wyth o'r rhain*, ond nid yw'r cynnig yn argyhoeddi. Awgrymir y diwygiad *wyth horai* > *ni'th ddorai*.
- 54 **Doed dy gof am dy waed gynt** Lladdwyd Syr Siôn ap Syr Harri Wgon ym Manbri yn 1469, gw. WWR<sup>2</sup> 108. Dygir y frwydr honno a'i chanlyniadau alaethus i gof mewn cerddi eraill, gw. 23.3n.  
Nid yw'r ddwy *d* sy'n digwydd nesaf at ei gilydd yn caledu.
- 57 **gwarae'r gainc** Cf. y priod-ddull *canu'r gainc* yn 28.59n.
- 60 *n* berfeddgoll.
- 61 *n* wreiddgoll.
- 62 *r* wreiddgoll.
- 63 **Cledd** Fe'i deellir yn e.p. gan fod enghreifftiau eraill yn y canu ond gellid yr e.c. Gellid dilyn darlenniad y llsgrau., a rhoddai hyn l. ac ynddi gyfatebiaeth caled a meddal c = g.
- 72 Yn llsg. D yn unig y digwydd y ll. hon—ceir bwlch yn y tair arall—ac nid annichon mai'r copiwr a'i lluniodd.
- 73 **gwarrau llog** Cymerir mai ystyr yr ymadrodd hwn yw 'gwŷr a gyflogir (i gario llwythi)'. Ni restrir ffurf l. *gwâr* 'yr hyn a brynir ac a werthir, nwyddau' yn GPC 1576.

Ceir ach Siôn ap Tomas (neu Siôn Philipps) yn WG1 188; WG2 376; L. Dwnn: HV i, 114–15 fel a ganlyn: Siôn ap Syr Tomas (Philipps) ap Ffylib ap Maredudd ... Syr Aron ... Cydifor Fawr. Gw. hefyd ByCy 707–9 lle yr amlinellir gyrfa gyhoeddus Siôn a'r eiddo ei dad. Bu farw Syr Tomas cyn 8 Rhagfyr 1520 a daeth nifer o'i swyddi i ran ei fab. Cynigir arolwg o'r canu i'r teulu yn NBSB xxviii–xxxv. Canodd Lewys Glyn Cothi i daid Siôn ac i'w dad, gw. GLGC cerddi 69, 91. Diogelwyd y ddwy gerdd hynny, fel y cywydd hwn o waith Lewys Morgannwg, yn Llst 7. Yn anffodus collwyd rhannau o'r testun hwn gan fod corneli'r dalennau wedi treulio. Marwnad Lewys i Siôn ap Tomas yw'r gerdd sy'n dilyn. Hyd y gwyddys, Lewys

Morgannwg yw'r unig fardd a ganodd iddo, ond diogelwyd chwe ll. gyntaf awdl foliant i'r un gŵr yn Card 5.44, 344, ac nid annichon mai Lewys a'u canodd:

Syr bwn o bictwn syr bwrt sy ar glod  
 Syr galath sir harfwrt  
 Sierre gych tryssor ai gwrt  
 Sain sior enylfor mylfwrt  
 morien mor hafren ymro hoewfras hwnt  
 meistr Sion mab syr Thomas.

- 1 Llwyddodd J. Gwenogvryn Evans i ddarllen y ll. yn ei chrynswth. Y darlleniad a gynigir yn RWM ii, 437 yw *pw y o rav na i hwnn parent*. Nid yw'r ll. yn gwbl foddhaol, ac nid yw'r diwygiad *Pwy orau nai hwn parent?* (a deall *parent* yn fenthyciad o'r S. *parent* 'rhiant') yn ei gwella.
- 7 **ysgwïer llys** Bu Siôn, fel ei dad o'i flaen, yng ngwasanaeth Harri VIII. Bu'n gwasanaethu wrth fwrdd y brenin a bu hefyd yn stiward ystafell wely'r brenin.
- 11 **hyd Môr** Disgwyliid i'r e. sy'n dilyn yr ardd. *hyd* dreiglo, a dyna arfer y bardd mewn ymadroddion megis *hyd Gaer-loyw* (45.62), *hyd Gonwy* (45.64), *hyd Gwlen* (64.67). Awgrymir yn Treigladau 393–4 y gallai'r gysefin ddilyn *hyd* pan fynnid cyfleu'r ystyr 'ar hyd' yn hytrach na 'hyd at', a cf. 102.3–4 *Mae dynion yma dynnir, / Mair, o'th wyrth hyd môr a thir*.
- Môr Rudd** Ffurf ar *Môr Udd* 'Môr y Gogledd', gw. GPC 2486.
- 14 **naw** Gw. 1.47n.
- Pictwn** Disgrifir Castell Pictwn yn Francis Jones, *Historic Pembrokeshire Homes and their Families* (Dinas, Newport, 2001), 216–17.
- 15–16 **Wgon ... / ... Harri Dwnn** Priododd Syr Tomas â Sioned, merch Harri ab Owain Dwnn. Yr oedd gwraig Harri Dwnn yn ferch i Syr Henri Wgon a Marged, merch Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas, gw. WG1 425; WG2 165, 376.
- 16 Y darlleniad a gynigir yn NBSB cerdd 13 yw *Ti o ryw, daid Harri Dwnn*.
- 19 **dau Wiliam** Syr Wiliam Tomas a'i fab Wiliam Herbert, Iarll Penfro.
- 20 **Dafydd Gam** Gwladus, ei ferch, oedd gwraig Syr Wiliam Tomas.
- 21 *n wreiddgoll*. Gw. hefyd lau. 51–2 ar ôl eu diwygio.
- 26 **Gronwy Goch** Gwraig Ffylib ap Maredudd oedd Sioned, merch

Siancyn Llwyd Hen a Mawd, merch Rhys ap Tomas ap Dafydd ... Gronwy Goch ... Elystan Glodrydd, gw. WG1 404.

- 27 **haels** Tywyll yw *hals* y llsgr. a chynigir mai'r ffurf *haels* 'pelenni neu rawn saethu', gw. GPC 1806, sy'n cynnig yr ystyr orau. Posibilrwydd arall fyddai deall yr a. *hael* + trf.ll. -s (o'r S.), er na nodir y ffurf honno yn GPC 1804–5. Ond cf. GST 99.27–8 *Tri llys gŵr tra lles gwirod*, / *Tri heils beirdd*, *trahwylus bod*.
- 37 **Elsbedd** Gwraig Siôn ap Tomas, a merch Syr Wiliam Gruffudd a Siân Stradling o'r Penrhyn. Hi oedd ei wraig gyntaf yn ôl WG2 376, ond gan ei bod yn weddw yn y cywydd sy'n dilyn ac yn galaru ar ôl ei gŵr, y mae'n dilyn mai hi oedd ei ail wraig fel y nodwyd yn Dillwyn Miles, *Sheriffs of the County of Pembroke 1541–1974* (Haverfordwest, [?1976]), 15. Nodir ymhellach i'r ddau briodi cyn 1530. Hi yw'r unig wraig a enwir yn L. Dwnn: HV i , 115. Am enghreifftiau eraill o ddefnyddio'r ffurf *Elsbedd*, gw. 11.23n.
- 44 **Siân ... Sioned** Siân Stradling a'i mam hithau, Sioned Mathau, gw. WG2 873. Enwir y ddwy ynghyd yn 85.32, 87.20.
- 51–2 **Hon ... / Hwn ...** Collwyd dechrau'r ddwy l., ond cf. y cyfochredd yn 77.39–40 lle y gelwir y noddwr a'i wraig yn *Llewes ... / Llew ...*
- 61 **ymwanwr** Disgrifiadau cyffredinol o filwriaeth Siôn a gynigir yn y gerdd hon a'r nesaf. Ni chrybwyllir ei ran yn y brwydro ym Mwlen yn 1544, gw. LPFD xix/i, cofnod 273.
- 62 Ni threiglir yr e.c. sy'n dilyn yr ardd. *mewn* fel arfer, a barnwyd, felly, fod *fewn wr* y llsgr. yn llwgr. Ceir *f*led-lafarog yn y ll. ar ôl ei diwygio.
- 63–4 **Glewlyd ... / Gafaelfawr** Yn chwedlau 'Culhwch ac Olwen', 'Iarlles y Ffynnon' a 'Geraint', fe'i henwir yn borthor llys Arthur, gw. WCD 285–6; TYP<sup>2</sup> 361–3.
- 65–6 Ychwanegwyd cwpled ar ochr y ddalen a ddylai ragflaenu'r cwpled hwn. Y mae bron yn amhosibl ei ddarllen bellach, ond cynigir y darlleniad *Ni bu milwyr bei maelynt*, / *Ŵyr yrth-gwŷr hen Arthur g[ynt]* yn NBSB cerdd 13. Tybed a oes yma gyfeiriad at Einion Yrth ac at ei ŵyr, Maelgwn Gwynedd, gw. WCD 232, 438–42?
- 67 **siery'** Ffurf ar *siryf*, *sirif*, gw. GPC 3293. Daliai Siôn swydd siryf sir Benfro yn 1542, ac y mae'n bosibl i Lewys ei gyfarch yn ystod tymor ei siryfiaeth.
- 80 **Corinéus** Un o'r cydymdeithion a gyrhaeddodd Brydain gyda Brutus ac a ddewisodd ymsefydlu yng Nghernyw am fod yno amllder o gewri y câi ymladd yn eu herbyn, gw. BD 19–20; WCD 147.

Bu farw Siôn ap Tomas neu Siôn Phillips o Bictwn, gwrthrych moliant y gerdd flaenorol, yn 1551, a nodir wrth droed y farwnad yn BL Add 14880 *Lewis morgannwc ai kant 1551*. Mydryddir enwau rhai o hynafiaid amlycaf Siôn yn y cywydd moliant ac yn y farwnad drachefn, gw. nodiadau cerdd 70 uchod.

- 3 Cyfatebiaeth caled a meddal  $p = b$  ar ôl diwygio'r ll.
- 4 **Gruffudd ap Cynan** Brenin Gwynedd (m. 1137), a thad Owain Gwynedd, gw. CLC<sup>2</sup> 289.
- 14 **Chwech Edwart** Bu Edward ar yr orsedd rhwng 1547 a 1553, a dyma ateg i'r nodyn yn llsg. A ynghylch dyddiad marw Siôn ap Tomas, gw. y nodyn brig.
- 20 **Syr Aron** Yr oedd yn un o Farchogion y Bedd, a dywedir iddo ddilyn Rhisiart I ar groesgad i Gaersalem. Gw. ymhellach 16.16n.
- 21 **Syr Wiliam** Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went, ond odid, gw. 70.15–16.
- 22 Y mae'r ll. fel y'i ceir yn llsg. A sillaf yn fyr ac felly dilynwyd darlleniad llsg. B. Ar y traddodiad ynghylch urddo Dafydd Gam yn farchog, gw. 43.21n.
- 25 **Maelgwn** Cyfeiriad o bosibl at Faelgwn Gwynedd, gw. 4.15n.
- 30 **Gwyddno** Y mae darlleniad y ddwy lsg. yn llwgr, ond prin fod lle i amau nad cyfeiriad at Wyddno Garanir sydd yma, yn enwedig gan fod y cymeriad yn cael ei gysylltu ag *anoddun* 'dyfnfor, eigion, llifeiriant', gw. GPC 149 (ond dyfynnir y ll. yn *ib.* 2592 d.g. *noddyn*). Fe'i henwir gan y bardd mewn cerdd farwnad arall, gw. 14.13n.
- 33 Collwyd dechrau'r ll. yn llsg. A, ond copiwyd y cipair *rodri* ar waelod y ddalen flaenorol. Nid oedd y testun yn gyfan pan gopiwyd y cywydd i BL Add 31090, a rhaid bod yn ochelgar o'r herwydd wrth ymateb i ddarlleniad llsg. B. Efallai fod y bardd yn enwi Du'r Moroedd, un o'r meirch y mawrygir eu camp yn y triawd *Tri Meirch a dugant y Tri Marchlwyth*, gw. TYP<sup>2</sup> 109–16; WCD 206; hefyd Rachel Bromwich, 'The Triads of the Horses', *The Horse in Celtic Culture*, ed. Sioned Davies and Nerys Ann Jones (Cardiff, 1997), 102–20. Cludo saith dyn a hanner dros y môr oedd camp Du'r Moroedd, a gwelir bod cyd-destun morol i lau. 29–34.
- 37 **ymaelynt** Cyfuniad o *ymael*, bôn y f. *ymaelyd* 'ymryson, ymaflyd' + *hynt*.
- 42 **iustus** Enwir *J. Phillipps* ymhlith yr ustusiaid a wasanaethai ym Mhenfro yn y flwyddyn 1543, gw. JPWM 204.

- 43 Twyll gynghanedd *d* a thrachefn yn ail fraich y cwpled.
- 49 **caen** Ffurf 1 ll.amhff.myn. *cael*, gw. 33.35–6 lle yr ailadroddir y cwpled.
- 55 **Elsbedd** Gw. 70.37, 43. Am enghreifftiau eraill o ddefnyddio'r ffurf *Elsbedd* yn safle'r odl, gw. 11.23n.
- 58 **dau farchog Wiliam** Tad a thaid Elisabeth, sef Syr Wiliam Gruffudd a Syr Wiliam Gruffudd Hen, gw. 87.11–12n.
- 62 Cf GLD 10.10 *Rhyw Stradling; rhoes draw udlef* (mewn cywydd marwnad i Siân Stradling).
- 64 **gwisg hyd y llawr** Hynodrwydd mantell Tegau Eurfron oedd yr *neb y byddai lân y'w gwr, y byddai hyd y llawr, ac i'r neb a dorrai i ffriodas ni ddoe hyd i harffed*, gw. TYP<sup>2</sup> 241; uchod 9.26n.  
*r berfeddgoll.*
- 67 **Wiliam** Mab ac etifedd Siôn. Gwasanaethodd yn siryf Penfro yn 1554, a bu farw yn 1573. Brawd iddo oedd Rhisiart y bu copi llsg. o 'Lloegr drigiant ...' Gruffudd Hiraethog, sef Peniarth 155, yn ei feddiant, gw. RWM i, 937–40; D.J. Bowen, *Gruffudd Hiraethog a'i Oes* (Caerdydd, 1958), 32–7. Ar gyfer Rhisiart Mostyn y lluniodd Gruffudd Hiraethog y casgliad hwnnw, gw. 84.18n., ond yr oedd Rhisiart Mostyn a Rhisiart Phillips yn ddau gefnder gan fod y ddwy fam, sef merched Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, yn chwiorydd.  
**cawr Elen** Custennin Fendigaid, gw. 3.34n, 27.44n; TYP<sup>2</sup> 314–15.

Cywydd moliant—nid marwnad fel yr awgrymir yn Lewys Morgannwg: Gw—i Huw Lewys, mab Dafydd ap Lewys ap Steffan (= *Ystyfn*, ll. 78) ap Dafydd ... Meurig ... Rhys ap Tewdwr, gw. WG1 789–90; WG2 1517–18; L. Dwnn: HV i, 253; ii, 24–5. Gwelir ei lofnod ar y drwydded a gafodd Gruffudd Hiraethog yn 1545–6 pan raddiodd hwnnw yn ddisgybl pencerdd-aidd, ac awgrymodd Ffransis Payne, mewn ysgrif a ymddangosodd yn *Y Llenor* yn ôl yn 1935, mai yn ei neithior ef—pan briododd â'i ail wraig, Sybil, merch Rhosier ap Watgyn Fychan, a nith Siâms Fychan o Hergest, enw arall a welir ar y drwydded—yr enillodd y radd honno, gw. 'John Lewis, Llynwene', *Cwysau: Casgliad o Erthyglau ac Ysgrifau* (Llandysul, 1980), 43–58; *id.*, *Crwydro Sir Faesyfed, i* (Llandybïe, 1966), 64–7, lle y dyfynnir yn helaeth o gywydd Lewys Morgannwg; hefyd GGH xxiv–xxvii. Mawrygir dysg a diwylliant Huw Lewys yn y cywydd hwn o eiddo'r bardd. Fe'i cyffelybir i Homer, i Ipo, i Hywel Dda ac i Saith Doethion Rhufain.

- 4 **Ipo** Ffurf Gym. ar yr e. Hippocrates a aned tua 460 C.C. Ystyrir mai ef oedd meddyg enwocaf yr hen fyd, gw. OCD<sup>3</sup> 710–11; OED<sup>2</sup> vii, 249. Fe'i crybwyllir mewn cywydd o waith Lewys Glyn Cothi i erchi iechyd i un o'i noddwyr, gw. GLGC 182.31, a'i enwi hefyd mewn cyd-destun tra gwahanol mewn dau gywydd serch o waith Ieuan Dyfí, gw. HCLl LVIII.33–4, LXIII 28.
- 5 **gorwyr Rys** Gallai fod yn gyfystyr â 'disgynnydd', gw. yr ach uchod, ond yr oedd Huw hefyd yn orwyr yn llythrennol i Rys ar ochr ei fam. Yr oedd hi yn ferch i Ddafydd ap Rhys ap Meurig, a disgynnai'r teulu o Elystan Glodrydd (ll. 18), gw. WG2 694. Mewn cywydd o waith Lewys Glyn Cothi i Ddafydd, ceir darlun byw o'r bardd a'i noddwr yn darllen ac yn trafod y llawysgrifau a oedd ar yr aelwyd, gw. GLGC cerdd 157.
- 7 **nos a da** Ni nodir yr amrywiad hwn ar *nos da, nos daed* yn GPC 2597.
- 13 *n wreiddgoll.*
- 17–18 **y llew ... / Gowls ... Elystan** Arfbais Elystan Glodrydd oedd 'Gules, a lion rampant regardant Or', gw. DWH ii, 145–6.
- 22 **Tre'rdelyn** Y Plas Mawr yn nhreflan Tre'rdelyn yng nghwmwd Llythyfnwg oedd cartref Huw Lewys, gw. WATU 88.
- 28 **Hywel Dda** Mab Cadell ap Rhodri Mawr oedd Hywel, gw. CLC<sup>2</sup> 355; WCD 373–4, ac felly yr oedd yn un o hynafiaid Rhys ap Tewdwr. Gwyddai'r beirdd am y traddodiad iddo roi trefn ar gyfreithiau'r Cymry yn Hendy-gwyn, cf. GLGC 56.33–6; GLM LXXXVI.49–54. Nid annichon fod dwy lsg. sy'n cynnwys fersiwn Cyfnerth o Gyfraith Hywel yn gysylltiedig â'r ardal hon. Lsg. arall a fu yn yr ardal, ac ym meddiant John Lewis, mab gwrthrych y cywydd, oedd Llyfr Taliesin, gw. Marged Haycock, 'Llyfr Taliesin', Cylchg LIGC xxv (1987–8), 357–86 (tt. 367–70); *id.*, *Am y Ffin â'r Gorffennol* (Llanrwst, 1993), 16–17.
- 29 **brenhinwlad Cadell** Mwy ystyrion fyddai *brenhinwaed Cadell*, ond nid yw'r gynganedd lusk yn caniatáu'r diwygiad.
- 35 **saith siens** Y saith gelfyddyd freiniol neu'r saith gangen y seiliwyd addysg yr Oesoedd Canol arnynt, gw. GPC 3170; ODCC<sup>3</sup> 1489. Maentumia Simwnt Fychan yn ei 'Pum Llyfr Cerddwriaeth' mai *rrann o ddoethineb annyanawl yw prydyddiaeth, ac ethrylith, kans o vn o'r ssaith gelfyddyd yr henyw*, gw. GP 133.
- 38 **mil o iustus** Disgwyliid i e.ll. ddilyn y rhif. *mil* a'r ardd. *o*, a thebyg felly mai'r e.c. *mil* 'anifail; yn ffig. am ddyn' sydd yma, gw. GPC 2455. Ond tybed a wyddai Lewys am y tywysog Milo, tad Rolant, a gŵr a fu'n ymladd yn erbyn y Sarasiniaid gyda Siarlymaen, gw.

YCM<sup>2</sup> 8–10? Os ato ef y cyfeirir, dylid atalnodi fel a ganlyn *Melyster, Milo, iustus*. Y mae'n annhebygol y gwyddai'r bardd am Milo o St. Amand (*fl. c.* 810–72), y mynach, y bardd a'r athro, gw. DMA 8, 395.

**iusus** Enwir *Hugh David Lewis* ymhlith yr ustusiaid a wasanaethai ym Maesyfed yn 1542, gw. JPWM 312.

- 42 **iarll** Y mae'n bosibl fod hwn (ac o bosibl ll. 74 *cyda'th uwch*) yn gyfeiriad at Harri, Iarll Caerwrangon, er nad enwir Huw Lewis ymhlith y dirprwywyr tra lluosog a weithredai ar ei ran. Meddai Harri ar gryn awdurdod yn y Canolbarth; bu'n stiward a chwnstabl Brycheiniog, daliai yr un swyddi yn Nhrefaldwyn, Ceri a Chedewain, ac yr oedd hefyd yn stiward Elfael, gw. Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales Part 2: The Welsh offices held by Henry Earl of Worcester (1526–1549)', B xxi (1964–6), 57, 59. Awgrymir bod dylanwad Huw yn ymestyn i gantrefi Buellt ac Elfael (llau. 44, 51).
- 45 **gwyntien'** Dyma'r enghraifft gynharaf a restrir yn GPC 1779–80. Rhoddir iddo'r ystyron 'chwythu'n wyllt; ffroeni, ffroenochi'.
- 49 **Dinas Andras** Llanandras yng nghwmwd Llythyfnwg.
- 59 *n wreiddgoll.*

## 73

Cyfarchodd y bardd Lewys Gwyn, Trefesgob, ar dri achlysur, gw. cerddi 73–5. Diogelwyd y tri darn, fel yn achos cynifer o gerddi eraill a ganwyd iddo, yn Pen 114, gw. RWM i, 689–95.

Yr oedd Lewys Gwyn yn fab i Siancyn ap Llywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd ab Adam ap Rhys ab Einion Sais, gw. WG1 107, 109; WG2 226–7. Enwir pob un o'r hynafiaid hyn, ac eithrio Rhys, yn llinellau agoriadol y cywydd, ond enwir Rhys yn y ddwy gerdd sy'n dilyn. Ar y canu iddo, gw. NBSD 254–62, a hefyd GMBr cerdd 13.

Wrth olrhain ach Lewys Gwyn yn adran agoriadol y cywydd (llau. 1–16) cyffelybir yr hynafiaid i adar. Er bod cynnal un syniad fel hwn dros nifer o gwpledi yn nodwedd gyffredin yng nghanu penceirddiaid mawr y bymthegfed ganrif fel Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi cymharol brin yw addurn fel hwn yng nghanu Lewys Morgannwg.

- 3 **oediog** Diau mai cyfleu bodlonrwydd y bardd yng nghartref y noddwr a'i amharodrwydd i adael a wna'r a. hwn, a gthg. yr ystyron yn 30.17 a 43.79. Rhoddir iddo'r ystyron 'oedrannus; yn oedi; hamddenol, hwyrfrydig' yn GPC 2622.



**breuddwywalch** ‘Gŵr hynod sy’n destun breuddwyd [= brud].’

- 8 **sierffawcwn** Nis nodir yn GPC 3231, ond nodir y ffurfiau cyf-ochrog *serffawcyn*, *sierffawcyn* ‘hebog mawr’.
- 10 **aelaw** Cynigir i’r a. yr ystyron ‘cyfoethog; hael; hoff’ yn GPC 36 ac anodd dewis rhyngddynt. Efallai mai’r olaf sy’n gweddu orau yn y cyd-destun.
- 14 Naill ai cynghanedd groes o gyswllt ac ynddi dwyll gynghanedd g neu gynghanedd draws a thwyll gynghanedd *d*.
- 15 **Nedd** Ail wraig Llywelyn ap Gwilym, a mam Siancyn, oedd Sioned Ddu, merch Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd, ac un o ddisgynyddion Einion ap Collwyn, gw. WG2 607.
- 16 **Einion ... Gwynedd** Crybwyllwyd Einion Sais yn y cwpled blaenorol. Einion ap Collwyn oedd hwn, gw. y nodyn blaenorol. Ar ei gyswllt â Gwynedd, gw. 14.1n.
- 18–19 **Tri cheiliog ... / Tri phen gwayw** Disgrifir arfau Lewys Gwyn ar achlysuron eraill, gw. DWH ii, 141 a cf. GMBr 13.29–32 *Tarian wych at ran iachoedd*, / *Atebi wŷr, ti bioedd*. / *Tri cheiliog serchog dy sud*, / *Tri phen gwayw onnen gennyd*.
- 29–30 Diau mai dweud y mae’r bardd ‘Ni thâl un dyn dan haul [yn] haelach am win dros [= yn fwy na] d’aur iach o’th law.’  
*n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 55, 56.
- 34 Gellid diwygio *trwy* > *drwy* er mwyn cynganeddu ag *ordyr*, ond dewiswyd diwygiad mwy beiddgar *trwy* fabwysiadu’r gair *nortyr* sy’n digwydd yn fynych yn y canu, gw. yr Eirfa.
- 35–6 **Waetia ... / ...waetio** Cyfosodir y ddau air gwahanol o’r S. yn yr un cwpled ar achlysur arall, gw. 38.43–4n.
- 38 **cenais dwbl** Am enghraifft arall o’r gytsain *s* ar ddiwedd ffurf ferfol yn peri calediad i’r gwrthrych sy’n dilyn, gw. 6.5n.
- 40 *r* berfeddgoll neu gamosodiad c.l.r = r.c.l.
- 41–2 **Llai ladron ... / Llai dreth** Am enghreifftiau eraill o’r treigladd i e. yn dilyn *llai* yng nghanu’r bardd, gw. 1.18n.
- 44 Cf. 76.46 *Llonyddach bob llwyn uddynt*.
- 51 **caen** Ffurf l ll.amhff.myn. ‘caem’ sydd yma, cf. 33.35n.
- 52 **canhorthwy** Amrywiad ar *cynhorthwy*, gw. GPC 788.
- 55 Cyfatebiaeth -s d- = -st d-.
- 59–60 Cf. OBWV 78.11–12 *A dyfo o bendefig / A dyf o’i wraidd hyd ei frig*. Adleisir delweddaeth cywydd Dafydd Nanmor i Rys ap Rhydderch yn un o gywyddau Mathau Brwmffild drachefn, gw. GMBr 17.3–4n.

- 62 **mab rhywiogach** Y mae darlleniad y llsg. yn gyson â'r arfer o dreiglo'r a. sy'n dilyn eg. mewn cymal negyddol, gw. 1.43n, ond rhaid wrth ffurf gysefin yr a. er mwyn sicrhau cyfatebiaeth reolaidd (a'r caledu p = b.rh). Dewis arall fyddai diwygio *hap* > *hab*.
- 63 **rhygyw** Cymerir mai e. cyfansawdd *rhy* + *cyw* ar ddelw *rhygarw* (ll. 66) 'carw gwyh, gŵr o fonedd', gw. GPC 3136, sydd yma.
- 71 **ymunaw** Gellir bod yn bur sicr bod *ymhunaw* y llsg. yn llwgr. Gweddaï *ym-* + *uno* 'dymuno, chwennych', gw. GPC 3704.

## 74

Yn anffodus, diflannodd un ddalen yn yr unig lawysgrif a chollwyd canol yr awdl, tua 68 o linellau. Ar Lewys Gwyn, gw. cerdd 73 uchod.

*Y mesurau*

- 1–8      Dau englyn unodl union.
- 9–20     Pedwar pennill ar fesur y cyhydedd hir.
- 1 **Sedd** Gallai fod yn e.c., ond enwir, Seth mab Adda, gan y beirdd er mwyn cyfleu llinach hir ac anrhydeddus, a cf. GGH 106.28–30 ... *Morys Wyn sydd, / Braens gwin o dwysowglin Sedd / Ac o ben brig y bonedd*. Disgynnai Lewys Gwyn o gyff Maenyrch; yr oedd Sedd Gyfedd yn un o hynafiaid hwnnw, gw. WCD 582, ac efallai fod yma gyfeiriad ato ef.
- 3 Cyfatebiaeth -st d- = -s d.
- 5 **iusus** Os gelwid Lewys Gwyn yn Lewis John / Jones, gw. GMBR nodyn brig cerdd 13, diau mai gwrthrych yr awdl oedd y gŵr a restrir ymhlith ustusiaid Maesyfed (yn 1542 a 1543) a Threfaldwyn (yn 1543), gw. JPWM 312, 125.
- 8 Naill ai *n* wreiddgoll neu gyfatebiaeth *n* = *m*.
- 11 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 20.
- 12–14 Cymerir bod yma gyfeiriad at y pedwar defnydd y tybid darfod llunio'r bydysawd ohonynt, sef daear, dŵr, tân ac awyr, a cf. 20.61–2. Ond gellid atalnodi'n wahanol a chymryd mai'r ardd. *tan* sydd yn ll. 14: *A than wybr ffyddiaeth ddynd berffeiddiach*.
- ffyddiaeth** 'Ffydd, crefydd'. Y ll. hon yw'r enghraifft gynharaf a ddyfynnir yn GPC 1332.
- 17 **tri cheiliog** Gw. 73.18–19n.
- 20 Diwygiwyd y ll. er mwyn cryfhau'r gynghanedd.

*Kowydd i lawer o wyr morgannwg i erchi gwartheg i lewys gwynn* yw hwn yn ôl y pennawd yn yr unig lawysgrif. Rhifwyd pob un o'r rhoddwyr ar ochr y ddalen, a gwelir bod cynifer â 33 ohonynt. Peth anghyffredin yw gweld erchi rhodd gan nifer mor fawr. Canodd Lewys Glyn Cothi yn y bymthegfed ganrif i erchi gwely gan bedair gwraig, am fod y rhodd yn un ddrudfawr, ond odid, gw. GLGC cerdd 186, a diau mai ystyriaeth gyffelyb a barodd i Lewys Daron yn y ganrif nesaf erchi main melin gan dair gwraig, gw. GLD cerdd 17. Ymddengys fod erchi rhoddion gan nifer o unigolion yn dod yn fwy cyffredin erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg. Deisyfodd Gruffudd Hiraethog, er enghraifft, weny gan ddeuddeg o wŷr Llansannan, gw. GGH cerdd 98 a'r cyfeiriadau yn CGD 73, 98 at erchi gan ddeunaw gŵr ar un achlysur a chan bum gŵr ar hugain a chwe gŵr ar hugain ar achlysuron eraill.

Yn y cywydd hwn neilltuir cwpled ar gyfer pob rhoddwr ac eithrio'r olaf, y gŵr llên, Syr Siôn ap Siancyn a gaiff ddau gwpled. Awgrymodd Bleddyn Owen Huws fod 'tuedd i'r cywyddau a erchai gan nifer o wŷr i fod braidd yn gatalogaidd', gw. CGD 98. Diau fod hynny'n wir yn achos y cywydd hwn, ond ar yr un pryd y mae'r rhestru yn ddiddorol ar ddau gyfrif. Yn achos un cywydd i ofyn rhodd gan ddeuddeg o wŷr o waith Wiliam Llŷn, 'ymddengys fod eu cartrefi ar lwybr yr un daith glera', gw. *ib.*, ac ar y daith y mae'r pwyslais mewn cwndid o waith Tomas ab Ieuan ap Rhys i erchi hadyd er nad yw'r daith honno, efallai, yn un mor drefnus, gw. HG cerdd 21; Dafydd H. Evans, 'Thomas ab Ieuan a'i "ysgowlid o wraig"', YB xix (1993), 86–106. Ni ellir esbonio rhestr Lewys trwy edrych ar fap. Y mae'n amlwg iddo ef restru'r rhoddwyr yn unol â'u statws. Dechreuir trwy enwi'r ddau abad, Lleision abad Nedd a Lewys Tomas abad Margam, cyn troi at y noddwyr lleyg. Ar ôl enwi Water Herbert rhestrir y ddau farchog, Syr Tomas Gamais a Syr Rhys Mawnsel, a dilynir hwythau yn eu tro gan eraill o blith boneddigion Morgannwg. Nid yw'r drefn a ddilynodd y bardd yn wahanol iawn i'r drefn y rhestrir y comisiynwyr heddwch a ddewiswyd ym mis bach 1536 i wasanaethu ym Morgannwg, gw. LPFD x, cofnod 392.48. Enwir un ar ddeg—deuddeg o bosibl—o blith y deunaw comisiynwr yng nghywydd erchi Lewys Morgannwg. Y mae'n dilyn fod yr enwau sy'n digwydd ar frig rhestr y bardd yn rhai adnabyddus er nad hawdd lleoli'r pum aelod o dylwyth y Matheuaid a enwir. Anos o lawer yw lleoli'r gwrthrychau a enwir yn ail hanner y rhestr, a hynny yn rhannol am eu bod yn perthyn i deuluoedd na fu iddynt ran amlwg ym mywyd cyhoeddus y sir; dyma deuluoedd is eu statws na ddiogelwyd gwybodaeth amdanynt yn y llyfrau achau (ond sylwer hefyd mai prin yw'r manylion achyddol gan mai cwpled, fel y nodwyd, a neilltuir ar gyfer pob unigolyn).

Y mae'r rhestr yn ddiddorol hefyd am ei bod ar un ystyr yn gatalog o

noddwyr Lewys Morgannwg. Wrth iddo erchi gwartheg ar ran Lewys Gwyn, gwelir i'r bardd droi at dri ar ddeg o unigolion Morgannwg y gwyddys iddo eu cyfarch hwy neu aelod arall o'u tylwyth. Rhys ap Siôn o Lyn-nedd a Morys Sainsion yw'r ddau eithriad, gw. cerddi 18 a 21, ond yr oedd y ddau hyn wedi marw erbyn canol y tridegau (gw. isod). Yn anffodus, tasg anodd yw dyddio'r cerddi defodol yn fanwl, ac ni ellir gwybod faint yn union o'r cerddi i'r noddwyr hyn sy'n rhagflaenu'r cywydd gofyn. O'r hyn lleiaf, gellir bod yn sicr y buasai'r bardd wedi cael achlysur i ganu ar dair aelwyd yn y sir erbyn 1536 (gw. y drafodaeth isod ar ddyddiad y gerdd), yn Sain Dunwyd (y Stradlingiaid), yn Radur (y Matheuaid), ac yn y Coety (y Gamaisiaid), a thebyg ei fod eisoes wedi canu clodydd Lleision abad Nedd, Syr Rhys Mawnsel a Chrystor Twrbil. Er bod gwreiddiau teuluol Lewys Gwyn i'w holrhain i rannau mwyaf gogleddol cantref Senghennydd, nid oedd ganddo gyswllt teuluol amlwg â'r unigolion y troes atynt i erchi gwartheg. Nid enwir Siôn ap Rhys, etifedd Rhys ap Siôn, Aberpergwm, yr un gŵr y gallai Lewys Gwyn arddel cyswllt ag ef trwy briodas, gw. 73.15n. Nid annichon, felly, mai'r bardd yn hytrach na'r eirchiad oedd y ddolen gyswllt â'r rhoddwyr ac mai ei gynefindra ef â boneddigion ei sir enedigol a'i cymhellodd i droi atynt. O'r safbwynt hwnnw, braf fyddai gallu dyddio'r cerddi a gwybod i sicrwydd faint o'r rhoddwyr a fuasai eisoes yn noddi'r bardd-negegydd. Tybed a gollwyd cerddi moliant ganddo i Watgyn Lochwr, i Arnallt Bwtler ac i Ieuan Fychan gan mai marwnadau yn unig a ddiogelwyd iddynt? Tybed a oedd wedi canu ar achlysuron eraill i Water Herbert, Siors Herbert, Edward Lewis a Chrystor Fflemin gan na ellir bod yn sicr bod y cerddi iddynt hwy wedi eu llunio cyn 1536? A thybed a ganodd i'r ugain rhoddwr is eu statws nad erys ar glawr unrhyw ganu iddynt?

Er bod cynifer o unigolion yn cael eu henwi yn y cywydd, gellir bod yn weddol bendant wrth geisio dyddio achlysur ei lunio. Bu farw Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd, ar 8 Medi 1535, a rhaid derbyn mai ar ôl y dyddiad hwnnw y canwyd y cywydd gan fod y bardd yn cyfarch Tomas Stradling, ei fab a'i etifedd. At ddau abad y troes Lewys yn gyntaf peth. Llwyddodd Lleision, abad Nedd, i estyn rhywfaint ar einioes y sefydliad yr oedd yn bennaeth arno, ond bu'n rhaid iddo ef ildio ym mis Chwefror 1539. Ni bu Margam mor ffodus. Meddiannwyd yr abaty hwn yn 1536, ac y mae'r bur debyg, felly, i'r bardd lunio'r cywydd gofyn rhwng marw Syr Edward Stradling ym mis Medi 1535 a chau abaty Margam ym mis Mehefin 1536.

- 5 **dau Rys** Yn unol â'r arfer, olrheindir ach y noddwr o dad i dad yn rhan gyntaf y cywydd, gw. nodyn brig cerdd 73.
- 9 **Gwilym** Merch Morgan ap Gwilym oedd gwraig gyntaf Siancyn ap Llywelyn ond ymddengys mai ei ail wraig, Marged, merch Gruffudd ab Ieuan Ddu, oedd mam Lewys Gwyn.
- 17 **Gwilym** Anodd gwybod at bwy y cyfeirir yma gan fod dau Wilym

wedi eu henwi eisoes yn llau. 8–9. Y mae'n bosibl (er nad yw hynny'n arferol) fod y bardd yn ailadrodd y cyfeiriad.

- 19 **caniad** Diwygiwyd darlleniad y llsgr. Gellid *cennad*<sup>1</sup> 'negesydd; neges', ond digwydd y gair hwnnw yn y cwpled sy'n dilyn. Ystyrion fyddai *cennad*<sup>2</sup> 'caniatâd', gw. GPC 464, ond dewiswyd *caniad* 'cân, cerdd', gw. GPC 410.
- 22 **cennad** Gw. sylwadau Bleddyn Owen Huws yn CGD 55–9 ar y modd y gweithredai'r bardd ar ran ei noddwr wrth erchi rhodd.
- 25–6 **Lleision ... / ... Abad Nedd** Canodd Lewys awdl enghreifftiol i Leision Tomas, abad olaf Nedd, yr unig awdl o'i bath a luniodd hyd y gwyddys, a hynny, o bosibl, tua 1532–6, gw. cerdd 22.
- 27 **Abad ... Lewys** Ar y canu i abadau Margam, gw. CTC cerddi 82–90; NBMM 13–22. Cysylltir abadaeth Dafydd ap Tomas ap Hywel â'r blynyddoedd 1500–17 a gwyddys i Risiart ap Rhys, Iorwerth Fynglwyd, Siôn ap Hywel Gwyn a Wiliam Egwad ymweld â Margam yn ystod ei abadaeth. Lewys Tomas oedd yr abad yn ystod y blynyddoedd 1529–36. Un gerdd a ganwyd iddo ef: cwndid gan Domos ab Ieuan ap Rhys a ddywedodd am yr abad *ny bu bais wenn, am dan berchen / lanach dan gred, wedy bened*, HG 22.25–6. Er mai Margam oedd yr abaty cyfoethocaf yng Nghymru ac eithrio Tyndyrn yn ôl arolwg a wnaed yn 1535, yn unol â gorchymyn deddf seneddol 1536 y dylid cau pob mynachlog a'i hincwm yn llai na #200 y flwyddyn, meddiannwyd yr abaty ar 20 Mehefin 1536 ac ar 23 Awst y flwyddyn honno talwyd yr hyn a oedd yn ddyledus i'r abad a'i weision ac fe'u gyrrwyd o'r abaty, gw. Glanmor Williams, 'Diwedd a dechrau: Margam a'r Mawnseliad', YB xxv (1999), 41–60 a tt. 49–50 yn benodol.
- 29–30 **Water ... / ... Herbart** Canodd Lewys ei glodydd, gw. cerdd 23, cyn 1542 pan urddwyd ef yn farchog. Nid oedd wedi ei urddo pan ganwyd y cywydd gofyn ac er iddo dderbyn swyddi cyhoeddus ym Morgannwg, â Sain Silian yng Nghasnewydd y cysylltir ef yn fwyaf arbennig; fe'i gosodir yng nghwmni boneddigion sir Fynwy, e.e., pan sonnir am godi gŵyr i ymladd yn Ffrainc yn 1544, gw. LPFD xix/i, cofnod 273. Rhoddir y flaenoriaeth iddo yn y cywydd hwn a'i enwi cyn marchogion megis Syr Tomas Gamais a Syr Rhys Mawnsel am ei fod yng nghanol y tridegau yn *chieff jufe* Morgannwg, ac ystyr hynny yw ei fod yn ddirprwy-siryf Morgannwg o dan Harri, Iarll Caerwrangon, gw. W.R.B. Robinson, 'The lands of Henry, Earl of Worcester in the 1530s', B xxv (1972–4), 227 (troednodyn). Â Morgannwg y cysylltir canu Tomas ab Ieuan ap Rhys a gyfarchodd Water ar dri achlysur, gw. HG cerddi 4, 16, 17 (dwy folawd, un cyn ei urddo a'r llall wedi hynny, a marwnad).

Y mae'n bur sicr i'r sawl a rifodd y rhoddwyr yn y llsgr. gyfeiliorni pan roddodd ddau rif wrth y cwpled hwn; y mae'n amlwg ei fod yn barnu mai dau unigolyn gwahanol oedd *Water* a *Herbart*.

- 31–2 **Syr Tomas ... / Gamais** Canodd Lewys gywydd moliant iddo; mewn cywydd arall dymunodd adferiad i'w wraig, a lluniodd awdl i goffâu eu mab, gw. cerddi 8–10. Urddwyd Tomas Gamais yn farchog yn 1513 a bu farw yn 1543.
- 33–4 **Syr Rhys ... / ... Mawnsel** Yr oedd wedi ei urddo yn farchog erbyn 1526. Canodd Lewys iddo rhwng mis Mawrth 1535 a diwedd y flwyddyn / dechrau 1536, ac yntau ar y pryd yn brwydro yn Iwerddon, gw. cerdd 17.
- 35–6 **Siors ... / ... Herbart** Diogelwyd un cywydd moliant o waith Lewys Morgannwg iddo. Nid oedd wedi ei urddo yn farchog pan gyfarchodd Lewys ef, a rhaid dyddio cerdd 20, felly, i'r blynydd-oedd cyn 1543 er y gall fod y bardd wedi ei gyfarch cyn gynhared â'r dau degau. Cafodd swydd resyfwr Morgannwg ym mis Mehefin 1524 ac erbyn Mai 1527 yr oedd yn stiward arglwyddiaeth Gŵyr, gw. W.R.B. Robinson, 'Sir George Herbert of Swansea (d. 1570)', B xxvii (1978), 303–9.
- 37–8 **Tomas ... / ... Ystradling** Canodd y bardd i Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd, ar ddau achlysur, a lluniodd awdl foliant i'w fab a'i etifedd, Tomas, cyn darfod ei urddo yn farchog yn 1547, gw. cerddi 1–3.
- 39–40 **Siors ... / ... Mathau** Cyfarchodd Lewys dair cenhedlaeth o'r teulu hwn, gw. cerddi 4–6. Canodd farwnad i Syr Wiliam Mathau (m. 1528) a chywyddau moliant i'w fab, Siors, ac i fab hwnnw. Ymhen yrhawg, wedi urddo Siors yn farchog, byddai Morgan Elfael (*fl.* 1528–41, gw. CLC<sup>2</sup> 508) yn canu iddo i erchi men ar ran Lewys Gwyn, gw. Pen 114, 83.
- 39 Camosodiad m.s = s.m.
- 41–2 **Mil ... / Mathau** Ni roddwyd rhif wrth y cwpled hwn yn y llsgr., ac y mae'n amlwg na sylweddolwyd mai e.p. oedd *Mil*. Ymddengys fod hwn yn enw digon cyffredin o edrych ar achres y Matheuaid a'r canghennau a gysylltir â Chastell y Mynach a Saint-y-nyll, gw. WG2 875–9. Yr oedd Mil ap Wiliam ap Robert yn briod â Chatrin, merch Syr Siors Mathau (llau. 39–40), a Mil ap Morgan ap Siôn yn briod â Cecily, merch Syr Water Herbart (llau. 29–30). Bu Mil arall yn siryf Morgannwg yn 1547, gw. LSEW 257; mab Crystor ap Rimron ap Syr Dafydd Mathau oedd ef, gw. WG2 872, a diau mai ef yw'r gŵr a enwebwyd yn gomisiynwr heddwch yn 1536, gw. LPFD x, cofnod 392.48, ac yn aelod o'r llu a gymerodd ran yn y cyrch ar Ffrainc yn 1544, gw. LPFD xix/i, cofnod 273; J. Barry

Davies, 'The Mathew family of Llandaff, Radyr and Castell-y-Mynach', Glam Hist xi, 175–7. Cynigir mai ef yw'r un a gyferchir yn y cywydd gofyn. Ni chadwyd unrhyw ganu o waith Lewys iddo. Fe'i henwir ymhlith ustusiaid Morgannwg yn ystod y blynyddoedd 1541–3 ond ni welir ei enw ar y rhestr nesaf sy'n perthyn i'r flwyddyn 1548, gw. JPWM 285–6.

- 43–4 **Arnallt ... / ... Bwtler** O'r Dwnrhefn neu Fryn-y-frân. Marwnadodd Lewys ef, gw. cerdd 12, ond yr oedd yn dal ar dir y byw yn 1538.
- 45–6 **Edwart ... / Lewys** Canodd y bardd ei glodydd, gw. cerdd 19, a chanodd Rhisiart ap Rhys i'w dad, Lewys ap Rhisiart Gwyn (m. 1521/2), gw. GRB cerdd 33. Daliai swydd cwnstabl castell Caerffili o dan Iarll Caerwrangon rhwng 1530 a 1543. Cartrefai yn y Fan ym Medwas, ac ar sail enw'r cartref barnai golygydd Lewys Morgannwg: Gw mai llau. 59–60 a gyfeiriai ato (nid oes ganddo ddim i'w ddweud am wrthrych y cwpled hwn).
- 47 **Robart ... Mathau** Dyma wŵr arall o blith y Matheuaid na chadwyd unrhyw ganu o eiddo'r bardd iddo. Y mae'n bosibl mai ef yw'r *Rob. ap Will Mathewe* a enwebwyd yn aelod o gomisiwn heddwch 1536, gw. LPFD x, cofnod 392.48; ai Robert ap Wiliam ap Robert o gangen Castell y Mynach, gw. WG2 875–6?
- 49–50 **Crystor ... / Twrbil** Gw. cerdd 16. Nid oedd Crystor wedi cyrraedd oedran gŵr yn 1531 a phan fu farw ei dad rhoddwyd ei diroedd o dan ofal câr.
- 51–2 **Watgyn ... / Lochwr** Yr oedd ar dir y byw yn 1527 ond ymddengys ei fod wedi marw erbyn mis Ebrill 1536. Canodd Lewys farwnad iddo, gw. cerdd 13.
- 53–4 **Crystor ... / Fflemm** Diogelwyd cywydd moliant iddo o waith Lewys, gw. cerdd 11. Bu farw Crystor ym mis Gorffennaf 1541. Ei ail wraig oedd Elisabeth, chwaer Syr Rhys Mawnsel (llau. 33–4).
- 55 **Siôn ... Mathau** Gwnaed cwyn am ymddygiad Syr Rhys Mawnsel a Siôn Mathau yn y pedwardegau, gw. CMG v, dogfen mccccxcvii, a diau mai'r un Siôn Mathau a eisteddai ar y fainc yn 1543, gw. JPWM 285–6.
- 58 **Rhisiart Carn** Yr oedd gan Syr Edward Carn, gwrthrych cerdd 15, frawd o'r enw Rhisiart Carn, gw. WG2 1765. Yr oedd y Rhisiart hwn yn frawd yng nghyfraith i Syr Rhys Mawnsel gan iddo briodi ei chwaer, Ann Mawnsel, gw. WG2 1257.
- 59 Gellid ystyried diwygio > *Ym rhô'i i aur, ym rhô'i i arian*.
- 60 **Emwnt Fan** Ym Marcroes yng nghantref Ogwr y trigai'r Faniaid a gwyddys bod Edmwnd yn fyw yn 1545, gw. WG2 1740. Priododd

ei fab, Wiliam, â Chatrin, merch Siors Mathau. Prin yw'r canu a gysylltir â'r teulu hwn, gw. NBMM 272. Marwnadodd Dafydd Benwyn Wiliam Fan ab Edmwnd a marwnadodd Lewys Dwnn ei wraig, Catrin.

61 **Siamas wŷr Tomas** Anhysbys.

64 **Siamas Twrbil** Anhysbys.

65–6 **Morgan, ail Forgan ... / Mathau** Yr oedd gŵr o'r enw Morgan Mathau yn grwner Morgannwg yn y tridegau cynnar a bu nifer o gwynion ynghylch ei ymddygiad, gw. CMG v, dogfen mccccxxvii; GCH iii, 564. Awgrymir yn CMG *l.c.* (troednodyn) mai mab Robert Mathau, Castell y Mynach, oedd y swyddog twyllodrus, ac aelod felly o gangen Saint-y-nyll, ond ymddengys mai wŷr y Morgan hwnnw—Morgan arall—sydd dan sylw yn y cwpled hwn, gw. WG1 473; WG2 878–9. Mari, merch Dafydd ap Rhisiart Gwyn (llau. 69–70) oedd gwraig y Morgan hwn. Parthed statws cangen y Matheuaid a gysylltid â Saint-y-nyll, barnai J. Barry Davies, 'their status seems to have been little above that of minor gentry', gw. *op.cit.* 183. Mab gordderch Tomas Mathau o Radur oedd y Morgan Mathau y lluniodd Iorwerth Fynglwyd awdl i'w goffâu, gw. GIF cerdd 26.

67 **Morgan ... Gamais** Yr oedd gan Syr Tomas Gamais a enwyd yn llau. 31–2 fab o'r enw Morgan, ond tebycach mai cefnder y marchog oedd hwn, gw. WG2 748.

69–70 **Dafydd ... / ... Rhisiart Gwyn** Y mae'n bosibl ei fod yn nai i Edward Lewys, gw. llau. 45–6. Gwraig gyntaf Lewys o'r Fan oedd mam Rhisiart Gwyn ond ei ail wraig oedd mam Edward, gw. WG2 416.

71–2 **Iefan wŷr Ieuan ... / ... ddau Ddafydd** Yr oedd gan Ddafydd ap Siancyn ab Ieuan o Langewydd bump o feibion, a chanodd Lewys awdl farwnad i un ohonynt, sef Ieuan Fychan, gw. cerdd 14. Yr oedd mam Ieuan Fychan yn ferch i Ddafydd Fychan ap Dafydd. Y mae'n bosibl mai Ieuan Fwyaf, brawd Ieuan Fychan, a enwir yn y cwpled sy'n dilyn.

73–4 **Iefan ... o Ddafydd / Siancyn** Gw. y nodyn blaenorol.

75–6 **Siôn ... / Ap Hywel** Anhysbys.

77 **Wiliam** Anhysbys.

79–80 **Matho, 'nghâr ... / ... Rhys Fychan** Yr oedd Rhys Fychan ymhlith hynafiaid Lewys Morgannwg, gw. WG1 306, ond ni ddigwydd yr un Mathau yn yr achres. Ond efallai mai un o geraint Lewys Gwyn ei hun a gyferchir, a cf. 75.83n isod. Ysyaeth methais â chysylltu'r Mathau ap Rhys Fychan ap Rhys a enwir yn



*Welsh Genealogies* ac a berthynai i dylwyth Cydrych â'r bardd nac â'r eirchiad. Awgrymir yn NBMM mai Mathau ap Rhys Fychan o Gelli-gaer oedd hwn, gw. WG2 411–12. Cyfarchodd Dafydd Benwyn ei nai, Water Wiliam.

- 81–2 **Lawres ... / O Wiliam** Nis enwir yn *Welsh Genealogies*. Yn y ddogfen sy'n crybwyll twyll Morgan Mathau, crwner Morgannwg, enwir Laurence Williams ymhlith ei swyddogion a'i ddisgrifio yn is-recordydd ac yn glerc y llys, gw. 75.65–6n.
- 83 **Morgan ... Ieuan, fy nai** Gallai Morgan fod yn nai i'r bardd, ond nid annichon fod y bardd yn llefaru ar ran Lewys Gwyn. Ni welwyd yr un Morgan ymhlith tylwyth Lewys Morgannwg ond yr oedd gan Lewys Gwyn nai o'r enw Morgan. Priododd Maltt, chwaer yr eirchiad, â Thomas Fychan ap Dafydd o Lyn-nedd, gw. WG1 314, a phriododd eu merch hwy yn ei thro â Morgan ab Ieuan Hir ap Morgan ap Dafydd Gam o Benderyn, gw. WG2 217.
- 85–6 **Tomas ... / ... Ffyllib** Anhysbys.
- 87–8 **Llywelyn ... / ... mab Domas Fychan** Anhysbys.
- 91 **Syr Siôn ... ap Siancyn** Anhysbys.

## 76

Cywydd marwnad i Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, a fu farw 23 Mai 1539, nid y Rhisiart Herbert a fu farw yn 1510 fel yr honnir yn E. Stanton Roberts, *Llanstephan Ms. 6* (Cardiff, 1916), iv. Yr oedd hwnnw yn fab anghyfreithlon i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, ac ef oedd tad Siors Herbert, Abertawe, a Wiliam Herbert, Iarll Penfro o'r ail greadigaeth, gw. WG2 780–1; LPMG 283; uchod cerddi 7, 20, 26. Yr oedd gwrthrych y cywydd yn fab i Syr Rhisiart Herbert, Colbrwg, ap Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went ... Godwin, gw. WG1 425; WG2 785–6; ByCy 326. Casglwyd a golygwyd naw o'r cerddi a ganwyd iddo gan saith bardd yn CH cerddi 62–70, a'r gerdd hon, yr unig farwnad, yn eu plith. At y rhain gellir bellach ychwanegu cywydd moliant o waith Siôn Ceri, a chywydd gan yr un bardd i'w fab, Mastr Rhisiart Herbert, gw. GSC cerddi 21–2. Ceir amlinelliad manwl o yrfa Syr Rhisiart a'r swyddi a ddaeth i'w ran yn arglwyddiaethau Canolbarth Cymru yn bennaf gan W.R.B. Robinson, 'Sir Richard Herbert (d. 1539) of Montgomery', *Mont Coll lxxxvii* (1999), 91–110; *ib. lxxxviii* (2000), 1–24. Sylw Rowland Lee, pan glywodd am ei farw, oedd *I have as greate losse of him as thoughe I had lost oone of myne armes in the governaunce of these partys as in Powes, Kery, Kedewen and Cloones lande*.

Diogelwyd tri cherflun yn Eglwys San Nicolas yn Nhrefaldwyn ac awgrymwyd mai coffâu gwrthrych y cywydd hwn a wna un ohonynt er bod rhai o nodweddion y cerflun yn peri tybio ei lunio tua'r flwyddyn 1500, gw.

'On the two recumbent figures in Montgomery church', *Mont Coll vi* (1873), 207–14; Richard Haslam, *The Buildings of Wales: Powys* (Harmonsworth, 1979), 166; W.J. Hemp, 'Two effigies in Montgomery Church', *Arch Camb*, 1925, 75–86.

- 2 **y dreigiau oedd dan dŵr** Cyfeiriad arall at yr ail ormes yn y chwedl 'Cyfranc Lludd a Llefelys', gw. 10.60n. Ar waelod llyn y canfuwyd y dreigiau a barai'r *llef aruthr*, ond nid yw'r gynghanedd yn caniatáu diwygio *dan dŵr* > *dan ddŵr*. Y mae *dan dŵr* yn ystyrlon hefyd oherwydd esbonia Myrddin yn y chwedl: *a thi a wely deu uaen geu yn y waelavt, ac y myvn y deu uaen dw dreic yn kysgu*, gw. BD 103.
- 3 **nai'r frân** Yr oedd mam Syr Rhisiart Herbert yn chwaer i Syr Rhys ap Tomas ap Gruffudd ap Nicolas (ll. 24) ap Ffyllib, gw. WG1 330; WG2 643. Credai'r teulu mai Owain ab Urien oedd eu cyndad, gw. llau. 12 (ond gw. hefyd y nodyn ar y ll.), 23, 7.23n.
- 6 *n wreiddgoll.*
- 11 **llewod a brain** Tri llew oedd arwydd herodrol Syr Rhisiart Herbert, Colbrwg, gw. DWH ii, 225–8, ac arwydd disgynyddion Urien oedd y brain, gw. 65.21–2n.
- 12 **ewythr** Gallai gyfeirio at Syr Rhys ap Tomas neu at Wiliam Herbert, Iarll Penfro. Lladdwyd tad Syr Rhisiart, a'i ewythr, Wiliam Herbert, Iarll Penfro, ym mrwydr Banbri yn 1469.
- nai Owain** Yr oedd mam Syr Rhisiart Herbert yn nith i Owain ap Gruffudd, gw. 63.73n.
- 17 **bai** Ymddengys fod CH yn ei ddehongli fel pe bai yn a., a gelwir sylw at modd y disgrifir Gwalchmai yn ŵr 'di-fai', gw. TYP<sup>2</sup> 375 ac ymhellach GLM 389. Ond y ffurf ferfol 3 un.amhff.dib. sydd yma, ac *fel pe* yn ddealedig, ac felly hefyd yn llau. 26, 35, 63.
- 22 **Dafydd Gam** Gwladus Gam, ei ferch, oedd nain Syr Rhisiart Herbert.
- 24 Cf. 7.24 *A main clòs, em Niclas hen.*
- 29 **Cedewain** Penodwyd Syr Rhisiart yn rysyfwr arglwyddiaeth Trefaldwyn, Ceri a Chedewain yn 1506.
- 31 **Glewlyd** Glewlwyd Gafaelfawr, cf. 70.63–4n. Awgryma Rachel Bromwich mai porthor Wrnach Gawr oedd Glewlwyd yn wreiddiol, a dadlennol felly yw'r trosiad *cawr* yn ll. 32. Ond y mae lle i gredu bod Rhisiart ei hun yn ŵr o gryn faintioli, gw. GDEp 130. Ar y cyfuniad *ail Glewlwyd*, gw. 13.26n.
- 34 **Sawyl** Yr oedd Sawyl Benisel yn un o frenhinoedd cynnar Prydain

yn ôl Sieffre o Fynwy, gw. BD 44; WCD 581. Enwir Sawyl Benisel arall (daethpwyd i'w adnabod maes o law wrth yr enw Sawyl Benuchel) yn un o'r Trioedd, gw. TYP<sup>2</sup> 41, 506. Am gyfeiriad arall posibl at un o'r ddau gymeriad hyn, gw. 39.20n.

**cwnsel** Yr oedd Syr Rhisiart Herbert yn aelod o Gyngor y Gororau erbyn mis Mai 1530, gw. ByCy 326 a W.R.B. Robinson, 'Sir Richard Herbert (d. 1539) of Montgomery', *Mont Coll* lxxxvii (1999), 91–110; *ib.* lxxxviii (2000), 1–24. Yr oedd perthynas arbenig rhwng y Cyngor a Thywysog Cymru (y *pryncs* ll. 35, sef Edward VI maes o law). Pan urddwyd Arthur, mab hynaf Harri VII, yn Dywysog Cymru ym mis Tachwedd 1489, rhoddwyd y Cyngor o dan ei awdurdod, gw. G. Williams: RRW 53.

- 36 Cyfatebiaeth -nc h- = ngh, a cf. 50.52n a GSC 21.40 lle y cyngan-eddir yr un geiriau *Cainc aur hir Cyngor Harri*. Y mae *caing* yn ffurf gydnabyddedig yn ôl GPC 390, ac o ddilyn darlleniad llsgrau. BC ceid cynganedd reolaidd.
- 45 **gwylliaid** Disgrifiwyd Syr Rhisiart gan yr Arglwydd Herbert o Chirbury yn ei hunangofiant fel a ganlyn: *he likewise was a great Suppressor of Rebels, Thievs, and Outlaws*, gw. W.R.B. Robinson, 'Sir Richard Herbert (d. 1539) of Montgomery', *Mont Coll* lxxxvii (1999), 91.
- 46 Cf. 73.44 *Llonyddach bob llan uddynt*.
- 51–2 Ailadroddir y cwpled yn 88.39–40 (cywydd marwnad i Siân Stradling).
- 54 **set** 'Grŵp o gemau (tennis, sboncen, &c.) sy'n ffurfio un o'r unedau y mae'n rhaid ennill nifer penodedig ohonynt i ennill yr ornest', gw. GPC 3235 a cf. 86.76 *Dwyn set ar dennis atad*. Digwydd cyfeiriadau at chwarae tennis cyn dyddiau Lewys Morgannwg; y mae Lewys Môn yn crybwyll y gamp, gw. GLM LXXXVIII.55–6 (ond cyfeddyf y golygydd fod y cwpled sy'n cynnwys y cyfeiriad yn dra thywyll), ond i'r flwyddyn 1578 y perthyn yr enghraifft gyntaf o'r gair *S. set* yn y cyd-destun hwn, gw. OED<sup>2</sup> xv, 52. Yn Ffrainc y tarddodd y chwarae ac fe'i cynhelid yn y lle cyntaf o dan do. Ceir cyfeiriad cynnar at y gamp yn un o gerddi Chaucer. Buan y daeth *real / royal tennis* fel y'i gelwid yn gymeradwy ymhlith yr haenau uchaf; gwyddys i Harri VIII ymddiddori yn y gamp ac mewn mathau eraill o ddiddanwch a weddai i'w safle megis hela, heboga, ac ymladd â gwaywffon, gw. David Starkey, *The Reign of Henry VIII* (London, 1991), 11–12; MEnc; EncB xiii, 791–3. Cododd adeilad pwrpasol ar gyfer y gamp yn 1529, ac 'it was in such a court as this that Henry VIII became the first monarch to give the sport his patronage ... he was undoubtedly

among the most prominent players in his time, and it was largely through his influence that tennis gained as great a hold in England as in France', gw. Norman Wymer, *Sport in England* (London, 1949), 70; hefyd Heiner Gillmeister, *Tennis A Cultural History* (Trowbridge, 1997), 35–83.

55 **Marchog y Cawg** Gw. 65.14n.

55–64 Y mae'r disgrifiad o'r arfau ar feddrod Syr Rhisiart Herbert yn dwyn i gof ddisgrifiad tebyg gan Iolo Goch o feddrod Rhys ap Gruffudd, a gw. ymdriniaeth D.J. Bowen â'r cywydd yn 'Angladdau Syr Rhys ap Gruffudd a'i fab', YB xiii (1985), 155–9.

56 Gellid *A'r dywarchen aurdorchawg*, a deall *tywarchen* yn drosiadol.

64 **bwned** Nid oes achos i dreiglo'r e.c. a rhaid derbyn bod *bwned* yn ffurf ar *pwyned*, *pwynied*, *pwyniad* 'dagr fechan ac iddi lafn main', gw. GPC 2950.

65 **Mercuriws** Gw. 17.45n.

## 77

Diogelwyd yr unig gopi o'r cywydd yn LIGC 6681B yn llaw John Jones, Gellilyfdy. Barnai'r copiwr mai *kowydd moliant i Birs Grvffvdd sergiant* oedd hwn, ac yr oedd y gŵr hwnnw, fel John Jones, yntau, yn disgyn o Ednowain Bendew, gw. WG2 504 (ach Pirs Gruffudd); ByCy 443–4 (John Jones, Gellilyfdy). Canodd Huw ap Dafydd glodydd y Pirs hwn, gw. GHD cerdd 1, ond nid moliant iddo ef yw'r cywydd dan sylw o waith Lewys Morgannwg. Pirs Mytwn o Alltmelyd yn Nhegeingl a gyferchir yng nghywydd Lewys, ond gallai yntau, fel y copiwr diwyd, arddel cyswllt â llwyth Ednowain, a diau mai hyn a arweiniodd John Jones ar gyfeiliorn. Ysywaeth, ni chofnodwyd ach Pirs Mytwn yn llawn yn *Welsh Genealogies*, ac amhosibl gwirio'r cyfeiriadau achyddol. Fodd bynnag, diogelwyd rhai ffeithiau gwasgaredig amdano ef a'i deulu ac ailadroddir y rhain yn y cywydd. Ei wraig oedd Marged, merch Syr Wiliam Gruffudd a Siân Stradling o'r Penrhyn, gw. WG2 1267–8; L. Dwnn: HV ii, 167. Priododd ei dad, Rhisiart Mytwn, ag Elin, merch Siôn Aer y Conwy, gw. WG2 326. Disgrifio'r cysylltiadau teuluol ar ochr y fam a'r nain a wnaeth Lewys yn y cywydd ac awgryma hynny na pherthynai hynafiaid Pirs ar ochr ei dad i gyff bonheddig.

Amlinellir gyrfa Pirs yn R.A. Griffiths: PW i, 542–3. Ymddengys iddo dreulio ei flynyddoedd cynnar yn Llundain. Erbyn 1520 daethai yn un o wŷr y Gard a bu'n gwasanaethu yn siambr y brenin rhwng 1535 a 1542. Fe'i penodwyd yn gwnstabl castell Penfro ym mis Mawrth 1528 ac yr oedd yn bresennol pan ildiodd y Brodyr Duon y priordy yn Rhuddlan i ddwylo cynrychiolwyr y goron yn 1538. Fe'i henwebwyd yn siryf sir y Fflint ym mis Tachwedd 1541, gw. LSEW 254, ac fe'i henwir ymhlith boneddigion y

sir a ymunodd â'r cyrch i Ffrainc yn 1544. Canwyd y cywydd yn dilyn y cyrch hwnnw yn ôl pob tebyg (gw. llau. 55–6).

- 1 **sieryf** Gw. y nodyn brig.
- 4 **seriant** Fe'i disgrifir yn *Serjt at arms* yn L. Dwnn: HV i, 167. Perthyn y cofnod cyntaf sy'n cynnwys y disgrifiad hwn i'r flwyddyn 1540, gw. LPFD xvi, cofnod 107.21.
- 14 **henlwyth** Fel arfer bydd *ll* yn caledu pan fydd yn dilyn *n*, gw. 10.5n a gthg. *henllwyth* yn 57.17. Am enghreifftiau o *henllwyth* yn cynganeddu â *Stanllai*, gw. GMBr 5.84n.
- 14–20 **Ystanlai ... Conwy ... Ithael ... Edwin ... Ednowain** Yr oedd Elin, mam Pirs, yn ferch i Siôn Aer y Conwy a Sioned Stanlai. Mam Sioned Stanlai oedd Angharad, merch Hywel ap Tudur ab Ithel Fychan ab Ithel Llwyd ab Ithel Gam ... Uchdrud ab Edwin, gw. WG1 281, 285. Perthynai gwraig Ithel Gam i lwyth Ednowain Bendew, gw. WG1 283.
- 17 Diwygiwyd y ll. er mwyn cryfhau'r gynghanedd, ond gwelir bod sawl darlleniad anfoddfaol yn yr unig gopi.
- 21 *r* berfeddgoll.
- 22 Cyfatebiaeth -sg c- = -s c-, ond gthg. st = -st d- yn y ll. sy'n dilyn.
- 28 **aur ar y glin** Gw. 2.3n. Digwydd y ll. *Aros gloi aur is y glin* yn 56.16.
- 35 **tri Wiliam** Gw. 87.11–12n.
- 38 *n* wreiddgoll.
- 40 **Torboes** Siancyn ap Siôn oedd tad Siôn Aer y Conwy. Priododd ef ag Elin, merch Syr Harri Torboes, gw. WG2 326.
- Herbart** Gw. nodyn brig cerdd 88.
- 42 **Cornéus ... cewri** Gw. 70.80n. Disgrifir gornest Corineus a'r cawr yn BD 19–20.
- 47–8 Y mae'n bosibl fod yma gyfeiriad at un o anturiaethau 'Chwedl y Greal', cf. isod 77.51n, ond anodd gwybod pa un sydd dan sylw.
- 51 **y trywyr ffeils** Yn 'Chwedl y Greal' adroddir hanes Peredur yn y Castell Cynddeiriog lle yr oedd *trywyr tec ieueinc. ac yr awr y gwelont wy gristawn wynt aant odieithyr eu synnwyr ... hyt nat oes dim aallo parhau yn eu herbyn*. Ni fedrent ymosod ar Beredur gan fod Duw yn ei amddiffyn ac felly lladdasant ei gilydd, gw. *Y Seint Greal*, ed. Robert Williams (London, 1876), 417–19.
- 53 **cair alw** Yn achlysurol bydd y bardd yn treiglo yn dilyn ffurfiau amhrs. y f., gw. 38.68n.

57 *fled-lafarog.*

59–60 Ymddengys fod y cwpled yn llwgr, ond anodd gweld sut yn union y dylid ei ddiwygio. Y mae'n bosibl mai rhywbeth tebyg i *Mwy no'r tri 'myw y no'r i'm oes* a luniwyd yn wreiddiol.

60 *m wreiddgoll neu n = m.*

64 **Aiacs** Cymeriad amlwg yn chwedloniaeth gwlad Groeg. Yr oedd yn fab i Telamon a disgrifiwyd ei gampau gan Homer yn yr Iliad. Pan fu farw Achilles, barnodd hynafgwyr y Groegiaid mai Odysseus ac nid Aiacs a gâi ei arfau. Cymerodd Aiacs ei fywyd ei hun wedi iddo glywed y newydd hwn, a dyma bwnc drama Sophocles, ei waith cynharaf o bosibl, gw. OCCL 20. Am gyfeiriad arall ato, gw. GHD 5.56

## 78

Cywydd *moliant i ddau farchog syr john a syr thomas salbri* yw hwn yn ôl y pennawd yn yr unig lawysgrif, ond prin y gellir derbyn y dyfarniad hwnnw. Gwelodd y copïwr y geiriau *dau farchog* yn yr ail gwpled a chysylltodd hwy â'r ddau enw cyntaf sy'n digwydd yn y cywydd, sef [*Meistr*] *Siôn* a [*Syr*] *Tomas*. Yr oedd *Siôn* yn enw a arferwyd yn helaeth gan amryfal ganghenau'r Salbriaid, gw. WG2 1569; PACF 222; L. Dwnn: HV ii, 330–1, ac nid tasg hawdd o'r herwydd yw lleoli gwrthrych y cywydd â sicrwydd. At hyn, bu cryn gymysgu rhwng aelodau o'r un teulu, yn enwedig rhwng *Siôn Salbri*, mab *Syr Rhosier* ap *Syr Tomas* ap *Tomas Salbri Hen* ar y naill law a *Siôn*, brawd *Syr Rhosier*, ar y llaw arall. Priodolwyd i'r ddau yr enw '*Siôn y Bodiau*' (ar sail y traddodiad fod dau fawd ar y naill law a'r llall), ond dangosir yn W.A. Evans, 'The four John Salusbury's of Llewenni, Denbigh, in the sixteenth century', TCHSDd xii (1963), 167–9; DWB 899–900 (ond gthg. y cofnod cynharach yn ByCy 844–5) mai brawd *Syr Rhosier* oedd *Siôn y Bodiau*, a hwn yw'r gŵr a fu'n brwydro yn Iwerddon. Prin yw'r cyfeiriadau achyddol yn y cywydd, ond y mae'r darnau yn disgyn i'w lle o dderbyn mai brawd *Syr Rhosier* yn hytrach na'i fab a gyferchir. Ni ddisgwyliid i Lewys gyfarch *Siôn* ap *Syr Rhosier* a cholli'r cyfle i enwi ei dad. Eto, o ystyried cyd-destun y cywydd, dadlennol yw'r disgrifiad *llewygwr rebeliwns* mewn awdl gan Ruffudd Hiraethog i fab *Syr Rhosier*, gw. GGH 6.22.

Perthyn y cywydd hwn, fel y cywydd a ganwyd i Rys Mawnsel, gw. cerdd 17 a'r nodyn brig, i gyfnod gwrthryfel 1534–5 yn Iwerddon ac ymgais y fyddin Seisnig i'w wastrodi. Bu i *Siôn Salbri* ran amlwg yn yr ymgyrch honno, ac fe'i henwir ar sawl achlysur yn yr adroddiadau swyddogol a anfonwyd at Harri VIII ac at Thomas Cromwell. Mewn llythyr yn ei law at Harri VIII, ac a ddyddiwyd 14 Mai 1535, disgrifia *Siôn* yr ymdrechion a

wnaed i amddiffyn castell Dulyn rhag ymosodiadau'r Gwyddyl, gw. LPFD viii, cofnod 715. Mewn llythyr arall at Cromwell, dyddiedig 1 Mai 1536, cyfeiria Siôn at swyddi yn sir Ddinbych y talodd 400 o forciau i'w sicrhau, a mynega ei bryder ynghylch effaith y ddeddfwriaeth newydd (sef y Ddeddf Uno) ar ei hawliau, gw. LPFD x, cofnod 778.

Nid yw'r testun a gynigir yn J 140 [= RWM 15] yn un da, ac y mae'r llinellau sy'n cynnwys beiau technegol yn fwy niferus na'r arfer.

- 2 **caer Ddinbych** Daliai Siôn swydd cwnstabl castell Dinbych yn 1530.
- 3 **dau farchog aeth** Syr Rhosier, brawd Siôn (m. 1530), a'i dad, Syr Tomas, a enwir isod yn ll. 10 a thrachefn yn ll. 55 (m. 1505).
- 4 **dros dau** Am enghreifftiau eraill o'r caledu sy'n digwydd dan ddylanwad *-s* yn yr ardd., gw. 11.37n.  
Rhaid cyfrif *meistr* yn air deusill yma, ac felly hefyd *llwybr* yn ll. 6 a *garw* yn ll. 50.
- 8 Twyll gynghanedd *g*.
- 14 **Don ... Dytwn** Enwir y ddau deulu yn gyson yn y canu i'r Salbrïaid. Priododd Tomas Salbri Hen ag Elisabeth; ei rhieni hi oedd Siancyn Don ac Elisabeth Dytwn, gw. GLM 464.  
*r* wreiddgoll.
- 16–17 **Wiliam. / ... Wilym** Priododd Syr Tomas Salbri â Sioned, merch Wiliam Fychan ap Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym, gw. WG1 673; WG2 1265. Yr oedd Sioned yn fodryb i Syr Wiliam Gruffudd, siambrlen Gwynedd, gŵr Siân Stradling, gw. cerddi 87–8, a diau mai'r cyswllt hwn sy'n caniatáu i'r bardd o Forgannwg ganfod peth o waed y Deau yng ngwythiennau'r tylwyth.
- 18 **Ystanlai** Ail wraig Gwilym ap Gruffudd oedd Sioned Stanlai, a hi oedd mam Gwilym Fychan.
- 20 Bai crych a llyfn; twyll gynghanedd *g*; cyfatebiaeth *sg.sg = -sg h-*.
- 27 **Edwin** Priododd un o gyndeidiau Wiliam Fychan ag un o ddisgynyddion Edwin ap Gronwy o Degeingl.  
Bai caled a meddal ar ôl diwygio, sef *d = t*, ond sylwer bod y ddwy gytsain yn digwydd yng nghysgod *n*. Ceid ll. ac ynddi *r* berfeddgoll cyn ei diwygio.
- 36 Wyth sillaf yn y ll. (ond gellid *Oes ynot act...*); twyll gynghanedd *g*.
- 38 **wyth galont** Treiglo ar ôl y rhif. *wyth* oedd yn gyffredin gynt, gw. Treigladau 135, ond y mae'r gynghanedd yn mynnu'r gysefin yma ac yn 92.41 *wyth gwlad*, 92.77 *wyth cog*.
- 41 **pen wyd a phont** Cyfosodir y ddau drosiad ar achlysuron eraill,

gw. 1.15n, ond y mae'n arwyddocaol eu bod i'w gweld yma mewn cywydd i ŵr a fu'n brwydro yn Iwerddon. Sylw Bendigeidfran yn ail gainc y Mabinogi oedd '*Nit oes ... namyn a uo penn bit pont. Mi a uydaf pont*' ... *Ac yna gyntaf y dywetpwyd y geir hwnnw, ac y diharebir etwa ohonaw*, gw. PKM 40–1.

- 43 **Llŷr Llediaith** Tad Branwen (a enwir yn y cwpled nesaf), Bendigeidfran a Manawydan, gw. TYP<sup>2</sup> 427–9. Ansicr yw tarddiad yr epithet *Llediaith* ond gallai awgrymu gwreiddiau estron. Ymddengys fod Lewys yn cysylltu Llŷr (a Branwen yn yr un modd) ag Iwerddon: 'Pennaf arwr brwydr [yng ngwlad] Llŷr Llediaith'.
- 46 **palfre** Ni restrir *palfred* y llsg. yn GPC 2673, a chan mai cynghanedd sain sydd yn y ll. nid oes cymorth i'w gael wrth ddiwygio. Gellid e. cyfansawdd yn cynnwys yr elfen *palf* 'cledr neu dor y llaw' ac efallai mai bwriad y bardd oedd dwyn i gof y modd y câi Franwen fonclust yn ddyddiol gan y cigydd yn ail gainc y Mabinogi, ond anodd gweld pa ail elfen a fyddai'n gweddu. Diwygiwyd yn betrus i *palfre* 'ceffyl marchogaeth cyffredin yn hytrach na march rhyfel', gw. GPC 2674.
- 48 **cywirddant** *Cywir* + *dant* 'moesau, anian', er mai yn betrus y cynigir yr ystyr honno yn GPC 890. Gwedda *cyweirdant* 'y tant y cyweirir telyn wrtho; yn ffig. safon, maen prawf', gw. GPC 830; 56.57–8n, ond ni chaniatâ'r gynghanedd fabwysiadu'r darlleniad hwnnw.

**Ffrainc** Gellid ei gysylltu â *cywirddant* o dderbyn mai ymadrodd sangiadol yn disgrifio Siôn yw *cywirddant Ffrainc*, 'un a chanddo wir foesau'r Ffrancwyr', a phriodol wedyn fyddai diwygio o *Werddon* > *Iwerddon*, a chyfrif yr e.p. yn wrthrych *cyweiriaist*. O atalnodi fel y gwnaed yn y testun, cymerir mai trosiad am y gelyn yw Ffrainc yn y cyswllt hwn. Bu Iarll Desmond yn cynllwynio gyda Francis I o Ffrainc yn 1523, ond erbyn y tridegau, a Harri VIII yn ceisio sicrhau'r hawl i ysgaru, yr oedd gan yr ymerawdr Siarl V ddiddordeb yn y datblygiadau yn Iwerddon, ac ofnid yn Lloegr y byddai yn anfon byddin i Iwerddon i gynorthwyo'r gwrthryfelwyr, gw. Richard Bagwell, *Ireland Under the Tudors*, vol. i (London, 1963), 162–93; Art Cosgrove, *Late Medieval Ireland, 1370–1541* (Dublin, 1972), 119.

- 52 **Gareth** Gw. 17.28n.
- 53 Cyfatebiaeth -st d- = st.
- 54 **Conor** Yr oedd y teulu hwn ymhlith cefnogwyr ieirll Cildâr. Am gyfeiriadau at y teulu mewn dogfennau lle yr enwir Siôn Salbri, gw. LPFD viii, cofnodion 222, 449. Wedi methiant gwrthryfel 1534, dechreuodd y Saeson lygadu'r tiroedd a oedd yn amgylchu'r 'Pale',



sef y rhanbarth a fuasai o dan reolaeth y goron, ac ymosod ar gynrychiolwyr y tylwythau nad oeddynt yn cydnabod awdurdod brenin Lloegr. Ymosodwyd ar O'Connor yn 1537, gw. Richard Bagwell, *op.cit.* 206–7.

55 *n* berfeddgoll.

63 **gŵr llawr** *Gŵr* + *llawr* ‘ceimiad, arwr’, gw. GPC 2118, sy’n dra phwrpasol yn y cyd-destun ond nid atebir y gytsain *r* sy’n digwydd o dan yr acen. Gellid diwygio > *gŵr llaw*.

65 **Serigi** Yn ôl un o’r Trioedd bu Serigi Wyddel yn ymladd â llu Cadwallon Lawir yng Ngherrig y Gwyddyl ym Môn, gw. TYP<sup>2</sup> 167–9, 508; WCD 587; EWGT 93. Fe’i henwir hefyd yn GLM VII.43 ond *Sarigi* yw’r ffurf yn y fan honno. Diau fod Serigi yn cael ei uniaethu â nawfed iarll Cildâr. Gwysiwyd ef i Lundain yn 1533 i ateb cyhuddiadau yn ei erbyn, cyrhaeddodd Lundain ym mis Chwefror 1534, a thaniwyd fflamau’r gwrthryfel yn ei absenoldeb gan ei fab, Silken Thomas, ym mis Mehefin y flwyddyn honno. Yr oedd y fyddin Seisnig wedi cyrraedd Iwerddon cyn diwedd y flwyddyn, ond erbyn hynny yr oedd gyrfa ddaearol Iarll Cildâr wedi dirwyn i ben. Yr awgrym yma yw na fyddai ei ddychweliad ef, hyd yn oed, yn mennu dim ar Siôn Salbri.

67–74 **Greal ... / ... / ... Galath** Dechreuodd yr anturiaethau yn ‘Chwedl y Greal’ pan ddaeth Galath i lys Arthur. Ei orchest gyntaf oedd rhyddhau’r cledd o’r maen a nofiodd dros y dŵr hyd aber yr afon, camp y methodd Gwalchmai a Bedwyr â’i chyflawni, ac ennill tarian, gw. YSG 4–7. Yng nghwrs y chwedl, arweinir Galath, Bwrt a Pheredur, sef y *Tri Marchawc o Lys Arthur a enillawd y Greal*, gw. TYP<sup>2</sup> 212–13; hefyd L. Dwnn: HV i, 10, i gwch a gwelant ynddo wely, *Ac is traet y gwely yd oed cledyf ac amrafael weith arnaw, kanys y bwmel a oed o vaen, yr hwnn yr oed yndaw kwbyl o holl liweu y byt ... Dwrn y cledyf a oed gwedy y wneuthur o asseu deu aniveil: y neill o’r anieilyeit a oed o ryw genedylaeth seirff ... Y tu arall idaw a daroed y wneuthur o assen pysc*, gw. YSG 114–15. Bernir mai’r e.p. *Galath* sy’n taro orau yn ll. 68 yn hytrach na’r e.c. *galaeth* ‘gofid’ neu hyd yn oed *golaith* ‘angau’, ac er bod darlleniad y llsg. yn gwneud synnwyr—*Galaeth a gâi G’leith gynt*—nid yw’n cyd-fynd â’r cyfeiriadau chwedlonol.

68 **G’leith** Yr oedd yn nodedig am ei faint a’i gryfder: *Goleiath, o Gath: ei uchder oedd chwe chufudd a rhychwant. A helm o bres ar ei ben, a llurig emog a wisgai: a phwys y llurig oedd bum mil o siclau pres. A botasau pres oedd am ei draed ef, a tharian bres rhwng ei ysgwyddau*, gw. 1 Sam 17.4–6. Fe’i lladdwyd gan y llanc Dafydd, gw. *ib.* 17.50.

- 69 Cyfatebiaeth caled a meddal  $d = t$ .
- 81 **osglyn** Y gair *osgl* ‘cangen’, gw. GPC 2658, a’r terfyniad bachigol *-yn*.

## 79

Ceir ach Robert ap Rhys, Plasiolyn, yn WG2 1328, 1331–2; PACF 204, 247; L. Dwnn: HV ii, 228: Robert ap Rhys ap Maredudd ap Tudur ap Hywel ap Cynfrig Fychan ap Cynfrig ap Llywarch, a gwelir peth o hanes ei deulu yn ByCy 735–6; Enid Roberts, ‘Teulu Plas Iolyn’, TCHSDd xiii (1964), 39–110; *id.*, ‘Symud efo’r oes’, *Bosworth a’r Tuduriaid*, gol. Dafydd Glyn Jones a John Ellis Jones (Caernarfon, 1985), 16–24. Er bod y cywydd yn cael ei briodoli i Lewys Morgannwg ym mhob un o’r wyth llawysgrif, awgryma cyfansoddiad cynganeddol y gerdd nad Lewys a’i canodd (gw. y drafodaeth ar y gerdd yn yr adran ‘Cerddi Amheus’ ar d. 24).

- 4 **egni** Diau mai camgopïo sy’n esbonio’r gair *egin* mewn rhai ffynonellau. Gellid ystyried diwygio’r ll. > *Am gnyw gwyach â megin gwaith*.
- 10 **Crach y Cerrig** Er gwaethaf ei enw, gŵr o gig a gwaed oedd hwn, ac yn wir, gallai Robert arddel cyswllt â dau Grach. Priododd Robert â Marged, merch Rhys Llwyd ap Gruffudd ab Einion Fychan o’r Gydros ym mhlwyf Llanfor ym Mhenllyn, gw. WG2 1274. Gwraig Gruffudd ab Einion Fychan oedd Lowri, merch Rhys ab Ieuan ap Hywel y Gadair ap Gruffudd, ac adwaenid yr olaf wrth yr enw Crach-y-farn, gw. WG1 749, 751. Yr oedd y Crach, neu Grach y Cerrig, ar y llaw arall, yn un o hynafiaid Lowri, mam Robert ap Rhys. Priododd ei thad, Hywel ap Gruffudd Goch o Ros, â Marged, merch Gruffudd ap Dafydd ap Crach y Cerrig, gw. WG1 689, 691. Enwir y cymeriad hwn yng nghywydd Tudur Aled i Robert ap Rhys, gw. TA XLIX.15–16 *Gŵr o wýdd braisg, wraidd a brig, / Gwrŷch cawr o Grach y Cerrig*. Fe’i henwir gan Lewys Môn drachefn, ond tybiodd Eurys Rowlands mai cyfeiriad oedd hwn at y bardd a enwir yng nghywydd Gruffudd Llwyd ‘Y cwest ar Forgan ap Dafydd o Rydodyn’, gw. GLM LI.16n; IGE<sup>2</sup> XXXIX.53–6; GGLI 10.51–2.
- 13–14 **Gruffudd ... / Goch** Gw. y nodyn uchod.
- 16 **Dolgynwal** Cododd Ysbytywyr Sant Ioan ysbyty yn Nolgynwal. Bu Maredudd ap Tudur, a’i fab ar ei ôl, yn stiwart ar diroedd abaty Aberconwy yn Hiraethog ac yn stiwart tiroedd yr Ysbytywyr yn Nolgynwal.
- 26 **ar lled** Trafodir y ffurfiau *ar led* ac *ar lled* a’u hystyron yn

Treigladau 387.

33–4 **Mastr Owain ... / Ap Rhys** Digwydd y cywydd mewn wyth llsgr., ond mewn dwy yn unig yr enwir yr eirchiad yn y cyflwyniad ar frig y gerdd, sef Pen 101 a Llst 124, ac ni chynigir unrhyw wybodaeth amdano yn y ddwy hynny. Cynigiwyd yn Lewys Morgannwg: Gw 971 mai ar ran Owain, mab Syr Rhys ap Tomas, y canodd Lewys Morgannwg, a diau mai ar sail yr wybodaeth a ymgorfforwyd yn y gerdd yr awgrymwyd hynny. Lleolir y teulu yn y De (ll. 34), enwir y tad yn ll. 62 (Syr Rhys), a chyfeirir hefyd at y brain a welid ar arfbais y teulu (ll. 33, a gw. ymhellach 65.21–2n). Nid olrheindir ach yr eirchiad, ond gan fod y tad yn ffigwr mor adnabyddus, diau nad oedd angen i Lewys wneud hynny mwy na Siôn Ceri pan ganodd hwnnw awdl farwnad i Syr Rhys ap Tomas, gw. GSC cerdd 50. Enwir Owain ymhlith meibion Syr Rhys yn WG2 645, a gwyddys iddo ddilyn ei dad i Ffrainc ac iddo gymryd rhan ym mrwydro 1513, gw. R.A. Griffiths: RhT 56.

30 *n* berfeddgoll.

80

Dyddiwyd ewyllys Robert ap Rhys 12 Medi 1534, ac fe'i profwyd y mis Ionawr dilynol. Fe'i claddwyd yn eglwys Ysbyty Ifan lle yr erys ei gorffddelw ac eiddo ei rieni.

Y mae ff. 77<sup>v</sup>–78<sup>r</sup> yn eisiau ar ffilm BL Add 31090 yn y Llyfrgell Genedlaethol ac ni welais y rhain.

*Y mesurau*

- |        |                                       |
|--------|---------------------------------------|
| 1–44   | 11 englyn unodl union.                |
| 45–84  | Deg pennill ar fesur y gwawdodyn byr. |
| 85–104 | Cyfres o ddeg toddaid.                |

1 **'meirydd** Ni chofnodir yr e.c. *ymeirydd* yn GPC 3774 ond rhestrir y be. *ymeirio* 'dadlau; siarad' a'r e.c. *geirydd* 'llefarwr, siaradwr', gw. *ib.* 1389 (ond perthyn yr enghraifft gynharaf i ddechrau'r 17g.).

9–10 **Gwynedd ... / Dinefwr, Mathrafal** Aberffro, Dinefwr a Mathrafal oedd y tair talaith farddol. Fe'u henwir yn Statud Gruffudd ap Cynan, gw. Thomas Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929–31), 25–33.

23–4 **Rhys ... / Mawr** Adwaenid tad Robert wrth yr enw Rhys Fawr, gw. ByCy 735.

25 **Manaw** Ceir yma odl gudd—nodwedd gyffredin ar awdlau Lewys Morgannwg—ond ni sylweddolodd y copïwyr hynny, a'u hymgais i

wneud iawn am y diffyg tybiedig sy'n esbonio'r ffurf *Manawd*.

- 26 **hyd Dyddbrawd** Ar y calediad, gw. 7.44n. Digwydd yr un ymadrodd isod yn ll. 83, ond gwelir nad yw'r llsgrau. yn gyson: ceir *hyd Dyddbrawd* yn llsgr. A (ll. 26) ond *hyd Ddyddbrawd* (ll. 83). Sylwer hefyd ar darlleniadau llsgrau. BC.
- 37–8 Y ddwy *g* oddeutu'r gwant yn caledu ac yn sicrhau'r gyfatebiaeth ddisgwyliedig.
- 39 **Derfel** Llandderfel yng nghwmwd Penllyn yw'r unig eglwys sy'n coffáu ei enw. Honnir iddo ymladd ym mrwydr Camlan ac ymenwogi ar gyfrif ei ddewrder cyn troi at yrfa amgen, gw. TYP<sup>2</sup> 160–2 a cf. ll. 57 isod. Ymhen rhyw bedair blynedd, byddai'r Dr Elis Prys, mab Robert ap Rhys, yn rhinwedd ei swydd yn Gomisiynydd Cyffredinol Esgobaeth Llanelwy, yn derbyn gorchymyn i ddwyn ymaith y ddelw bren o'r sant a gedwid yn eglwys Llandderfel, er gwaethaf ymbiliadau'r plwyfolion a gynigiodd iddo ddeugain punt pes achubid. Llosgwyd y ddelw yn gyhoeddus yn Smithfield, Llundain, ym mis Mai 1538, gw. LBS ii, 333–6; W. Gareth Evans, 'Derfel Gadarn—A celebrated victim of the Reformation', *Cylchg CHSFeir* xi (1990–3), 137–51.
- 46 *n* wreiddgoll a thrachefn yn ll. 74.
- 47 **Traeth Coch** Traeth ar arfordir dwyreiniol Ynys Môn. Dweud y mae'r bardd fod pobl ym mhob rhan o Gymru yn galaru ar ôl Robert ap Rhys.
- 48 **neud aeth** Ymddengys i'r sawl a gopiïodd gynsail y ffynonellau a ddiogelodd yr awdl gamddeall y geiryn ac iddo ystyr gadarnhaol *neu, neud*, gw. GPC 2575. Ond gellid *nid aeth heb och* (a gallai *aeth* yn ei dro fod yn ffurf ferfol 3 un.grff.myn. neu yn e.c.).
- 53 **llên well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- Castell Coch** Y castell sydd ar gyrion y Trallwng, a chadarnle Owain de la Pole, tywysog olaf Powys yn y 13g. Nid annichon fod rhai o'r olion a erys i'w dyddio i gyfnod Gwenwynwyn, mab Owain Cyfeiliog, gw. Richard Haslam, *The Buildings of Wales: Powys* (Harmonsworth, 1979), 188–96.
- 61 Y mae'r gyfatebiaeth yn anghyflawn fel y'i ceir yn y llsgrau.
- 63 **Peblig** Y sant a goffeir yn Llanbeblig ger Caernarfon, a mab Macsen Wledig ac Elen, gw. LBS iv, 86–7; WCD 532.
- 64 **Pedrog a Lasar** Ymddengys mai brodor o deyrnas Glywysing oedd Pedrog, a chysegrwyd tair eglwys iddo yng Nghymru, gw. LBS iv, 94–103; WCD 533–5. Yn y Ferwig ger aber Afon Teifi yr oedd un ohonynt; dyna pam y galwodd Dafydd Nanmor am ei gymorth i yrru'r tywod o'r Tywyn, gw. DN cerdd VI. Brawd Mair a

- Martha oedd Lasar. Fe'i codwyd o farw i fyw gan Grist, gw. Io 11.1–46; ODCC<sup>3</sup> 961.
- 66 Wyth sillaf yn y ll., a thrachefn yn ll. 86. Anodd cyflenwi'r sillaf goll yn y ddau achos.
- 85 **aethoch** Ceir yr ystyr orau o dderbyn mai'r e. cyfansawdd *aeth + och* sydd yma.
- 91 **cwynom** Diau y dylid ailadrodd yr un gystrawen yn llau. 89, 91 a 93. Efallai i'r gwall ddigwydd yn y lle cyntaf wrth i lygad rhyw gopiwr daro ar y gair *cwynion* ar ddechrau'r ll. sy'n dilyn.
- 92 Cyfatebiaeth cn.cn = cn.
- 101 **ordeinioch** Nodir y ffurf gyfochrog *orddeinio* yn GPC 2652, a gw. darlenniad y pedair llsgr., ond geilw'r gynghanedd am *ordeinioch*.

## 81

Trydydd mab Syr Robert ap Rhys o Blasiolyn oedd Cadwaladr, a brawd Dr Elis Prys, y Doctor Coch, gw. WG2 1332; PACF 204; L. Dwnn: HV ii, 228–9. Gadawodd Robert ap Rhys yn ei ewyllys *All my fermes and termes in M'yonethshire and Caernarvonshire to Kidwalader ap Robert, except the parcell of Dolginwall being in Caernarvonshire*.

Ymsefydlodd Cadwaladr yn Rhiwlas ym mhlwyf Llanfor yn sir Feirionnydd, ac yr oedd croeso cynnes i feirdd ar ei aelwyd. Bu Gruffudd Hiraethog yn ymryson â thri o'i ddisgyblion—Siôn Tudur, Simwnt Fychan a Wiliam Llŷn—mewn neithior yno, gw. GGH cerdd 150, a gwyddys iddo ymweld â'r cartref ar achlysuron eraill. Cyfeirir yn yr awdl farwnad a ganodd Gruffudd Hiraethog iddo at y math o ddiddanwch a garai Cadwaladr, gw. *ib.* 8.65–9, *Y mae'n llai porthiant man lle perthyn / A chroeso i feirdd a chwrs oferddyn, / A mynych urddas, man y chwerddyn', / A thalu am lais crwth a thelyn / A chlod â thafod ...* Yn y cyswllt hwn, tâl cofio bod Elis Prys yn un o gomisiynwyr ail eisteddfod Caerwys, gw. Enid Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', TCHSDd xvi (1967), 23–61 (tt. 37–8).

Pan ymadawodd Cadwaladr â'r fuchedd hon canodd Gruffudd Hiraethog awdl farwnad iddo a mydryddodd flwyddyn ei farw, sef 1554, gw. GGH 8.13–16. O fewn blwyddyn yr oedd yn marwnadu *ei fab a'i aer*, Elis, gw. *ib.* cerdd 65. Y mae yng nghywydd Lewys Morgannwg sawl awgrym mai yn fuan wedi marw Robert ap Rhys (yn 1534) y'i lluniwyd, ac mai gŵr cymharol ifanc (ll. 19 *Yr wyd ifanc ar dyfiad*) a gyferchir (ond yr oedd eisoes yn briod fel y prawf llau. 53–72).

- 1 **Iâl** Cwmwd i'r dwyrain o Benllyn lle y cartrefai Cadwaladr, gw. WATU 94.
- 2 **llew gwyn** Dyma arwydd herodrol Marchweithian, sef cyndad

- teulu Plasiolyn, gw. DWH ii, 365, 472.
- 12 **Penllyn** Ym mhlwyf Llanfor yng nghantref Penllyn y mae Rhiwlas, gw. WATU 174.
- 17 **Idwal** Nid oes yr un Idwal yn amlwg yn ach y teulu, ond yr oedd dau Idwal ymhlith hynafiaid Gruffudd ap Cynan yn llinach frenhinol Gwynedd, gw. 57.12n. Egyr cronicl Syr Siôn Wynn o hanes ei deulu gyda hanes Gruffudd ap Cynan, gw. HGFM 1 a'r achres 203. Gw. ymhellach l. 61n isod.
- 21 *n* wreiddgoll a thrachefn yn llau. 22, 42, 46, 65, 68.
- 24 **mab Rhys** Y gynghanedd yn mynnu bod yr ail elfen yn yr ymadrodd genidol yn cadw'r gysefin. Ond o gofio mai [Robert] ap Rhys oedd tad Cadwaladr, efallai mai'r hyn a wnaeth y copiwr oedd cyfleu sain y geiriau *mab Prys*.
- 28 Rhaid cyfrif *cadw* yn air deusill.
- 36 **Cadwaladr** Atalnodwyd y ll. fel pe bai yma gyfeiriad at Gadwaladr Fendigaid yn hytrach nag at Gadwaladr ap Robert.
- 40 Cyfatebiaeth -s t- = -s d-.
- 46 Rhwygwyd ochr y ddalen yn yr unig ffynhonnell, ond gellir llenwi'r bwlch yn hyderus gan fod y ll. *Ffrwd ton o deffroy wyt ti* yn digwydd ar achlysur arall, gw. 53.70.
- 56 **Siân** Ei wraig, a merch Maredudd ab Ieuan ap Robert ap Maredudd o Wedir, gw. WG2 851.
- 60 Gwrthodir awgrym Lewys Morgannwg: Gw 893 mai ffurf ar *rhy + byw* yw *ribyw* y llsgr., ond ni lwyddwyd i awgrymu rhagorach dehongliad.
- 61 **Morus** Mam Siân oedd Marged, merch Morus ap Siôn ap Maredudd o Ystumcegid, gw. WG2 847. Olrheiniai teuluoedd Gwedir ac Ystumcegid eu hachau yn ôl at Ruffudd ap Cynan.
- 63 **Owain** Y tywysog Owain Gwynedd yn ddiau, sef mab Gruffudd ap Cynan.
- 64 **dau dwysawg** Owain Gwynedd ac Owain Glyndŵr. Yr oedd Robert ap Maredudd, gw. 81.56n, ymhlith cefnogwyr Owain Glyndŵr, a chafodd bardwn gan y brenin yn 1409, gw. HGFM 22–3. Ar y cyswllt rhwng teulu Ystumcegid a Glyndŵr, gw. 82.43–4n.

Cywydd moliant i Siôn Wyn, Gwedir, mab Maredudd ab Ieuan ap Robert ap Maredudd, a thaid awdur *History of the Gwydir Family*, gw. WG2 850–1; PACF 280; ByCy 1031–2. Elin, merch Morus ap Siôn ap Maredudd o

Ystumcegid yn Eifonydd, oedd ei wraig. Yr oedd Elin yn ferch yng nghyfraith i Faredudd ab Ieuan ac yn chwaer yng nghyfraith iddo hefyd gan iddo gymryd Marged, chwaer Elin, yn drydedd wraig. Bu farw Maredudd yn 1525, a'i fab, Siôn Wyn, yn 1559. Y mae Mathau Brwmffild yn ei gywydd yntau i Siôn Wyn yn disgrifio'r cartref a'r croeso dibrin fel y gwna Lewys yn llau. 17–34, gw. GMBr cerdd 8.

- 2 **twysogwaed** Olrheiniai'r teulu eu hach hyd at Ruffudd ap Cynan, gw. 81.61n.
- 3 **sedd** Bernir mai'r e.c. sydd yma ond digwydd cynifer â saith enghraifft o'r e.p. *Sedd* yn y canu.  
Cyfatebiaeth -d h- = d.
- 10 [y] **Trwyndwn** Iorwerth Drwyndwn, mab Owain Gwynedd, oedd arglwydd Nanconwy, gw. 4.14n.
- 11 **pymthecllwyth** Cyffelybir tylwyth Siôn Wyn i Bymtheg Llwyth Gwynedd. Am drafodaeth ar arwyddocâd 'llwyth' a 'tylwyth' yng nghanu'r beirdd, gw. Lowri W. Lloyd, 'Beth yw perthyn? Pedwar term teuluol ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol', *Dwned*, 6 (2000), 25–53.
- 13–14 **Ieuan ... / Llwyd** Yr oedd gwraig Robert ap Maredudd yn ferch i Ddafydd ap Llywelyn ap Dafydd o Gefnmeigoed yng Ngheredigion, gw. WG1 457, 588, a Marged, merch Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Barcrhydderch, gw. WG1 179.
- 14 **holl deheudir** Ar y caledu dan ddylanwad y gytsain *ll*, gw. 45.59n.
- 18 [y] **Mwnt** Gan fod Harri VIII yn cael ei alw yn *Harri Mwnt*, tybed ai cyffelybu cartref Siôn Wyn i un y brenin a wneir yma, gw. 98.1n?
- 28 Nid yn llsgr. E y ceir y darlenniadau gorau, ond ystyrllon yw'r modd y cyffelybir Gwedir i eglwys Powls yn Llundain yn y testun hwnnw fel y gwna Mathau Brwmffild, gw. GMBr 8.14 *Powls ein iaith yw plas Siôn Wyn*.
- 30 **tymer** Ffurf ar *tymyr* 'tiriogaeth, bro, ystad, cyfoeth, eiddo', gw. GPC 3678.
- 41 **Elisau** Gwraig Morus ap Siôn, Ystumcegid, oedd Angharad, merch Elisau ap Gruffudd ab Einion o Gorsygedol, gw. WG2 1415–16.
- 43–4 **arglwyddi'r Glyn / A'r Rhuddallt** Gallai Elin, merch Morus ap Siôn, arddel cyswllt ag Owain Glyndŵr trwy ei mam a thrwy ei nain. Yn y lle cyntaf, yr oedd Lowri, gwraig Gruffudd ab Einion o Gorsygedol (gw. y nodyn blaenorol), yn nith i Owain, gw. WG1 32. Yn ail, ei nain o du ei thad oedd Gwenhwyfar, ac yr oedd ei mam

hi, Elin Pilstwn, yn nith i Lyndŵr, gw. WG1 741.

- 46 **Owain Gwynedd** Mab Gruffudd ap Cynan, gw. uchod 82.2n, 10n, 54n.
- 52 **Llaw â theiriaith, llythyrwl** Gall *llythyrwl* olygu ‘un llythrennog’ yn ogystal ag ‘un hyddysg’, gw. GPC 2286–7. Yn ôl Gruffudd Aled Williams, ‘nid gormodiaith, yn fy marn i, fyddai ystyried Gwedir yn un o brif ganolfannau’r Dadeni yn ein gwlad. Efallai mai rhan o gyfrinach llwyddiant teulu Gwedir fu’r pwyslais a roddwyd ganddynt ar addysg yn gymharol gynnar yn eu hanes’, a chyfeiria at yr hyn a ddywed Lewys Morgannwg a Rhisiart Gele yn eu cerddi i Siôn Wyn ap Maredudd, gw. *Dyffryn Conwy a’r Dadeni* (Llanrwst, 1989), 11–12.
- 54 **Dolwyddelan** Yn Eifionydd yr oedd gwreiddiau’r teulu, ond cymerodd Maredudd, tad Siôn Wyn, les ar gastell Dolwyddelan tua 1485. Yna prynodd diroedd yng nghyffiniau Betws-y-coed, a gosod seiliau’r ystad a ddatblygodd yn fawr yn ystod oes ei fab a’i etifedd, Siôn Wyn. Codwyd castell Dolwyddelan ar orchymyn Owain Gwynedd neu ei fab, Iorwerth Drwyndwn, gw. CLC<sup>2</sup> 198. Parthed y gred mai yng nghastell Dolwyddelan y ganed Llywelyn ab Iorwerth, gw. HW 587n.
- 63 **Rhoid i wylliaid rwyd allan** Os felly, dilynai yr un arfer â’r dad o’i flaen, gw. GLD 20.24n.
- 73 *n wreiddgoll.*

Mab Pirs ap Siôn ap Tomas Salbri Hen o Leweni oedd Robert. Etifeddodd ei daid Fachymbyd ym mhlwyf Llanynys, a daeth y Rug yn Edeirnion yn eiddo i’w dad trwy ei briodas â Marged, merch ac aeres Ieuan ap Hywel ap Rhys. Gydag amser daeth y Rug yn brif gartref i’r teulu; arwydd o hynny yw’r capel preifat a godwyd ar dir yr ystad yn 1637, gw. W. Nigel Yeates, *Rug Chapel, Llangar Church, Gwydir Uchaf Chapel* (Cadw, Cardiff, 1993). Ceir ach Robert Salbri yn WG2 1569, 1577; PACF 59; L. Dwnn: HV ii, 331–2; gw. hefyd ByCy 845–6; ByCyAt 159–60. Bu farw Robert yn 1550 yn ôl tystiolaeth Gruffudd Hiraethog, gw. GGH 90.29–32, a dywed Raff ap Robert i Gatrin ei wraig farw yn fuan ar ei ôl, gw. 3.61–70 yn yr adran ar Raff ap Robert yn PFTA.

Diau mai Robert Salbri o Blas Isaf, sef ewythr Pirs ap Siôn, a groesawodd Harri Tudur pan laniodd hwnnw yn sir Benfro yn 1485, ac ef hefyd oedd yn bresennol yn y twrnamaint a gynhaliodd Syr Rhys ap Tomas pan ddyrchafwyd ef yn farchog o Urdd y Gardys, gw. R.A. Griffiths: RhT 216 a troednodyn 22 a gthg. Lewys Morgannwg: Gw 885 lle yr awgrymir mai



gwrthrych y cywydd hwn oedd y Robert Salbri hwnnw.

- 1 Y mae'n amlwg fod darlleniad llsgr. A yn wallus, a gwelir yn y testunau eraill y modd y ceisiodd y copïwyr wella'r ystyr. Nid yw *dur da* yn gwbl foddhaol, ond derbyniwyd y darlleniad hwn am nad oes un sy'n rhagori arno.
- 4 **ar gŵyr** Llsgr. A yn unig sy'n rhoi darlleniad ystyrllon. Diwygiwyd y ll. yn y ffynonellau eraill, ond ni sylweddolodd y copïwyr eu bod yn peri odli *synnwyr* (lleddf) a *gwŷr* (talgron). Ar arwyddocâd yr ymadrodd *ar gŵyr*, cf. GGLI 13.21–4 *Gwn na wnaeth, gwae ni neithiwyd, / Peintiwr balch ar galch neu gwŷr, / Llun gŵr, a'i roi'n llawn o ged, / Na delw cyn brydoled*.
- 7 **iustus** Gwasanaethodd Robert Salbri yn ustus siroedd Meirionnydd a Dinbych yn 1543, gw. JPWM 37, 54.
- 11 **o dair rhodd** Cf. y modd y rhestrir rhinweddau Siôn Games yn 53.49–52.
- 14 Bai caled a meddal d = t.
- 20 **siryf** Dewiswyd Robert Salbri yn siryf Meirion yn 1543 ac yn siryf Dinbych yn 1545, gw. LSEW 251, 260.
- 31 **ystiward** Ym mis Medi 1533, penodwyd Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, a Phirs Salbri (ynghyd â'i fab, Robert) yn gyd-stiwardiaid arglwyddiaeth Rhuthun o dan Harri, Iarll Caerwrangon, gw. Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales Part 2: The Welsh offices held by Henry Earl of Worcester (1526–1549)', B xxi (1964–6), 74.
- 33 Cyfatebiaeth nt = nd o dan yr acen, ond y gyfatebiaeth yn rheolaidd yn ail fraich y cwpled. Sylwer ar ddarlleniad llsgr. A a cf. 85.54 lle y ceir yr un gyfatebiaeth. Gw. ymhellach 20.37n.
- 34 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 55.
- 42–6 **Catrin ... / ... / ... Llŷn** Merch Siôn ap Madog ap Hywel ap Madog o Fodfel yn Llŷn oedd gwraig Robert Salbri, gw. WG2 808. Canodd y bardd Lewys Daron i'w thad ac i'w brawd, gw. GLD cerddi 1–3.
- 51 **barwn ... hen daid** Arddelai arglwyddi Edeirnion a Dinmael, sef disgynyddion Owain Brogyntyn, y teitl 'barwniaid', gw. A.D. Carr, 'An aristocracy in decline: the native Welsh lords after the Edwardian conquest', Cylchg HC v (1970–1), 103–29 (tt. 110–11). Prynodd Robert Salbri arglwyddiaeth Glyndyfrdwy yn 1549, a gellid dadlau mai dyma gefndir llau. 51–6, gw. W. Nigel Yeates, *Rug Chapel, Llangar Church, Gwydir Uchaf Chapel* (Cadw, Cardiff, 1993), 10–11 (cf. ByCy 845 ond gthg. ByCyAt 159 lle y mynnir

mai Siôn, mab Robert, a'i prynodd), ond yn ôl tystiolaeth ll. 32, canwyd y cywydd yn ystod teyrnasiad Harri VIII. Yr oedd yr arglwyddiaeth yn rhan o etifeddiaeth Owain Glyndŵr. Egyr Gruffudd Hiraethog ei farwnad i Robert trwy ei alw yn *eurgledd glain arglwydd Glyn*, gw. GGH 90.2, ac nid annichon mai Glyndŵr yw'r *hen daid* (ll. 51), a cf. y cyfeiriadau at *Owain Hen*. Gallai Robert arddel cyswllt â'r tywysog trwy ei fam, Marged, merch Ieuan ap Hywel ap Rhys. Gwraig Ieuan oedd Gwenhwyfar, ac yr oedd ei thaid hi, Gruffudd, yn briod â Lowri, nith Glyndŵr, gw. WG1 32, 727; WG2 1416.

52 Bai crych a llyfn, ond mai'r gytsain *f* a gamleolwyd: f.rd = frd.

59 **rhoist dadl** Enghraifft o galedu, gw. Treigladau 192 a cf. 85.64, ond gthg. 66.49n.

Cyfatebiaeth -st d- = st.

62 **ysgwïer well** Ar y treiglad, gw. 1.43n.

#### 84

Awdl foliant i Domas Mostyn ap Rhisiart ap Hywel ab Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda, gw. WG1 882; WG2 1683–4; PACF 182–3; L. Dwnn: HV ii, 308; ByCy 633–5. Daeth pum plas a thiroedd mewn pedair sir yng ngogledd Cymru yn eiddo i'r teulu, sef Pengwern yn Nanheudwy, Trecastell a Thregarnedd ym Môn, Mostyn yn Nhegeingl a Gloddaith yng nghwmwd Creuddyn. Cyfres o briodasau doeth a unodd yr ystadau hyn, ynghyd â rhai digwyddiadau annisgwyl eraill. Gwelodd Gruffudd ap Rhys ap Gruffudd, penteulu Tregarnedd a Gloddaith, bla yn medi saith o'i blant, ac o ganlyniad, etifeddwyd yr ystad gan ei ferch, Marged, yr unig blentyn a oroesodd y trychineb. Rhisiart, mab Marged a Hywel ab Ieuan Fychan, oedd y cyntaf i berchenogi'r pum plas, a'i fab a'i etifedd yntau, Tomas, gwrthrych yr awdl hon, oedd y cyntaf i'w hetifeddu yn eu crynswth, gw. A.D. Carr, 'The making of the Mostyns: the genesis of a landed family', THSC, 1979, 137–58. Ceir arolwg o'r canu i'r teulu sy'n dechrau gydag Ieuan Fychan ab Ieuan, un o noddwyr Guto'r Glyn, yn R. Alun Charles, 'Teulu Mostyn fel noddwyr y beirdd', LICy ix (1966–7), 74–110. Yr oedd Rhisiart ap Hywel yn un o gomisiynwyr yr eisteddfod gyntaf a gynhaliwyd yng Nghaerwys yn 1523. Canwyd awdlau a chywyddau i Domas Mostyn gan Lewys Morgannwg, Gruffudd Hiraethog, Simwnt Fychan, Siôn Brwynog a Lewys ab Edward.

Bu farw Rhisiart ap Hywel yn 1540 a'i fab, Tomas, yn 1558. Canwyd yr awdl rhwng 1540 a 1547 (dengys y deisyfiad yn ll. 48 fod Harri VIII ar yr orsedd adeg canu'r awdl).

*Y mesurau*

- 1–44 Cyfres o naw englyn unodl union a dau englyn proest.
- 45–76 Cyfres o doddeidiau.
- 1 **Rhodri Mawr** Cyfeirir yn fynych at y tri mab a etifeddodd diroedd Rhodri, gw. 4.38n. Enwir tri o feibion Rhisiart ap Hywel yn PACF a L. Dwinn: HV, ond diau mai'r awgrym yma yw fod holl eiddo'r teulu wedi dod i ddwylo Tomas Mostyn yn union fel yr oedd Cymru benbaladr o dan reolaeth Rhodri Mawr yn y 9g.
- Gan fod *R* y llsg. yn gallu cynrychioli *rh*, cadwyd y gysefin, ond gan fod enghreifftiau o dreiglo'r e.p. mewn ymadroddion genidol, gellid *tri chawr Rodri* a *tai Ronwen* (ll. 11), *mab Risiart* (ll. 13), *llew Risiart* (ll. 55).
- 8 *n wreiddgoll*.
- 12 **Tomas ... Mostyn** Ymddengys mai Tomas oedd yr aelod cyntaf i fabwysiadu'r cyfenw 'Mostyn', a gwnaeth hynny, yn ôl y sôn, ar gais Rowland Lee, Llywydd Cyngor y Gororau.
- 13 **Rhun Bras ... Baladr** Yr oedd Rhun Paladr Bras yn un o frenhinoedd cynnar Prydain, gw. BD 25; 4.52n. Ond enwir Beli yn ail l. yr englyn; yr oedd Rhun mab Beli yn un o dri rhuddfoawg Ynys Prydain, gw. TYP<sup>2</sup> 35.
- 16 **Herbart** Gw. 84.18n isod.
- 17 **tri Edwart Drydydd** Deisyfir i Siân gael bywyd hir cyhyd â thair oes Edward III. Bu ef yn teyrnasu am hanner canrif rhwng 1327 a 1377.
- 18 **Siân Gruffudd** Priododd Tomas â Siân, merch Syr Wiliam Gruffudd a Siân Stradling o'r Penrhyn. Ar gyswllt teulu'r Penrhyn â'r Herbertiaid (ll. 16), gw. nodyn brig cerdd 88. Ar gyfer Rhisiart, mab Siân a Thomas, y lluniodd Gruffudd Hiraethog ei gasgliad 'Lloegr Drigiant ...', a thelir teyrnged hael i Siân yn y rhagair i'r gwaith hwnnw, gw. D.J. Bowen 'Siân Mostyn, "Yr orav o'r mamav ar sydd yn traythv iaith Gamberaeg"', YB xvi (1990), 111–26; hefyd 71.67n.
- 24 **llew ... llewes** Am enghreifftiau eraill o gyfosod enwau g. a b. ar greaduriaid wrth annerch gŵr a gwraig, cf. 77.39–40 (*llew / llewes*), 85.23–4 (*griffwn / griffes*).
- 25–8 **Gloddaith ... / ... / ... Bengwern** Dau o'r plasau a oedd ym meddiant y teulu, gw. y nodyn brig.
- 30 **difylch** *Di + bylch* (ffurf l. *bwlch*), gw. GPC 352–3.
- 34 **iustus** Bu Tomas yn gwasanaethu ar y fainc yn sir y Fflint rhwng 1543 a 1558, gw. JPWM 92–3.

- 37–8 Y cyrch ac ail ran y paladr yn odli, a rhaid, felly, wrth y ffurf lafar *gadel*. Digwydd y ffurf lafar hon yn safle'r odl ar dri achlysur arall, gw. 46.69, 90.5, 105.21.
- 42 **teirsir Môn** Diau mai tri chantref Môn, sef Cemaes, Rhosyr ac Aberffraw, a olygir wrth *teirsir Môn*, gw. WATU 6, 233.
- 44 **Is Conwy** Fe'i trinnir yn wahanol wrth ei gynganeddu yn y ll. sy'n dilyn. Ceir yma gyfatebiaeth reolaidd -g -h- = (-s) c-, ond yn ll. 45 -s c- = sg.
- 45 **esgynnawdr** Cynhelir yr odl -*awdr* yn ail ran yr awdl (llau. 45–76), fel y gwnaeth Einion Offeiriad yn llinellau cyntaf ei awdl foliant i Syr Rhys ap Gruffudd (GEO 1.1–10), a bathodd y bardd nifer o eiriau pwrpasol trwy ychwanegu'r terfyniad hwn at enwau (teyrnas, heddwch), berfau (cosbi, amddiffyn) ac ansoddeiriau (campus, llwyddianus). Ni restrir y ffurfiau *tyrnasawdr*, *campusawdr*, *rhysawdr*, *cosbawdr*, *gostyngawdr*, *byddinawdr*, *cynheiliawdr*, *Croesawdr*, *llwyddianusawdr*, *amddiffynnawdr* yn GPC.
- 47 **Anarawd** Gw. 4.38n. Enghraifft arall o odl gudd yn un o awdlau Lewys Morgannwg, a cf. ll. 63.
- 50 Nid atebir yr *s* sy'n rhagflaenu'r acen yn rhan gyntaf y ll., ond atebir y gytsain honno o dan yr acen. Gellid cryfhau'r ll. o ddiwygio > *Un tēyrn oesoedd, ein teyrnasawdr*.
- 55–6 **llew ... rampant, / ... llew pasant** Gwelid 'On a mount Vert a lion rampant Or' ar frig tarian y Mostyniaid, gw. DWH ii, 406–7. Arwydd Llywelyn Eurdorchog oedd y llew pasant, gw. DWH ii, 339, ac ymgorfforid ei arwydd ef yn arfbais y teulu. Yr oedd y llewpart hefyd yn arwydd a arddelai Llywelyn.
- 55 **rhysawdr** Fe'i ffurfiwyd o fôn yr e. *rhyswr* 'arwr, pencampwr', gw. GPC 3143.
- 57 **Ysbwys** Dywedir ei fod ef a'i dad ymhlith dilynwyr Emrys Wledig ac Uthr Bendragon pan ddychwelasant i Brydain i hawlio eu teyrnas, gw. WCD 649.
- 59–60 **llai drethwyr ... / Llai drais** Ar y treigladd yn y cyfuniadau hyn, gw. 1.18n.
- 63 **Rhuon** Enwir Rhufon Hir yn y Gododdin *ruuawn hir ef rodei eur e allawr. / a chet a choelwein kein y gerdawr*, gw. CA llau. 378–9. Posibilrwydd arall yw fod yma gyfeiriad at fab Cunedda Wledig; dywedir mai ef a roes ei enw i Rufoniog, gw. WCD 560. Enwir Rhufon Befr yn y Trioedd, gw. TYP<sup>2</sup> 500; WCD 560–1, ac ymddengys mai ei enw ef a goffeir yn un o Englynion y Beddau. Y mae'r hyn a awgrymir yn y fan honno am 'brofi barddrin' (*neum duc i elffin i prow i vy bartrin*, gw. LIDC 18.127) yn ddadlennol o

ystyried yr hyn a awgryma Lewys am *barddawd Rhuon* yma.

- 75 **oesawdr** Cynigir dwy ystyr yn betrus yn GPC 2627–8, sef ‘un sy’n rhoddi bywyd’ a ‘un sy’n byw’. Yr ail sy’n gweddu yma, a chyfetyb y gair felly o ran ei ystyr i *oeswr*, gw. 3.40n.

## 85

Cywydd moliant i Huw Conwy Fychan, mab Rheinallt ap Huw Conwy Hen ap Robin ap Gruffudd Goch ... Marchudd, gw. WG1 689; WG2 1309–10; PACF 290; L. Dwnn: HV ii, 340. Trigai'r teulu ym Mryneuryn yn Llandrillo-yn-Rhos, a Huw Conwy Fychan a etifeddodd y cartref wedi marwolaeth ei dad. Yng nghywydd moliant Tudur Aled i dad Huw Conwy y digwydd y cwpled adnabyddus *Ysbys y dengys pob dyn / O ba radd y bo'i wreiddyn*, gw. TA XXXI.21–1 (ond gw. hefyd *ib. cerdd CLVIII*).

- 11 *r* berfeddgoll, ond ceid cynghanedd reolaidd o ddilyn darlleniad llsgr. B.
- 12 **gwaed Iarddur** Mallt, merch Wiliam ap Gruffudd ap Robin o Gwchwillan, oedd gwraig gyntaf Rheinallt Conwy, a mam Huw Conwy Fychan. Priododd Robin ag Angharad, merch Rhys ap Gruffudd o lwyth Iarddur, gw. WG1 530; WG2 1270.
- 14 **[dy] daid Wiliam** Gw. uchod.
- 18 **Einion** Gw. 86.16n.
- 20 **Salbriaid** Elisabeth, merch Tomas Salbri Hen, oedd gwraig Huw Conwy Hen.
- 26 **Meistres Elen** Ail wraig Huw Conwy Fychan (ond y gyntaf yn ôl PACF) oedd Elin, merch Syr Wiliam Gruffudd a Siân Stradling o'r Penrhyn, gw. WG2 1268.
- 28 **[y] ddau farchawg** Syr Wiliam Gruffudd a Syr Tomas Stradling, Sain Dunwyd, tad Siân Stradling.
- 29 **Ystanlai** Gw. 88.32n.  
**tri Wiliam** Gw. 87.11–12n.
- 32 **Dâm Siân ... Dâm Sioned** Siân Stradling, gwraig Syr Wiliam Gruffudd, a Sioned Mathau, ei mam. Cyfosodir y ddwy ar achlysuron eraill, gw. 70.44n.
- 34 *n* wreiddgoll a thrachefn yn llau. 35, 60.
- 35–6 **Nith Harri ... / ... Syr Edwart** Ar y cyswllt rhwng y Stradlingiaid a'r goron, ac yn fwy penodol rhwng Syr Edward Stradling, hendaidd Siân Stradling, a Harri Sant, sef y brenin Harri VI, ac un o ddisgynyddion John o Gaunt, gw. 1.59n. Nid yn llsgr. B y digwydd

y testun gorau, ond efallai fod y darlleniad a welir yno yn ymgais i gyfleu'r enw Harri Geint (< Gaunt).

- 54 Cyfatebiaeth nt = nd, ond sylwer ar y ffurf *rend* yn llsgr. B, a cf. 83.33n.
- 60 *n* wreiddgoll.
- 64 **ni wnaud dyddiau** Cf. 83.59n.
- 70 **cawr** Dyma'r arwydd a welid ar arfbais y teulu, gw. DWH ii, 82.
- 71 **Caergyffin** Tref Conwy. Yn y cywydd a ganwyd i foli'r dref a'i chwrrw, fe'i disgrifiwyd yn *cain winllan Conwy wenllwyd / Caer gwin oi ffen Gyffin wyd*, gw. Llst 125, 263; GIBH 4.39–40n.

## 86

Moliant Wiliam ap Wiliam ap Gruffudd ap Robin o Gwchwillan, gw. WG2 1270–1; PACF 186; L. Dwnn: HV ii, 86; ByCyAt 171–3. Bu farw Wiliam ap Gruffudd yn 1500, a chanodd Lewys Daron farwnad iddo, gw. GLD cerdd 8. Bu Wiliam ap Wiliam yn siryf Arfon ar dri achlysur, yn 1541, 1546 ac yn 1552, gw. LSEW 248, ond ni chyfeiria Lewys Morgannwg yn benodol at hynny, yn wahanol i Ruffudd Hiraethog, gw. GGH 11.65–7 *Gair y tad i'w gwrw wedi, / A swydd y tad sydd i ti. / Pen-siryf wyd pan sorrynt.*

- 1 **[y] llechwedd** Cyfeiriad, o bosibl, at gantref Arllechwedd. Ym mhlwyf Llanllechid yn Arllechwedd Uchaf y saif Cwchwillan, gw. WATU 7.
- 3 **helm** A cf. ll. 41 isod *helmed dur*. Gwelid ar arfbais Ednyfed Fychan dri phen Sais yr honnid iddo eu lladd mewn brwydr, ond tair helm a ddarlunnid ar arfau rhai o'i ddisgynyddion, gw. DWH ii, 129–30, 594.
- 9–10 **pump henwaed, / ... pymtheg gwaed** Awgrymir bod gan Wiliam gyswllt gwaed â phum tywysoglwyrth Cymru, gw. 4.48n, ac â phymtheg llwyth Gwynedd.
- 12 **Ednyfed** Perthynai teulu Cwchwillan a theulu'r Penrhyn i'r un cyff ac olrheinient eu hachau hyd at Ednyfed Fychan, gw. nodyn brig cerdd 87.
- 14 **twysogwaed** Priododd Syr Tudur ab Ednyfed Fychan ag un o ddisgynyddion Gruffudd ap Cynan, gw. WG1 443–4, a phriodasai Ednyfed ag un o ferched yr Arglwydd Rhys, gw. WG1 671. Ond y mae'n bosibl hefyd mai cyfeiriad sydd yma at Harri Tudur gan ei fod yntau yn perthyn i gyff Ednyfed Fychan. Posibilrwydd arall, gyda golwg ar gynnwys y cwpled sy'n dilyn, yw mai Owain Glyn-dŵr sydd dan sylw. Gallai Wiliam ap Wiliam ymgysylltu ag ef trwy

ei fam, Angharad, gw. WG1 727–8; WG2 1418.

15 [y] **Glyn** Glyndyfrwy o bosibl, cf. 83.52.

**hyd ar** Ymadrodd sy'n cyfleu'r un ystyr â 'hyd at', gw. GPC 1949.

16 **Einion** Anodd bod yn sicr ynghylch y cyndad hwn gan nad yw'r enw yn digwydd wrth ddilyn yr ach o dad i dad. Yr oedd gwraig Heilin ap Syr Tudur ab Ednyfed Fychan yn ferch i Einion Wyddel, gw. WG1 671–2, ond tebycach mai Dafydd ab Ieuan ab Einion o'r Cryniarth sydd dan sylw, sef tad Angharad a briododd â Wiliam ap Gruffudd o Gwchwillan (a gw. ymhellach l. 44 isod). Fe'i henwir drachefn mewn cywydd i Huw Conwy Fychan, gw. 85.18 (yr oedd Maltt, mam Huw Conwy Fychan, yn chwaer i wrthrych y cywydd hwn), a gwelir ei enwi hefyd, ynghyd â ffigurau eraill y gellid arddel cyswllt â hwy trwy briodas, yng nghywydd Lewys Daron i Wiliam ap Wiliam, gw. GLD 9.35n.

17 **amlach win** Treiglir yr e. sy'n dilyn *mwy* a *llai* yn rheolaidd yn y canu, gw. 1.18n, ond dyma un o'r ychydig enghreifftiau o e. yn treiglo yn dilyn a.cmhr.

18 *n* wreiddgoll neu gyfatebiaeth *n* = *ng*.

22 **Mawns** Digwydd yr e. yng ngwaith Guto'r Glyn, gw. GGI<sup>2</sup> III.22, ac ar sawl achlysur yng nghanu Owain ab y Moel. Awgrymodd Eurys Rolant y gallai fod yn ffurf ar yr e. *Le Mans*, sef prifddinas talaith Maine, neu yn ffurf ar *Manche*, sef *département* yn Normandi, gw. GOLIM 7.10n.

23 *n* berfeddgoll.

25 **Edyrn** Dyma'r unig gyfeiriad yn y canu at y cymeriad hwn. Enwir pum Edern (Edyrn) yn G 438, sef Edern ap Nudd, Edern ap Padarn Beisrydd, Edern ap Cunedda, Edern Sant ac Edern Dafod Aur.

26 **Lowri** Merch Harri Salbri (fe'i gelwid hefyd yn Harri Fychan ac yn Harri Goch) ap Tomas Salbri Hen oedd gwraig Wiliam, gw. WG2 1576; PACF 222.

29 **mam** Mam Lowri oedd Marged, merch ac etifeddes Gruffudd ap Rhys ap Gruffudd ap Madog Gloddaith, gw. WG1 649 a nodyn brig cerdd 84. Ei hail wŷr oedd Harri Salbri. Hywel ab Ieuan Fychan, Pengwern, oedd ei gŵr cyntaf.

31 **Owain Hen** Yr oedd Owain Hen yn un o ddisgynyddion Owain Brogyntyn, gw. WG1 47, 49. Nid oedd gan deulu Gloddaith, na'r Salbriaid ychwaith, gyswllt ag ef ond gallai Angharad, mam Wiliam, arddel cyswllt gwaed ag Owain Brogyntyn. Priododd ei thaid, Ieuan ab Einion, ag Angharad, merch Dafydd ab y Giwn Llwyd ... Owain Brogyntyn, gw. WG1 53–4. Posibilrwydd arall yw fod yma gyfeiriad at Owain Glyndŵr, a cf. ll. 14n uchod. Yr oedd

Marged, gwraig Dafydd ab Ieuan ab Einion, yn ferch i Siôn ap Robert Pilstwn, ac yr oedd Robert Pilstwn yn briod â Lowri, chwaer Glyndŵr, gw. WG1 32, 741. At hyn, gallai Marged, mam Lowri Salbri, arddel cyswllt â Glyndŵr trwy ei gŵr cyntaf. Yr oedd hen daid Hywel ab Ieuan Fychan, sef Adda ab Iorwerth, yn briod ag un o chwirydd Glyndŵr, gw. WG1 32; PACF 182. Am enghreifftiau eraill o'r a. *hen* mewn perthynas ag Owain Glyndŵr, gw. 57.47n.

44 [y] **Gïwn Llwyd** Diwygiwyd darlleniad y llsg. gan farnu bod yma gyfeiriad at un o hynafiaid Angharad, gwraig Wiliam ap Gruffudd ap Robin, gw. 86.31n uchod. Am gyfeiriad arall ato mewn cywydd i Wiliam ap Wiliam, gw. GGH 11.20.

47 *n* wreiddgoll.

49 *r* berfeddgoll.

57 Y mae'n bosibl y dylid ailadrodd *saf ... sefy* fel yn 85.15.

67 Cyfatebiaeth -d h- = -d.

69 **rhod ... ffortun** Synnid am Ffortun yn fath o dduwies yn yr Oesoedd Canol, gw. DMA 5, 145–7. Fe'i darlunnid yn aml a chorn llawnder yn ei llaw chwith a byddai yn troi olwyn, sef rhod ffortun. Am enghreifftiau eraill o'r ymadrodd, gw. GPC 3084, a gw. hefyd yr Eirfa d.g. *ffortun, hap, lot*. Awgryma mynychder y cyfeiriadau yn y canu fod y cysyniad yn un byw iawn i Lewys a'i gynulleidfa. Fel arfer rhennid rhod ffortun yn bedair adran. Weithiau darlunnid pedwar brenin, un yn rheoli (ar y brig), un a fuasai yn rheoli (ar y dde), un a gollasai ei eiddo a'i deyrnas (ar y gwaelod), ac un ar ymgodi (ar y chwith), a gw. y llun yn DMA 12, 751. Mynegir yr un syniad yn y cywydd tra adnabyddus a ganodd Tudur Aled i gymodi Hwmffre ap Hywel a'i geraint, gw. TA LXVI.97–108 *Mae llun rhod i'm llaw yn rhol / ... / Heddwch ... / Cyfoeth yw a fag hefyd; / Cyfoeth ... a fag rhyfel; / Rhyfel a fag ... / Tlodi, ... / Tlodi ... / ... a fag heddwch*. Gw. hefyd LIGC 3022D [= Mos 55], 11 *llyma val y mae yn kanly Rohd y ffortyn wedy i ffruto ai gwnaethyr trwy gelfyddyd a rheswn pethagros wrth yr hon y gellwch wybod pob peth ar a aller i ofyn*.

76 **set ar dennis** Gw. 76.54n.

Mab i Syr Wiliam Gruffudd Hen ap Wiliam Gruffudd Fychan ap Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym ... Syr Tudur ab Ednyfed Fychan oedd Syr Wiliam Gruffudd, a bu'n siambrlen Gwynedd rhwng 1508 a blwyddyn ei farw yn



1531 (ac eithrio un ysbaid yn 1509), gw. WG1 673; WG2 1265, 1267–8; PACF 184–5; L. Dwnn: HV ii, 167; ByCyAt 95–8. Yn rhinwedd ei swydd meddai ar gryn ddylanwad ym Môn ac Arfon a Meirion, gw. S.J. Gunn, ‘The regime of Charles, Duke of Suffolk, in North Wales and the reform of Welsh government, 1509–25’, *Cylchg HC xii* (1984–5), 461–94 (tt. 470–8). Yr oedd yn un o noddwyr amlycaf Gwynedd yn chwarter cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Canodd Tudur Aled a Lewys Môn iddo ar sawl achlysur, ac ymwelodd nifer o feirdd llai adnabyddus megis Lewys Daron, Mathau Brwmffild a Huw ap Dafydd â’i gartref yn y Penrhyn. Trafodir y canu i’w hynafiaid gan D.J. Bowen, ‘Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o’r Penrhyn a’i fab Gwilym Fychan (m. 1483)’, *Dwned*, 8 (2002), 59–78, a rhoddir sylw i’r canu i Syr Wiliam Gruffudd a’i ddisgynyddion yn *id.*, ‘Y canu i deulu’r Penrhyn o gyfnod y Tuduriaid hyd 1628’, *Dwned*, 9 (2003), 91–107.

Rhaid cyfrif y cywydd hwn ymhlith gweithiau cynharaf Lewys Morgannwg. Fe’i canwyd yn ystod oes Siân Stradling, gwraig gyntaf Syr Wiliam Gruffudd. Ni wyddys pa bryd yn union y bu farw Siân; bu iddi hi a’i gŵr ddeuddeg o blant a bu i Wiliam a Siân Pilstwn, ei ail wraig, bump o blant. Bu farw Robert ap Maredudd, gŵr cyntaf Siân Pilstwn, tua 1509, a chyn ei farw yn 1527 cafodd Lewys Môn achlysur i ddatlu uniad Siân Pilstwn a Wiliam Gruffudd.

- 1 **Sedd** Gellid yr e.c. *sedd*, gw. 74.1n.
- 3 *fled-lafarog*.
- 4 **Wmbrland** Digwydd *Hwmbrlond* mewn ll. nid annhebyg o’r eiddo Lewys Daron, gw. GLD 11.8 *Siambrlen, hyd Fars, Hwmbrlond fych*. Ond *Northumberland* yw’r unig ffurf S. gydnabyddedig, gw. Eilert Ekwall, *The Concise Oxford Dictionary of English Place-names* (Oxford, 1970), 344; OED<sup>2</sup> x, 525 d.g. *Northumbrian*.
- 5 **aer Elen** Gw. 3.34n, 27.44n.
- 6 Digwydd yr un ll. mewn cywydd o waith Siôn Tudur i Syr Rhys Gruffudd, mab Syr Wiliam Gruffudd, gw. GST 86.12.
- 8 **aur am eich glin** Gw. 2.3n.
- 10 Cyfatebiaeth -s t- = st.
- 11–12 **Tri enw ... / Ti yw’r ail o’r tri Wiliam** Gwrthrych y cywydd oedd y trydydd Wiliam gan mai Wiliam oedd ei dad a’i daid o’i flaen, ond dau o’r tri a urddwyd yn farchogion, sef y Wiliam a gyfarchodd Lewys Morgannwg, a’i dad, gw. Eurys I. Rowlands, ‘Tri Wiliam Gruffudd’, *LlCy* ii (1952–3), 256–7.
- 18 **Iestyn wlad** Gw. 1.66n.  
Deusill yw *aml* yn y ll. hon.

Cyfatebiaeth  $n = m$ , neu  $n$  ac  $m$  berfeddgoll.

- 20 **Siân Arglwyddes Sioned** Gwraig gyntaf Syr Wiliam Gruffudd oedd Siân Stradling, merch Tomas ap Harri ab Edward, a chwaer Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd, gw. WG2 1621–2 a cherddi 1–2. Ei mam oedd Sioned, merch Tomas Mathau o Radur. Marwnadwyd Siân gan Dudur Aled, Lewys Môn a Lewys Daron (gw. TA cerdd XI; GLM cerdd XL; GLD cerdd 10), ac, o bosibl gan Lewys Morgannwg yntau, gw. cerdd 88.
- 24 **nith Harri Sant** Gw. 1.59n.
- 27 **Cing Siôn** Yr oedd Harri Sant yn disgyn yn uniongyrchol o'r brenin John a fu'n teyrnasu rhwng 1199 a 1216.
- 31–2 **Tair talaith ... / Tair gwledd** Yr oedd teirsir Gwynedd o dan awdurdod Syr Wiliam Gruffudd yn rhinwedd ei swydd, yn union fel y bu tair teyrnas yng Nghymru o dan awdurdod Rhodri Mawr, gw. 4.38n. Crybwyllir tair gwledd mewn cywydd o waith Dafydd Nanmor i Rys ap Maredudd o'r Tywyn, sef Iesu yn porthi'r pum mil, gwledd Arthur yng Nghaerllion a gweledd Caswallon yng Nghaer-ludd, gw. DN I.13–20, ond ymddengys mai gwleddoedd Arthur, Caswallon a Merwydd oedd y *Tair Gwledd Anfeidrol a fu yn Ynys Brydain*, gw. TYP<sup>2</sup> 223–5; GO XXIX.19–24. Geilw P.C. Bartrum sylw at driawd diweddarach sy'n enwi gwleddoedd Arthur a Chaswallon drachefn ynghyd â gwledd Emrys Wledig wedi iddo orchfygu'r Saeson, gw. *Études* xii (1968–71), 190.
- 32 Diwygiwyd *mae it* y llsgr. > *maent yt*. Diwygiad dichonadwy arall fyddai > *maint*: *Tair gwledd maint yt, arglwydd, Môn*. Credid bod digon o *ÿd* ym Môn i gynnal Cymru gyfan am flwyddyn gron, gw. GSH 14.33n.
- 38  $n$  wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 66, 67.
- 40 Bai crych a llyfn, ond efallai fod y ll. yn llwgr; rhaid cyfrif *seipr* yn air deusill.
- 41–2 Gellid tybio bod y cwpled hwn hefyd yn llwgr fel y saif. Nid oes cynghanedd ym mraich gyntaf y cwpled ac anodd amgyffred ystyr yr a. *di-dal*. Diwygiwyd *gadr* ll. 42 > *gwydr*, a rhaid ei gyfrif yn air deusill.
- 53  $m$  berfeddgoll.
- 56 **mwsgedau** Gallai fod yn ffurf l. *mwsged* 'gwn llaw', gw. GPC 2513, ond gan fod y bardd yn crybwyll y gwalch yn y ll. flaenorol, tebycach mai'r aderyn *musket* 'the male of the sparrowhawk' sydd yma, gw. OED<sup>2</sup> x, 132 a GPC 2497 d.g. *mosgat*<sup>1</sup>. Diwygiwyd *i'w mysg* > *i'ch mysg*. Mwsgedau yw'r llu ochr yn ochr â Syr Wiliam (y gwalch).

- 59 **lle'r âi i ynys** Cymerodd Wiliam Gruffudd ran yng nghyrch Harri VIII yn erbyn Ffrainc yn y flwyddyn 1513, ac fe'i hurddwyd yn farchog yn Nhwrnai ar 25 Medi y flwyddyn honno, gw. Eurys I. Rowlands, 'Terwyn a Thwrnai', Cylch LIGC ix (1955-6), 295-300.
- 68 **gŵr well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.

## 88

Dyma'r unig gerdd yr erys peth ansicrwydd ynghylch y sawl a gyferchir ynddi. *Marwnod yr Arglwyddes Siân* yw hon yn ôl y pennawd yn yr unig lawysgrif, a gallai fod yn farwnad, felly, naill ai i Siân Stradling, gwraig Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn (gwrthrych cerdd 87) a mam Edward a Rhys Gruffudd (gwrthrych cywyddau 89-90) neu i Siân Gruffudd, chwaer Syr Wiliam Gruffudd a gwraig Syr Wiliam Herbert, Colbrwg (gwrthrych cerdd 34). Rhoddir y cywydd yn Lewys Morgannwg: Gw i Siân Stradling ac ni fynegwyd unrhyw amheuoyn ynghylch y priodoliad hwnnw.

Rhaid derbyn bod hwn yn gywydd cynnar os canwyd ef i Siân Stradling, ond gwyddys ei bod hi yn fyw pan gyfarchodd Lewys ei gŵr, ac, yn wir, rhoddwyd cryn sylw iddi yn y cywydd hwnnw, gw. 87.15-30. Bu farw Syr Wiliam Herbert, Colbrwg, yn 1534 neu yn 1535. Yr oedd ef yn fab i Syr Rhisiart Herbert ap Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas, gw. WG1 425; WG2 785. Siân Gruffudd oedd ei wraig gyntaf, ac awgrymir iddi farw yn 1505 neu yn 1506, gw. W.R.B. Robinson, 'The marriages of knighted Welsh landowners, 1485-1558', Cylch LIGC xxv (1987-8), 387-98 (td. 395). Os felly rhaid derbyn nad cywydd iddi hi yw hwn.

Sail yr ansicrwydd yw'r cyfeiriadau achyddol yn y cywydd. Y mae sawl cyfeiriad sy'n ddilys o safbwynt y naill Siân a'r llall; yr oedd gan y ddwy, er enghraifft, fab o'r enw Wiliam. Ar y llaw arall nid oes modd esbonio'r holl gyfeiriadau yn foddhaol ni waeth pa un o'r ddwy wraig a gyferchir. Cysylltiadau teuluol Siân Stradling sy'n esbonio'r cyfeiriadau at *wyr Iarll Harbard* (ll. 8) ac at *wyr Wiliam / ..y Marchog Cam* (llau. 33-4). Merch Tomas Stradling ap Syr Harri ap Syr Edward oedd Siân, gw. WG2 1622. Priododd ei thaid ag Elisabeth, merch Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went, sef chwaer Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. WG1 425. Ond nid oedd gan Siân Stradling, yn wahanol i Siân Gruffudd, gyswllt â [g]waed *Gwilym* ac *edn Gruffudd* (llau. 17, 19) ac nid oedd ganddi *Ystanlai waed* (ll. 32) yn ei gwythiennau. Gallai Siân Stradling arddel cyswllt trwy ei thad â'r goron ac ymhyfydir o'r herwydd ar achlysuron eraill, gw. 1.59n. Y mae'n wir fod Siân Gruffudd yn perthyn i gyff Ednyfed Fychan, hynafiaid y Tuduriaid, ond rhaid cydnabod nad yw'r cyswllt brenhinol yn cael ei bwysleisio yn y cerddi niferus a ganwyd i Syr Wiliam Gruffudd, y Penrhyn. Yr oedd Siân Stradling eto, drwy ei thad, yn *wyr marchog call*, / ..ac *wyr marchog arall* (llau. 9-10) ac felly Siân Gruffudd, ond rhaid dilyn yr ach o ochr y

gwragedd yn ei hachos hi.

Yn rhyfedd iawn nid enwir y gŵr gweddw yn y farwnad. Yr oedd gan Siân Gruffudd fab o'r enw Wiliam ond Rhys oedd yr etifedd a rhyfedd, felly, fyddai i'r bardd enwi Wiliam yn hytrach na'i frawd. Bu i Syr Wiliam Gruffudd a Siân Stradling ddeuddeg plentyn: pedwar mab ac wyth merch. Wiliam oedd y mab hynaf ond nodir yn WG2 1268 a PACF 185 iddo farw yn ifanc. Er nad yw hynny'n arferol, ymddengys i'r bardd—ac yntau yn ŵr ifanc ei hun—lunio marwnad er dyhuddiant i'r mab yn hytrach nag i'r tad gweddw. Fodd bynnag, gelwir yr etifedd hwnnw yn *Harbart ifanc* (ll. 46). Gweddai'r disgrifiad pe bai'r mab dan sylw yn fab i Syr Wiliam Herbert, Colbrwg, ond y mae'n arwyddocaol fod Lewys yn pwysleisio'r cyswllt gwaed â Wiliam Herbert, Iarll Penfro (trwy eu mam Siân Stradling) yn y cerddi i Edward a Rhys Gruffudd (gw. 89.31 a 90.28 yn benodol) a gallai'r *Harbart ifanc*, felly, fod yn gyfeiriad at Wiliam Gruffudd (ifanc). Gwelir y bardd Mathau Brwmffild yn gwneud rhywbeth tebyg yn ei gerddi yntau i deulu'r Penrhyn. Canodd i Syr Wiliam Gruffudd ac i'w fab, Edward, ond rhoes gryn sylw i gysylltiadau'r teulu â llinach y Pilstyniaid—Siân Pilstwn oedd ail wraig Syr Wiliam Gruffudd, gw. GMBr cerddi 4–5.

- 1 **Y ferch âi ... freichiau'r Grog** Ar y gystrawen, gw. 34.65n.
- 4 **Marsia** Unwaith yn unig yr enwir hi gan Dudur Aled a chan Lewys Môn, ond yn ddiddorol iawn Siân Stradling sydd dan sylw ar y ddau achlysur hynny, gw. TA XI.34; GLM XXXIII.22. Prawf llau. Lewys Môn ei fod yn gyfarwydd â'r traddodiad am Farsia fel un a luniodd gyfreithiau yn y Brut, gw. BD 40–1 a GLM XXXIII.21–4 *Coeliais i wraig Cuhelyn: / Marsia ddoeth, Gymraes oedd ynn: / cyfraith ein holl iaith yn llwyr / a droes honno drwy synnwyr*. Unwaith y crybwyllir ei henw gan Lewys Glyn Cothi hefyd, a hynny mewn cywydd marwnad i Wladus Gam, gw. GLGC 110.15–16, ac efallai nad cyd-ddigwyddiad yw fod Lewys Morgannwg yntau yn galw Gwladus Gam yn Marsia wrth gyfeirio ati mewn cywydd arall, gw. 35.10n. Am gyswllt Gwladus Gam â Siân Stradling, gw. ll. 34 isod.
- 5 **mam** Yr oedd Sioned Mathau, mam Siân Stradling, yn dal yn fyw pan fu farw ei merch, fel y tystia Lewys Môn a Lewys Daron yn eu marwnadau i Siân Stradling, gw. GLM XL.33–4; GLD 10.35–6. Ond ystyrllon hefyd fyddai 'mae hiraeth [am] fam'.
- 6 **Maestr Wiliam** Mab Siân Stradling, nid ei gŵr. Yr oedd ei gŵr wedi ei urddo yn farchog yn 1513, cyn i Siân farw.
- 8 **ŵyr** 'Wyres', ond fe'i defnyddir yn llac yma.
- 9–10 **ŵyr marchog ... / ... ac ŵyr marchog arall** Gw. y nodyn brig.
- 13 Camosodiad d.n = n.d.
- 14 **anrhaith** 'Trysor, cyfoeth' yw *anrhaith* yn y cyd-destun hwn, gw.

GPC 153.

- 15 **digoll** Cynigir yr ystyron ‘di-fai; perffaith’ yn GPC 998 ond disgwyliid treigladd pe bai’r a. yn goleddfu’r e.p. *Tegau*. Ymhlith yr ystyron eraill a gynigir y mae ‘heb goll, di-feth’ a phriodol yr ystyron hynny o’u cysylltu â’r e.c. *angau* (er bod y ddeuair wedi eu gwahanu yn y ll.): ‘Angau difeth yn llwybr Tegau’.
- 16 **o i wrth Dduw** Gw. 41.44n a cf. 67.47 *Arthur ef âi o i wrthynt*.
- 17–19 **gwaed Gwilym; / ... / ... edn Gruffudd** Yr oedd sawl Gwilym a sawl Gruffudd ymhlith hynafiaid Syr Wiliam Gruffudd, a cf. hefyd y cyfeiriad yn ll. 32 at *Ystanlai waed*. Yr oedd un Gwilym ymhlith cyndeidiau Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas, sef ei daid, Gwilym ap Siancyn, gw. WG1 419.
- 24 **Ednyfed** Gw. nodyn brig cerdd 87.
- 31 **brenhinwaed** Gw. 1.59n, 87.24n.  
*n* berfeddgoll.
- 32 **Ystanlai** Gwraig gyntaf Syr Wiliam Gruffudd Hen (gw. nodyn brig cerdd 87) oedd Siân, merch William Troutbeck a Margaret a oedd yn chwaer i Syr Thomas Stanley. Ail wraig ei daid, Gwilym ap Gruffudd, oedd Sioned, merch Syr William Stanley o Hooton.
- 34 **y Marchog Cam** Priododd Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas (ll. 33), â Gwladus Gam.
- 38 **dros Deau** Trafodir y calediad yn 11.37n.
- 39–40 Ailadroddir y cwpled yn y cywydd marwnad i Syr Rhisiart Herbert, gw. 76.51–2.
- 44 **Arglwydd Môn** Tybed a oes yma awgrym fod Siân Stradling yn perthyn i’r un cyff â’r Tuduriaid coronog? Gw. 1.59n.
- 48 **chweched** Gan fod y bardd yn mynd rhagddo yn y cwpled sy’n dilyn i restru’r chwe Wiliam a oedd ymhlith hynafiaid y mab, tri o du ei dad a thri o du ei fam, rhaid mai ‘chwech’ yw ystyr *chweched* yma.
- 49 **tri o Wynedd** Gw. 87.11–12n.
- 50 **tri o Went** Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas, ei fab, Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a mab hwnnw, Wiliam Herbert, Iarll Huntingdon. Am gyfeiriadau eraill at y tri hyn, gw. ymhellach 43.17n, 45.25.

Mab ac etifedd Syr Wiliam Gruffudd o’r Penrhyn oedd Edward. Canwyd y cywydd rhwng mis Gorffennaf 1531 pan fu farw Syr Wiliam Gruffudd a

1540. Bu farw Edward ar 11 Mawrth y flwyddyn honno ac yntau ar y pryd yn Nulyn ac ar gyrch milwrol, gw. ByCyAt 98. Ar y cyfeiriadau achyddol yn y cywydd, gw. cerdd 87 uchod. Canodd Mathau Brwmffild awdl foliant i Edward yn fuan wedi marw ei dad, gw. GMBr cerdd 5.

- 6 Cyfatebiaeth st = -s t-.
- 8 [y] **Tri Edwart** Gw. 1.59n.
- 9 [y] **cwncwerwr Cam** Dafydd Gam, gw. 8.20n, 88.34n.
- 15–16 **Pum llin ... brenhinllwyth, / ... pymtheg llwyth** Gw. 86.9–10n.
- 17 **tair helmed Ednyfed** Gw. 86.3n. Disgrifir arfau teulu'r Penrhyn yn DWH ii, 180–2.
- 21–2 Ailadroddwyd y cwpled mewn cywydd arall, gw. 50.19–20.
- 26 **Lloegr a Ffrainc** Cyfeiriad at uniad Owain Tudur â Catherine o Valois, gweddwr'r brenin Harri V, a phriodas eu mab, Edmwnd, â Margaret Beaufort. Gallai Edward Gruffudd arddel cyswllt â'r goron trwy'r Stradlingiaid, gw. 1.59n., trwy'r Tuduriaid, a thrwy'r Stanleiod. Priododd Syr Wiliam Gruffudd Hen â Siân, merch William Troutbeck a Margaret, chwaer Syr Thomas Stanley, Iarll Derby, gw. WG2 1267.
- 30 **cawg aur** Gallai fod yn gyfeiriad at chwedl 'Iarlles y Ffynnon', gw. 65.14n.
- 32 **ba waed ... well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 36 **hendad y Trwyndwn** Gruffudd ap Cynan oedd taid Iorwerth Drwyndwn.
- 37 **'mwichiai** Dilynwyd darlleniad llsgrau. Llywelyn Siôn gan farnu bod *ymwichio* 'rhoi sgrech (mewn ofn neu ddigofaint)' yn fwy ystyrion nag *ymwychio*.
- 39 **Harri Mwnt** Gw. 98.1n.
- 51 **eddi** 'Top neu bennau edafedd a adewir ar y gwŷdd wedi torri ymaith y we, ymylwaith neu odre addurnol o edafedd', gw. GPC 1169. Topos cyffredin yn y canu defodol yw cyferbynnu cryfder a chadernid y noddwr â gwendid pob un arall. Cf. llau. 63–6.
- 54 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 55, 67.
- 59–61 **Trychan tarian ... / Trychan cledd ... / Trychan gwayw** Gellir bod yn bur sicr fod Lewys yn adleisio rhan o'r testun 'Bonedd Gwŷr y Gogledd'. Yno sonnir am *Trychan cledyf Kynuerchyn a thrychan ysgwynt* [= tarian] *Kynnw[y]dyon a thrycha[n] wayw Coeling; pa neges bynhac yd elynt iddi yn duun, nyt amethei hon honno*, gw. EWGT 73.
- 64 *n berfeddgoll*.

- 72 **moes dis** Trafodir y caledu sy'n digwydd yma yn 6.5n.
- 75 Deusill yw *bwrw* yn y ll. hon.
- 78 **gwitia** Y f. *cwitia* sydd yma yn ôl Lewys Morgannwg: Gw 865 (ac am enghreifftiau eraill o'r ffurf yng nghanu Lewys, gw. yr Eirfa; GPC 639; EEW 138), ond y f. *gwaetio*, *gwaitio* o'r S. (*to*) *wait* sy'n gweddu orau yn y cyd-destun, gw. GPC 1623; EEW 194.
- 80 **pan yw'r un** Ar y gystrawen, gw. GMW 80; GPC 2678. Diau fod y gystrawen yn ddieithr i'r rhan fwyaf o'r copïwyr a'u hymgais i gynnig darlenniad ystyrllon sy'n esbonio *paen yw*... .

## 90

Mab arall i Syr Wiliam Gruffudd, siambrlen Gwynedd, a Siân Stradling, a brawd Edward Gruffudd, gw. cerddi 87–9. Bu cryn ymrafael rhwng Rhys a Siôn Pilstwn, tad yng nghyfraith Edward a gwrthrych cerdd 91 isod, ynghylch yr etifeddiaeth yn dilyn marwolaeth annhymig ei frawd yn 1540, gw. ByCyAt 98. Urddwyd Rhys yn farchog ym mis Chwefror 1547, gw. KWL 288, a phrawf y deisyfiad yn llau. 65–6 fod rhaid dyddio'r cywydd cyn y flwyddyn honno.

- 2 **llew gwyn** Tair helm oedd arwydd herodrol teulu'r Penrhyn, gw. 86.3n, a diau mai bwriad y bardd oedd pwysleisio'r cyswllt â'r Herbertiaid gan mai llew gwyn oedd eu harwydd hwy, gw. DWH ii, 225–6 a cf. 42.8.
- 3–4 **Emrys. / ... Uthr** Meibion Custennin Fendigaid. Wedi i'r Saeson ladd Emrys Wledig trwy ei wenwyno, coronwyd ei frawd, Uthr Pendragon, yn frenin, gw. BD 86; TYP<sup>2</sup> 314–15.
- 5 **gadel** Am enghreifftiau eraill o'r ffurf lafar hon yn safle'r odl, gw. 84.37–8n.
- 7 **Edwart** Brawd Rhys Gruffudd, a gwrthrych moliant cerdd 89 uchod.
- 8 **y ddwy wart** Cf. y modd y disgrifir Siôn Pilstwn yn *dwbl wart cwnstabl wyd* yn 91.12. Rhennid castell Caernarfon yn ddwy wart a oedd wedi eu gwahanu yn wreiddiol. Lleolwyd y wart uchaf ar safle'r castell 'motte and bailey' a godwyd gan Hugh o Avranches, Iarll Caer, tua diwedd yr 11g., gw. A.J. Taylor, *Caernarfon Castle* (Cardiff, 1986), 2–7.
- 12 *r* berfeddgoll. Ceir enghraifft arall yn ll. 43.
- 15 [**y**] **ddau Wiliam** Gw. nodyn brig cerdd 87.
- 17 **can hoës** Y mae'r gynghanedd yn gryfach gan fod yr anadliad

caled yn digwydd o dan yr acen yn neupen y ll. Ar y treigladd trwynol yn dilyn *pum, ugain, cant*, gw. Treigladdau 137.

20 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 24.

30 *r* wreiddgoll.

33 Diau mai gwall am *syr* yw *Rys* y llsg., er bod y diwygiad yn esgor ar l. y ceir ynddi gamosodiad r.s = s.r.r.

35 Diwygiwyd y ll. gan ei bod sillaf yn fyr.

37 Y mae'n bur sicr fod y ll. hon yn llwgr.

43 **ius** Gwelir enw Rhys ar restr ustusiaid Arfon yn 1543, gw. JPWM 17.

**waets** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *waetsio* 'cadw golwg ar, cymryd gofal' a fenthyciwyd o'r S. (*to*) *watch*, gw. GPC 3729.

44 Cyfatebiaeth -s t- = st.

46 **cadwr** Diwygiwyd y ll. a mabwysiadwyd y gair hwn am ei fod yn digwydd yn y cywydd sy'n dilyn, gw. 91.14n.

49 **aber Trin** Ymddengys nad ffurf ar Tren, sef Afon Tern yn swydd Amwythig, gw. CLIH 74–5, yw *Trin*. Egyr 'Brut y Saeson' gyda disgrifiad o'r modd y rhannwyd Prydain yn saith brenhiniaeth yn dilyn marwolaeth Cadwaladr, a *Chechet* [*sic*] *vu oswalt brenhin y r-ng trin a thued*, gw. RB 385. Yn yr un testun, sonnir am frenin yr Alban yn gwrhau i frenin Lloegr *yny castell newyd ar drin*, gw. *ib.* 402. Afon Tyne sydd dan sylw a gellid tybio bod Lewys Morgannwg yn gyfarwydd â'r ffurf. Sylwer ei fod yn enwi gwŷr teyrnas Brynaich yn yr un cwpled.

51–2 **y mur ... / ... fu 'n y North** Gw. 63.57n.

53–62 Mydryddir hanes un o anturiaethau Arthur yn 'Chwedl y Greal' yn y llau. hyn. Daeth Arthur at lannerch, *Ac ar draws y fford yr eit yr llannerch yr oed barr o seilderw kadarn*. Yna lladdodd farchog du er bod gwaywffon hwnnw yn llosgi. Anafwyd Arthur yn ei fraich ond defnyddiodd y forwyn y cyfarfuasai â hi waed o ben y marchog a laddwyd i'w wella, gw. *Y Seint Greal*, ed. Robert Williams (London, 1876), 180–8. Awgrymir bod Rhys, yntau, a'i deulu wedi derbyn ergyd yn dilyn marwolaeth Edward Gruffudd ond y daw adferiad maes o law.

56 **arch** Nid yw *march* y llsg. yn ystyrllon gan nad oes sôn am Arthur yn lladd march y marchog du, a diwygiwyd felly > *arch* 'canol corff, ystlys, mynwes', gw. GPC 179. Gellid hefyd *Er gwayw o dân marchog du*.

59 **pryderwch** I Lewys Morgannwg y priodolir yr enghraifft gynharaf o'r gair yn GPC 2917. Rhoddir iddo'r ystyrllon 'pryder, gofid'.



- 61 **dwyn iarllles** Ceid gwell ystyr o ddiwygio > *Dwyn i iarllles*, ond rhoddai hyn l. ac ynddi ormod o sillafau oni chaniateir ceseilio.
- 64 Rhaid acennu *goruwch* yn ddiacen er mwyn sicrhau cynghanedd reolaidd. Digwydd y gair ar achlysuron eraill ond nid yw'r gynghanedd yn pennu'r aceniad.
- 68 **Rhys ... well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.

## 91

Yr oedd Siôn Pilstwn yn fab i Siôn Pilstwn Hen ap Siôn ap Madog ap Robert ap Rhisiart ap Syr Rhosier Pilstwn, gw. WG2 1454; PACF 275; L. Dwnn: HV ii, 150–1; hefyd ByCyAt 148–50. Fel yn achos cynifer o uchelwyr eraill, gallai Siôn ymfalchïo ar gyfrif lluo o gysylltiadau a grewyd â theuluoedd eraill trwy gyfres o briodasau dros sawl cenhedlaeth. Priododd Sioned, merch Siôn Pilstwn, ag Edward Gruffudd o'r Penrhyn, gwrthrych cerdd 89.

Cyfeirir yn y cywydd at dair o swyddi Siôn; dywedir ei fod yn sarsiant (ll. 6), yn gwnstabl (ll. 12) ac yn siryf (ll. 23). Olynodd Siôn ei dad yn gwnstabl Caernarfon yn 1523. Yr oedd yn siryf Arfon yn 1543–4, ac efallai iddo dderbyn yr anrhydedd hwn ynghynt; fe'i gelwir yn *Siryf ... Arfon* yn y cywydd moliant a ganodd Lewys Daron (*fl.* 1495–1530) iddo, gw. GLD cerdd 12 a'r awgrym yno mai gwrthrych y cywydd hwn oedd y Siôn Pilstwn a oedd yn siryf Meirion yn 1533 a thrachefn yn 1536, swydd y cyfeiria Mathau Brwmffild ati, gw. GMBr 6.19–20. Canwyd y cywydd cyn dyrchafu Siôn yn farchog. Cafodd yr anrhydedd hwnnw ryw bum mlynedd neu chwe blynedd cyn ei farw. Fe'i gwnaed yn farchog rhwng diwedd 1545 a dechrau 1546 a bu farw rhwng 14 Ionawr a 27 Chwefror 1551, gw. KWL 288. Mydryddwyd blwyddyn ei farw yn y farwnad a ganodd Siôn Brwynog iddo, gw. Siôn Brwynog: C XLI.63–6.

Ei wraig gyntaf oedd Gaenor, merch Robert ap Maredudd o Lynllifon. Fe'i henwir yn y cywyddau a ganodd Lewys Daron a Mathau Brwmffild i Siôn Pilstwn, gw. GLD cerdd 12; GMBr cerdd 6, ond er bod Lewys Morgannwg ran fynychaf yn crybwyll gwragedd ei noddwyr, ni wna hynny y tro hwn. Tybed a ganwyd y cywydd wedi marw Gaenor a chyn i Siôn briodi ei ail wraig, Sioned, merch Maredudd ab Ieuan o'r Gesailgyfarch? Y mae'n bosibl hefyd fod rhan o'r cywydd wedi ei golli, gw. 91.25–6n isod.

- 9 **mainc** Bu Siôn yn eistedd ar y fainc yn 1543, gw. JPWM 17.
- 11 **tŵr Edwart** 'Castell Caernarfon'. Gorchmynnodd Edward I godi cestyll yng Nghaernarfon, Conwy a Harlech, a dechreuwyd ar y gwaith adeiladu o fewn misoedd i farwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf.

- 12 **dwbl wart** Gw. 90.8n.
- 14 **cadwr** Gallai fod yn un o ddau air; naill ai i. ‘rhyfelwr, milwr, ymladdwr’ (< bôn *cad*); neu ii. ‘ceidwad, gwarchodwr’ (< bôn *cadw*). I ddechrau’r 17g. y perthyn yr enghraifft gynharaf o’r ail yn GPC 380. Gallai fod yn e.p. hefyd; enwir *Kadwr Iarll Kernyw* ymhlith pedwar marchog ar hugain Arthur, gw. L. Dwnn: HV i, 10; WCD 85.
- 17 *n wreiddgoll*.
- 17–18 **dau gawrfaich / Well** Gw. 1.43n.
- 21 Cynganedd lusg sydd yn y ll. hon. Gellid cynganedd sain o newid y ddwy brif odl yn y cwpled: *Fal clod Lawnslod neu Alâth, / Pr Gronford ‘f â’r gwÿr unfath*.
- 25–6 Diau fod y testun yn ddiffygiol yn y fan hon, a bod dechrau a diwedd dau gwpled annibynnol wedi eu cyfuno trwy ryw amryfusedd. Y mae’r odl *tir / brenin* yn wallus, a cheir hefyd yn ll. 25 y bai gormodd odlau gan fod dau air acennog, y naill yn safle’r orffwysfa (*hir*) a’r llall yn safle’r brifodl (*tir*), yn odli, gw. J. Morris-Jones: CD 300–1.
- 27 **Maelawr** Pan ddaeth y Pilstyniaid i Gymru gyntaf yn Emral ym Maelor Saesneg yr ymsefydlasant. Cyn diwedd y 15g. yr oedd cangen o’r teulu yn Hafod-y-wern yn ardal Wrecsam.
- 30 Cyfatebiaeth -sg g- = -s..g.
- 32 **Elystan** Nid yw’r cyswllt hwn yn amlwg, ac nid enwir Elystan Glodrydd yn y ddau gywydd a ganodd Mathau Brwmffild i Siôn ac i’w frawd, Siôn Pilstwn Tir Môn, er ei fod yn rhoi cryn sylw i achau’r Pilstyniaid yn y cerddi hynny, gw. GMBr cerddi 6–7. Priododd Robert, un o gyndeidiau Elin Chwitnai (gw. isod), ag Angharad, merch Madog ab Ieuan Goch ... Elystan Glodrydd, gw. WG1 400; WG2 720.
- 33 **Llinwent** Ar y cyswllt hwn, gw. GMBr 4.41n.
- 35–6 **Tomas ... / ... Roeser** Priododd Siôn Pilstwn Hen ag Elin, merch Robert Chwitnai (ll. 40). Gwraig gyntaf Robert oedd Constans, merch Arglwydd Awdlai (ll. 39), ond nid hi oedd mam Elin. Merch o ail briodas Robert ag Elisabeth, merch Tomas Fychan o Hergest ap Syr Rhosier Fychan ap Rhosier Hen ... Moreiddig Warwyn, oedd Elin. Gw. ymhellach GMBr cerddi 4–7.
- 42 **Dafydd Gam** Gwraig Syr Rhosier Fychan oedd Gwladus Gam, merch Dafydd Gam, gw. WG1 242–3; CLC<sup>2</sup> 159.
- 48 **Addaf** Cyndad dynolryw. Cyfeirir yn y Trioedd at ei gadernid, at ei brydferthwch, ac at ei ddoethineb, gw. TYP<sup>2</sup> 122–8. Ond nid

annichon mai cyfeiriad at Adda Goch ab Ieuan ab Adda o Drefor sydd yma. Priododd Madog Pilstwn, gw. yr ach uchod, ag un o'i ddisgynyddion, gw. WG1 824, 872.

- 50 **a fu erioed fwy** Am enghreifftiau o dreiglo ac o gadw'r gysefin yn dilyn *erioed*, gw. 1.43n.
- 51–4 **Corinéus ... / ... / Gŵr a fwriai ... / Gawr ... i'r môr** Gw. 70.80n.
- 52 **bwyall dau** Barnwyd yn Lewys Morgannwg: Gw 952 mai'r rhif. a oedd yma yn hytrach na'r rh. meddiannol 2 un., a'i fod yn disgrifio arf Corineus, sef *bwyall deuuinyavc, ac a honno y gvahanei a gyuarffei ac ef o warthaf y ben hyt yg guadyn y droet*, gw. BD 16.  
Cyfatebiaeth caled a meddal d = t.

## 92

Syr Rhisiart Bwclai, mab Rolant ap Wiliam, a gyferchir yn y cywydd hwn. Gwelir ei ach yn WG2 289; PACF 42; L. Dwinn: HV ii, 134. Teulu a hanai yn wreiddiol o swydd Gaer oedd y Bwcleiod. Wiliam Bwclai, taid Syr Rhisiart, oedd yr aelod cyntaf i ymsefydlu ym Môn, ac ym Miwmares, a hynny tua chanol y bymthegfed ganrif. Ceir peth o hanes y teulu yn D. Cyril Jones, 'The Bulkeleyes of Beaumaris, 1440–1547', TCHNM, 1961, 1–20; ByCy 51–2. Bu farw Rhisiart Bwclai ar 26 Ionawr 1547, gw. KWL 287.

- 2 **marchog** Urddwyd Rhisiart Bwclai yn farchog yn 1533 yn dilyn coronni Ann Boleyn, gw. LPFD vi, cofnod 279; KWL 287. Ymddengys mai yn fuan wedi ei urddo y canwyd y cywydd. Fodd bynnag, rhoddir teitl marchog i'r Rhisiart Bwclai a benodwyd yn siryf Arfon yn 1527, gw. LSEW 248.
- 4 **siambrlen** Penodwyd Henry Norres yn siambrlen Gogledd Cymru yn dilyn marwolaeth Syr Wiliam Gruffudd yn 1531, a dewiswyd Rhisiart Bwclai yn ddirprwy iddo. Daeth Rhisiart ei hun yn siambrlen yn 1536.
- 5 Cyfunwyd darlenniadau llsgrau. A ac C, ond rhaid oedd cyfrif *Glath* yn unsill.
- 8 **Bwclai** Diwygiwyd *Bwlclai* llsgrau. AB er mwyn osgoi'r bai twyll gynghanedd, a mabwysiadwyd y ffurf *Bwclai* sy'n digwydd yn ll. 38 isod.
- 9–10 **Tri phen ... / Teirw gwnion** Arwydd herodrol y Bwcleiod, gw. DWH ii, 51. Agorodd Syr Dafydd Trefor ei gywydd cymod i Risiart Bwclai, ewythr y gŵr y canodd Lewys Morgannwg iddo, gyda'r ddau gwpled *Y teirw teg y tre tad / A all ddal yr holl ddwywlad, / Teirw a'u tynn at ryw y taid, / Tew rychorion tyrch euraid*, gw.

Irene George, 'The poems of Syr Dafydd Trefor', TCHNM, 1935, 98.

- 10 **dros tir** Trafodir y calediad yn 11.37n.
- 11–12 **Ednyfed ... / ... Wilym** Elin, merch Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym o lwyth Ednyfed Fychan (sef hynafiaid Syr Wiliam Gruffudd, siambrlen Gwynedd, gw. ll. 20n), oedd nain Syr Rhisiart Bwclai, gw. WG1 673.
- 18 **hyd Dydd** Ar y calediad yn dilyn *hyd*, gw. 7.44n.
- 20 **Catrin** Gwraig Rhisiart Bwclai a merch Syr Wiliam Gruffudd a Siân Stradling o'r Penrhyn.
- 22 **dau Syr Wiliam** Syr Wiliam Gruffudd a'i dad, gw. KWL 288 a nodyn brig cerdd 87.
- 24–6 **Dâm Siân ... / ... / ... Ystradling** Mam Catrin. Ar ei chyswllt ag Iarll Herbert (ll. 28), sef Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. nodyn brig cerdd 88.
- 35 *n* wreiddgoll.
- 35–6 **o fin / Well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 38 Cymerir bod y rh.bl. 3 ll. yn cyfeirio at '[bobl] Gwynedd' ac, o bosibl, at '[bobl] Lloegr a'i brenin' y cwpled blaenorol.
- 39 *r* berfeddgoll.
- 39–40 **Cadw'r gaer ... / ... o gylch môr Môn** Tybed a wyddai Lewys am y modd y rhwystrodd Wiliam Bwclai, cwnstabl Biwmares, a thaid Rhisiart, Risiart Dug Iorc rhag glanio ym Môn er mwyn ymuno â llu Iarll Warwig mewn cyrch yn erbyn Harri VI? Gw. L. Dwinn: HV ii, 134n.
- 41 **wyth gwlad** Am enghraifft arall o'r gysefin yn dilyn y rhif. *wyth*, gw. 78.38n.
- 45 Bai crych a llyfn.
- 51 **diwredd** 'Trwbl neu helynt enbyd'. I'r 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir yn GPC 1060. Awgrymwyd diwygio > *band di-wraidd* yn Lewys Morgannwg: Gw 874. Dewis arall fyddai diwygio > *darwedd* 'bwrlwm, llif; berwi, tywallt', gw. GPC 899.
- 59 Twyll gynghanedd *ch*. Efallai y dylid diwygio > *a'th epil*.
- 68 Cf. y ll. *mor lân gorff â'r merliwn gwyllt* yn GIF 16.56. Y mae ll. gyntaf y cwpled yn bur debyg i l. arall yn yr un cywydd o waith Iorwerth Fynglwyd, sef 16.61 *mawr ach gad marchog ydwyd*. Ymddengys fod y ll. o'r eiddo Iorwerth yn llwgr, ac am enghraifft arall o bosibl o fersiwn gywirach o un o linellau'r bardd hwnnw yng nghanu Lewys, gw. 67.64n.
- 73 **mordraeth gastell** Disgrifiad o gastell Biwmares. Penodwyd

Rhisiart yn gwnstabl y castell yn 1536, gw. D. Cyril Jones, 'The Bulkeleyes of Beaumaris, 1440–1547', TCHNM, 1961, 11.

- 76 Diwygiwyd *siambrlen* y llsgrau. er mwyn osgoi'r bai twyll gynghanedd. Digwydd *siamrlen* yn y canu ar achlysur arall, gw. yr Eirfa.

## 93

Canodd naw bardd gywyddau marwnad i goffâu Tudur Aled, gw. TA 725–52; hefyd GHD cerdd 15, GLD cerdd 25, GLM cerdd XCI, GSH cerdd 11, GSC cerdd 45, GILIV cerdd VII, LICy xvii (1992–3), 117–18 (Morys Gethin), PFTA cerdd 6 (Raff ap Robert). Dangosant mai yng Nghaerfyrddin y diweddodd y bardd ei oes, ac ymddengys iddo deithio i'r De er mwyn ymweld â'i noddwr pwysicaf, Syr Rhys ap Tomas. Sylwodd T. Gwynn Jones fod dwy o'r marwnadau yn cynnig gwybodaeth ynghylch adeg marw'r bardd, gw. TA xlv–xlvi. Syr Rhys ap Tomas a fu farw gyntaf yn ôl tystiolaeth ddiamwys Lewys Daron: *Duw'n unawr dwyn ei enaid / At Syr Rhys eto sy rhaid*, gw. GLD 25.81–2, ond barnai T. Gwynn Jones fod marwnad Lewys Morgannwg, a llau. 57–64 yn benodol (er nad yw rhediad yr ystyr mor glir ag y dymunid), yn tanseilio honiad ei gyd-fardd, gw. isod. Lluniodd Syr Rhys ei ewyllys ar 3 Chwefror 1524, a bu farw flwyddyn yn ddiweddarach ar 9 Chwefror 1525, gw. 63.75n; R.A. Griffiths: RhT 77. Erbyn Awst 22, yr oedd Water Defras, Arglwydd Fferes, wedi olynu Syr Rhys yn brif ustus siroedd Caerfyrddin a Cheredigion, gw. *op.cit.* 88. Os dilys tystiolaeth Lewys Daron, bu farw Tudur rywbryd ar ôl haf 1525 a chyn 1527 pan fu farw un o'i farwnadwyr, sef Lewys Môn, gw. GLM xi; 1527 yw'r dyddiad a gynigir gan Eurys Rowlands yn ei astudiaeth 'Tudur Aled', GWL ii, 322–37 (td. 322). Yn rhyfedd, nid oes ar glawr farwnad o waith Tudur i'w hen noddwr. Gallai hynny awgrymu mai Tudur a fu farw gyntaf, ond fel y sylwodd T. Gwynn Jones, 'ni byddai hynny ynddo'i hun yn ddigon o brawf farw Rhys o'i flaen', gw. TA xlv.

Cyhoeddwyd testun o'r farwnad yn TA atodiad V. Megis yn achos y marwnadau eraill a olygwyd gan T. Gwynn Jones, cynnwys y testun nifer o ddarlleniadau nad oes iddynt unrhyw warant lawysgrifol, ac ni chyfetyb trefn y llinellau ychwaith i'r hyn sydd yn y ffynonellau a archwiliwyd: ymddengys mai'r golygydd ei hun a newidiodd drefn llau. 17–18. Serch hynny, mabwysiadwyd dau o'r darlleniadau sy'n digwydd yn nhestun TA, sef *afar adfyd* (ll. 15 am *af ar adfyd* y llsgrau.) a *brain gwyarfaeth* (ll. 62; *brain Gwy arfaeth* yn y llsgrau.).

2 **y pen pres** Gw. 24.12n.

- 3–4 **Taliesin, / Pair awen** Y Cynfardd o'r 6g., gw. CLC<sup>2</sup> 694–5. Yn ôl 'Chwedl Taliesin', trawsnewidiwyd Gwion Bach yn fardd wedi iddo yfed y tri diferyn a ddaeth o bair Ceridwen, y wrach, ac wedi

cyfres o anturiaethau fe'i ganed a'i fedyddio yn Taliesin, gw. TYP<sup>2</sup> 509–11.

- 12 **hyd Dydd Brawd** Ar y calediad gw. 7.44n.
- 16 **y ch bôn** ‘Rhoid yr ychen cadarnaf ym môn y wedd bob amser am mai arnynt hwy y disgynnai baich y gwaith wrth nesáu at y dalar’, gw. Ffransis G. Payne, “‘Cwysau o Foliant Cyson’”, *Cwysau* (Llandysul, 1980), 7–29 (td. 10), a’r drafodaeth ar swyddogaeth yr ych yn y gymdeithas amaethyddol, tt. 8–13. Trosiadau eraill sy’n seiliedig ar yr un gweithgarwch yw *rhychor bôn* (12.25n) a *tywarchawr* (4.39n). Ond darllenwyd *ych ban* yn Lewys Morgannwg: Gw 707 gan dybio mai cyfeiriad at y ddau ych y deisyfir eu cymorth yn chwedl ‘Culhwch ac Olwen’ oedd yma. Nid amhriodol hynny o gofio i Lewys Môn ei gyffelybu ef ei hun a Thudur i’r ddau ych chwedlonol, gw. GLM XCI.5–6 *Y glêr hwnt a’n galwai rhawg— / och finnau—’r ddau Ých Fannawg*.
- 25–8 **Prydferw ... prydffawr ... / ... / Prydfardd ... / Prydlwybr** Gallai’r elfen gyntaf yn y cyfansoddeiriau gyfleu’r ystyr ‘prydferthwch, tegwch’ neu ‘cyfansoddiad awenyddol’, gw. GPC 2915–16 d.g. *pryd<sup>2</sup> a prydu*.
- 30 **bardd cadeiriawg** Geilw’r marwnadwyr eraill Dudur yn gadeir-fardd, gw. TA xxxvi–xxxviii.
- 40 *n wreiddgoll*. Felly hefyd yn llau. 41, 42, 58.
- 41 Cyfatebiaeth -sg g- = sg.
- 61–2 Gw. 4.110n.
- 63–4 Gellir dehongli’r cwpled dadlennol hwn mewn dwy ffordd. Fel hyn yr atalnodwyd y llau. yn TA: *Arwydd ymlaen marw blaenawr / Farw un o feirdd y Frân fawr*, sef ‘Yr oedd marw un o feirdd y frân fawr [= Tudur Aled] yn arwydd a ragflaenodd farwolaeth blaenor [= Syr Rhys]’. O atalnodi fel y gwnaed yn y testun a gynigir yma, yr ystyr yw ‘Arwydd ymlaen llaw [oedd hynny y byddai] un o feirdd y frân fawr yn marw [= Tudur Aled] [oherwydd] marw ei arglwydd [= Syr Rhys]’. Digwydd yr un cwpled yn union yn y farwnad a ganodd Iorwerth Fynglwyd i Wiliam Egwad, gw. GIF 30.31–2. Gwyddys i Wiliam Egwad farwnadu Syr Gruffudd ap Rhys, mab Syr Rhys ap Tomas (m. 1521). Dehongla E.I. Rowlands y cwpled fel y gwnaeth T. Gwynn Jones, ond sylwa hefyd fod y cwpled sy’n dilyn yn awgrymu mai Syr Rhys a fu farw yn gyntaf (neu, o leiaf, yr oedd wedi marw erbyn i Iorwerth lunio ei farwnad), gw. GIF 30.33–4 *Mae’n anodd byw mewn ynys / mwy wers ar ôl marw Syr Rhys*.
- 67 **nid âi i gôr** Ar y gystrawen, gw. 34.65n.
- 68 **y brawd** Tybed a yw Lewys yma yn cyfarch un o frodyr y tŷ lle y

claddwyd Tudur?

71 Cyfatebiaeth caled a meddal t = d.

74 **Sain Ffrawnses** Yr oedd gan y Ffransisgiaid neu'r Brodyr Llwydion, dri thŷ yng Nghymru, yng Nghaerdydd, yng Nghaerfyrddin ac yn Llan-faes, gw. WCCR<sup>2</sup> 563. Sain Ffransis oedd sefydlydd yr urdd. Fe'i ganed yn Assisi yn 1182 ac yno y bu farw yn 1226. Disgwyliid i aelodau'r urdd ymwrthod â phob eiddo bydol a byw mewn tlodi, gw. NCE vi, 28–31; ODCC<sup>3</sup> 634–6. Claddwyd Tudur a Syr Rhys ap Tomas yn nhŷ'r Brodyr; gadawodd Syr Rhys #20 mewn arian parod yn ei ewyllys i'r sefydliad ac yr oedd hwnnw yn swm eithriadol yn y cyfnod, gw. WCCR<sup>2</sup> 356; R.A. Griffiths: RhT 77.

94

Yn ôl tystiolaeth Lewys Morgannwg yn y farwnad hon, bu farw Iorwerth Fynglwyd yn fuan ar ôl Lewys Môn. Bu farw Lewys yn abaty Glyn-y-groes yn y flwyddyn 1527, gw. CLC<sup>2</sup> 440; GLM xi–xii, a barnai E.I. Rowlands y gallai Iorwerth fod wedi marw yr un flwyddyn: 'Y mae'r dyddiad 1527 yn cytuno â dyddiadau cerddi Iorwerth Fynglwyd. Hyd y gellir barnu y maent oll wedi eu canu cyn 1527', gw. GIF 3.

Collwyd ambell lythyren ar ddechrau rhai o'r llau. yn llawysgrif E. Ychwanegwyd nifer o ddarlleniadau uwchben y llau. yn J, ac ni ddigwydd y rheini mewn unrhyw ffynhonnell arall. Cofnodwyd yr amrywiadau sy'n digwydd yn y testun gwreiddiol.

Cyhoeddwyd testun o'r farwnad yn GIF cerdd 45.

12 Rhaid cyfrif *ceidw* yn air deusill.

13 **Myrddin** Dadleuodd E.I. Rowlands mai Myrddin y Brut sydd dan sylw yn y fan hon yn hytrach na'r Cynfardd o'r 6g. (er ei bod yn arwyddocaol fod Lewys yn enwi Taliesin yn ll. 17, fel y gwnaeth yn ei farwnad i Dudur Aled, cf. 93.3), ac fe'i gelwir yn *fardd y frenhiniaeth* yn rhinwedd ei gyswllt â Gwrtheyrn, Emrys, Uthr ac Arthur, gw. BD 101–3, 125–9, 132–3, 137–40, 206. A barnu wrth y cerddi a ddiogelwyd, ni chanodd Iorwerth i'r goron, ac nid priodol, felly, ei alw ef yn *fardd y frenhiniaeth* (oni bai mai grym trosiadol sydd i'r sangiad) er y gweddai'r disgrifiad hwnnw o'i gymhwyso at Lewys ei hun.

15 **gofudion** Rhestrir y ffurfiau unigol *gofid* a *gofud* yn GPC 1430.

21–2 **Tydai ... / Tad Awen** Gw. 37.35n. Fe'i henwir yn fynych ym marwnadau'r beirdd i'w cyd-brydyddion, ond nid ymddengys fod Llywelyn Siôn yn gyfarwydd â'r enw, gw. yr Amrywiadau.

- 23–4 Cynullodd Iolo Morganwg liaws o gwpledi o ganu'r beirdd yn LIGC 13108B. Dyfynnir tri chwpled o'r farwnad hon, sef llau. 23–4 (td. 67), llau. 69–70 (td. 27), a llau. 67–70 (td. 195). Dyfynnir un cwpled arall nad yw'n digwydd mewn unrhyw gopi hysbys er gwaethaf honiad sicr Iolo 'Lewys Morganwg Md Iorwerth Fynglwyd', sef *Pensaer ein Iaith mewn gwaith gwawd / Paun Cadarn pennaig Ceudawd*, gw. td. 195.
- 24 **beirdd Tir Iarll** 'Ni ellir dywedyd dim yn bendant am draddodiad barddol y dalaith [Morgannwg] nes cyrraedd canol y bymthegfed ganrif, ac o'r cyfnod hwn ymlaen, gellir olrhain parhad y traddodiad hwnnw o genhedlaeth i genhedlaeth ... canolfan y bywyd llenyddol hwn ydoedd Tir Iarll', gw. TLIM 22.
- 29 Hepgorwyd y fannod sy'n digwydd yn yr holl destunau [ac eithrio G?] er mwyn osgoi'r *r* berfeddgoll.
- 36 **gosteg** 'Cyfres gysylltiedig o englynion, caniad o englynion, cerdd', gw. GPC 1514.
- 47 **digalonfyd** Diau mai eiliad o esgeulustod ar ran Llywelyn Siôn sy'n cyfrif am *digalonfyl* llsgr. E, ond gweddaï'r a. *digalon* + *mul* 'diniwed; llariaidd; trist; tawedog', gw. GPC 2501, yn y cyd-destun.
- 49 **Addaf** Nid y cymeriad beiblaidd, er bod hwnnw yn enwog am ei ddoethineb, gw. TYP<sup>2</sup> 128, ond yn hytrach Adda Fras, ffigwr annelwig ond un y coleddaï'r beirdd syniadau ffafriol am ei alluoedd awenyddol, gw. CLC<sup>2</sup> 8; 18.51n, a cf. marwnad Guto'r Glyn i Lywelyn ab y Moel: *Cafas yn nheml y cwfaint / Urddas Adda Fras, a'i fraint, / Y gŵr y sydd yn gorwedd / Dan allawr faenawr ei fedd*, gw. GGI<sup>2</sup> V.59–62. Yn llaw Iolo Morganwg ar ochr y ddalen yn llsgr. G y gwelir y ll. *Di-wisg heddiw dysg Addaf* a ymgorfforwyd yn nhestun GIF.
- Sylwer ar yr odl *di-wisg ... addysg*.
- 54 **di-ferw** Gallai *di-farw* sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. oleddfu Iorwerth y ll. flaenorol, ond ceid gwell synnwyr o dderbyn *di-ferw* gan fod yn llau. 47–56 gyfres o ansoddeiriau negyddol sy'n pwysleisio amddifadrwydd y gymuned farddol wedi marwolaeth Iorwerth Fynglwyd.
- 62 **Lewys Môn** Gw. y nodyn brig. A oes yma awgrym i Lewys Morgannwg ei farwnadu yntau?
- 66 **a'i iawn frawd** Diwygiwyd darlleniad yr holl llsgrau., a gwrthodwyd fersiwn GIF 45.65–6 *angau a'u dug yngod, wŷr, / o'u hiawn frawd, fy hen frodyr*, gan farnu bod y cwpled yn ategu'r ddau flaenorol: *Angau a'i dug* [Iorwerth] ... *a'i iawn frawd* [Lewys Môn].
- 74 **San Ffred** Arni gw. LBS i, 264–85. Dilynydd y diwygiad a gynig-



iwyd yn GIF 45.74. Dwg y cyfeiriad hwn i gof y cywydd a ganodd Iorwerth i'r santes Ffraid, gw. GIF cerdd 43.

## 95

Ceir trafodaeth werthfawr ar y cywyddau i delynorion ac ar y termau a oedd yn gysylltiedig â'u crefft megis *colofn* (ll. 46) a *clwm* (ll. 48) gan Enid Roberts, 'Marwnadau Telynorion', TCHSDd xv (1966), 80–117. Rhestrir enwau'r beirdd a'r cerddorion a raddiodd yn nwy eisteddfod Caerwys gan D.J. Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', LICy ii (1952–3), 129–34, ond ni ddisgwylid canfod enw Rhydderch yno gan mai gŵr o'r De oedd ef, a thelynor a gâi groeso yng nghartref Edward Stradling, yn Sain Dunwyd, gw. llau. 9–14. Ysgrifennodd Iolo Morgannwg ar ochr y ddalen yn llawysgrif G *Telynior Castell San Dunwyd oedd ef*.

- 7 Rhaid derbyn bod yr ardd. *ar* yn safle'r orffwysfa, cf. 4.21n.
- 10 [y] **carw gwyn** Gw. 2.20n.
- 13 **Syr Edwart** Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd, mab Tomas Stradling a gwrthrych awdl foliant a chywydd cymod o waith Lewys Morgannwg, gw. cerddi 1–2. Bu farw yn 1535, a chanwyd y cywydd cyn y flwyddyn honno.
- 14 **Ar ei frest dwyn d'arfau'r oedd** Diddorol yw'r awgrym fod arfbais Syr Edward ar wisg Rhydderch. Ceir awgrym cyffelyb yn y cywydd 'I ofyn telyn' a ganodd Syr Dafydd Trefor. Meddai hwnnw am Edward Sirc, *Aerwy sêr a roes Harri / A thwred aur i th war di*, gw. Rhiannon Ifans, "'Cainc Dafydd Broffwyd": cyfeiriad cynnar?', *Canu Gwerin*, xxvi (2003), 58–73.
- 18 *r wreiddgoll*.
- 20 **hyd Dydd Brawd** Ar y calediad yn yr ymadrodd hwn, gw. 7.44n.
- 22 **Brido** Telynor enwog yn ei ddydd, a barnu wrth y cyfeiriadau ato a'r modd y goroesodd ei enw, cf. GGI<sup>2</sup> CXII.58; GLGC 116.43, 136.38; GST 87.67.
- 26 **brywiog** I Lewys Morgannwg y perthyn yr unig enghraifft o'r gair a restrir yn GPC 342. Rhoddir iddo'r ystyrion 'bywiog, egnïol, cryf, grymus'.
- 27 **pryfiedydd** Yn GPC 2921, rhoddir yr ystyr 'profedig' i *pryfiedig* (bôn *pryfio* 'rhoi prawf o') a dyfynnir y cwpled hwn ar sail darlenniadau llsgrau. BD. Ni restrir *pryfiedydd* ond diau ei darddu yntau o'r un bôn. Efallai y dylid cysylltu'r gair â *profiad* 'term technegol yng nghyfundrefn cerdd dant', gw. GPC 2903–4 (a sylwer hefyd ar yr enghreifftiau a ddyfynnir). Rhestrir *pryfiedydd*

‘person neu beth sy’n rhoddi prawf (ar), archwiliwr’ yn GPC 2904, ond perthyn yr enghraifft gynharaf i ddiwedd y 18g.

- 32 **mwy gariad** Ar y treigladd yn yr ymadrodd hwn ac yn *mwy ddolur* ll. 60, gw. 1.18n.
- 33 **bwrddwn** Ffurf ar *byrdwn*, *bwrddwn* ‘yr islais a genir i gydfynd â’r alaw’, gw. GPC 365.
- 35–6 **Pedair camp ... / ... ar hugain** Digwydd un rhestr o’r pedair camp ar hugain yn llaw Gruffudd Hiraethog yn Pen 155, sef copi o’r llyfr ‘Lloegr drigiant ...’ a baratoes ar gyfer Rhisiart Mostyn, gw. 71.67n; RWM i, 937–40; D.J. Bowen, *Gruffudd Hiraethog a’i Oes* (Caerdydd, 1958), 33–41. Am gyfeiriadau eraill at y campau gw. IGE<sup>2</sup> cerdd C; GGH 75.62n. Rhestrir rhedeg (ll. 37), neidio a nofio (ll. 39) a saethu (ll. 40) ymhlith y campau. Ni chyfrifid bwrw bar a maen ymhlith y pedair ar hugain er bod cryn fri ar y chwarae hwn. Ymddengys fod i Dudur Aled enw am ei gryfder a’i allu i fwrw maen, gw. GHD 15.13–14; GLD 25.43–4. Mynnai Gruffudd Hiraethog iddo lunio ei restr oblegid *ni vawr ymarverwyd ar kampav hynn onid aethant dros gof hayachen val nad oes nemor o ddyn ynghymrv a wyr henwi y pedair kamp ar hvgain chwaethach J gwnevthvr A phann glywer J henwi ni wyddis beth yw llawer o honynt*.
- 41 *n wreiddgoll*.
- 44 Digwydd y ll. *Gwelaf foddîr gelfyddyd* yn y farwnad a ganodd Iorwerth Fynglwyd i’r bardd Wiliam Egwad, gw. GIF 30.45.
- 46–8 **colofn ... / Caniadau ... / ... clwm** Yn ôl y Statud, *Dyscibl penceirdhiaidh [cerdd dant] a dhyly gwybod vgaint o glymev, ac vgeint o ganiadev, a dwy golobhn, a dwy gadair, a phedwar ar hvgaint o glymev cytgerdh, a’r pedwar messvr ar hvgeint, ai dosparth, ai canv yn benceirdhieidh*, gw. Thomas Parry, ‘Statud Gruffudd ap Cynan, B v (1929–31), 29. Rhoddir i *colofn* yr ystyr ‘prif fesur, prif ran neu gangen, mesur neu ran sylfaenol’, gw. GPC 544. ‘Caniad o ryw fath arbennig mewn hen gerddoriaeth’ yw *clwm* neu *cwlwm*, gw. GPC 640, a diau mai ystyr debyg sydd i *caniad*.
- 48 Wedi iddo gopïo gair olaf ll. 47—*drig*—yn BL Add 31090, neidiodd llygaid y copïwr at yr un gair sy’n digwydd yn safle’r brifodl yn ll. 51, a chollwyd pedair ll. o ganlyniad.
- 50–4 **Colades ... / ... / ... [T]ebas ... / ... / ... Amffion** Cedwid cof am Gynfeirdd megis Taliesin a Myrddin, ac am yr hen gerddorion. Yn Pen 147 coffeir y canlynol: *Llyma henwau hen wyr wrth gerdd: Amffion delynor pencerdd ag athro. Coledas delynor pencerdd ag athro. Ac Amffion bencerdd y telynorion a brydoedd gwaith Caer debas wrth lais a chysondeb y delyn*, gw. T. Gwynn Jones, ‘Cerdd

- Dant', B i (1921–3), 139–56 (td. 153); hefyd GST 6.43–5 *Mal Amffion, yn ffrwythlon ffres, / Drwy waith abl, am dre Thebes, / Yr aeth clod ...* Ni ddeallodd y copïwyr arwyddocâd y cyfeiriadau hyn ac awgryma *gair Debas* y llsgrau. eu bod yn synio am yr e.p. fel pe bai yn enw ar wŷr yn hytrach nag yn enw ar le. Amffion a'i frawd Zethus a sylfaenodd ddinas Thebes. Cerddai Amffion o gylch y seiliau gan ganu ei delyn a llamai'r meini i'w lle, gw. OCD<sup>3</sup> 75–6.
- 53 **Tyrfanoedd** Methwyd ag esbonio'r ?e.p. hwn. Gellid diwygio > *tyrfaoedd* heb amharu ar y gynghanedd—*Tra fu, enaid tyrfaoedd / A phan aeth, ail Amffion oedd*—ond nid oes awgrym yn yr amryfal fersiynau fod ansicrwydd ynghylch y darlleniad.
- 60 **pan meddylwyf** Cyffredin yn y De yw cadw'r gysefin yn dilyn *pan*, gw. Treigladau 161–2, ond dyma'r unig enghraifft o'r gysefin yn nghanu Lewys.
- 74 **maddau i hwn** Lluniodd y Cywyddwyr rai cannoedd o gywyddau marwnad ond yn achlysurol iawn y diweddir y dosbarth hwn o gerddi trwy ofyn i Dduw faddau i'r gwrthrych am ei gamweddu. Gwna Lewys Môn hynny wrth farwnadu Siôn ab Elis Eutun, gw. GLM LXXVI.55–6 *Os gwrolaeth sy greulon, / fo weddai i saint faddau i Siôn*, a Lewys Daron wrth iddo yntau farwnadu'r un gŵr, gw. GLD 27.71–2 *Mair, cyrraedd ym mrig gweryd, / Maddau ei gam-wedd i gyd*. Rhoes y ddau fardd bwyslais ar yrfa Siôn fel milwr—cymerodd ran yn y frwydr ar faes Bosworth yn 1485—ac efallai fod a wnelo hyn â'r deisyfiad. Am enghreifftiau eraill o'r *topos*, gw. GHS 7.68 (Marwnad Wiliam Herbert Iarll Penfro); TA LXXX.91–2 (Marwnad Morys ab Ieuan, Llangedwyn); GIF 18.80 (Marwnad Syr Rhys ap Tomas). Mwy adnabyddus, wrth gwrs, yw deisyfiad Iolo Goch yn ei farwnad i'w gyd-brydydd, Llywelyn Goch ap Meurig Hen, gw. GIG XXII.91–6 *Puror telyn, pôr teulu, / Serchog, edifeiriog fu. Duw a'i maddeuawdd, hawdd hoed, / Iddo yn ei ddiweddoed. / Yntau a faddau i'w fardd / Ei ffolineb, ffael anardd*. Am ddwy farn am amgylchiadau cyfansoddi'r olaf, gw. Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1986), 159–62, a Huw M. Edwards, 'Murnio marwnadau', *Dwned*, 5 (1999), 47–70 (td. 51 yn benodol)

*Ilyma gywydd i r brenin Harri wythved am yddo ef briodi ann bwlen yw'r teitl a roddir i'r cywydd yn Card 5.44, a gwelir geiriad cyffelyb uwchben y gerdd yn llsgrau. eraill Llywelyn Siôn. Moliant i Harri'r Wythfed yw deuparth y cywydd, ond mynegir safbwynt y bardd a'i ymateb i ail briodas y*

brenin yn gwbl ddiamwys yn y llinellau agoriadol. Mynnir mai anfadwaith oedd y briodas ac i Ann weithredu yr un mor dwyllodrus â Rhonwen pan ddaeth y Saeson gyntaf i'r ynys hon a'i meddiannu trwy drais a dichell.

Ymddengys mai yn 1526 y dechreuodd Harri ymddiddori yn Ann. Erbyn hynny yr oedd ei berthynas â'i wraig gyntaf, Catherine o Aragon, wedi oeri, ac un a fu'n ei bidynlonni yn y cyfamser oedd Mary Boleyn, chwaer hynaf nwyfus Ann. Mynegodd Harri ei werthfawrogiad trwy enwi un o'i longau ar ei hôl. Erbyn Rhagfyr 1532 neu Ionawr y flwyddyn ddilynol, yr oedd Ann yn feichiog, a phriodwyd y ddau yn ddirgel oddeutu 25 Ionawr. Fe'i coronwyd yn frenhines ar 1 Mehefin, a ganed y dywysoges Elisabeth ar 7 Medi. Y mae'r cyfeiriadau at neithior ac at goroni Ann yn frenhines yn peri tybio mai yn 1533 neu yn fuan wedyn y canwyd y cywydd ond er gwaethaf y briodas gellid tybio bod y bardd, fel cynifer o ddeiliaid y brenin, yn dal i obeithio y gellid adfer y cyswllt â Rhufain ac y ceid mab yn etifedd—*Nawfed Harri*—trwy Catherine (buasai'n feichiog ar chwe achlysur, ond un plentyn a orosodd, sef y dywysoges Mari). Eto, buasai beirniadu'r briodas yn weithred herfeiddiol o ystyried y camau a gymerasai Harri i ddiddymu ei briodas gyntaf fel y gallai gymryd Ann yn wraig. Yn 1534 pasiwyd y Ddeddf Olyniaeth 'making Anne Boleyn's child heir to the throne and requiring all royal subjects to swear an oath to uphold the new dynasty', gw. Carolly Erickson, *Great Harry* (London, 1980), 250. Manylodd y croniclydd Hall ar oblygiadau'r ddeddf, gw. *Hall's Chronicle* (London, 1809), 814.

In this parliament also was made the act of succession for the suertie of the croune, to the whiche euery persone beyng of lawfull age should be sworne vpon the payne expressed in that acte ... After this, commissions were sent out ouer all England to take the othe of all men and women to the act of succession.

Byddai'r beirdd yn cynghori eu noddwyr yn achlysurol, ond mater arall fyddai cynghori'r brenin ar bwnc y briodas. Llai peryglus fuasai anghymeradwyo'r briodas gyda synnwyr drannoeth yn dilyn dienyddio Ann, a Harri ei hun erbyn hynny yn disgrifio ar goedd ymddygiad godinebus ei ail wraig. Dyna farn Glanmor Williams: 'A prominent poet, Lewis Morgannwg, castigated Anne Boleyn as the reincarnation of Alice and Rowena, classic symbols of English treachery; but though his censure may have been typical of the sentiments of many, he would hardly have dared publicize it until after her fall', gw. G. Williams: RRW 280–1. Ar sail y cyfeiriad at gosbi traeturiaid yn y Tŵr Gwyn, gellid dadlau bod y cywydd yn perthyn i'r cyfnod hwn. Carcharwyd Ann yn y Tŵr ar 2 Mai 1536 a'i chyhuddo o odineb ac o losgach. Erbyn 19 Mai yr oedd wedi ei dienyddio a'i chladdu. Os cysylltir y cywydd â diwedd oes Ann, rhaid mai dymuniad am weld etifedd i Harri a'i drydedd wraig a fynegir yn y cwpled clo. Nid yw'n debygol y buasai'r bardd yn beirniadu'r ail briodas ac ar yr un gwynt yn

gobeithio y rhoddai Ann etifedd gwryw i'r brenin.

Os canwyd y cywydd tua diwedd 1536, tâl ystyried y cynnwys yng nghyd-destun y gwrthwynebiad torfol a gafwyd i rai o bolisiau Harri ac a ddechreuodd yng ngogledd Lloegr yn hydref y flwyddyn honno. Cythruddwyd y mudiad 'Pererindod Gras' gan ddigwyddiadau megis yr ysgariad â Catherine, y toriad â Rhufain a diddymu'r mynachlogydd, ac nid oedd y lle amlwg a hawliai swyddogion o isel dras megis Thomas Cromwell yng ngweinyddiaeth y deyrnas yn hybu achos y goron ychwaith, gw. J.J. Scarisbrick, *Henry VIII* (Yale, 1997), 338–46; ODCC<sup>3</sup> 1287–8. Ymddengys fod dau os nad tri o'r cwynion hyn yn cael eu lleisio yn y cywydd. Anogir y brenin i ymwrthod â *gwaed filain neu gaeth* ac i bwysu yn hytrach ar y Cymry.

Collwyd diwedd y cywydd yn Hafod 20 am fod y ddalen sy'n dilyn 170<sup>r-v</sup> ac a gynhwysai yn wreiddiol lau. 47–70 yn eisiau. Dilynodd BL Add 31090 destun Card 2.630 [= Hafod 20], ond ni sylweddolwyd bod tudalen yn eisiau a chyplyswyd diwedd cywydd arall o waith Lewys, sef ei ganiad i Edward Carn, wrth ddechrau'r cywydd dan sylw.

2 **y Garrai** Gw. 19.19–20n.

3 **neithor** Wedi iddo adeiladu Caer y Garrai, daeth mwy o Saeson o Germania i Brydain ar gais Hengist, ac yn ei plith ei ferch, Rhonwen. Pan gyfarchodd hi Wrtheyrn fe'i cyfarwyddwyd i'w hateb â'r geiriau 'Drincheil'. *Ac yna guedy medwi Gortheyrn, neidyav a wnaeth diawul yndav* a mynnodd gael priodi'r *baganes ysgymun*, gw. BD 95.

4 **Hensiestr** Gw. TYP<sup>2</sup> 406–7. Dilynwyd y ffurf ar yr e. a welir yn Llst 164; *Heinsiest(r)* yw'r ffurf sy'n digwydd yn y lleill. *Heingyst* yw'r ffurf yn BD 91 *et seq.*, a digwydd y ffurfiau *Heinsiest* (GLM LXXXVIII.56), *Hensiest* (GGI<sup>2</sup> L.20) a *Heinsiust* (GHS 4.56, 7.38) hefyd.

5 **wasâel** 'Gwledd, cyfeddach, gloddest', gw. GPC 3728, a daw o'r S.C. *wassail*. Rhaid ei ynganu yn acennog er mwyn y gynghanedd ond diacen ydyw yn GLGC 47.56 *mal wasael o'r melysaf*.

10 **Ann** Ymdrinnir â bywyd a gyrfa ail wraig Harri VIII yn Eric Ives, *Anne Boleyn* (Oxford, 1994).

11 **colli i Gred** Cymerir mai'r rhediad yw 'Anffawd oedd colli Lloegr i [wledydd] Cred'. Er mwyn priodi Ann, bu'n rhaid i Harri ymwrthod ag awdurdod y pab na fynnai ganiatáu iddo'r hawl i ysgaru â'i wraig gyntaf, Catherine, a'i gyhoeddi ei hun yn ben ar yr Eglwys.

13 **[y] llwyn llwyd ei llin** Crybwyllir *morvyn o'r llwyn llyt* ym Mhroffwydoliaeth Myrddin ym Mrut Sieffre, gw. BD 109, a

chyfeirir ati yn rhai o gywyddau brud y 15g., gw. GDLI 5.47–8n *Llawer deigr, llwyr y'i digiwyd, / Llosgi'r forwyn o'r llwyn llwyd*; gw. hefyd GDGor 4.61–2n.

Nid oedd Ann, yn wahanol i wraig gyntaf Harri, yn perthyn i linach frenhinol, ac nid oedd hynny wrth fodd y bardd, gw. llau. 31–4. Ymglywir â drwgdeimlad un Cymro tuag ati mewn dau gwpled dienyddio yn Card 3.4, 104 *mae son dynion ar des / perigyl / Rac peri yn avles / nan bwlen yn y boles / niad honno lwnio yn les*. Fodd bynnag, 'Anne Boleyn came, in fact, from the same sort of background as the majority of the Tudor upper class. Indeed, she was better born than Henry VIII's three other English wives', gw. Eric Ives, *op.cit.* 4.

- 16 **morwyn a rôi'r gwenwyn** Parodd Rhonwen wenwyno ei llysfab, Gwerthefyr Fendigaid, gw. BD 97, ac efallai fod i'r cyfeiriad arwyddocâd cyfoes os cysylltir y cywydd â'r cyfnod yn dilyn dienyddio'r frenhines. Credai rhai mai Ann a achosodd farwolaeth Catherine o Aragon trwy ei gwenwyno a'i bod hefyd yn llwyr fwriadu gwenwyno'r dywysoges Mari, merch Catherine, gw. Eric Ives, *op.cit.* 371, 386–7.
- 18 **Alecsander Mawr** Bu farw ar ôl salwch a barhaodd am ddeng niwrnod, ac awgrymid ar y pryd iddo gael ei wenwyno, gw. OCD<sup>3</sup> 57–9.
- 21 Cyfatebiaeth -st h- = -s d-, a cf. y gyfatebiaeth t = (s)t yn ll. 23.
- 23 Ar y gyfatebiaeth, gw. 53.53n.
- 26 **[y] traeturiaid** Y mae'r e.ll., a'r sôn am dorri pennau yn y cwpled sy'n dilyn, yn awgrymu mai'r sawl a gyhuddwyd o odinebu ag Ann sydd dan sylw (ac felly y bernir yn Lewys Morgannwg: Gw 729), sef ei brawd George, Henry Norris, Francis Weston, William Brereton a Mark Smetton, ac os felly, dyma ddadl gref o blaid dyddio'r cywydd i'r flwyddyn 1536. (Anodd credu mai Thomas More a John Fisher sydd dan sylw; dau a wrthododd roi sêl bendith ar gynllun Harri i ysgaru â Catherine a'i gyhoeddi ei hun yn ben ar yr eglwys, gw. 97.37n.) Y mae'r sôn am neithior ac am goroni Ann, fel y nodwyd, yn ddadl o blaid dyddiad cynharach, ond anos esbonio'r cyfeiriad hwn at draeturiaid. Y mae'n amheus y byddai dienyddio Rhys ap Gruffudd ym mis Rhagfyr 1531 yn destun balchder i'r bardd ac yntau wedi canu ei glodydd ac wedi marwnadu ei daid. Ac aethai deng mlynedd a rhagor heibio ers helyntion Edward Stafford, trydydd Dug Buckingham. Fe'i cyhuddwyd o deyrnfradwraeth ym mis Ebrill 1521 a'i anfon i'r Tŵr, ac fe'i dienyddiwyd y mis canlynol ar 17 Mai. Diau fod a wnelo'r cyhuddiad â'r ffaith fod ganddo hawl ar y goron; disgynnai

trwy ei dad o Edward III ac yr oedd ei fam yn chwaer yng nghyfraith i Edward IV, gw. DNB liii, 446–7.

- 27 **gŵyl Ieuan** Ar y gwyliau a gysylltir ag Ieuan, gw. GPhE 6.22n. Dethlid gŵyl Ieuan Efenglydd ar 6 Mai. Ar 17 Mai 1521 y dienyddiwyd Edward Stafford, ac ar 19 Mai 1536 y dienyddiwyd Ann Bwlen.
- 31 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 39.
- 33 **rhin** ‘Cyfrinachedd; cyfeillach’, gw. GPC 3075, ond efallai mai ‘ymddiriedaeth’ yw’r ystyr orau yn y cyd-destun.
- 39 *n* wreiddgoll neu *m* berfeddgoll.
- 48 Cyfatebiaeth *g* = (n)c. Ceid cynghanedd reolaidd o dderbyn *maing*; ar y ffurf, gw. GPC 2323. Am enghraifft o bosibl o’r ffurf *caing* sy’n amrywiad ar *cainc*, gw. 50.52n.
- 52 **Ednyfed** Yr oedd Harri Tudur yn un o ddisgynyddion Ednyfed Fychan, distain Llywelyn Fawr, gw. WG1 671, 680.
- 56 **gwlan aur** Gw. 1.47n. Y mae’n bosibl fod yma gyfeiriad at Urdd y Cnu Aur neu’r *Toison d’Or*. Urddwyd Harri gan Ffyllib, brenin Castil, yn 1506, gw. DNB xxvi, 76–94. (Yr wyf yn ddiolchgar i’r Athro Ralph Griffiths am awgrymu’r posibilrwydd hwn.)
- 59 **deg coron** Cynigir yn Lewys Morgannwg: Gw 730 fod yma gyfeiriad at un o’r gweledigaethau a ddisgrifir yn Dat 13.1 *Ac mi a sefais ar dywod y môr; ac a welais fwystfil yn codi o’r môr, a chanddo saith ben, a deg corn; ac ar ei gyrn ddeg coron, ac ar ei bennau enw cabledd*.
- 63 **cyw’r wennol** Symbol a ddefnyddiwyd wrth gyfeirio at Owain Tudur ac at ei fab, Siasbar, gw. GDGor 1.86n; GWL ii, 289, 291. Ond Harri VIII yw’r wennol yn 87.59.
- 70 **Nawfed Harri** Bu farw Catherine ym mis Ionawr 1536, rai misoedd yn unig cyn y frenhines a’i disodlodd. Ond yr oedd yn dal yn fyw yn 1533 pan goronwyd Ann, ac efallai mai gobaith am ei gweld yn rhoi etifedd cyfreithlon i Harri sydd wrth wraidd y dymuniad hwn. Os canwyd y cywydd wedi marwolaeth y ddwy frenhines, gellid dadlau mai mynegi gobaith y câi Harri a’r drydedd wraig etifedd gwryw a wneir yma. Yr oedd Jane Seymour wedi denu sylw Harri cyn i’w ail wraig golli ei ffafr, ac yr oedd y ddau yn briod o fewn pythefnos i ddiennyddio Ann. Ganed mab iddynt ar 12 Hydref 1537 ond bu farw Jane lai na phythefnos yn ddiweddarach, gw. DNB xxix, 241–3. Diau y buasai Jane yn wraig gymeradwy yng ngolwg y sawl a fynnai lynu wrth yr Hen Ffydd; barnai Luther ei bod yn ‘enemy of the gospel’.

Canodd y bardd dair cerdd arall i'r brenin Harri VIII, sef awdl foliant, cywydd ac awdl farwnad, gw. cerddi 97–9. Yr un yw'r themâu yn y tair cerdd hyn. Pwysleisir bod Prydain oll ac Iwerddon yn ddarostyngedig i'r brenin a bod ei awdurdod yn cyrraedd Ffrainc hefyd. At hyn fe'i canmolir am iddo sicrhau cytgorod a heddwch. Fe'i disgrifir yn ben ar yr eglwys; rhoes y pab yn ei le a chafodd wared ar *amheuwyr Duw* (97.19), *anghredwyr Iesu* (97.21) a'r *ffalswyr crefyddwyr* (97.29).

*Y mesurau*

- 1–8      Dau englyn unodl union.  
 9–74     Dilyniant o linellau decsill a'r odl *-aist* yn eu cysylltu. Fel arfer cysylltir pedair ll. ddecsill â thoddaid i ffurfio hir-athoddaid, gw. J Morris-Jones: CD 341–3, ond ni ddigwydd hynny y tro hwn.  
 75–88    Cyfres o saith toddaid (odl *-ar*).

Dosbarthwyd y llinellau decsill a'r toddeidiau yn y golygiad hwn yn benillion ar sail y cymeriad llythrennol ac ar sail yr ystyr. Yn Pen 99 yn unig y ceisiwyd dynodi'r penillion ond gwnaed hynny mewn dull digon mympwyol; ceir penillion ac ynddynt dair, pedair, pump a chwe llinell. Ni ddiogelwyd holl linellau'r awdl yn un o'r ffynonellau. Collwyd ll. 85 yn AEF a chollwyd llau. 10 a 20 yn nhestun B sy'n cyfateb yn agos iddo (ond bod B yn cynnwys sawl darlleniad llwgr). Collwyd llau. 20 a 49 yn nhestunau CD sy'n cynnwys rhai darlleniadau nas gwelir yn y llsgrau. eraill. Y mae adeiladwaith yr awdl yn ymddangos yn fwy cytbwys o ychwanegu'r un llinell goll at destun AEF.

Gwelir dau nodyn yn llawysgrif B, un uwchben yr awdl a'r llall ar ei diwedd. Ysywaeth collwyd sawl gair oherwydd traul ar ymyl a brig y dalennau. Ymddengys mai ar anogaeth Syr Wiliam Herbert y canwyd yr awdl a gwobrwyodd hwnnw'r bardd megis y gwnaeth y brenin yn ei dro.

... Iwerddon amddiffen ...  
 ... addiweddawdd deyrnas yn ...  
 ... Ionawr 1546 Awdl voliant

Lewis morganwc ai kant yr vn yd ydy  
 wedir agahas gwedy gwerth can nobl  
 ... orc henad y gan SWH heb law rodd y  
 Brenin

Bu'r pedwardegau yn gyfnod tra llewyrchus yn hanes Wiliam Herbert.



Cafodd swyddi a thiroedd helaeth ac yn eu plith ystadau abaty Wilton. Ym mis Gorffennaf 1543 daeth ei chwaer yng nghyfraith, Catherine Parr, yn chweched wraig Harri VIII, a hybodd hynny yrfa Herbert ymhellach; fe'i dewiswyd yn un o ysgutorion ewyllys y brenin, gadawyd iddo swm o dri chant o bunnoedd yn yr ewyllys, ac yn yr angladd yr oedd yn un o'r ddau a deithiai yn y cerbyd a oedd yn cludo'r corff, gw. DNB xxvi, 220–3; cerdd 26. Ymddengys na fuasai gweithred Harri yn torri'r cyswllt â Rhufain ac yn diddymu'r mynachlogydd yn wrthun iddo, ac esbonia hyn yr elyniaeth agored a fynegir tuag at yr hen drefn yn yr awdl, gelyniaeth a barodd syndod i sylwebwyr diweddarach o gofio i'r bardd ganu clodydd abad Nedd mewn modd mor frwdfrydig ryw ddeng mlynedd ynghynt.

- 1 **Locrinus** Yn ôl Brut Sieffre bu i Frutus dri mab *sef oed eu henw, Locrinus, Kamber, Albanactus ... A Locrinus, canys hynhaf oed, a gymerth y rann berued o'r enys, yr honn a elwir Lloegyr o'e enw ef*, gw. BD 21.
- 5 **Owain** Owain Tudur ond odid, sef hendaidd Harri VIII. Yr un Owain yn ddiau sydd dan sylw yng nghywydd Iorwerth Fynglwyd i Syr Siôn Rhaglan, gw. GIF 16.31–2 *Gwiw y rhoddes—gwe ruddaur— /gwaed Owain ywch gadwyn aur*, ond ni ddeallodd y golygydd y cyfeiriad.  
**tros llawr** Ar y calediad yn dilyn yr ardd. *tros*, gw. 11.37n.
- 7 **gweithfawr** 'Mawr ei orchest, llwyddiannus', gw. GPC 1623 lle y dyfynnir y ll. hon.
- 8 **Mwnt** Ffurf Gymraeg ar y dref Mantes ar lannau Afon Seine, ond gw. hefyd 98.1n lle y trafodir arwyddocâd yr enw *Harri Mwnt*.
- 12 **blaen** Gallai fod yn e.p., gw. 23.72n, ond fe'i cyfrifir yn a. yma.
- 21–2 **Anghredwyr Iesu ... / ... meirw y'u llosgaist** Y mae'n siŵr y gwyddai Lewys Morgannwg am Thomas Capper o Gaerdydd a losgwyd i farwolaeth yn 1542 am wadu trawsylweddiad, gw. G. Williams: RRW 293.
- 21 **cynuaist** Nodir y ddwy ffurf *cynnau* a *cynnu* 'ennyn tân' yn GPC 782, ond gan mai cynghanedd lusg sydd yn y ll. rhaid mai ffurf ar y be. *cynnu* sydd yma. Y ffurf *cynheuaist* sy'n digwydd yn llsgrau. BCD.
- 23 **Esgob Rhufain** Yn 1533 mynnwyd bod pob clerigwr a phob mynach yn tyngu llw ac yn cydnabod nad oedd gan Esgob Rhufain, fel y'i gelwid, fwy o awdurdod yn Lloegr nag unrhyw esgob tramor arall. Y flwyddyn ganlynol bu'n rhaid i'r Senedd bennu trefn newydd er mwyn dewis esgobion, gw. DNB xxvi, 86–7 (y cofnod ar Harri VIII).

- 30–1 Collwyd y llau. hyn yn nhestun B ond ymddengys fod gwaelod un ddalen a brig y nesaf wedi eu torri a thebyg fod y llau. yn rhan o'r testun yn wreiddiol. Erys olion llau. 62–3 er nad oes modd eu darllen bellach.
- 34 **dyunaist** Nid 2 un.grff.myn. y f. *dihuno* 'deffro' fel y tybiodd y copïwyr ond yn hytrach *dyuno* 'uno; ymgynnull; dwyn ynghyd' (er mai ystyr megis 'cymodi, heddychu' a weddai orau yn y cyddestun), gw. GPC 1150. Ailadroddir yr un syniad yn llau. 47–50.
- 36 *n* wreiddgoll.
- 37 **y fwyall** Dienyddiwyd Thomas More a John Fisher, dau ŵr a wrthododd gefnogi'r ysgariad ac ymgais Harri i'w wneud ei hun yn ben ar yr eglwys, yn haf 1535.
- 39 **iangwyr Nordd** Cefnogwyr y mudiad 'Pererindod Gras', sef y brotest dorfol yn erbyn rhai o bolisiau crefyddol y goron, gw. nodyn brig cerdd 96. Addawyd maddeuant i'r gwrthdystwyr, ond fe'u cosbwyd yn greulon; crogwyd degau a llosgwyd eraill i farwolaeth.
- 47 **rholiaist** Y mae *rholi* yn amrywiad ar *rheoli*, *rhyoli* 'atal, llywodraethu, trefnu', gw. GPC 3056.
- 51 **cwitiaist** Ffurf 2 un.grff.myn. y f. *cwitio* 'gadael; cefnu ar; talu'r pwyth', gw. GPC 639. O adfer y geiryn berfol *y*, gellid *gwitio*, amrywiad o bosibl ar *gweitio* 'aros', gw. GPC 1623, ond *waetio* yw'r ffurf sy'n digwydd yng nghanu'r bardd.
- 55 **Ffrawns** 'Gwŷr Ffrainc'. Nis rhestrir yn GPC 1312.
- 59 **hyriaist** Ymddengys i'r gair hwn beri peth dryswch i'r copïwyr. Nid y f. *hurio* 'cyflogi; gwobrwyo', gw. GPC 1925, sydd yma ond yn hytrach amrywiad ar *herio* 'rhoi her', gw. GPC 1857, a cf. 99.31 *Harri a roes hyr i'r rhain* (er mai *hir* yn hytrach na *hyr* sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau.).
- 60 **hyd tan dy faner** Ategir y syniad yn 98.53–4 *Amherodr—beth mwy, Harri?— / A'i wart dan dy stondart di*. Esboniodd Eurys I. Rowlands mai gweithred yr ymherodr Maximilian yn ildio'r lle blaenaf i Harri yn ystod Brwydr yr Ysbardunnau a ddisgrifir yn y fan hon, gw. 'Terwyn a Thwmai', Cylchg LIGC ix (1955–6), 295–300. Ni nodir y cyfuniad *hyd tan* yn GPC 1948–51, na *hyd trwy*, gw. 98.74n.
- 62–3 Gw. 97.30–1n.
- 65 **saeliaist** Y f. *seilio* 'gosod sail neu sylfaen' sydd yma ar yr olwg gyntaf, gw. GPC 3210, a gellid atalnodi yn wahanol a chysylltu'r f. â'r e. *mur* yn rhan gyntaf y ll. Ond am fod yma sôn am fôr, tybed ai benthyciad o'r S. *to sail* 'hwylio' sydd yma fel yn 51.75. Ar y ffurf, gw. GPC 3156.

- 75–88 Y mae Lewys Morgannwg yn chwannog i ddefnyddio odlau cudd ym mhenillion hir ei awdlau a cheir sawl enghraifft yn y llau. sy'n cloi'r gerdd hon. Hyn sy'n cyfrif am yr amryfal ddarlleniadau a gynigir yn y llsgrau. Diau mai *gwir ar* ac nid *gwir art* sydd ei angen yn ll. 83 (yn Pen 99 yn unig y digwydd y darlleniad hwn) a *hen ddâr* yn hytrach na *hen ddart* sy'n taro orau yn ll. 87 (digwydd y gair *dart* yn safle'r brifodl yn ll. 84).
- 76–8 **y Tri Risiart. / ... / ... am Bedwar Edwart** Yr oedd y ddau frenin yn feibion i Risiart, Dug Iorc. Disgynyddion Edward III oedd y rhain, megis cangen y Lancastriaid y perthynai'r Tuduriaid iddo trwy briodas. Priododd Harri VII ag Elisabeth, merch Edward IV. Bu Wiliam Herbert, Iarll Penfro, yn was ffyddlon i Edward IV, a chan fod lle i gredu mai ar gais un o'i ddisgynyddion y canwyd yr awdl, esbonia hynny'r pwyslais a roddir ar gysylltiadau Iorcaidd y brenin er mai i dŷ Lancastr y perthynai.
- 88 [y] **Twysog Edwart** Mab Harri a'i drydedd wraig, Jane Seymor, oedd ef ac fe'i ganed ym mis Hydref 1537.

## 98

- 1 [y] **Mwnt** Pan ddigwydd yr enw hwn bydd y beirdd yn cyfeirio at un o ddau le. Traeth cysgodol i'r gogledd o Aberteifi, ac ym mhlwyf y Ferwig, gw. WATU 161, yw'r cyntaf a hwn sydd dan sylw yn GLGC 71.28, 72.39 mewn cywyddau i Rys ap Maredudd o'r Tywyn a'i fab, Rhydderch, a hefyd yn un o gywyddau Dafydd Nanmor, bardd arall y bu iddo gyswllt agos â theulu'r Tywyn, gw. DN XV.7–8 *Marw y maen' hyd y Môr Mwnt / Ddav nowmil am ddwyn Iemwnt* (er mai mwy ystyrion fyddai *Marw y maen' hyd y môr 'Mwnt*). Tref Mantes ar lannau Afon Seine, i'r gogledd o Baris, yw'r Mwnt a grybwyllir yn GLGC 91.56; GHS 5.20, 24.12, ac efallai mai'r lle hwn sydd dan sylw yn 97.8 yn yr awdl i Harri VIII *Ti ar war Mwnt eryr mawr*. Rhaid ystyried y posibilrwydd hefyd fod yma gyfeiriad at Mont St. Michel, gw. 64.69n. Anos esbonio'r cyfeiriad yn y cywydd hwn i Harri VIII am nad yw'r naill enw na'r llall yn gweddu, a cf. 89.39 *On'd Harri Mwnt, tarw, a'i medd?* (Moliant Edward Gruffudd, y Penrhyn). Tybed a yw'r bardd ar y ddau achlysur hyn yn chwarae â'r elfen *mwnt* yn yr enw Rhismwnt? Digwydd yr enw ar achlysur arall: gelwir Morys Sainsion yn 18.28 yn *rhygarw Mwnt* (sy'n odli â *Rhismwnt*), ac yr oedd gan y Sainsoniaid gyswllt â Margaret Beaufort, mam Harri VII. Posibilrwydd arall yw fod y *Mwnt* yn dwyn i gof yr elfen gyntaf yn yr e.p. *Bryngwyn* sy'n digwydd yn 63.62. Dyma'r enw Cym. sy'n cyfateb i'r S. *Whitehall*.

- 2 **y tair coron** Gw. 44.58n.  
*r* berfeddgoll, a thrachefn yn llau. 23 a 78.
- 6 **Grinwits** Cyfeiriad bywgraffyddol fanwl. Ganed Harri VIII yn y palas brenhinol yn Greenwich, gw. DNB xxvi, 76.
- 7 **emperial** Dewiswyd *emperial* yn hytrach nag *imp rial* am fod y cymeriad geiriol yn amlwg yn llau. 9–14 ac felly ceir cwpled arall sy'n cynnwys yr addurn.
- 26 **cnu** Gw. 1.47n, 96.56n.
- 29 **pryd y mab** Gw. 26.56n.
- 31 Cyfatebiaeth b..h = -b h- a'r llsgrau. i gyd yn gytûn.
- 32 **mab Elen** Gw. 3.34n, 27.44n.
- 35 Ceir cryn amrywio yn y llsgrau. yn achos y ll. hon. Cymerir mai *Tri Edwart* [= Edward III] yw'r darlleniad dilys gan fod y bardd yn mynych ddefnyddio'r rhif. yn hytrach na'r trefnol wrth gyfeirio at frenhinoedd Lloegr, gw. y rhestr 'Enwau personau' d.g. *Edwart, Harri*.
- 39 Dyma'r unig l. y sylwyd arni sy'n cynnwys cynganedd sain o gyswllt (a sylwer ar y modd yr amlygwyd hynny yn llsg. T). Y mae'n bosibl mai ymgais Llywelyn Siôn ei hun i 'gywiro' y ll. sy'n cyfrif am eiriad llsgrau. P–S.
- 53–4 Gw. 97.60n.
- 56 **gwledd ffres gwaed** Mawrygir brwydrau'r goron mewn modd cyffelyb ar achlysur arall, gw. 78.56–62.
- 59 Yn Pen 103 y diogelwyd y testun hynaf ond collwyd deuparth y cywydd yn y llsg. honno. Y mae'r drefn yno yn wahanol i'r hyn a geir ym mhob llsg. arall a gwelir bod y cwpledi sy'n disgrifio ymwneud Harri VIII â Ffrainc yn dilyn ei gilydd.
- 65 **diwyrnawd** Parodd y gair hwn gryn drafferth i'r copiŵyr, gw. 12.32n.
- 67 **di a rifaist** Unwaith eto gwelir cryn amrywio yn y llsgrau. ac y mae sawl darlleniad ystyrion yn ymgynnig: *D'aur rhifaist* ..., neu *Di arefaist* ... (< *arafu* 'llarieiddio, gostegu', gw. GPC 175). Priodol hefyd fyddai *Di a ririaist* ... < *ririo* 'codi, cychwyn (rhyfel)', gw. GPC 2985, ond rhoddai hyn l. ac ynddi *r* berfeddgoll o dan yr acen.
- 69 *n* wreiddgoll.
- 74 **hyd trwy** Ni restrir y cyfuniad hwn yn GPC 1948–51, na *hyd tan* sy'n digwydd yn awdl foliant Lewys i Harri VIII, gw. 97.60n, ond rhestrir cyfuniadau megis *hyd tra*, *hyd tros*.
- 81 Cynganedd lusg sy'n cynnwys yr odl *-ant* / *-and*. Ceisiodd rhai o'r

copïwyr ddiwygio'r ll. trwy fabwysiadu'r ffurf *meddiand*. Ymhell-  
ach ar y gyfatebiaeth  $t = d$  ac  $nt = nd$ , gw. 20.37n.

## 99

Diogelwyd yr awdl mewn chwe llawysgrif ond nid oes un sy'n gwbl  
foddhaol gan fod olion llygru testunol i'w gweld ym mhob un. Yn Pen 97 y  
ceir y testun gorau ac fe'i dilynir yn gyson (ond nid yn ddieithriad) gan Llst  
135. Ar dro gwelir yn Pen 97 ddarlleniadau nas ceir yn y llsgrau. eraill.  
Collwyd llau. 46–7 a 51 yn llsgrau. CDE a chollwyd ll. 73 yn llawysgrif C  
(neu yn hytrach cyfunwyd dechrau ll. 72 a diwedd ll. 73).

*Y mesurau*

- 1–44 Cyfres o 11 englyn unodl union.  
45–88 Cyfres o 11 pennill a phob un yn cynnwys llau. decsill.  
Ailadroddir y cymeriad llythrennol *c* ar ddechrau pob ll. yn  
yr adran hon. Ni ddosbarthwyd y llau. yn benillion yn y  
llsgrau.  
89–90 Englyn unodl union.

- 1 **oer loes, gwyarGroes** Gwelir bod geiriau agoriadol yr awdl yn  
wahanol ym mhob un o'r ffynonellau. Dewiswyd gair llafarog *oer*  
ar ddechrau'r englyn gan mai arfer y bardd yw cynnal y cymeriad  
llythrennol yn y gadwyn englynion a welir yn rhan gyntaf yr awdl  
(a gwrthodwyd darlleniadau Pen 97 yn llau. 9, 13, 40 am yr un  
rheswm). Ni ddigwydd *gwyarGroes* yn un o'r llsgrau. ond gellir  
gweld sut y gallai camddehongli'r gair hwnnw fod wedi arwain at y  
ffurfiau a gofnodwyd.
- 3 **yr og** Gw. 43.56n, 65.14n.
- 6 **mab Harri** Pum sillaf yn ail ran y paladr, ond o ddilyn llsgrau.  
CDE *mab i Harri*, collir y caledu sy'n sicrhau'r gyfatebiaeth â'r gair  
cyrch.
- 17–20 Ceir cryn amrywiaeth yn narlleniadau'r llsgrau. Englyn unodl union  
sydd yn llsg. C o ran ei ffurf ond pedair odl broest sydd iddo, sef  
*nes, ynys, rhus, agos*.
- 23 **aeth mawr** Cymerir mai 3 un.grff.myn. *mynd* sydd yma a *mawr* yn  
cael ei ddefnyddio yn enwol fel yn ll. 13, ond gellid *aeth* 'galar,  
poen' ac a.
- 24 **Mortmeriaid** Ar dŷ'r Lancastriaid y mae'r pwyslais yn y canu i  
Harri ond unwyd y Lancastriaid a'r Iorciaid pan briododd Harri VII  
ag Elisabeth, merch y brenin Edward IV. Yr oedd Rhosier  
Mortimer, Iarll y Mers (m. 1398), y gŵr y canodd Iolo Goch ei

glodydd, gw. GIG cerdd XX, yn hen daid i Edward IV, gw. Charles Hopkinson & Martin Speight, *The Mortimers, Lords of the March* (Trowbridge, 2002), 116–21 a'r tabl achau, td. 200. Enwir Rhisiart III, brawd Edward IV, yn 97.76.

27 *n* wreiddgoll.

28 *r* berfeddgoll.

36 *n* berfeddgoll.

40 **oruwch** Ni restrir *oruwch* ymhlith amrywiadau *goruwch* yn GPC 1502 ac nid oes achos i dreiglo gan fod y gair yn digwydd ar ddechrau'r frawddeg ond digwydd y ffurf mewn pedair llsgr. ac fe'i cadwyd am ei bod yn cynnal y cymeriad llafarog yn yr englyn. Rhestrir *aruwch* yn *ib.* 213.

41 **acton** Ffurf ar *actwn* 'math o sircyn a wisgid dan yr arfwig; dwbled neu siaced o ledr ag arfwaith hyd-ddi', gw. GPC 6. Parodd y gair gryn drafferth i'r copiŵyr.

42 **Octafian Sisar** Mab y seneddwr Octavius oedd Caius Julius Caesar Octavianus Augustus, ond colodd ei dad pan oedd yn ddwyflwydd oed ac fe'i mabwysiadwyd gan ei hen ewythr, Iwl Cesar. Ef oedd ymherodr cyntaf Rhufain, gw. OCD<sup>3</sup> 216–18; J. Lemprière, *Classical Dictionary of Proper Names Mentioned in Ancient Authors* (London, 1972), 96–7.

45 **cyrn** Nid ffurf l. *corn* er y gweddai hwnnw yn y cyd-destun, cf. GIG IV.4–5 *Pa beth yw y gyfryw gorn? / Galargyrn mechdëyrn Môn*, ond yn hytrach ffurf ar *curn* 'pentwr, crug, carnedd', gw. GPC 631.

52 **nawyr gwrol** Gw. 1.47n.

55 **hyll** Ymddengys mai *holli* oedd ffurf wreiddiol y be. *holhti*, gw. 101.56 a GPC 1894, a roddai honno'r ffurf 3 un.pres.myn. *hyll*, ond gthg. 10.20 (*holhti*) a 10.105, 95.58 (*hyllt*).

56 **dreigiau** Gw. 10.60n.

58 **mwy gronic** Digwydd y cyfuniad *mwy / llai* ac a. sy'n treiglo yn feddal yn gyson yn y canu, gw. 1.18n, ac felly diwygiwyd darlleniad y llsgrau. er mwyn sicrhau ll. ac ynddi ddeg sillaf.

59 **cwynir lew** Treiglir gwrthrych bf.amhrs. yn achlysurol yn y canu, gw. 38.68n.

**lifrai** Y mae *gwŷr lifrai* yn llawer mwy ystyrion na *gwŷr llyfrau*, ond rhaid derbyn yr odl *-ai*. Digwydd yr odl *-ae / -au* ar fwy nag un achlysur, gw., e.e., 64.37n *Pa chwarae am swyddau sydd?*, ond nid oes gan y bardd l. arall sy'n cynnwys yr odl *-ai / -au*. Am enghraifft yng ngwaith bardd arall, gw. GMBr cerdd 5 lle yr odlir *Awdlai, Chwitnai a Stanlai* â geiriau sy'n diweddu ag *-au*.

- 60 Gan fod *eisiau* yn digwydd yn safle'r odl yn ll. 57 gellid ystyried diwygio > *cyfraid dieisiau* 'darpariaeth ddibrin', ond rhoddai hyn l. ac ynndi gyfatebiaeth d = t.
- 62 Gellid derbyn darlleniad Llst 135 *gwaе' u cyrff heb bennau!*
- 66 **cadw ffydd** Ar awdurdod y pab Leo X, rhoddwyd i Harri VIII yn y flwyddyn 1521 y teitl *Fidei Defensor* 'Amddiffynnydd y Ffydd', gw. LPFD iii/ii, cofnod 1659; J.J. Scarisbrick, *Henry VIII* (Yale, 1997), 115–17.
- 72 **ffôi leng ... longau** Ymddengys fod yma enghraifft o'r gystrawen 'cyrchu lle' sy'n cynnwys bf. + treigladd meddal, gw. 34.65n.
- 73 **cost** Gan fod y bardd yn crybwyll *cestyll hafnau* yn ail ran y ll., gweddai *cost* 'arfordir' yma, gw. GPC 569.
- 74 **o gwbl** Ystyr yr ymadrodd yw 'yn llwyr', gw. GPC 634. Gellid diwygio > *o gabl* 'difenwad, drygair; bai, cerydd', gw. GPC 372. Nid yw cyfleu dicter yn beth dieithr mewn marwnadau.
- 82 **claps** Nis cofnodir yn GPC 490. Daw o'r be. S. *collapse* a gwelir enghraifft o'r be. yn y farwnad a ganodd Hopgyn Tomas Ffylib i Domas ab Ieuan ap Rhys, gw. HG 36.21–4 *ddym ni val wyn ymddivaid / vai r devaid gwedy gado / er pan kyrchawdd jesu e / au lyfre gwedy klapso* (ond nid annichon mai *clasp* 'to fasten with a clasp; to secure or close with a clasp', gw. OED<sup>2</sup> iii, 278–9, yw tarddiad yr olaf). I'r 18g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf o'r f. *collapse* a gofnodir yn OED<sup>2</sup> iii, 470.
- 89 Enghraifft arall o odl gudd yn un o awdlau'r bardd.
- 89–92 Ni sylweddolodd copiŵyr llsgrau. CDE mai englyn a oedd yn cloi'r awdl, a chafwyd ganddynt bennill tair ll. yn cynnwys 10, 10, 9 sillaf.

## 100

Trafodir yr hyn sy'n hysbys am Illtud yn WCD 385–8; G. H. Doble & D. Simon Evans, *Lives of the Welsh Saints* (Cardiff, 1971), 88–145; LBS iii, 303–17. Ceir copi o'r fuchedd Ladin 'Vita Sancti Illtudi' a luniwyd tua 1140 a chyfieithiad i'r Saesneg yn LBCS.

Dengys Lewys yn y cywydd adnabyddiaeth drylwyr o gynnwys Buchedd Illtud. Crybwyllir ei rieni a'i fagwraeth (llau. 1–8), ei addysg (llau. 9–10) a'i yrfa filwrol yng ngwasanaeth Arthur (llau. 11–18). Yna sonnir fel y bu iddo wasanaethu Poulentus o Benychen, ond wedi i'w gyd-filwyr amharchu Cadog, a dioddef canlyniadau hynny (llau. 21–2), dewisodd Illtud yrfa amgen a chafodd gyfarwyddyd gan angel mewn breuddwyd (llau. 23–36). Rhestrir rhai o'i wyrthiau wedi iddo gael ei gysegru gan Ddyfrig ac ymroi i fywyd mynachaid (llau. 37–46), sef rhwystro'r môr rhag boddi'r tir ger ei

gapel (llau. 47–54), dofi carw (llau. 55–8) a bodloni Meirchion (Marsianws), yr arglwydd lleol, trwy ddarparu bwyd a gwin ar ei gyfer (llau. 59–62). Yna disgrifir cosb gweision Meirchion wedi iddynt erlid y sant (llau. 63–6) a'r modd yr enciliodd Illtud i ogof er mwyn osgoi llid eu meist'r (llau. 67–76). Crybwyllir cosb Meirchion yntau (llau. 77–8), ac ychwanegir at y rhestr o wyrthiau. Sicrhaodd Illtud, trwy ei weddi, bod yr ŷd a oedd ym Morgannwg yn cael ei gludo i Lydaw i fwydo newynog y wlad honno (llau. 79–82), adferodd i'w wraig ei golwg [fe'i troes heibio yn ddiseremoni wedi iddo benderfynu dilyn gyrf'a o ddefosiwn, ond collodd hi ei golwg pan ddaeth awydd drosti i weld ei gŵr unwaith yn rhagor] (83–84), cosbodd y lladron a fu'n dwyn ei foch (llau. 85–6) a daliodd yr adar a fu'n anrheithio ei ŷd (llau. 87–8). Yn olaf, cofnodir hanes brwydr rhyngddo a'r sawl a fu'n ymosod ar ei diroedd, a'r modd y'i cynorthwywyd gan oleuni rhyfeddol yn yr wybren (llau. 89–90).

Codwyd testun BL Add 31090 o LIGC 13125B a oedd yn llaw Iolo Morganwg. Cynnwys 16 llinell nas ceir yn y llsgrau. eraill, a dichon mai Iolo ei hun a'u lluniodd. Yn y llinellau hyn enwir tri sant arall, sef Teilo, Cynog a Dewi, ynghyd â'r bardd Taliesin, ac awgrymir i'r gwŷr hyn dderbyn hyfforddiant gan Illtud. Camp Iolo oedd creu Morgannwg a oedd yn fwrlwm o weithgarwch diwylliannol, ac un dull o wneud hynny oedd tynnu i'r panorama a greodd gymeriadau, rhai yn ddilys, eraill yn ffrwyth ei ddychymyg. Tâl nodi, fodd bynnag, fod Buchedd Illtud yn crybwyll enwogrwydd y sant fel athro; dyma un wedd na fanylir arni yn y cywydd. Y fersiwn 'swyddogol' a welir yn Iolo MSS 292–5, a dywedir darford codi'r cywydd *O Ysgrif yn llaw Thomas ab Ievan o Dre'r bryn, plwyf Llangrallo ym Morganwg, cylch 1670*, sef LIGC 13061B.

Ar ddiwedd y cywydd yn LIGC 13125B a BL Add 31090, awgrymir bod rhai ffynonellau yn tadogi'r cywydd ar 'Lewis brydydd Hodnant', ond os bu'r llsgrau. hynny yn bodoli ar un adeg, nis diogelwyd. Diau mai ymgais Iolo Morganwg i gysylltu'r bardd hwnnw â Morgannwg sy'n cyfrif am y cwestiwn *Ymofynner ai gwr o Lanilltyd oedd Llywelyn Brydydd Hodnant, a fu nghylch y fwyddyn 1360. Iolo Morganwg*, gw. LIGC 13125B, 294. Tair cerdd a ddiogelwyd wrth enw'r bardd hwnnw, a'r tair yn clodfori Ievan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron, 'a chan fod o leiaf bedair nant yng Ngheredigion yn dwyn yr enw hwnnw, mae'n hollol bosibl mai bardd o'r sir honno ydoedd [Llywelyn]', gw. GLIBH 19.

- 4 **Brytaen** Sef Llydaw. Ymddengys fod Bicanus, tad Illtud, yn wŵr o uchel dras. Gadawodd Brydain ac ymsefydlu yn Llydaw.
- 5 **Bicanws** Gw. y nodyn blaenorol.
- 8 **Brytaen Fawr** Ym Mrut Sieffre crybwyllir *Llydaw, y wlat a elwir yr avrhon Bryttaen Uechan*, gw. BD 76. Ynys Prydain felly yw *Brytaen Fawr*, cf. 98.72. Rhoddir prif lythyren i'r a. er mwyn



gwahaniaethu rhwng Brytaen (Fawr) a Brytaen (Fechan = Llydaw) ond gydag uno Lloegr a'r Alban yn 1707 y crewyd teyrnas Prydain Fawr (= 'Great Britain'), gw. OED<sup>2</sup> ii, 561–2; MEnc.

**ei fam** Yr oedd mam Illtud yn ferch i Amlawdd Wledig a Gwen, merch Cunedda Wledig.

9 **gofwy** Yr ystyr yma yw 'amlygiad o ffafr ddwyfol', gw. GPC 1432–3.

10 *n wreiddgoll.*

12 **milwriaeth** Cyfeiria Tudur Penllyn at y traddodiad i Illtud ddilyn gyrfa filwrol, gw. GTP 34.15 *Llun march i Illtud Farchog*. Cadwodd Iolo Morganwg y cof yn fyw trwy grybwyll *Illtud / Farchog Aurdorchog astud* yn ei gyfres 'Chwedlau'r Doethion', gw. Iolo MSS 252.

16 *n berfeddgoll.*

20 **bu wrol ais** Gellid tybio bod yr holl lsgrau. yn y pen draw yn deillio o un gynsail, a bod honno (neu ei chynsail hithau) yn seiliedig ar ffynhonnell lafar. Wrth gofnodi'r cywydd camddeallwyd yr ymadrodd *bu wrol ais*, a chafwyd *bu ŵr o lais*. Diau fod enghraifft gyffelyb yn ll. 47, ac o bosibl yn ll. 69.

22 **soddi** Agorodd y ddaear a llyncu cydymdeithion Illtud wedi iddynt sarhau Cadog.

23 **ef âi i dŷ** Ar y gystrawen, gw. 34.65n.

27 Wyth sillaf yn y ll. (ond sylwer ar ddarlleniadau BDEFJ).

29 **gwyrth ehudwych** Sangedd sy'n disgrifio'r gwleddau yn ll. 30 yw hwn ac y mae yn gyfystyr â 'hudoliaeth hynod o dwyllodrus'.

34 **hyd i nant** Ni nodir y cyfuniad *hyd i* yn GPC 1949.

**glyn Hodnant** Dywed Iolo Morganwg yn ei nodyn ar ddiwedd y cywydd yn LIGC 13125B, 294, *Hodnant y gelwir yr afon fechan, neu r nant, y sydd yn rhedeg drwy Lanillyd*, ond nid ymddengys ei bod yn hysbys bellach, gw. EANC 152. Yr oedd hwn yn enw cyffredin. Awgrymir mai Hodnant oedd yr enw gwreiddiol ar Lyn Rhosyn lle yr ymsefydlodd Dewi a'i ganlynwyr, gw. BDe 42; uchod 65.78n.

37 **Dyfrig** Deuir ar ei draws yn Llyfr Llandaf lle y'i gelwir yn esgob, ac awgryma hyn mai i gyfnod diweddarach y perthyn Buchedd Illtud, gw. WCD 215–17; LBS ii, 359–82.

40 **trefn** Dyma'r ffurf a welir yn yr holl lsgrau. ond tybed a gamddeallwyd y gair mwy anghyfarwydd *trafn*? Digwydd ar achlysur arall yn y canu a gweddai'r ystyron 'ffynhonnell, cartref, trigfa; cwrs, ffordd' yma fel yn 57.65n.

46 **hoeth** Ar y ffurf, gw. GPC 1885.

- 50 Wyth sillaf yn y ll.
- 65 **diddawr** 'Gresynus' yw'r ystyr sy'n taro orau yma. Cynigir yr ystyron 'gofalus; pryderus, gofidus, anesmwyth' yn GPC 967.
- 81 **dwyrsgubor** Yn ôl y fuchedd, yr oedd tair ysgubor ym Morgannwg yn llawn o yd, gw. LCBS 489–90.
- 87 **gwarchae** Ni nodir yr amrywiad *gwarcha* yn GPC 1579, ond y ffurf hon a welir yn y llsgrau. cynharaf.
- 93–4 Y mae'n bosibl fod y cwpled yn llwgr gan fod *gras* yn cael ei ailadrodd.

## 101

Myfyrdod ar ddioddefaint Crist yw'r cywydd hwn yn ei hanfod (fel y cywydd i'r Grog yn Llan-faes, gw. cerdd 104), ond ysgogwyd y myfyrdod hwnnw gan y Grog yn eglwys Llangynwyd. Gan fod y bardd yn hanu o Dir Iarll, nid yw'n destun syndod iddo gyfarch y Grog honno. Bardd arall a ganodd gywydd i'r Grog oedd Tomas ab Ieuan ap Rhys, gw. HG cerdd 13 (er bod y gerdd yn cael ei phriodoli hefyd i Domas ab Ieuan Madog), ond ni ddylid llyncu yn ddihalen yr awgrym yn *ib.* 267, 'It is not improbable that an Eisteddfod was held at Llangynwyd for which Lewys Morganwg and his contemporary and relative Twm Ivan Prys composed poems. It is possible that it was held in the Nave of the Church before the Crucifix, for we know that Eisteddfodic meetings were held in Churches.' Pan frathwyd Rhys Brydydd, taid y ddeufardd, gan neidr, troes yntau at y Grog i ddeisyf gwellhad, gw. GRB cerdd 2; GCH iii, 505. Perthynai'r pedwerydd bardd a gyfarchodd y Grog i'r un teulu o brydyddion, a chan Wilym Tew y ceir yr unig ddisgrifiad o'r ddelw, gw. G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 554: *Y grog wyriv ar groyw garreg / Gown tan o Langynwyd teg.*

Cyhoeddwyd y cywydd yn HG cerdd 93. Crybwyllir y cerddi i Grog Llangynwyd yn Brinley Richards, *The Literary Traditions of Maesteg and District* (d.d.), [2–3].

- 1 **cerygl** Fe'i diffinnir yn ffurf l. *caregl* 'cwpan, ffiol; y cwpan a ddefnyddir yng ngwasanaeth y Cymun' yn GPC 426. Ni nodir y ffurf *crygl* sy'n digwydd yn llsgrau. y De.
- 2 **Cynwyd** Uniaethwyd nawddsant Llangynwyd yng nghwmwd Tir Iarll â'r cymeriad Cynwyd Cynwydion, mab Cynfelyn, er nad oes cyswllt amlwg rhwng ei deulu a Morgannwg, gw. LBS ii, 274–5; WCD 185.
- 7 **irwaed draed** Y tebyg yw fod geiriad y llsgrau. (ac eithrio un) yn dynodi'r caledu sy'n digwydd pan ddaw dwy gytsain feddal nesaf at

ei gilydd, ond gellid brawddeg enwol bur ‘Irwaed [yw’r] traed’.

- 8 Rhediad y ll. yw ‘A holl gnawd Duw [sef y Duw-ddyn] wedi’i orchuddio â gwaed dyn[ol]’, ond dichonadwy hefyd fyddai ‘Ac yn waed holl gnawd Duw [trwy weithred] dyn’.
- 14 Twyll gynghanedd *d*, ond gellid goresgyn y bai o fabwysiadu darlleniad llsgrau. HIJ *heddwch eneidiau*, ond sylwer bod y gair *heddwch* yn digwydd drachefn yn y cwpled dilynol.
- 21 **awr uchel** Rhoddir i *uchel* yr ystyron ‘dyrchafedig, aruchel, ardderchog’, gw. GPC 3694. Adleisia’r *awr uchel* y cyfeiriad yn y cwpled blaenorol at anfon Crist i’r ddaear i achub dynolryw.
- 22 **chweawr** Croeshoeliwyd Crist ar y drydedd awr, ac ar y nawfed awr [Yr] *Iesu a lefodd â llef uchel, ac a ymadawodd â’r ysbryd*, gw. Marc 15.25, 37. Bu tywyllwch ar y ddaear rhwng y chweched awr a’r nawfed, gw. *ib.* 15.33.
- 23 **Suddas** Y disgybl a fradychodd Grist. Pob tro y rhestrir y disgyblion yn yr efengylau, ei enw ef sy’n digwydd olaf, gw. NCE viii, 15–16; Geir Beibl 876–7.
- 24 [**y**] **degfed** Diogelwyd yng nghanu’r beirdd sawl cyfeiriad sy’n awgrymu i Grist gael ei ddal yng ngardd Gethsemane gan naw gŵr, gw. GDG<sup>3</sup> 1.25; hefyd GRB 1.39–40 *Iddewon noethion o’u nythod bob naw / aeth draw i’th rwymaw, dieithr amod*. Diau fod Lewys yn gyfarwydd â’r traddodiad, a dichon felly mai Suddas yw’r degfed gŵr, ond gthg. sylw Gwilym Tew yn ei gywydd yntau i’r Grog, gw. G. Hartwell Jones, ‘Celtic Britain and the Pilgrim Movement’, Cy xxiii (1912), 554 *Wyth wyr a gaid ith var gynt / Ac o waetha y gweithynt*. Gellid deall hefyd i Suddas gael ei gosbi ‘ar ei ddegfed’ ar gyfrif ei anfadwaith, ac am dynged y gŵr hwnnw wedi iddo fradychu Crist, gw. Math 27.3–5. Posibilrwydd arall fyddai uniaethu *degfed* â *degwm*, gw. GPC 917. Taliad Crist oedd achub dynoliaeth, neu, yng ngeiriau Gwilym Tew, *Prynedigaeth pren degwm*, gw. G. Hartwell Jones, *l.c.*; GEO 3.47–8. Ffrwyth llafur Suddas ar y llaw arall oedd bradychu Crist ac o’r herwydd daeth i’w ran ‘fyd trist’. (Yr wyf yn ddiolchgar i M. Paul Bryant-Quinn am awgrymu’r ddau bosibilrwydd olaf.)
- 26 **brad** Nodir yn GPC 304 y gall fod yn eg. ac yn eb.
- 27–8 Cymerir bod y rh. yn ll. 27 yn cyfeirio yn ôl at y deg a ddaliodd Grist. Nid eu cosbi oedd dymuniad Crist ond yn hytrach eu hachub, a diwygiwyd dechrau ll. 28 er mwyn cyfleu’r ystyr hon.
- 31 **deffroynt** Rhaid rhoi ystyr megis ‘ysgogi, cymell, peri’ i *deffro* yn y cwpled hwn, a deall ‘ffrydiau [gwaed]’ yn wrthrych y f. Ni nodir yr ystyron hynny yn GPC 916.

- 35 **dwfr oer** Pan welodd Peilat fod yr Iddewon yn benderfynol o groeshoelio Crist, golchodd ei ddwylo yn eu gŵydd *gan ddywedyd, Dieuog ydwyf fi oddi wrth waed y cyfiawn hwn: edrychwch chwi. A'r holl bobl a atebodd ac a ddywedodd, Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant*, gw. Math 27.24–5.
- 36 **Pilad** Yn y testun rhyddiaith ‘Ystoria Bilatus’, disgrifir cefndir Pilad a’i fagwraeth ynghyd ag amgylchiadau ei farw, gw. Melville Richards, ‘Ystoria Bilatus’, B ix (1937–9), 42–9. Suddas a’r Iddewon a ddaw o dan y lach yng nghanu crefyddol y beirdd yn hytrach na Philad.
- 40 **ar eu gwaed** Gw. 101.35n.
- 41 **buna** Rhannwyd y gair yn yr holl Isgrau. yn *bu na*, ond bernir mai’r e.c. *buna* ‘rhif neu nifer mawr’ sydd yma, gw. GPC 348. Dewis arall fyddai diwygio’r sangiad > *bwyn na bydd?* ‘pwy un na bydd?’.
- 45 *n wreiddgoll.*
- 47 **pum milain** Nid yr un nifer a grybwyllir yng nghywydd Tomas ab Ieuan ap Rhys i’r Grog, gw. HG 13.25–6; G. Hartwell Jones, *art.cit.* 302. Dywed ef *eth rhwymawdd dy nawdd duw ner / yr wyth bilain wrth biler*. Gellid cryfhau’r gynghanedd o ddilyn darlenniad HII *pum mhilain*. Ar y cyfuniad, gw. Treigladau 137 a cf. GGLI 18.50n.
- 48 **pedair hoel** Dengys y cwpled nesaf fod hoelen wedi ei defnyddio ar gyfer pob aelod: *I’r ddwy droed yr oedd ddwy draw / A dwy eilwaith i’r dwylaw*. Arfer diweddarach oedd defnyddio tair hoelen, dwy ar gyfer y breichiau ac un ar gyfer y traed fel yn achos y crogau yng Nghaer ac yn Aberhodni, gw. GIBH cerddi 10–12 (a gw. yn benodol 10.18n), ac yng Nghaernarfon, gw. G. Hartwell Jones, *art.cit.* 557–8.
- 52 **[y] marchog dall** Lansias neu Longinus yn ôl traddodiad a wanodd ystlys Crist, gw. HG 267; GIBH 7.45n a cf. *ib.* 12.23–4 *Drwy’i ais a thrwy’i bais y bu / Un dall â gwayw’n Ei dyllu*.
- 53 **llef Eli** *Ac ynghylch y nawfed awr y llefodd yr Iesu â llef uchel, gan ddywedyd, Eli, Eli, lama sabachthani? hynny yw, fy Nuw, fy Nuw, pahan y’m gadewaist?*, gw. Math 27.46. Y mae’n amlwg i Lywelyn Siôn, neu ei gynsail, gamddeall y cyfeiriad hwn. Cf. y cwpled yn y cywydd a briodolir i Domas ab Ieuan ap Rhys, gw. HG 13.31–2 *dyfr a gwin dy vri a gad / eli vair vu lefairad*.
- 54 **lliw’r haul sy dywyll** Gw. 101.22n.
- 55–6 *Ac wele, llen y deml a rwygwyd yn ddau oddi fyny hyd i waered: a’r ddaear a grynodd, a’r meini a holltwyd*, gw. Math 27.51.
- 59–60 **Rhai o feddau ... / ... a godai gynt** *A’r beddau a agorwyd; a llawer o gyrff y saint a hunasent a gyfodasant*, gw. Math 27.52.

Anodd rhoi cyfrif am y darlleniad *rhai o feddal* ... yn llsgrau.'r De.

- 62 **y Sul** Yr oedd Crist wedi codi o'r bedd lle gosodwyd ei gorff ar y Sul a chyn dechrau'r wythnos, gw. Math 28.1.
- 65–6 Y mae'n bosibl fod y cwpled hwn wedi ei gamleoli er mai'r un yw trefn y llau. yn yr holl lsgrau. O ran synnwyr, gweddai orau o'i leoli ar ôl cwpled 33–4 (a sylwer bod y cymeriad *d* yn y cwpled hwnnw fel yn hwn).
- 77 **ymwnâf â Duw** Rhoddir i'r ymadrodd yr ystyr 'cymodi neu heddychu â Duw', gw. GPC 3808–9.

## 102

Trafodir pwysigrwydd Pen-rhys a'r canu i Fair gan Christine James, 'Pen-rhys: Mecca'r Genedl', *Cwm Rhondda*, gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul, 1995), 27–71, a gw. hefyd G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 335–43, 558–61; Glanmor Williams, 'Pen-rhys: poets and pilgrims', *The Monmouthshire Antiquary*, xx (2004), 9–16; Thomas Charles Edwards, 'Penrhys: y cefndir hanesyddol: 1179–1538', *Efrydiau Catholig*, v (1951), 24–45. Mewn atodiad i'r olaf ceir testun o chwe cherdd a ganwyd i Fair o Ben-rhys rhwng canol y bymthegfed ganrif a chanol y ganrif ddilynol gan feirdd a chanddynt gyswllt agos â Morgannwg, sef Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Goronwy (cywydd), Gwilym Tew (dwy awdl), Rhisiart ap Rhys (cywydd), a Lewys Morgannwg, ei fab (dau gywydd). Galwodd Christine James sylw at yr awdl a ganodd Ieuan ap Huw Cae Llwyd i'r un gwrthrych, gw. HCLL cerdd XLVIII, a chyfeiriodd at gerdd arall—'Y fun deg a fendigwyd'—nad ymddengys fod a wnelo hi â Mair o Ben-rhys. Y mae cryn ansicrwydd ynghylch awduraeth yr olaf. Fe'i priodolir i Fedo Brwynllys, Hywel Swardwal (ond nis hawlir iddo yn GHS), Dafydd Nanmor, Huw Cae Llwyd a Deio ab Ieuan Du. Cynigir testun o'r cywydd yn GDID Atodiad A3.

Deisyf iachâd a wna'r bardd yn y cywydd hwn, a deisyf bendith Mair ar ei noddwr, Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd (m. 1535), ac nid annichon i'r bardd fynd ar bererindod i Ben-rhys ar ei ran, gw. Christine James, *art.cit.* 55. Yn yr un modd, y mae'n bosibl fod awdl Wiliam Egwad i grogau Llanfaes ac Aberhonddu wedi ei chanu ar ran ei noddwr yntau, Syr Rhys ap Tomas. Ceir testun o'r awdl yn Brynach Parry, 'Crog Aberhodni', *Brycheiniog*, xxxv (2003), 19–36.

Ar 16 Awst 1538 gorchmynnodd Cromwell ddifetha'r ddelw o Fair ym Mhen-rhys ac ymddengys mai i Water Herbert, dirprwy-siryf Morgannwg o dan Iarll Caerwrangon, a gwrthrych cerdd 23, yr ymddiriedwyd y gorchwyl. Gwnaeth hynny 'as secretly as might be' ddeng niwrnod yn ddiweddarach, a threfnodd fod y ddelw a'r holl addurniadau arni yn cael eu cludo i Lundain

i'w llosgi yn gyhoeddus, gw. Christine James, *art.cit.* 60–1; LPFD xiii/ii, cofnod 345.

Cyhoeddwyd testun o'r cywydd yn seiliedig ar Isgrau. Ll1st 47, Ll1st 134 a LIGC 970E [= Merthyr Tudful] yn G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 559.

- 2 **Pen-rhys** Yno yr oedd yr enwocaf o blith yr holl ffynhonnau a gysegrwyd i Fair. Credid bod modd cael gwared ar bob math o afiechydon trwy ymweld â'r safle, a rhestrir y gwyrthiau yr honnid iddynt ddigwydd yno yn y ddau gywydd, gw. 102.31–46, 103.53–66. Y mae'r motif hwn yn un cyffredin yn y cywyddau i saint, cf. GDLIM cerdd 2 lle y disgrifir y gwyrthiau a gysylltid â phystyll Dyfnog Sant; hefyd R. Iestyn Daniel, 'Y ffynhonnau yng nghanu'r Cywyddwyr', *Dwned*, 7 (2001), 65–81.
- 5–8 Disgrifir y modd y daeth y ddelw o Fair i Ben-rhys yn y cywydd sy'n dilyn, gw. 103.43–50.
- 7–8 **delw ... / fyw** Gw. 46.2n.
- 12–14 **Sioasym ... / ... / ... Anna** Gw. 9.50n.
- 15 **[y] bâl** Am gyfeiriad tebyg, gw. GSRh 12.7–8 *Rhannodd ag Addaf afal, / Rhyw barch i ennill rhaw bâl!*
- 35 *n wreiddgoll.*
- 42 *f led-lafarog neu gamosodiad f.gl = gl.f.*
- 47–56 Apeliodd Rhisiart ap Rhys, tad Lewys, yn ei gywydd yntau, am gymorth Mair i'w ddwyn i'r nefoedd, gw. GRB 5.41–2 *Ym marn Duw—Mair yn dy wart— / i Ben-rhys derbyn Rhisiart*, ond ni chyfeiriodd at unrhyw anhwylder.
- 51 **i'm hynys** Anodd amgyffred arwyddocâd yr ymadrodd hwn er ei fod yn digwydd yn yr holl Isgrau. Tybed ai camddehongli'r a. *amhwynus* a wnaed wrth glywed datgan y cywydd ar dafod leferydd? Ni nodir *amhwynus* yn GPC 93 ond rhestrir *amhwyntus* 'claf, afiach' (daw'r unig enghraifft o eiriadur Thomas Wiliems).
- 58 **lle archa'** Copiwyd *lle harcha'* ym mhob llsgr. ac eithrio un ddiweddar, ond gwrthodwyd y darlenniad hwn am mai *archaf* (heb yr anadliad caled) sy'n digwydd yng nghanu'r bardd. Efallai i'r copiwr y gael eu dylanwadu gan *henwi* sy'n amrywiad ar *enwi*, gw., e.e., 75.93, ond ni chofnodir enghreifftiau o *herchi* yn GPC 179.
- 62 **Syr Edwart** Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd. Canodd Lewys awdl a chywydd iddo, a chyfarchodd ei fab a'i etifedd, Tomas Stradling, gw. cerddi 1–3. Canwyd y cywydd cyn mis Mai 1535 pan fu farw Syr Edward.

## 103

Gwelir copi o'r cywydd (yn seiliedig ar Card 5.44) yn HG cerdd 92 ac yn G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 338-9.

- 2 **maen' wŷr** Gan fod y disgrifiad wry yn digwydd ym mraich gyntaf y cwpled, diwygiwyd yr ail l. er gwaethaf tystiolaeth yr holl lsgrau., a hawdd gweld sut y llygrwyd y ll. (a sawl un arall yn achos y cywydd hwn) wrth ei chofnodi.
- 4 **Melito** Sant Melito, esgob Sardis, a fu farw c. 190. Teithiodd i Balesteina i ymweld â'r manau cysegredig, gw. ODCC<sup>3</sup> 1068; NCE ix, 631-2. Iddo ef y priodolir y testun *Y mod yd aeth Meir ynef sy'n agor â'r geiriau Melito was crist. escop eglvys sardinei ynauon annerch myvn taghonoued crist. oe anrydedusson vrodyr ygkrist. yrei yssyd yn p'ssvylav yn laodicia*, gw. LIA 77; J.E. Caerwyn Williams, 'Transitus Beatae Mariae a thestunau cyffelyb', B xviii (1958-60), 131-57; *id.*, 'Rhyddiaith grefyddol Cymraeg Canol (2)', *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*, gol. Geraint Bowen (Llandysul, 1974), 360-408 (tt. 362-4).
- 6 **mawrfeiriawl** Darlleniad Pen 99 sy'n rhoi'r gynghanedd fwyaf boddhaol. Y mae'n bosibl mai'r copiwr a'i diwygiodd (am enghreifftiau eraill o lau. gwallus a gywirwyd, gw. llau. 29, 33, 52, 69 isod) ond y mae'n bosibl hefyd i'r sawl a gopiodd gysail copïau'r De gamddeall yr hyn a glywodd. Rhoddir i *meiriol* yr ystyron 'mwynaidd, tirion', gw. GPC 2413.
- 7 **bronhenferch** Ymddengys y darlleniad yn un llwgr ar yr olwg gyntaf, ac fe'i 'cywirwyd' yn Pen 99, ond mewn cywydd arall disgrifia'r bardd Fair Forwyn yn bwydo ei Mab ac yn rhoi *bron henfaeth i'w brenhinfab*, gw. 9.35. Digwydd yr ymadrodd *bron henllew* ar achlysur arall, gw. 10.26, a gellir bod yn bur sicr, felly, fod y darlleniad yn y cywydd dan sylw yn un dilys.
- 11 **annerch** Y neges a ddug Gabriel i Fair, gw. 103.39n.
- 14 Wyth sillaf yn y ll., ond efallai y dylid ceisio ceseilio'r *yn* traethiadol sy'n digwydd yn llsgr. E ac sy'n gwneud y ll. yn ystyrllon.
- 21 *n wreiddgoll.*
- 22 *f led-lafarog.*
- 23 **Seth a welas etholair** A cf. hefyd 102.25-8. Yn 'Efengyl Nicodemus' disgrifir taith Seth i baradwys i geisio olew y drugaredd i'w dad. Cafodd gip ar baradwys ac esboniodd yr angel arwyddocâd yr hyn a welodd. *Y mab ryweleist di heb ef. mab duw yw*

*hwnnw. yr hwn yssyd yn kwynnaw pechodeu dy rieni dy, gw. Selections from the Hengwrt MSS, ed. Robert Williams (London, 1892), 245.*

- 29 **arweddodd** LIGC 970E [= Merthyr Tudful] yn unig sy'n cynnig y darlleniad hwn. Ffurf ar y f. *arwain* yw *arwedd(u)*, a'i hystyr yw 'ymddwyn (plenty'n)', gw. GPC 214 a'r cwpled a ddyfynnir yno o waith Dafydd ab Edmwnd *arweddaist wr i oddef / yn dy gnawd an dyg i nef*. Diau mai ymgais i gyfleu'r f. hon sy'n cyfrif am ddarlleniad llsgrau. AE sy'n ymddangos yn llwgr ar yr olwg gyntaf. Y mae'n amlwg na ddeallwyd ystyr y f., ond y mae'n amlwg hefyd i'r copïwyr geisio cywiro'r ll. sy'n cynnwys bai crych a llyfn.
- 33 **llefair** Diau fod yma enghraifft arall o gamddehongli'r hyn a glywyd ac ymgais arall, o bosibl, i wella ll. sy'n cynnwys nam cynganeddol, sef y bai crych a llyfn. 'Ynganiad, gair a leferir, ymadrodd' yw *llefair*, gw. GPC 2141.
- 39 **Gabriel annerch** Adroddir hanes ymweliad yr archangel Gabriel â Mair Forwyn yn Luc 1.26–38. Disgrifir Gabriel ar sawl achlysur yn *gennad*, gw. GHS 22.49–50; GIBH 8.13; GBDd 5.11.  
LIGC 970E [= Merthyr Tudful] unwaith yn rhagor sy'n cynnig yr unig ddarlleniad ystyrion.
- 45 **dengair** Y Deg Gorchymyn oedd y Dengair Deddf, gw. GPC 917. Ni allai angel hyd yn oed orchymyn creu delw cyn hardded â'r un ym Mhen-rhys. Ond efallai mai ystyr fwy cyffredinol sydd i'r ymadrodd. Ni allai angel â'i holl ddeisyfiadau greu delw fel hon.
- 47–50 Canodd beirdd Morgannwg chwe chywydd i Fair o Ben-rhys ond Lewys Morgannwg yn unig sy'n cyfeirio at y traddodiad am ganfod y ddelw yng nghanol coeden.
- 52 Ll. sy'n cynnwys *f ac r* berfeddgoll, a ll. sydd un sillaf yn brin hefyd mewn sawl llsgr. Ychwanegwyd *vawr* yn A.
- 62 **mud** Camddeallwyd yr a. yn llsgrau. 'r De.
- 69 Ll. arall a barodd drafferthion i'r copïwyr. Diau mai bwriad y bardd yn y cwpled oedd cyfosod *llaw asau* a *llaw iawn*, sef 'y llaw ddeau', er na chofnodwyd enghraifft o'r ymadrodd hwnnw yn GPC 2104. Unwaith yn rhagor ymddengys i'r geiryn *yn* (y geiryn berfol y tro hwn, gw. uchod 103.14) gael ei golli wrth gofnodi'r gerdd a rhaid ceisio ei gywasgu er mwyn sicrhau ll. seithsill.
- 73 **ofni ddêl** 'Ofni [yr hyn a] ddêl'. Cymal perthynol cadarnhaol nid un negyddol sy'n dilyn y be., ond gthg. darlleniad y llsgrau.
- 76 **tafl** Ffurf ar *tafol* 'clorian', gw. GPC 3419–20.
- 79 **pum archoll** Y pum archoll a ddiodeffodd Crist ar y Groes, cf. GGLl 18.50n. Am dri archoll y sonnir yn yr efengylau, sef trywanu



ystlys Crist a hoelio ei draed a'i ddwylo ond ychwanegwyd at y tri hyn ddwy wedd arall ar yr artaith a ddaeth i'w ran, sef gwisgo'r goron ddrain a dioddef ergydion y fflangell, gw. NCE xiv, 1035–6; ODCC<sup>3</sup> 1767. Digwydd yr ymadrodd *pum harcholl* yn 68.3n. Gwisgai cefnogwyr y mudiad 'Pererindod Gras' arwydd a ddynodai bum archoll Crist, gw. J.J. Scarisbrick, *Henry VIII* (Yale, 1997), 345.

## 104

Yr oedd dwy grog yn Aberhonddu. Yn eglwys y Dominicianiaid yn Llan-faes yr oedd y grog a gyfarchodd Lewys Morgannwg ond yn eglwys y Benedictiaid yr oedd yr enwocaf o'r ddwy, a hon a gyfarchwyd yn y cywydd adnabyddus y dadleuodd M. Paul Bryant-Quinn mai Ieuan Brydydd Hir a'i canodd, gw. GIBH cerdd 12. Yr ail eglwys oedd y sefydliad cynharaf yn y dref a chyflawnai hon ddwy swyddogaeth; yr oedd yn abaty Benedictaidd ac yn eglwys y plwyf. Yr oedd castell Aberhonddu mewn man strategol a rheolai'r ffyrdd i gyfeiriad y de a'r gorllewin. Fel y ffynnai'r dref ehangai ei chwmpas a buan y dechreuwyd ymsefydlu ar ochr ddeheuol Afon Wysg yn Llan-faes ac yno yr ymsefydlodd y Dominicianiaid. Yr oedd y safle yn Llan-faes yn un pwrpasol o safbwynt y Dominicianiaid gan mai urdd o bregethwyr oeddynt, a mantais oedd bod o fewn cyrraedd i lwybrau trafndiaeth, gw. D.M. Gwynne-Jones, 'Brecon Cathedral c. 1093–1537, the church of the Holy Rood', *Brycheiniog*, xxiv (1990–2), 23–38; E.G. Parry, 'Brecon: topography and townscape', *Brycheiniog*, xxi (1984–5), 12–20. Er mai eglwys y Benedictiaid oedd yr un gyfoethocaf, yr oedd y sefydliad yn Llan-faes yn un llewyrchus o'i gymharu â thai eraill y Dominicianiaid; yr oedd yno ddeg mynach yn ystod y blynyddoedd 1534–6, gw. WCCR<sup>2</sup> 563. Gelwir sylw at gerddi eraill a ganwyd i grog eglwys Llan-faes yn Brynach Parry, 'Crog Aberhodni', *Brycheiniog*, xxxv (2003), 19–36. Crybwyllir y crogau a oedd yn Llan-faes ac yn Aberhonddu yn awdl Wiliam Egwad 'Credwn bob cwestiwn' ac yng nghywydd Ieuan ap Huw Cae Llwyd 'Brodyr aeth i baradwys'. Claddwyd nifer o ddisgynyddion Dafydd Gam yn Llan-faes, a Morgan ap Dafydd Gam yn eu plith, gw. HCLl cerdd XIII; GLGC 134.1–2, 21 *Y pennaeth ym mhob bonedd / sy'n Llan-faes winllan a'i fedd ... braich Cymru wrth groesty'r Grog*.

Nid oes ansicrwydd ynghylch awduraeth y cywydd hwn. Fe'i priodolir i Lewys Morgannwg mewn 31 llawysgrif, a nifer o'r rheini yn rhai cynnar. Gellir diystyru'r priodoliad i Lewys Môn ac i Ieuan Deulwyn. Fe'i priodolir i'r blaenaf yn Llst 166, ond seiliwyd y testun ar Llst 30 sy'n enwi Lewys Morgannwg yn awdur. Digwydd y cywydd wrth enw Ieuan Deulwyn yn yr adran yn BL Add 31090 sy'n cynnwys cerddi Lewys Morgannwg ac y mae'r testun hwn yn seiliedig ar LIGC 13061B sydd unwaith eto yn rhoi'r cywydd i Lewys Morgannwg. A barnu wrth y nodyn wrth droed y cywydd yn LIGC

4710B (ac fe'i hailadroddir yn LIGC 13167B), bu Gwilym Puw yn holi yn ddyfal ynghylch yr awdur ond nid ymddengys iddo gael llawer o oleuni ar y mater: *Medd Rai Sion cent Ai cant Medd Eraill Ifan Daylwyn Ney Tew Brydudd Rhai Eraill A Ddwyaid (A chyffelib Jawn) Mae Gruffudd Ap Ifan llewelyn Fychan ywr Athraw Mae r cywydd yn odieth Ac yn Gweddu Jr Goreu or Beirdd. Foi sriflennoedd Gwilym Pue.*

Geiriau cyntaf braich gyntaf pob cwpled a gofnodwyd yn Pen 60 (ynghyd â geiriau cyntaf yr ail linell yn achlysurol), ond dilyn y cwpledi yn yr un drefn â'r testun. Cyhoeddwyd testun o'r cywydd yn G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 306–7.

- 1 **pryn** Yr e.c. *pren* sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. ond dilynwyd darlenniad Llst 6 a derbynnir mai'r brif frawddeg yn y cwpled yw *pryn Iesu nawdd* (ond gellid 2 un.grch. hefyd: *pryn, Iesu, nawdd.*).
- 3 **barn wŷd oedd** Rhyfedd fyddai rhoi un o ffurfiau personol *bod* ar ôl bf.amhrs. a diau mai ymgais i gywiro hynny sy'n esbonio darlenniadau megis *barnwyd iddo ... a barnwyd ef ...* Y mae'r ll. yn ystyrllon o hollti *barnwyd* > *barn wyd* (*gwŷd* 'anwiredd, pechod, drygioni', gw. GPC 1749–50).
- 18 **gwaywr dall** Y milwr o Rufeinwr y dywedir iddo drywanu Crist yn ei ystlys â'i waywffon, gw. 101.52n.
- 20 Y geiriad a ddiogelwyd yn Pen 60 yw *lle Roed i holl.*
- 23 **Sidas ar ddisiau** Trosiad am frad Suddas a werthodd Grist am ddeg darn ar hugain o arian yw'r disiau yma, gw. Math 26.15. Am gyfeiriad arall at Suddas, gw. GSRh 12.113–28. Wedi croeshoelio Crist, bu'r milwyr a'i gwarchodai yn bwrw coelbren am ei ddillad, gw. Marc 15.24.
- 24 **amis as** Cymreigiad o'r S. *ams-ace* a hwnnw yn ei dro yn tarddu o'r Ffr. *ambes as*, gw. GPC 219 ac OED<sup>2</sup> i, 390–1 '*Both aces, double ace, the lowest possible throw at dice; hence, fig. bad luck, misfortune, worthlessness, nought, next to nothing*'. Gellid hefyd yr ystyr gyferbyniol, '*the perfection or highest*', gw. OED<sup>2</sup> i, 95, er na weddai hynny yn y cyd-destun hwn.
- 29 **dielynt** Cymerir mai ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *dial* sydd yma. Gellid e.c. *dialynt* < *dial* + *hynt* a dichonadwy hefyd fyddai 3 un.amhff.myn. y f. *dielwi* 'dirmygu, gwaradwyddo', gw. GPC 973; G 335.
- 31 *r* berfeddgoll.
- 34 **ysgwrs** Tardda o'r S. *scourge* a all fod yn e. '*whip, lash*', neu yn fe. '*to beat with a scourge; to whip severely, flog*', gw. OED<sup>2</sup> xiv, 696–

- 7; EEW 162; GPC 3255.
- 40 Cyfatebiaeth  $b = -b$  h-. Nid yw'r ddwy *b* yn caledu yn ll. 42 ychwaith.
- 43 **ymhoel** Gw. GPC 3763, 3787 d.g. *ymchwel*, *ymhoel* 'enciliad; dymchweliad; dychweliad; tro (da, &c.)'. Yr ystyron 'adferiad, gwellhad' sy'n taro orau yn y cyd-destun hwn.  
*n wreiddgoll.*
- 46 **dros dynion** Ar y calediad yn dilyn yr ardd., gw. 11.37n.
- 47–8 **Dyn ... / Dall** Cyfeirir yn ll. 48 at y tywyllwch a ddaeth dros y ddaear yn dilyn y croeshoelio, gw. 101.22n, ond efallai fod y bardd yn dwyn i gof dywyllwch neu ddallineb Lansias a'r modd yr adferwyd iddo ei olwg pan dasgodd gwaed o ystlys Crist i'w lygaid, gw. 101.52n. Am gyfeiriad arall ato, gw. GDLIM 1.59–62 *Er torri gweli i'r galon / A gwthio fry gwayw i'th fron, / I Lansias ddall ni phallodd / Gael gras a gohwg o rodd*. Gellid hefyd *Dall y bu awr dywyllu byd*.
- 53 **gwneddyw** Ffurf 3 un.prff.myn. y f. *gwneud*, gw. GMW 131, a ffurf a barodd gryn ddryswch i'r copïwyd.
- 55 **Duwsul** Gw. 101.62n.
- 60 Er na ddigwydd y darlleniad hwnnw yn un o'r llsgrau., y mae'n bosibl y gellid gwella'r ll. trwy ddiwygio *aruchaf fawl* > *aruchaf hawl*.

## 105

*kowudd merch vn da yn dechre ar yr vn llythyren* yw hwn yn ôl Brog (y gyfres gyntaf) 6. Collwyd y pedair ll. gyntaf yn llawysgrif Tanybwllch am fod y ddalen flaenorol a gynhwysai ddechrau'r cywydd wedi diflannu. Trafodir y cywyddau serch a ganwyd ar yr un cymeriad yn A. Cynfael Lake, 'Gwe gaeth y Gymraeg wen', LICy xxvii (2004), 48–70.

- 3 Rhaid cyfrif *henw* yn air deusill.
- 8 **magwriaeth** Nodir yn GPC 2320 y gall fod yn eb. ac yn eg. ond tebyg mai ymadrodd genidol sydd yma megis yn ll. 10.
- 20 Chwe sillaf yn y ll. Odlir *hiraeth / gwaith* a thrachefn yn llau. 24 a 30, ac odlir *hiraeth / gobraith* yn ll. 44, ond y mae'r odl yn rheolaidd yn llau. 4, 8, &c.
- 21 **gadel** Cadwyd yr odl lafar sy'n digwydd yn y ddau destun er bod modd diwygio ond cf. ll. 28 lle y mae'r gynghanedd yn mynnu'r ffurf lafar *hireth*. Digwydd *gadel* yn safle'r odl ar achlysuron eraill yn y canu, gw. 84.37–8n.

- 34 Rhaid hollti *gelyniaeth* y llsgrau. er mwyn sicrhau cynghanedd reolaidd. Gellid naill ai'r e.c. *aeth* 'galar' neu'r ffurf ferfol 3 un.grff.myn. *mynd*.
- 43 Cynghanedd lusg bengoll ond gthg. yr odli crefftus yn ll. 35

## 106

O ran ei hyd a'i gynllun, ymdebyga'r cywydd hwn i gerdd 107. Dioddefaint y carwr gwrthodedig sydd dan sylw yn hanner cyntaf y gerdd, ac â'r bardd rhagddo yn yr ail ran i ddisgrifio'r ferch a barodd y dioddefaint hwnnw.

- 6 *n* wreiddgoll, ac felly hefyd yn llau. 15, 26, 39, 40, 44, 48, 51, 56.
- 16 **drain** Y mae hwn yn syniad cyfarwydd yn y cerddi sy'n disgrifio nychdod y carwr gwrthodedig, gw. Eurys I. Rowlands, 'Y baich drain', LICy iv (1956–7), 172–6.
- 25 **hynt** Eb. yn ôl GPC 1978–9 ond nodir yn betrus y gall fod yn eg. Awgryma ffurf wrywaidd yr a. mai eg. ydyw yma.
- 28 **coel** Ffurf ar *cofl* 'arffed, mynwes; baich, llwyth', gw. GPC 537.
- 46 *ynibenn* a gopiodd Llywelyn Siôn yn wreiddiol yn Llst 47, ond fe'i newidiodd yn *anibenn*. Yn LIGC 970E [= Merthyr Tudful] a LIGC 21290E ar y llaw arall diwygiodd yr *aniben* gwreiddiol yn *yniben*.
- 59–60 Gwelir yr un cwpled yn y cywydd 'Campau Bun' a briodolir i Ddafydd ap Gwilym, gw. GDG<sup>3</sup> 56.39–40.

## 107

Y mae rhai o gwpledi'r cywydd hwn yn rhan o gywydd arall a gyhoeddwyd yn GDID Atodiad B2. Mewn tair ffynhonnell gynnar daw'r cywydd hwnnw i ben gyda'r diwedd glo naturiol sydd yn ll. 38 a phriodolir y darn yn y ffynonellau hynny i Hywel Aerddrem. Yn y llsgrau. eraill gwelir ugain llinell ychwanegol a phriodolir y fersiwn helaethach hwn i Wilym ab Ieuan Hen. Digwydd deuddeg llinell o blith yr ugain hyn yn y cywydd hwn o'r eiddo Lewys Morgannwg, ond nid yr un yw'r drefn. Cofnodwyd y llau. hyn fel y'u ceir yn BL Add 14967 ar ddiwedd y testun ond ni restrwyd y darlleniadau amrywiol.

- 1 Diwygiwyd y ll. yn hytrach na derbyn *gweddw* yn air deusill.
- 5 **cydoedi** Be. sy'n cyflawni swyddogaeth enwol yma, 'o'r un oedran, cyfoeswr'. Nis nodir yn GPC 665–6, ond nodir yr a. *cydoed*.
- 14 **nadau** Gallai fod yn ffurf l. *nâd* 'wylofain, cwynfan' ond mwy ystyrlon fuasai'r eg. *nâd* 'gwrthodiad' o'r f. *nadu* 'rhwystro, atal',

gw. GPC 2547, ond ni chofnodir y ffurf honno.

- 17 Bai crych a llyfn.  
 20 *r* berfeddgoll, ac eto yn llau. 22, 50.  
 23 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 24, 38.  
 37 **maneg** Awgrymir yn Lewys Morgannwg: Gw 701 y byddai (*g*)*waneg* ‘gwedd, ymddangosiad’, gw. GPC 1574, yn fwy ystyrllon yma.  
 40 Cyfatebiaeth d.r d.r = d.r.  
 41–2 Cf. cywydd Dafydd ab Edmwnd ‘Dan Bared’, gw. OBWV 74.23–4 *Dy wyneb fal ôd unnos, / Dy wrid fal bagad o ros.*  
 46 Twyll gynghanedd *b* (neu *m* wreiddgoll) o ddilyn Llst 6, ond sylwer ar ddarlleniadau’r llsgrau. eraill.  
 47 **maneg** Ffurf ar *mynag*, *manag* ‘tystiolaeth; mynegiad’, gw. GPC 2534.  
 52 *f*led-lafarog.  
 57 *n* wreiddgoll neu gyfatebiaeth *n* = *m*.

#### *Atodiad i*

Tadogir y cywydd hwn ar dri bardd, ond mewn un ffynhonnell yn unig yr enwir pob un o’r tri. Fe’i priodolir i Lewys Morgannwg ac i Utun Owain mewn llsgrau. o’r unfed ganrif ar bymtheg (Lewys yn Pen 76 a Gutun yn BL Add 14979) ond mewn llawysgrif yn llaw Wiliam Bodwrda sy’n perthyn i’r ganrif ddilynol y priodolir y cywydd i Fedo Aurdrem. Nid yw trefn y cwpledi yn Pen 76 yn cyfateb yn union i’r drefn yn BL Add 14979 (dilynir trefn yr olaf yn LIGC 6471B er na wyddai’r copiwr pwy a ganodd y cywydd). At hyn ceir un cwpled yn BL Add 14979 nas ceir yn Pen 76, a phedwar cwpled yn yr olaf nas ceir yn y blaenaf. Yr un yw trefn y cwpledi yn Pen 76 a Brog (y gyfres gyntaf) 4 sy’n rhoi’r cywydd i Fedo ond gwelir bod rhai o’r darlleniadau unigol yn bur wahanol. Wrth olygu’r cywydd dilynwyd trefn Pen 76 sy’n priodoli’r cywydd i Lewys Morgannwg. Un hynodrwydd a berthyn i’r cywydd yw’r cyfeiriadau chwedlonol a’r cyfeiriadau at bererindota i Rufain er mwyn sicrhau maddeuant. Ni ddigwydd cyfeiriadau fel hyn yn y cywyddau serch y gellir bod yn bur sicr mai Lewys a’u canodd, gw. cerddi 105–7, a gallai hynny awgrymu nad ei gywydd ef yw hwn, ond tâl nodi hefyd bod ei gerddi defodol yn dra gwahanol yn hyn o beth. Ar y llaw arall nid oes amheuaeth nad yw Gutun Owain yn amlygu yn ei ganu serch hyd a lled ei ddysg draddodiadol, gw. cerddi I–VII yn GO.

Y mae’r cywydd yn gwbl wahanol i gywyddau eraill Lewys o safbwynt ei gyfansoddiad cynganeddol ac awgryma hyn drachefn nad Lewys a’i canodd. Gwelir bod canran pob cynghanedd fel a ganlyn (rhoddir y ffigwr cyfatebol

ar gyfer holl ganu Lewys mewn cromfachau): croes 26% (71%), traws 35% (17%), sain 24% (8%), llusg 15% (4%).

Cyhoeddwyd y cywydd ymhlith gweithiau dilys Gutun Owain yn GO VI.

- 8 *f*led-lafarog.
- 17 Rhaid derbyn bod gair gwan, yr ardd. *ar*, yn cynnal yr orffwysfa yn y ll. hon, a cf. 4.21n.
- 25 **maen Luned** Gw. 48.30n.
- 28 **llen Arthur** Yr oedd hon hefyd yn un o'r tri thlws ar ddeg, ac *a fai deni, nis gwelai neb ef, ag ef a welai bawb*, gw. TYP<sup>2</sup> 241. Enwir Pais Padarn Beisrydd, un arall o'r tlysau, mewn cywydd arall o waith Lewys, gw. 26.77–8n.
- 30 **danai** Ffurf 3 un.b. yr ardd. *dan* sy'n cyfateb i *amdanei / ymdeni; attei / etti*, gw. GMW 58–9.
- 37 **gwydr Rhydychen** Ni chynigir esboniad yn GO 62. Nid oedd yr ysbieniendrych yn hysbys yn oes Lewys—fe'i dyfeisiwyd yn yr Iseldiroedd tua 1608. Ond buasid yn gyfarwydd â'r camera siambr dywyll, dyfais a ganiatâi daflunio ar fur ystafell wrthrych y tu allan i'r ystafell honno, ers cyn cof. Yr oedd gan y gwyddonydd Roger Bacon (c. 1214–94) ddiddordeb mawr mewn optegeg a bu'n arbrofi â'r ddyfais hon. Aelod o Urdd y Ffransisgiaid oedd Bacon a threuliodd gyfran helaeth o'i oes yn dysgu ac yn ymchwilio yn Rhydychen, gw. MEnc; EncB iv, 658–9; *ib.* xv, 434–6.
- 44 **sercel Rhufain** Y gylchdaith a gwmpasai'r saith eglwys yn Rhufain yn eu tro. Gwelir llun o'r saith gyferbyn â td. 187 yn G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912).
- 48 [y] **Porth Euraid** Y *Porta Aurea* yn Rhufain. Fe'i henwir yn y cywydd a ganodd Hywel Rheinallt i Siôn Coetmor pan fu yn Rhufain yn 1475, gw. Hywel Rheinallt: Gw 7.9–10 *Pwrs Ifor, blaenor y blaid, / Pyrth wŷr hyd y Porth Euraid*, ac yng nghywydd Llywelyn ap Hywel i Rufain, gw. G. Hartwell Jones, *art.cit.* 187 *kist voesen gwialen gall / ar porth aur or parth arall.*
- 49 **poena cwlpa** Parodd y gair cyntaf gryn ddryswch i'r copiwy'r. Deuair Llad. sydd yma, sef *poena* ('cosb') a *culpa* ('bai'). Cyfodir y ddau mewn cywydd o waith Ieuan Llwyd Brydydd, gw. GILIF 11.69–70 *Ni ddylai am urddoliaith / Na phoena na chulpa chwaith.* Mewn adolygiad ar GO yn LICy ii (1952–3), 184–6, fodd bynnag, awgrymodd Saunders Lewis fel a ganlyn: 'Darllener *penna*' *cwlpa*, sef cyfieithiad o *mea maxima culpa* o'r gyffes a adroddir cyn ennill na phardwn na gollyngdod ar bererindod.'
- 51 **deupen dydd** Y mae'r geiriau sy'n digwydd yn llsgrau. BCE, sef

*deuliw dydd*, yn gyson â'r disgrifiadau a welir yn y cerddi serch, ond yr ergyd yma wrth gwrs yw y byddai cael cwmni'r ferch y peth cyntaf yn y bore a'r peth olaf yn yr hwyr, hynny yw, trwy gydol y nos, yn destun llawenydd i'r bardd.

*Atodiad ii*

Priodolir y cywydd hwn i Lewys mewn un ffynhonnell ar ddeg (a phedwar ohonynt yn llaw Llywelyn Siôn) ac i Dudur Aled mewn chwech, a gw. y sylwadau ar y cywydd 'Y ferch hirwen farchwriol' yn yr adran Cerddi Amheus. Nid oes modd penderfynu pa fardd a ganodd y cywydd gan fod y themâu—nychdod y carwr gorthodedig a'i dynged alaethus—i'w canfod yng ngherddi serch y ddau. Rhoddir y cywydd i Dudur mewn un ffynhonnell gynnar, sef Card 2.114 [= RWM 7] (1564–5) ond enwir Lewys Morgannwg mewn dwy lawysgrif annibynnol a pherthynant ill dwy i chwarter olaf y ganrif, sef Wy 1 a Stowe 959 [= RWM 48].

Gwelir y cywydd ymhlith gweithiau Tudur Aled yn TA cerdd CXXIII. Cofnododd Siôn Dafydd Rhys rai geiriau sy'n digwydd yn y cywydd yn ei eirlyfr, sef Llst 55, a barnai ef mai Lewys Morgannwg a'i canodd. Rhestrir y llinell gyntaf yn yr adran ar Lewys Morgannwg yn y mynegai a baratocs Moses Williams yn Llst 57.

- 1–2 Rhestrwyd y cwpled cyntaf gan John Jones, Gellilyfdy, yn Pen 221: *dyn wy ymhvrdan Ovydd / nis nes i dal nos na dydd*.
- 2 *n* berfeddgoll.
- 5 **mae'n od** Dilynir TA er na nodir yn y fan honno na ddigwydd y darlleniad yn un o'r llsgrau. a welodd y golygydd. Y darlleniad gorau fyddai *Mau hoed, wen ...* ond ceid *n* berfeddgoll o ganlyniad (ond cf. ll. 2).
- 11 **hwylais** Ffurf ar *wylo* yn hytrach na *hwyllo* yw *hwylo*, gw. GPC 3741.
- 13 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 16 ac 18.
- 15 [**y**] **mab symud** Rhoddir iddo'r ystyr '*changeling*' yn Lewys Morgannwg: Gw 699 a GPC 2294 ond ni nodir unrhyw enghreifftiau eraill yn yr olaf.
- 18 **maneg** 'Tystiolaeth; mynegiad', a digwydd yn 107.47n. Gellid hefyd yr ystyr 'gorchudd am y llaw', a diau y dygai'r ystyr honno i gof y menig a gyflwynodd Ifor Hael i Ddafydd ap Gwilym, gw. GDG<sup>3</sup> cerdd 9.
- 19 **hanner** Cyfatebiaeth *d* = -*d* h. Gellid cryfhau'r gyfatebiaeth trwy ddiwygio *hanner* > *anner* 'heffer, treisiad', gw. GPC 136, neu >

*ener* ‘arglwydd’, gw. GPC 1214–15. Hawdd gweld sut y gellid bod wedi camddeall un o’r ddau air hyn wrth gofnodi’r cywydd am y waith gyntaf.

26 Cynghanedd groes o hanner cyswllt.

33 **eirw** *Geirw* ‘crych ar ddŵr, berw, tonnau’ yw’r unig ffurf a nodir yn GPC 1388.

45 **Achelarwy** Fe’i henwir ar un achlysur yng nghanu Rhisiart ap Rhys, gw. GRB 8.59. Achilles oedd pennaf arwr y Groegiaid yn y rhyfel yn erbyn gwŷr Tro, ac yn ‘Brut y Tywysogion’ disgrifiwyd yr Arglwydd Rhys o Ddeheubarth yn *Eil Achelarwy o nerth cledyr y dwyvron*, gw. BT (RB) 178. Yr oedd traddodiad diweddarach am ei garwriaeth â Pholicesna, gw. OCD<sup>3</sup> 1213; RB 25 *ac edrych a-naeth [Achelarwy] arbolixena ae phryt hi ae theg-ach aaeth yny ved-l ef. a dechreu a-naeth ycharu yn ua-r*.

### *Atodiad iii*

Diogelwyd yr unig gopi yn llaw Iolo Morganwg. Dywed iddo godi’r gyfres o dri englyn unodl union ac un englyn proest o lyfr Twm Robert. Y mae llinell gyntaf yr englyn cyntaf yn debyg iawn i ddechrau’r englyn a gopiödd Gruffudd Dwnn ar ochr y ddalen yn LIGC 3063E [= Mos 184], 171<sup>r</sup> *ynn ffydd o newydd y ni a gaffwnn / o goffa Krist geli / ar fferenn Wenn ai hennwi / wiw dduw n braff a ddaw ni bri*, ac ychwanegodd, *gryffydd dwnn ab owein ai kantt pannd oedd oed krist mil a hanner a thrigain mlynedd ag aisgrifennodd*. Y mae arlliw Pabyddol ar yr englyn hwn a gthg. yr hyn sydd gan Lewys i’w ddweud am Ruffudd Dwnn yn 58.4n.

### *Atodiad iv*

#### *i–vi*

